



Welsh National Library of America

at

Brigham Young University

Provo, Utah

From Dr. W. Granger Totterdale

Call No. Welsh - 891.661 Acc. No. 111  
H839b

*Dr. W. Granger Totterdale  
434 South Street  
Provo, Utah  
10  
Welsh National Library  
July 9, 1957*

London N.Y.  
1200 ... ..

Loc. 11 ... ..  
434 ... .. N.E.  
Marion, Ohio

July 9, 1957

"I am a young and foolish lad,  
Where fancy leads caressing;  
'Tis I that grinds the yellow corn  
And others do the reaping;  
O wilt thou turn and follow me  
Some day to my delighting,  
For I behold thee, gentle maid,  
Lovelier, lovelier seeming.

Thou art lovelier every day,  
Or I through faith see blindly;  
O for His sake who formed thy face  
Do now have mercy on me;  
O lift thy head and give to me  
Thy pretty hand at parting,  
For in thy snow-white bosom lies  
The key to my heart's opening.

I got up at earliest dawn,  
And to the woods went running  
To kiss thy pretty footprints there  
Made yesterday whilst walking;  
O lift my head from deepest woe,  
Give me one sweet loving gaze,  
For more than all the world to me  
The sight of thy sweet face.

While ebbs and flows the briny sea,  
And while my hair grows on me,  
And while my heart beats in my breast,  
I will be faithful to thee;  
O tell me now the truth, I pray,  
And give me a sealed answer,  
Say, is it I or someone else  
That to thy heart is dear."

Pwy Gymro neu Gymraes na ohanodd y  
penillion uchod yn Gymraeg, felly canwch  
hwynt yn Seisneg.—*Ed Puntan Davies.*

---



871.661  
#8290

# BLODAU DYFED

BY

JOHN HOWELL  
(IOAN AB HYWEL)

1774-  
1830

*caerdyddin*  
PUBLISHED IN CARMARTHEN

1824

[ Dyfed is South-West Wales ]

[ The ENGLISH of Bloclaw  
Dyfed is "Flowers of  
Dyfed." ]



John New Cambach

xiii 2 bound

F.

FRANCIS, Rev. T. Vicar of Mothvey

G.

GRIFFITH, Rev. James, Secretary to the Cambrian Society in Dyved, 3 Copies

Griffiths, Mr. William, Ironmonger, Carmarthen

H.

HUMPHREYS, Mr. Lewis, Dolgelly

Hughes, Rev. J. Curate, Lampeter

Hughes, Mr. H. Artist

Humphreys, Rev. Robert, Wesleyan Minister

Howell, J. M. Esq. Llettyr Gog

Harding, Poole and, Booksellers, Chester, 4 Copies

Harries, Rev. Edward, Curate of Llandyssillo

Hughes, Rev. Wm. Wesleyan Minister, Swansea

Hopkins, Mr. John, Writer, Llandovery

Hopkins, Mr. John, Watchmaker, Llandovery

Hayard, Mr. James, Junior, Llandovery

Howells, Mr. R. Bank, Llandilo

Hughes, Mr. Evan, Druggist, Llandilo

Hughes, Rev. David, Llanfyllin, 2 Copies

Harries, Mr. William, Parish Clerk, Llandilo

Harries, Mr. Thomas, Officer of the Excise, Borth

Hay, Mr. Edward, Pembrey

Hayter, Mr. W. G. Lincoln's Inn, London

Hall, Mr. John, Merthyr Tydvil

JONES, Mr. W. Ellis, (Carmarthen)

Jones, Rev. D. J. Carmarthen

Jones, Thomas, Esq. (Burdett St.) 90, Long Acre, London

Jones, William, Esq. Treowen

Jenkins, Rev. John, Vicar of Llanfyllin, 2 Copies

Jenkins, Griffith, Esq. Llanfyllin, Cardiganshire

Jenkins, Jonathan, Esq. Llanfyllin, Cardiganshire

Jenkins, Thomas, Esq. Llanfyllin, Cardiganshire

- Jenkins, Rev. John, Whitton, Radnorshire  
 Jones, Rev. John, M. A. (Ioan Tegid)  
 Jones, Mr. John, Rhydlewic  
 Jones, Mr. Thomas, Star & Garter, Llandovery  
 Jones, Mr. William, Blacksmith, Llandovery  
 Jones, Mr. William, Cilymaenllwyd, near Llandilo  
 Jones, John, Esq. Lincoln's Inn,  
 Jones, Mrs. Theophilus, Llandovery  
 Jones, Mr. Richard, Auctioneer, Llandovery  
 Jones, Rev. John, Rhuddlan  
 Jones, Miss Ann, Guilsfield  
 Jeffreys, Mr. D. W. Lampeter School  
 Jenkins, Mr. John, Llwynybrain  
 Jones, Mr. David, Carmarthen Bank  
 Jenkins, Mr. Wm. Secretary to the Cymreigyddion  
 Society, Carmarthen  
 Jones, Mrs. Dolecothi  
 Jones, Mr. Thomas, Wharfinger Carmarthen  
 Jones, Mr. David, Mercer, Lammas-St. Carmarthen  
 Jones, Mr. Evan, Student, Carmarthen  
 Jenkins, Mr. J. Printer, Merthyr-Tydfil  
 James, Mr. James, (Iago Emlyn,) Carmarthen  
 Jennings, Rev. J. J. Swansea  
 Jones, Mr. John Samuel, Bookbinder, Swansea  
 Jenkins, Mr. John, Junior, Llantrisant  
 Jones, Mr. Daniel, Gelligaer, Glamorganshire  
 Jones, Mr. David, Boot Inn, Merthyr Tydvil

## L.

- LLOYD, Sir Edward Pryce, Bart. M. P.  
 Lucas, D. P. Esq. Cardigan  
 Lloyd, Oliver, Esq. Cardigan  
 Lloyd, Edward Lewis, Esq.  
 Lewis, Rev. D. Conwil  
 Lewis, Mr. Thomas, Shopkeeper, Merthyr  
 Lloyd, Rev. R. W.  
 Lewis, John, Esq. Llandilo

Lloyd, Rev. John, Curate of Cardigan  
Lloyd, Mr. Edward, Gellygaer, Glamorganshire

## M.

MOSTYN, Sir. Thomas, Bart. M. P. 2 Copies  
Morgan, Thomas, Esq.  
Morgan, Rev. William, Abergwilly  
Morgan, Rev. William, Vicar, Cayo  
Morris, T. Esq. 23, Southampton Row, Russel Square,  
London  
Morris, Rev. Ebenezer, Vicar of Llanelly  
Morgan, John, Esq. Attorney at Law, Llandovery  
Morgan, Mr. David, Aberddoynant, near Llandovery  
Mathias, Mr. David, Carpenter, Llandovery  
Morgan, Mr. David, Tanner, Rhosmaen  
Morgan, Mr. John, Talog, near Llandovery  
Maybury, Mr. Joseph, Glandwr, near Swansea  
Morris, Mr. James, Liquor-Merchant, Carmarthen  
Morris, Mr. David, Bookbinder, Carmarthen

## P.

PRICE, Rev. T. Crickhowell  
Price, David, Esq. Berrysbrook  
Price, Mr. T. Brecon

## R.

REES, Rev. W. J. Cascob, Radnorshire, 3 Copies  
Rice, Captain, Llwynybrain  
Roberts, Rev. John, Dymeirchion  
Richards, Rev. Richard, Caerwys  
Richards, Rev. Thomas, Berriew  
Richards, Rev. David, Llansilin  
Rogers, Rev. T. W. Clerk, Mothvey  
Roberts, Mr. John, Mercer, Llandilo  
Roberts, Mr. Robert, Stonecutter, Merthyr  
Rhytherch, Mr. William, Llandilo  
Roberts, Mr. R. Amseronydd, Holyhead

## S.

SOCIETY, The CAMBRIAN, in Dyved, 30 Copies



Saunders, T. J. Esq.  
 Saunders, Mr. David, Cyughordy  
 Saunders, Rev. David, Merthyr-Tydvil

## T.

THOMAS, Rev. Thomas, Rector of Aberporth  
 Thomas, Rev. Watkin William, Master of Cardigan  
 School  
 Thomas, Mr. J. Baily, near Llangadock, 2 Copies  
 Thomas, Rev. Griffith, Curate of Llangoedmore  
 Thomas, Rev. Llewellyn Lloyd, P. C of Capel-Cynon  
 Thomas, Mr. Thomas, Feathers, Llandovery  
 Thomas, Mr. John, Black-Swan, Llandovery  
 Thomas, Mr. David, Maltster, Llandovery  
 Tobias, Mr. Evan, Llandilo

## W.

WILLIAMS, Richard Bulkley, Esq. Friars, Mouna  
 Williams, Rev. John, Lampeter  
 Williams, Mr. Roger, Merthyr, (Bard)  
 Williams, Mr. John, Mercer, Llandovery  
 Williams, Rev. Herbert, Curate of Llanarthney  
 Walters, John, Esq. Newcastle-Emlyn  
 Williams, Mr. Thomas, Vaynor, near Merthyr, Glamorgan-  
 shire  
 Williams, Mr. David D. (Bard,) Llanwrtyd, 4 Copies  
 Williams, Mr. Wm. Surgeon, Llandovery, 3 Copies  
 Williams, Mr. Morgan, Pentwyn, near Llandovery  
 Williams, Mr. Thomas, Mercer, Llandovery  
 Williams, Mr. Thomas, Priskeu, near Llandilo  
 Williams, Rev. H. Vicar of St John's, Swansea  
 Williams, Mr. Taliesin, Merthyr Tydvil, (Bard)  
 Williams, Mr. T. (Gwilym Morganwg,) 2 Copies  
 Williams, Mr. John, Printer, (Don Glàn Towy)  
 Williams, Mr. Richard, (Gwilym Ddû, Glàn Cynon,)  
 near Merthyr



# BLODAU DYFED.

---

---

## CYWYDD Y MESSIAH.

GAN Y PARCH. EVAN EVANS, (PRYDYDD HIR.)

---

Y RYWIOG wryry' Awen,  
O ran parch i'n Rhi a'n Pen,  
Cyweiria, gwëa gywydd,  
O'th ddoniau'n rhad i'th Dduw'n-rhydd.  
Nid addas canu maswedd,  
I enw mawr y Ion a'n medd.  
O Ysbryd fywyd f' awen,  
Pureiddia hawl pob bardd hen,  
Cymhwysa syfla fy sain,  
I'w gyweiriaw yn gywrain,  
Fal Esai ddifai ei ddawn,  
Braff awenydd bur ffynawn,  
Yn ffawdus a brophwydawdd,  
A thi 'n ei hòni yn hawdd.

Morwyn â fâg, mawr iawn fydd  
Ogoned Fab a gynnydd;

O'r Iesse y daw rosyn,  
 A thardd o'r rhagorwaith hyn;  
 A'i frigau heirdd flodau haf,  
 Rhywiog a flagur hwyaf;  
 A'r ysbryd caeth, wiwbryd cain,  
 O'r eres hardd arwyrain,  
 Disgyn ar ei frigyn fry,  
 Yn ebrwydd uniawn obry,  
 Mal colomen wen waneg,  
 Wedi taith ehediad têt.

Dyfered, gwlyched y gwlaw  
 Y ffrithoedd er eu ffrwythaw;  
 Cafodau'n ddafnau a ddêl,  
 Er trochi'r ydtir uchel;  
 I nych e fyn hwn iechyd,  
 Duw cadarn ac a farn fyd,  
 Bydd blaid i gyfraid y gwan;  
 I noeth yn hug mwyn weithian;  
 Yn nydd blin y dryghin drom,  
 Ei nawdd a fydd yn eiddom,  
 Rhag y gwres i'n llochesa,  
 Pan fo flin Fyhefin ha';  
 Holl gynddrygedd chwerwedd chwant  
 Oedd flinion a ddiflanant;  
 Daw hedd i'r orsedd ar ol,  
 Trwy ei gynneddff trigiannol;  
 Cyfiawnder a adferir,  
 I'n llawenhau oll yn hir.

Cynnydd a llwyddiant cênŷch,  
 Ein Llyw certh, galluog gwyŷch.  
 O Fair, y ddiwair forwyn,  
 Fe aned Mab myged mwyn,  
 A'n gwarded ni o gerydd,  
 Ac o'n rhwym a'n dug yn rhydd.  
 Y tir cras ar uchder craig,  
 Garw anial ac arynaig,  
 I dwf hyfrydol y daw,  
 I gynnyrch drwy eginaw;  
 O'r âr yn lle mwyar mall,  
 A gosgedd pigawg ysgall,  
 Daw rhesi blodau rhoswydd,  
 Draw yn ber a drain ni bydd;  
 Mawrion wŷdd, mirain, addwyn,  
 A dyf ar Lebanon dwyn;  
 Ar Garmel fry, uchel fron,  
 Y cadeiria coed irion;  
 A Saron îs ei irwydd,  
 A'i ben yn gogwyddaw bydd.

O'r anial drwm a'r niwl draw,  
 Chwi liosydd, clywch leisiaw,  
 Uniawnwch, chwi rai anwar  
 Eich ffyrdd trwch, difeiwch fâr;  
 Nerth Dofydd sydd yn nesau,  
 Ein Brenin ger ein bronau;  
 Mae'r ddaear, ei Gwanar gwyn,  
 O'i ddarbod yn ei dderbyn;

A'i bryniau a'i haeliau hi  
 Yn darostwng oll drosti ;  
 Mân uchel a iselir,  
 A dôl a fydd uchel dir ;  
 Y mawr-wydd, coedydd cedar,  
 A ymrydd oll, a'r mawr ddâr ;  
 A'r pennau draw yn awyr,  
 Pob un o naddun' a wyr ;  
 Creigiau rho'nt dyrfaeu dirfawr,  
 A'r gwynt yn gorddyar gawr ;  
 Chwydd yr uchelfron dônau,  
 Yn gerth ar y weilgi gau ;  
 Agwrdd a fydd twrdd pob tòn,  
 Crych agwedd y croch eigion.

Daeth i waered Wareddydd,  
 Oen Duw, bendigaid yw'n dydd !  
 Ein gobaith a'n maith Ion mawr,  
 Gogoned a'n gwiw geinwawr.  
 Clyw fyddarion, laesion lu,  
 Gwyl deillion glod ei allu.  
 Càn mudion ei ogoniant,  
 A gawr mawr wrth agawr mant ;  
 Neidia y cloff newid clau,  
 Fal carwiwrch ar fol caerâu.  
 Dagrau ar ruddiau ni red,  
 Neu gaddug o drwm gudded.  
 Y ddraig, wedi mawr ddrygau,  
 A drig yn ei ffyrnig ffau.

I'w gefyn hyll rhag ofn hwn,  
 E gryn holl gaerau annwn.  
 Un ddafad blaidd ni ddifa  
 O gail deg y Bugail da ;  
 Arwain i gyd yr ŵyn gwan,  
 Ag arlwy yn ei gorlan ;  
 E ran i bob un ei raid,  
 A mât ei holl famogiaid.  
 Mab rhad yr Ion mât a'n medd,  
 Fe aned o nef fonedd ;  
 Tëyrn uwch cedyrn cadau,  
 A bair i hedd hir barhau ;  
 Tywysog enwog uniawn,  
 Llariaidd doeth, llawrodd y dawn ;  
 Holl genhedloedd bobloedd byd,  
 A arail ef a'i wryd ;  
 A'i fraich ardderchog a'i fron,  
 A ran i bawb yr union.

Bydd hedd, gwirionedd, a gras,  
 Ion dewrnerth yn ei deyrnas.  
 Ni bydd dur nag ymguraw,  
 Na llid na chwerwder rhagllaw ;  
 E droir y glaif, a'r dur glas,  
 A'r finiog fawraf wynias,  
 Yn bladuriau dur curant,  
 Sychau ac ogeidiau gant ;  
 Eu hadail a fydd hoywdeg,  
 Try'n llysoedd uwch tiroedd teg ;

A phlennir draw gerllaw'r llys,  
 Winllan wrth bob caer wenllys.  
 Yn ddiau fyth ni ddaw fwy  
 Na llu gwrdd, na llaw gorddwy,  
 A wna ddifrod i'w brodir,  
 Na tân nag anrheithiau hir.  
 Llawn ceir pob pill o wydd  
 O gànaid flodau gwinwydd;  
 A ffrwythau ar gangau'r gwin,  
 Ac o rinwedd y grawnwin;  
 Fal cynnydd mawrwydd mirain;  
 Yn y dolydd, coedydd cain,  
 Y duwiol a flodeua,  
 A gaffo dwf o gyff da.  
 Y tir gwyllt mewn tòr gellydd,  
 Egin a ddwg yn ei ddydd;  
 Ar foliau creigiau cair yd,  
 Garw annedd y ddraig ennyd;  
 Mawrion wydd, mirain, addwyn,  
 A dyf ar bob uchel dwyn.  
 Llogir, ni chynnwysir chwaith,  
 Y dreinwyddach draw'n oddaith,  
 Yn mhob perllan a blanner,  
 Llawn pwys a fydd pob llwyn per.  
 Y blaidd heb fedru praiddiaw,  
 Yr un a drig, â'r Oen draw;  
 Ceir eilwaith y llew creulawn,  
 Yna i'r ych yn war iawn;



A baban i'w ddyddanu,  
 A ddeil y wiber oer ddu;  
 A'i gwenwyn ni fyn gynnyg;  
 Yn bleth yn ei ddwrn hi blyg,  
 A'i law heb arswydaw'n syn,  
 Ochelyd rhag ei cholyn.

Gwyl, Seion, dirion dyrau,  
 O'th lu'n hardd i'th lawenhau;  
 Wele agwrdd hiliogaeth,  
 A myrdd it' o feibion maeth,  
 Liaws tég tu a'th lys di,  
 Olynol a'th oleuni;  
 Anneirif gynniweiriad,  
 I'th lys bendigaid, a'th wlad;  
 Cyrchant, tramwyant trwy 'r mor,  
 O gyrau pob gwiw oror.  
 Brenhinedd a'th goledda,  
 Wi o'r dydd! a'u haerau da,  
 A llongau a ollyngir,  
 I'w taith â mordwyad hir;  
 Yn llwythog drwy'r dorchog dôn  
 Y rhwygant, â'u hanrhegion.  
 Bydd gorfoledd a hedd hir  
 Hyfrydol i'th hoyw frodir;  
 A phob peth mewn toraeth tég —  
 Ni chwynir am ychwaneg;  
 Dy gaerau muriau mawriawn,  
 Yn gryf ac yn hygar iawn;

Haul ynod rhydd oleuni,  
 A lloer, ac ni phalla hi;  
 A Duw gwyn yn dy ganawl,  
 Gwna y dydd yn gànaid wawl;  
 Ni dderfydd yn nydd na nos  
 Mo'th lewych mwy i'th lios.

Y nefoedd a'u holl nifer  
 A syrth, ac adfail y ser;  
 Tawdd yn glau ddefnyddiau'r neu  
 Yn anelwig, fal niwlen,  
 A'r byd i gyd, a phob gwaith,  
 A'i anneddau yn oddaith.  
 Ni fydd na mynydd na môr,  
 Na mŵn, na meini mynor,  
 Na golwg mwy no'i gilydd,  
 A saif ar y pethau sydd—  
 Gair y bendigedig Ion,  
 Iesu, fyth a saif weithion!  
 Dy deyrnas, ein addas Ner,  
 Ardderchawg, fanawg Funer,  
 A ddeuo fyth, Dduw fy Ior,  
 O'th wrygiant mawr a'th ragor,  
 Drwy erfai rym dirfawr ras,  
 IESU wiw y MESSIAS!—Amen.

## AWDL Y NEF.

GAN Y PARCH. E. EVANS.

ARWYRE Awen uwch yr Yri,—fan,  
 Cais o fyd ymgodi,  
 Ehed, cei afrifed fri,  
 I loywnef y goleuni.

Bro lwys, Baradwys ysbrydawl,—Llys Ior,  
 Lle seirian rhyfeddawl,  
 Lle mae llewych gwych a gwawl  
 Hyfrydwedd ein Naf rhadawl.

A main gwyrth, i'w byrth, a'i Barthau—euraid,  
 Araul wiw drigfanau!  
 Llys dyddan gwiwlan golau,  
 Caer Grisiant, meddiant Duw mau.

Lle mae Saint cywraint yn cyweiriaw—cân,  
 Yn cànaid ddisgleiriaw,  
 Ar delyn aur i'w dwylaw,  
 Yn lleisio dros y llys draw.

Yn datgan lwyslan loywoleſ—peraidd  
 I'r pur Oen fu'n dyoddef;  
 A'r nawradd oll yn addef,  
 Gun teg, ei ogoniant ef.

O fywyd hyfryd mewn hoywfro,—gorhoen  
 O gyrhaedd pob cyffro;  
 Gwastad, heb dreigladd, heb dro,  
 Yw llawenydd oll yno.

Angylion gwynion, mewn gogoniant,  
 Llys Ior, cain oror cynniweiriant,  
 Lle uwch y lluwch y llewychant,  
 Llu glân, lle uwch tân tywynant,  
 Uwch huan eirian, uwch ariant,—a ser,  
 A hug o leuer y goloywant.

Yn ngoror gwiwnef y cartrefant,  
 Ebystyl Iesu byst dilysiant,  
 Ac wrth ei lwysaf orsedd safant,  
 A theyrnwïeil a gynneiliant,  
 Hoyw-wedd, gwiw osgedd gwisgant—goronau,  
 A gwiw heirdd ynau, ag urdduniant.

Merthyron dewrllu'r ffydd ddiffuant,  
 Mewn gwawl cyhoeddawl y cyweddant,  
 A hoyw rhag eraill y rhagorant,  
 Da weis eglurwedd, a disgleiriant,  
 Ac yno i'w dwylo daliant—balmwydd,  
 Yn llon ysblennydd, lle ni's blinant.

Prophwydi diau a olauant;  
 A Phadrieirch, mewn ffawd arhoant,

A llawer mal ser yn moli'r Sant,  
 (O! enwau tragwiw, yno trigant ;) )  
 A dynion doethion a deithiant—ffordd gras  
 Y cu fan addas cyfaneddant.

O! Iesu Ddofydd, ddwys addefant,  
 Coeth Ior goleuddoeth o'th rygluddiant,  
 Y meirwon isod a gyfodant  
 Yn anfarwolion, nef fro welant,  
 Gorfoledd a hedd dyhuddiant—a hoen,  
 Yno gyda'r Oen a gydranant.

Pura fi, Dduw, par faddeuant,  
 Gwedi oferedd, ac edifeiriant ;  
 Maddau arw feiau a ryfuant,  
 Gwydiau, 'nafau, ieuenctid, nwyfiant,  
 Gollyngdod pechod ydyw'r puchiant—mau,  
 A llys nef orau, lles nifeiriant.

## ENGLYNION

o

DDIOLCHGARWCH I DDUW AM WAREDIGAETH  
BWYSFAWR.

—  
GAN Y PARCH. E. EVANS,  
—

O DDYFROEDD moroedd mawrion—y daethym,  
O deithiau mawr eigion,  
O greigiau, dyfnderau'r dòn,  
I'r làn, er taer elynion.

Drwy Ner o'i fwynder, myfi—âg einioes,  
O ganol trueni;  
O safn y bedd ryfedd ri,  
Ei Fawredd wy'n glodfori.

Y Diawl uffernawl, ffyrnig—ei ruad,  
Er awydd adwythig,  
Ni all ddwyn yn ei holl ddig,  
Yn ei enau un oenig.

Duw Waredwr, Twr tirion,—Duw cadarn,  
'Dyw Ceidwad y gwirion ;  
Ni all diawliaid lle delon',  
Niwaid na brath dan eu bron.



Os Moesen lawen, a'i lu,—yn gynnes,  
 A ganodd fawl Iesu;  
 Canaf fawl rhyfeddawl fu  
 Ei rad, yn fy ngwaredu.

Cenwch fawl nefawl nifer,—Angylion,  
 Y'ngolau 'r uchelder;  
 Gwynion delynorion Ner,  
 Fil filoedd, ei fawl foler.



## AWDL AR DDYODDEFANT CRIST,

Wedi ei chyfieithu o'r Groeg i'r Gymraeg, ar fesur y  
 Gyhydedd hir, yn ol yr hen ddull.

GAN Y PARCH. E. EVANS.

DIGON o faswedd,  
 Newid gynghanedd,  
 A'r tannau eurwedd,  
                   Eiriau miwsig,  
 A datgan Awen,  
 Dy gerdd yn gymmen,  
 I'th Frenin a'th Ren,  
                   Croeshoeliedig,—

Anfeidrol drysor,  
O rad ein gwir Ior.

Pa ddyddan gân o gân

Gerdd urddedig,

A ddichon ddatgan,

Ryfeddol amcan,

Sydd goruwch anian

Yn nodedig ?

Pa fodd y darfu,

It' rasol Iesu,

Farw a threngu,

A thranc gorddig ?

Adrodd dyfnderau,

Mawr drugareddau

Y Tad rhad rhiau,

Rhodd fawryddig,

Yn ei wir Fab rhad,

A'i ddirfawr gariad,

I ddyn a'i afrad,

Oedd golledig.

Y mae fy arfaeth,

Ddatgan ar fawrdraeth,

Gael buddugoliaeth,

Goelfain unig,

Ddwyn i gaethiwed,

Uffern a'i chiwed,

Dangos ei dynged,

I angau dig,

Mae bryn Calfaria,  
 A'i sw'n uwch Seina,  
 Mi glywa'r bloeddfa,  
                   Blin lluddedig,

Swn dynion yn marw,  
 Ubain, ochain garw,  
 Rhai'n lladd, rhai'n lledfarw,  
                   Llais dychrynedig.

Neidiwch fy llygaid,  
 I'r bryn yn danbaid,  
 Pwy a'i loes i'n plaid,  
                   Sydd arbenig?

Anhebyg i'r ddau,  
 Ar chwith a dëau,  
 Yw'r trydydd diau  
                   Detholedig;

Y mae ar y pren,  
 Yn goddef dien,  
 Yn gostwng ei ben,  
                   Boenedig,

A'i freichiau ar led,  
 A dur a dored,  
 A hoelion caled,  
                   Callestredig.\* \**Flinty*.

A elli di ddyn,  
 Gan fod y trëmyn,  
 Heb ddirfawr ddychryn,  
                   Chwerw adwythig?

Wyl ddagrau heilltion,  
A chur dy ddwyfron,  
Todded yr awrhon

Dy galon gig ;

Gwel ef yn rhuddgoch,  
Nid â porphor coch,  
Ond â gwaed gwaedgroch

Yn drochedig !

Gwel ei gu aelau,  
A dwys blethiadau,  
O ddrainiog bigau,

Bagwyedig !

A'i ystlys gleisiog,  
A fflengyll blingog,  
Erchyll agenog,

Gwân Briwedig ;

Agor ddyn, agor  
Dy lygaid, na hepgor,  
Tywallt o'u dôr

Ddeigr llifedig ;

Tywallt heb fesur,  
Edrych ei ddolur,  
Mor ddirfawr ei gur,

Fflangelledig.

Mwyda y ddaear,  
A deigr yn glaear,  
Na fydd ddyn anwar

Anfoddedig ;

O'r pen i'r traed gwlych,  
 A phar hidlo'n grych,  
 Haeddai'r fath wrthrych  
 Ddeigr ychydig!

---

CYWYDD MARWNAD

YR URDDASOL BENDEFIG ROBERT DAVIES,

O LANNERCH YN SWYDD FFLINT.

GAN Y PARCH. E. EVANS,

Am Wr a aeth, mae oer wedd,  
 A mawr gŵyn yn mro Gwynedd,  
 A galar prudd, ac wylo,  
 Wrth weled trymed fu'r tro;  
 Nid oes grudd na chystuddiwyd,  
 Mawr yw y gloes yn mro Glwyd;  
 Tarawyd, anafwyd ni,  
 Gwae ein gwlad gan galedi;  
 Marw *Robert* mawr yw'r ebwch,  
*Dafis*, llyna'r trymgis trwch,  
 Mawr o'i herwydd mae'r hiraeth,  
 Merwindod, ysigtod saeth,  
 Ac anferth yw y cwynfan,  
 Am Wr glwys o Gymro glân;

Llannerch barchus heb berchen,  
 Gwae ei bod yn wâg o ben,  
 Collodd frig pendefigion,  
 Neuadd hael yr annedd hon ;  
 Pan aeth fföedigaeth ffawd,  
 Yn hesp hon o'i hosp hynawd ;  
 Y loyw afon wrth lîfo,  
 A wnaeth yn fras, ein noeth fro ;  
 I'n hoes ni fu loes mor flin,  
 Gau ei ffrwd fawr gyffredin.

Tlodion, dau cant o wledydd  
 A gyrchai i'w dai bob dydd,  
 Uchel y maent yn ochain,  
 A'u côr a rwyg y môr main !

Angau a wnaeth ing in' oll,  
 O'i gyrchu a gwayw archoll,  
 Dwyn hael a gadael y gwan,  
 I'w orweddfa i riddfan ;  
 Bei dug, buasai byd iawn,  
 Ddeg i'w bedd o gybyddiawn ;  
 A gadael un hael o'n hoes,  
 Yn ddi ing i fyw ddengoes ;  
 Mae rhai'n rif y brain i'n bro,  
 O'ch anwyr yn iach heno !  
 Rhai ar led yn rhoi ar lôg,  
 Er ennill, wyr arianog,  
 Cael ceiniog yn llôg i'r llall,  
 Pentyru cau' punt arall ;



Ac eraill heb seguryd,  
 Crina' wyr, yn cròni yd;  
 Llorio er ennill arian,  
 Drud werthu gwasgu dyn gwàn;  
 Pryntu a gwenu gael gwall,  
 Tiroedd a dau cant arall;  
 Cael gwynfyd y byd o'i ben,  
 Tewychu cant o ychen.

Pob cybydd y sydd o son,  
 I'w nodi yma'n eidion;  
 Eidion erioed yn ei ryw,  
 Ac eidion gorwag ydyw.

Och fyned o'i ych faenol,  
 Y Gwr aeth, gwae ar ei ol,  
 Gorau un gwr a aned,  
 Rhwydd i gant y rhoddai ged,  
 Wedi hael ni cheir mael mwy,  
 I dlawd a fo dyladwy.

Sylltau, coronau cryniawn,  
 Y gai wyr anghenog iawn;  
 Ceiniogau, dimeiau mân,  
 Yn eu taith a gant weithian:  
 Od aeth Gwr odiaeth gariad,  
 A wnai wiw les yn ei wlad;  
 Rhad dyfo i'r Etifedd,  
 I roi'n ei ol yr un wedd;  
 A Duw mawr blaenawr ei blaid,  
 A ranno nef i'r enaid:

Dyna fân diau na fydd,  
Ni wiw gobaith i Gybydd.

---

## ENGLYNION

*I WR OEDD MEWN CARCHAR AM DDYLED.*

GAN Y PARCH. E. EVANS.

Y CARCHAR, am fâr a fydd—ryw ennyd  
I'r annoeth yn gerydd;  
Pwylla ddyn, pa well ddeunydd,  
Deui o'r rhwym i dir rhydd.

Ynfydion, cyffion a'u coffa—o'u baich  
O bechod, mewn gwasgfa;  
Yr union a'r dynion da,  
O'u gwalloedd hwy a'u gwella.

Yr afradlon fron, a fu rwydd,—a dwl,  
Yn dilyn ynfydrwydd,  
At y Tad wellad a llwydd,  
Yn ei ol a dry'n hylwydd.

Dithau a fyddi doethach,—i'th fywyd,  
O'th feiau yn lanach,  
Os cynghorion union iach,  
A geri yn gywirach.

## CYWYDD

MARWNAD LEWIS MORYS, Y<sup>sw</sup>.

Gynt o Fôn, yn ddiweddar o Benbryn, yn swydd Geredigion. Prif Hanesydd Prydain Fawr, o barthed ei Chymmrodorion, eu henwau, eu hachau, ac eu hansawdd. Ymgoleddwr godidowg-wiw yr hen Frythoniaith, a'i Beirdd. Prif oruchwyliwr Mwyn-gloddiau'r Brenin, o fewn Talaeth Cymru. Darluniwr celfydd Aberoedd ein gwlad. Philosophydd anianawl, cywraint, doeth, manylddysg; mwy hynod am bob dawn benigamp, nâ neb o'i gydwladwyr y tô heddyw; teilwng i'w goffâu gan bawb a garant eu gwlad, a'u hiaith.—Wedi ei gyflwyno gan yr Awdwr i'r Anrhydeddus Ben Llywydd Cymdeithas y Cymmrodorion yn Llundain, ac eraill o'i haelodau, er mwyn cwyno y colled cyffredinawl a gafodd y Beirdd, a hanesion ein Hynafiaid am dano.

---

GAN Y PARCH. E. EVANS.

---

GWAE heddyw a gyhoeddir,  
 Mor dost yw i Gymru dir,  
 Golli Lewys, gell awen,  
 Dwyn ei pharch, ei dawn, a'i phen;\*

---

\* This worthy Person had a strong affection for his native Country and Language, he spent a great part of his time in search of Monuments of Antiquity, of all sorts relating to the History of the Antient Britons, and was of great help to the late *Mr. Carte*, in compiling his History of England, in its most remote periods; but *Mr. Carte* did not follow his advice, nor make use of the very curious and authentic materials he supplied him with, any further than was consistent with his prejudice against the British History.

E dynwyd iaith dan y dw'r,  
 Gladdu ei hamgeleddwr;  
 Caled yw colli colofn,  
 Penciw dawd cerdd ddidlawd ddofn,  
 A fedrai yn wiw fydrawl  
 Holl gampan mesurau mawl,  
*Merddin*, neu *Daliesin* dysg,  
*Homer* oedd, a mawr addysg,  
 Am brydu canu mewn côr,  
*Aneurin* yn ei oror;  
 Bu gerddgar digymmar gynt,  
*Apollo* yn mhob helynt;  
 Mae'i ddoniau, a'i gampau i gyd.  
 Yr awr'on mewn oer weryd;  
 A'i waith amherffaith,\* am hwn  
 I'n cenedl, iawn y cwynwn;  
 Prudd yw ei grudd, pridd a gro  
 †Hanes holl Gymru heno:  
 ‡Aeth weithian yn wàn o wedd,  
 Ein hynod hen Frenhinedd.  
 Pwy a ddatgan darian dur,  
 Un o wyrthiau§ hen *Arthur*?

---

\* His incomparable performance entitled the *Celtic Remains*.

† The History of Wales.

‡ Brut y Brenhinoedd, or the History of Britain wrote by *Tysilio*.

§ *Arthur*, *Maelgwn Gwynedd*, *Urien Reged*, and *Cadwallon ab Cadfan*, were our most famous warriors in the last struggles for British liberty against the Saxons.

Neu *Urien* dien fal dâr,  
 Neu *Faelgwn* gawr rhyfelgar ;  
 Neu *Gadwallon* gwaed ollwng,  
 Pen cadau mal bleiddiau blwng,  
 Drwy yni, a drywenynt  
 Saison, yn woyw gochion gynt.  
 Bellach fyth na chrybwyller,  
 Na son am anian y Ser ;\*  
 Llewyrch nef a'i gynnefod,†  
 Cylchau, a rheolau'r Rhod,  
 Na llwybr yr â haul wybren,  
 Llyw y dydd, na lleuad wên,  
 A gradd pob un o naddynt,  
 O herwydd eu harwydd hynt.  
 Pwy a wybydd pa obaith,  
 Duw Ion, a'i wyrth‡ mawrion maith,  
 O ddyn hyd at briddyn brau,  
 A'u rhyw hynod, a'u rhiniau,  
 O goedydd mawrfrig adail,  
 Hyd lysiau mân deiau dail ;  
 Duw a roes a da ei rodd,  
 Medrus gymmen§ ymadrodd,  
 Cafodd, a da fu'r cyfoeth,  
 Sylwedd o ddysg *Selyf* ddoeth ;

---

\* A good Astronomer.

† Skilful in optics.

‡ Natural Philosophy.

§ The Belles Lettres.

Cynnes oedd ei amcanion,  
 Mor frwd ei ddiamhur fron,  
 I Gymru wiw rhag amraint,  
 A malais Sais\* megis haint,  
 Ddwyn a mynych y cwynwn,  
 Ein bri a'n sorri a'u sw'n;  
 Dyfyr fu 'rïoed da fu'r fron,  
 Torodd eu dannedd taerion;  
 I *Gamden* y rhoes sen sur,  
 A'i Frydain ofer Awdur;  
 Ac ef ddanghosodd hefyd,  
 O'i fawr bwyll, ei fai i'r byd.  
 Darfu dydd cynnydd canu,  
 Och Feirdd,† eich harddwch a fu!  
 Heddyw nid oes ddyn hoywddawn,  
 Pwy a gais ddysg yn mysg mawn?  
 Du yw gwlad Cymru a dall,  
 Yr awrhon ni cheir arall;

---

\* He was a great and zealous defender of our antient Histories against all its opugners, from *William of Newborough* down to *Camden*, and with great candor and judgment, as well as of *Burton*, and *Milton*, and *Nicholas*.

† He was a great admirer of antient Bards, and had a very curious collection of their works, particularly of *Taliesin*, *Llywarch Hen*, *Aneurin Gwawdrydd*, *Merddin Wyllt*, *Afan Feddyg*; &c. who all flourished in the Sixth Century, of these that flourished from the Conquest, such as *Meilir Brydydd Mawr*, *Howel ab Owain Gwynedd*, &c. Of those who flourished in Wales from the Conquest of Edward the First down to Elizabeth.

Ni welir yno eilwaith  
 Un gwr mor enwog ei waith ;  
 Oer wyler am a dderyw,  
 Gwae mor oer i Gymru yw !  
 Ni chanaf fi na chân fwyn,  
 Nod uchel onid achwyn :  
 Ac ni chân drwg yw'r waneg,  
 Un Bardd da yn beraidd deg ;  
 Neu ëos bert hynaws big,  
 Nag adar yn y goedwig ;  
 Bydd cân gan ddylluanod,  
 Gwae i'r Cymry\* felly fod !  
 Carolau rhigymau gant,  
 O oer ddadwrdd a udant ;  
 Cywydd o geinciau awen,  
 Gwywodd oll megis gwÿdd hên ;  
 Ni chlywir i'n tir hynt iawn,  
 Na doniau y'mysg dyniawn ;  
 Gan i Lewys gain lywydd  
 Ddarfod, gwae ddyfod ei ddydd !

---

\* The Welsh of the present Century are entire strangers to the Poetry, as well as of sense of their Ancestors, &c. adapt their Songs and Carols to English tunes ; and know nothing of the Prosody or Language of the antient Bards. The worthy Deceased had regard to revive a taste of the Ancients ; and some of late years became a great proficient in the Art, particularly the late *Rev. Goronwy Owen*, professor of Humanity at Williamsburg, in Virginia, and the *Rev. William Wynn*, of Llangynhafal.



Hir a fydd a rhyfeddod,  
 A glwys y cenir ei glod;  
 Ni ddaw tra pery awen,  
 Na doniau, na llyfrau llên,  
 Gymro iawn\* gymmar ei waith,  
 Teilwng, i'n bro it' eilwaith.



## CYWYDD

HIRAETH Y BARDD AM EI WLAD.

GAN Y PARCH. E. EVANS.

GWAMMAL a fum heb gymmar,  
 O ddechreu f' oes ddu chwerw fâr  
 Anwadal y newidiais  
 Gwlad fy maeth fu glyd i'm ais,  
 Daethym i fro nid ethol  
 Y Sais lle ffynais yn ffol,

---

\* The chief labour of our worthy Author's life in the above mentioned Celtic Remains, which was a noble effort to rescue some of our most valuable antiquities from oblivion; but his death deprived posterity of that valuable treasure, which cost him thirtyfive years in collecting. And has left behind him many other curious Tracts, on several rare subjects, particularly Natural Philosophy. A judicious Note on Bede, and other Saxon English Historians, and on Rowland's Mona Antiqua restaurata.

Ar newidiad treigliad trist,  
 At ddynion uthron athrist,  
 Lle mae aml Carl llymliw cas,  
 Carthglyd, lleuoglyd, llyglas,  
 A morwynion mor anwar,  
 Meddwon, cigyddion a'u câr;  
 Dyn ieuanc wyf dan awyr,  
 At Sais trafaeliais trwy fŷr  
 I dir Cent, i awyr cas  
 Saesoniaid, diafliaid diflas;  
 Llwy'r wae ddyn llariaidd enaid  
 A wertho wir dir ei daid,  
 I fyned, dynged angall,  
 I fwrw ei oes i fro all;  
 Gwell yw byw a gallu bod  
 Dan wybyr ein cydnabod,  
 Na gwag gerdded, o'm credir,  
 O nwy' taith i newid tir;  
 Newid oedd annedwyddach  
 Na bro a oedd yn bur iach;  
 Newidiais ar wan adeg  
 Wlad lawn Geredigiawn deg,  
 Lle mae iechyd byd yn byw,  
 Diboen ac oroen gwiwryw;  
 Gwlad DDAFYDD ganiedydd gwych,  
 GWILYM harddwiw ei gwelych,  
 Lle mae dynion glewion glwys  
 Gwiwglod mewn Gwlad ac Eglwys,

A mwyn feinwar i'w harail,  
 Diniwaid iawn dan y dail;  
 Annhebyg yn Neheubarth  
 Y fun wèn ni fynai warth,  
 I Saes'nes, ddewines ddu  
 O waed Lloegr wedi'i llygru;  
 Och im' fy ngwlad dy adaw,  
 A ffoi a throi yma a thraw:  
 Gwell oedd im' golli o dda  
 Damwain y bywyd yma,  
 Na myned at wyr llediaith,  
 Lle nid yw llawen y daith.

O! Gymru lân ei gwaneg,  
 Hyfryd yw oll hoywfro deg;  
 Hyfryd, gwyn ei fyd a'i gwel,  
 Ac iachus yw ac uchel;  
 A'i pherthi yn llawn gwiail,  
 A gwaenydd a dolydd dail,  
 Lle mae aml pant mwyniant mau,  
 A glynoedd a golanau,  
 Mynyddoedd a mwyneiddweilch,  
 Fal mynau uwch bànu beilch,  
 A'i dw'r gloyw fal dur y glaif,  
 O dywarchen y dyrchaif;  
 Afonydd yr haf yno,  
 Yn burlan ar raian ro  
 A redant mewn ffloyw rydau,  
 Mal pelydr mewn gwydr yn gwau!

*Teifi* lân, man y ganwyd  
 Dafydd y Prydydd, pur wyd,  
 Dy lif, y loywaf afon,  
 Fal Dafydd, y sydd yn son,  
 A'i wiw enwog awenydd,  
 Fal di rhed filod yr hydd ;  
 Gwyn fyd na fa'i genyf fi  
 Awen Dafydd lân Deifi ;  
 Molwn eurwn wiw oror  
 Dy lyn mwy na deulanw môr ;  
 Cyff'lybwn, dyfalwn faint  
 A fwri o lifeiriaint,  
 Dy loywder a bryderwn,  
 Dy ddyfnder, iselder swm,  
 Y mau ganiadau hoywdeg,  
 Fal ti Afon Deifi deg,  
 Yn ddi draul tra fel haul haf,  
 A bereint fyth yn buraf.

Gwae fi ! nid oes gyfnod iach  
 Y lle'r wyf yn llwyr afiach  
 Yn nhir Sais anrasusawl,  
 A genau mwyn ganu mawl ;  
 Gwae fardd ni chwardd yma chwaith,  
 Ni lona ei ael unwaith  
 Wrth weled heb ged, heb gâr,  
 Faeogion anlleteugar,  
 Caitherog annhrugarog iawn,  
 Chwerw olwg ynt, a chreulawn ;

Nid oes na moes yn eu mysg,  
 Wag eddyl, na gwiw addysg,  
 Cymro oni bryno'n brid,  
 Ni wŷr ef unrhyw ofid,  
 A gwir yw nas gwyr y iach  
 Y gofid a gai afiach ;  
 Felly finneu yn ieuanc,  
 Heb brofi'r byd, laesbryd lanc,  
 O'm gwlad deg fel lledfegyn,  
 At Sais ymdeithiais yn dynn ;  
 Gofid yw i'm gofio dydd  
 Y newidiad annedwydd,  
 Ac o achos fy nhrosi  
 Cul wyf o wr, coelia fi ;  
 Os i dir Cymru gu gain  
 Dof eilwaith o'r wlad filain,  
 Iechyd a gaf a chadw gŵyl  
 Yn glyd iawn i'n gwlad anwyl,  
 Lle gwelaf aml llu gwiwlan,  
 Llawn godwrf a chwrf a chân,  
 A thelyn o waith hoywliw,  
 A chantorion gwychion gwiw,  
 A llaes wên a llawenydd,  
 A chanu difyru dydd ;  
 A lle gwelir gan hirseidd  
 Dlos feinwen hoyw gangen hardd,  
 Yr hon eil-liw hinon haf  
 A'i gwiwrudd teg a garaf,

Hithau a'm câr feinwar fun,  
 Innau eilwaith wên wiwlun,  
 Ac yno 'mysg gwin a medd,  
 Lloegr daeog a'i llwgr duedd  
 A anghofiaf, dygnaf dir,  
 A'i dynion o waed anwir,  
 A rhoddaf, fel yr haeddent,  
 Wfft! i Saison caethion Cent.

---

## AWDL

I'r Parchedig Mr. WYNNE, Athraw Celfyddydau, Person  
 Llangynhafal, yn Nyffryn Clwyd, a Manafon,  
 yn Swydd Drefaldwyn.

---

GAN Y PARCH. E. EVANS,

---

AT WYNN i'r dyffryn ar daith—y rhedaf,  
 Fal Rhydain dros ddiffaith,  
 Dringaf yn llawn o afiaith  
 Dros glogau mynyddau maith.

Gwoddlym yw Gwilym, ymgeledd—Beirddion  
 A berwddoeth gynghanedd,  
 Cynhaliawdr ieith cein haeledd,  
 Candryll i 'merfyll a medd.

Gwr cymmaws, gwiwnaws iawn ganon—Cerddi  
 Cywirddoeth Brydyddion,  
 Blaenor yr holl Gerddorion,  
 A'u Llyw o Fynyw i Fon.

Os per y difer ar dafawd—y mêl  
 O ymylau cribawd,  
 Mae perach a mwy parawd  
 Awen Gwynn wrth wnïo gwawd.

Os hael am roi mael a medd—i Ddafydd,  
 Oedd Ifor i'w duedd,  
 Da y'mro Glwyd am roi gwledd  
 Ydyw Wynn i'w dai annedd.

Os celfydd Dafydd yn ngawd Ifor—Hael,  
 Os hylithr o gantor,  
 Caniedydd celfydd mewn côr  
 Ydyw'r Gwynn, di-oer gynnor.

Gwilym gerddedlym gwir ddidlawd—roddi,  
 Hoffi a noddi awenyddwawd  
 Pob awdur mesur mwysawd—gan dannau  
 Pibau aml leisiau pob meluswawd.

Odlau, Cywyddau cu addawd—Beirddion  
 A gâr yn heirddion ar grwyn hyrddawd,  
 Ac ystyr difyr yw'r defawd—eilwaith  
 Eiriau yr heniaith wiw orhynwawd.



A difai deuai a diawd—flasber,  
 Duloyw friger diwael fragawd,  
 Lle bydd llawenydd lle-enwawd—digrif  
 Prif Feirdd aneirif Fyrddin arawd.

Ac yn mysg addysg cywyddwawd—gofrestr,  
 Llenwi diowdlestr a llyn didlawd,  
 Ac yno rhuo a rhawd—fardd lyfrau,  
 A dadlau'n gorau yn ein gwirawd.

A gwrdd ymodwrdd am wiwdawd—prif-feirdd  
 Crechwen am ofeirdd gasgeirdd gysgawd,  
 Hir bid fo i'w fro yn frawd—cyhafal,  
 Ifor i'w ardal wiw fyfyrdawd.

Llwyddiant a ffynniant a ffawd—i'w ddilyn,  
 A Iesu i estyn ei oes ystawd ;  
 Dymunaf ar Naf roi nawd—arno,  
 I'w fro deg yno a'i digonawd.

## ENGLYNION

*I DDEWI FARDD, AC I'W LYFR A ELWIR  
BLODEUGERDD CYMRU.*

---

GAN Y PARCH. E. EVANS.

---

Pob Cymro i'w fro wir fryd,—a garo  
Ragorawl iaith hyfryd,  
A gâr Dewi, gwr diwyd,  
A'i flodau, gwybodau byd.

Beirdd ethol, manol, mwynion—blethiadau  
Caniadau, cain wiwdon,  
Mwy cynnil eu hamcanion,  
Nag awen Sais, goeg iawn son.

Llosger a bwrier heb eiriach,—gethin  
Brygowthen Saesonach,  
Seithug ydyw ei sothach,  
A'u hawen groes fal hûn gwrach.

Ein mwynlan diddan Brydyddiaeth—heddyw,  
A haeddai ragoriaeth,  
A chyfiawn oruchafiaeth;  
Och wyr, pa'm yr hoffwch waeth?

Rho'wch fri i *Ddewi, Ddehau*,—a Gwynedd,  
 Margeniwch ei lyfrau,  
 Byddwch rydd wrth Brydydd brau,  
 A chofleidiwch ei flodau.

Diddan ydyw cân, a datgenydd—mwyn,  
 A manol gerdd Prydydd;  
 Awen a bair lawenydd,  
 I ddyn i ddifyru'i ddydd.

Beth ond cân wiwlan, eilwaith,—a mawlwych,  
 A melus gysoniaith,  
 Y sydd mewn awenydd maith,  
 Yn nef, lle mae iawn afiaeth.

Caned, a seinied pob sant,—ag angel,  
 Yn gyngan wiw foliant;  
 Dyrchafed moled pob mant,  
 Ion gwiwnef a'i ogoniant.



## ENGLYNION

*I LYS IFOR HAEL, A ELWID MAESALEG, YN  
SWYDD FYNWY.*

GAN Y PARCH. E. EVANS.

LLYS IFOR HAEL, gwael yw'r gwedd—yn garnau  
Mewn gwerni mae'n gorwedd,  
Drain ac ysgall mall a'i medd,  
Mïeri lle bu mawredd.

Yno nid oes awenydd,—na Beirddion,  
Na byrddau llawenydd,  
Nag aur yn ei magwrydd,  
Na mael, na gwr hael a'i rhydd.

I *Ddafydd*\* gelfydd ei gân—oer ofid,  
Roi *Ifor* mewn graian ;  
Mwy echrys fod ei lys lân,  
Yn lleoedd i'r ddylluan.

Er bri Arglwyddi, bu'r glod,—eu mawredd,  
A'u muriau sy'n darfod ;  
Lle rhyfedd i falchedd fod,  
Yw teiau ar y tywod.

---

\* Dafydd ab Gwilym, Bardd Ifor Hael.

## V E R S E S

On seeing the Ruins of IVOR HAEL'S Palace, near Tredegar, in  
Monmouthshire.

---

BY THE REV. EVAN EVANS.

---

AMIDST its alders IVOR'S Palace lies,  
In heaps of ruins to my wondering eyes ;  
Where greatness dwelt in pomp, now thistles reign,  
And prickly thorns assert their wide domain.

No longer Bards inspired, thy tables grace,  
Nor hospitable deeds adorn the place ;  
No more the generous owner, gives his gold  
To modest merit, as to Bards of old.

In plaintive verse his IVOR—GWILYM\* moans,  
His Patron lost the pensive Poet groans ;  
What mighty loss, that IVOR'S lofty hall,  
Should now with screeching owls rehearse its fall!

Attend, ye great, and hear the solemn sound,  
How short your greatness this proclaims around,  
Strange that such pride should fill the human breast,  
Yon mouldering walls the vanity attest.

---

\* David ab Gwilym.

## ENGLYNION

*AR FYRDRAOES DYN, A'I BRYNEDIGAETH TRWY  
DDYODDEFAINT CRIST.*

---

GAN Y PARCH. EVAN EVANS.

---

Y BEDD yw diwedd y dyn,—o'i fawredd  
E fwrir i'r priddyn,  
Brau iawn yw'n hoes, barnwn hyn,  
Ow, nid yw onid ewyn!

O blaid yr enaid pwy rydd—ymwared  
Rhag marw yn dragywydd?  
Crist ar groes a'n rhoes yn rhydd,  
Ef o'i rad fu Waredydd.

Prid yw y gofid a gafodd—Oen Duw,  
Brynu dyn a syrthiodd;  
O'i gariad, ac o'i rad rodd,  
Byw yw'r enaid a brynodd.

Moliant, gogoniant, a ganwn—i'r Oen,  
Am ei rad a'i bardwn,  
Teilwng yw i ni, talwn,  
Fal i'n Tad, foliant i hwn.



## A PARAPHRASE OF PSALM CXXXVII.

Alluding to the Captivity and Treatment of the Welsh Bards by  
King EDWARD I.

BY THE REV. EVAN EVANS.

SAD near the willowy Thames we stood,  
And curs'd the inhospitable flood;  
Tears, such as patients weep,\* 'gan flow,  
The silent eloquence of woe,†  
When Cambria rushed into our mind,  
And pity with just vengeance join'd;  
Vengeance to injured Cambria due,  
And pity, O ye Bards, to you.  
Silent, neglected, and unstrung,  
Our harps upon the willows hung,  
That, softly sweet in Cambrian measures,‡  
Used to soothe our souls to pleasures,  
When, lo, the insulting foe appears,  
And bids us dry our useless tears.

---

\* The reader of English Poetry will discover a few imitations in this effusion. This line is borrowed from Milton:—

“Tears such as angels weep,” &c.

† “The silent manliness of grief,”—Goldsmith.

‡ “Softly sweet in Lydian measures.”—Dryden.



“ Resume your harps,” the Saxons cry,  
 “ And change your griefs to songs of joy ;  
 Such strains as old TALIESIN sang,  
 What time your native mountains rang  
 With his wild notes, and all around  
 Seas, rivers, woods, return’d the sound.

What!—shall the Saxons hear us sing,  
 Or their dull vales with Cambrian music ring ?  
 No—let old Conway cease to flow,  
 Back to her source Sabrina go :  
 Let huge Plinlimmon hide his head,\*  
 Or let the tyrant strike me dead,  
 If I attempt to raise a song,  
 Unmindful of my country’s wrong.  
 What! shall a haughty king command  
 Cambrian’s free strain on Saxon land ?  
 May this right arm first wither’d be,  
 Ere I may touch one string for thee,  
 Proud monarch ; nay, may instant death  
 Arrest my tongue, and stop my breath,  
 If I attempt to weave a song,  
 Regardless of my country’s wrong !

Thou God of vengeance, dost thou sleep,  
 When thy insulted Druids weep,  
 The victor’s jest, the Saxon’s scorn,  
 Unheard, unpitied, and forlorn ?

---

\* Gray.

Bare thy red arm, thou God of ire,  
 And set their vaunted towers on fire.  
 Remember our inhuman foes,  
 When the First Edward furious rose,  
 And like a whirlwind's rapid sway,  
 Swept armies, cities, Bards, away.

“ High on a rock o'er Conway's flood,\*  
 The last surviving poet stood,  
 And curs'd the tyrant as he pass'd  
 With cruel pomp, and murderous haste.  
 What now avail our tuneful strains,  
 Midst savage taunts and galling chains?  
 Say, will the lark imprison'd sing  
 So sweet, as when on towering wing,  
 He wakes the songsters of the sky,  
 And tunes his notes to liberty?  
 Ah no, the Cambrian lyre no more,  
 Shall sweetly sound on Arvon's shore,  
 No more the silver harp be won,  
 Ye Muses, by your favourite son;  
 Or I, even I, by glory fir'd,  
 Had to the honour'd prize aspir'd:  
 No more shall Mona's oaks be spar'd,  
 Or Druid circle be rever'd.  
 On Conway's banks and Menai's streams,  
 The solitary bittern screams;

---

\* Gray.

And, where was erst Llywelyn's court,  
 Ill-omen'd birds and wolves resort.  
 There oft at midnight's silent hour,  
 Near yon ivy-mantled tower,  
 By the glow-worm's twinkling fire,  
 Tuning his romantic lyre,  
 Gray's pale spectre seems to sing,  
 "Ruin seize thee, ruthless King."\*

---

## CYWYDD

*MARWNAD FFREDERIG TYWYSOG CYMRU.*

---

GAN Y PARCH. EVAN EVANS.

---

PA alar maith, pŵl yw'r modd,  
 Ydyw hwn a'n dihoenodd?  
 Pa oer farn a ddaeth arnom,  
 A chŵyn trist uchenaïd drom?  
 Duodd y nos, mae dydd nych,  
 Marw ein Tywysog mawrwydych,  
 Marw FFRED'RIG, dig yw y dôn,  
 Eurog ŵr, aer y goron.  
 Oerodd pob man, llau, a llys,  
 Mor anial mwy yw'r yuys;

---

\* Gray.

*Dwr Diluw!* dû'r dialedd,  
Yw bod ein *Prins* yn y bedd.

Och! gwae ni oll o'i golli,  
Tros daear cred trist yw'r cri,  
Oerfel ddaeth ar fil o'i ddwyn,  
Ac yniâl demestl gwanwyn;  
Tybiasom ynnom ennyd,  
Y caem araul haul o hyd.

Y mae'n awr, trymfawr yw'r tro,  
A \*llen dywyll yn dŵo,  
I'n gado unig ydym,  
Yn y nos yn wan iawn ym.  
Cymry sydd beunydd heb baid,  
Dro anian yn drueiniaid,  
Dan y dŵr mewn cyflwr caeth,  
Yn wylaw yn eu halaeth;  
Am FRED'RIG eu Gwledig† glân,  
Yn eu gofid yn gyfan.

Sigwyd y dywysoges,  
Mae' chalon a'i bron heb wres;  
(Dyn ei Dad) mewn nad a nych,  
Ddau egr olwg ddagrauwlych,  
Gydâ chalon a bron brudd,  
Rhed y dŵr 'rhyd y deurudd,  
Am golli, mae mawrgri maith,  
Ei fab a fu ei obaith;

\* Galar-wisg.

† Tywysog.

Mae'r frenhiniaeth yn gwaethu,  
 Ar ol y call reiol cu ;  
 Cwynfan yn druan a drig  
 I Frydain fro friwedig,  
 Y bonedd gu eurwedd gant,  
 Ar ei ol a hir wylant ;  
 Y werin oll 'r awrhon aeth,  
 O'i herwydd mewn mawr hiraeth ;  
 Tylodion gweinion i gyd  
 Yn poenu yn eu penyd ;  
 Pawb oll a gawsant golled,  
 O'i chwant y llefant ar lled.

Gwae ! angau blin, gwae ing blwng,  
 Yn drist darfu'n darostwng ;  
 Dyrnod i Ben y deyrnas,  
 Gwae ni o'r awr gan oer ias,  
 A roddodd, gwae wŷr heddyw,  
 Anaf in' fyth na fai'n fyw.  
 Er ei ddwyn o'i radd ennyd,  
 A'i uniawn barch yn y byd,  
 O'i goron enwog eryr,  
 O'i fawredd gwychedd a gwŷr,  
 Caiff yn y nef gartrefu,  
 'Mysg angylion loywlon lu ;  
 Mae coron y gogoniant  
 Nefol i'r gwir siriol sant,  
 A chyfran yn gyfan gu,  
 Gwiw d'wysog, gydâ Iesu.

## HYRIAD I'R OFFEIRIAD O DREGARON,

Am ddweyd nad oedd yn Marwnad *Ffrederig*, Tywysog Cymru,  
nac Iaith na Chynghanedd.

---

GAN Y PARCH. EVAN EVANS.

---

Pwy o ddig, a chenfigen,  
Ry egr sydd i roi gair sèn?  
*Offeiriad* a'i frad i'w fron,  
Ydyw'r gŵr, o *Dregaron*,  
A'i fryd trwch, a'i fwriad draw,  
Afrywiawg i'm difriaw?  
Rhoes fal diradd anaddwyn  
Ar fy Ngherdd, (mawr yw fy nghwyn)  
Faru gam a fu wirion gais,  
Oer silain o ryw falais;  
D'wedai ei bod i'w dyb wàn  
Ag agwedd gerdd goeg egwan,  
Yn fâs ac yn ddiflas ddol,  
A di-enaïd anianol;  
Yn ffol, heb wybodaeth ffur,  
Yn blymmaidd, yn bôl amîmur;  
Er bod yn hynod yn hon,  
Cymmaint o feiau ceimion,  
Addefai na fedrai fo,  
(Ni weddai hyny iddo)

Ddyall erioed ddull yr iaith,  
 Nag ymadrodd gwe mydriaith;  
 Rhaid ar frys roi gwŷs i'r gŵr,  
 Drwy hyriad fal dewr arwr,  
 I roi maes am eiriau mall,  
 A noeth ddur mewn iaith arall;  
 Dof i gâd, nid wyf âg ofn,  
 A *Lladin*, a bair lledofn;  
 Yn y wŷn âf yn uniawn  
 I *Iaith Gryw* faith yn gryf iawn;  
 Daw i'r gâd i wau ar g'oedd,  
 Modd enwog, fy myddinoedd,  
 I ddial, ni faddeuir  
 Llid ar faes lle daw eirf hir.

Yn y gâd mewn Iaith Lladin,  
 Blaenor drud er blino'r drin,  
 Bydd FŶRSIL heb yswiliaw,  
 Ar farch dewr dihafarch daw;  
 F'a'r march dihafarch, nid ofn,  
 I'r rhyfel yn rhy eofn,  
 A'i wddf anwar fal taran,  
 A'i ffroenau dig fal ffwrn dân!  
 Ffriw adwyth gyffroedig,  
 Ar drwst eirf a rhodres dig,  
 Llammu, brasgammu brwysg wedd,  
 Yn ddiried gan gynddaredd;  
 Dwyn lluchynt yn dân llachar,  
 Naws poeth yn erbyn yspâr;



Bydd ffrom lle bo drom y drin,  
 A gweryrad gorerwin :  
 Daw *Horas* i'm diheuraw,  
 Yn gryf flin âg arf i'w law,  
 Er d'wedyd, anhyfryd hyn,  
 Iddo flino fal annyn,  
 A gad'el wrth ryfelu  
 Hon ar faes synwyr a fu ;  
*Caisar* anghymmar yn nghâd,  
 A'i brawychai â brochiad,  
 Pan ddel i ryfel yr iaith,  
 I ymosod â mwysiaith,  
 Fo wŷyr, a synwyr a sôn,  
 Nad yw'r gŵr o *Dregaron*  
 Yn debyg, ni-raid obaith,  
 I *Gaisar* ryfelgar faith.  
 Nesaf teryllaf mewn trin,  
*Homer* fydd a mawr fyddin ;  
 Daw a'i Faran darandrwt  
 I gâd Iaith Roeg gydâ thrwt ;  
 Clywir a gwelir ar g'oedd,  
 Yn taranu mewn trinoedd,  
 Llai anfad nâ'i ruad rhyn  
 Ydyw oergroch daeargryn.  
 Nesaf a ddaw draw i'r drin,  
*Pindar* fydd, pen dewr fyddin,  
 A'i luoedd o'i gylchoedd, gant,  
 Hyd trinoedd y taranant ;

A'u heirf hoyw yn oloywawn,  
 Yn gwau fel mellt gyflym iawn;  
 Pryd y del i ryfelu,  
 I'r gâd ddwys wr â'r gôd ddû,  
 Ceir gwybod cyn darfod dydd,  
 Heb hirfaes pwy a orfydd.



Ieuan Brydydd Hir, o Ddeheubarth, a brydws Farwnad i Ffrederig Tywysawg Cymru; ac Offeiriad Tregaron a ddywawd nad oedd ynddi nac Iaith na Chynghanedd, am hyny yr heriawdd yr Ieuan ef; a chanu o Oronwy\* i'r Ieuan fal hyn:

CWYNFAN a fu o'r cynfyd,  
 Gan y Beirdd ar goegni byd;  
 Tra fo llên ac awenydd,  
 A chân fwyn, achwyn a fydd.  
 Gwyfyn, dû elyn dilyth  
 Awen, yw cenfigen fyth;  
 Cenfigen ac awenydd,  
 Yn mhob llin finfin a fydd;  
 O dwf llawn, dwy efell y'nt,  
 O chredi, dwy chwaer ydynt;  
 Dwy na wnaed i dynnu'n ol,  
 Dwy ydynt pwy a'u didol;  
 Ni wneir o fron anaraul  
 Ond cysgod er rhod yr haul;

---

\* Parch. GORONWY OWEN, o Fôn.

A diwad ydyw, Ieuan,  
 Bron sydd na chydwydd â chân.  
 Wrth *Homer*, wiw gerddber gynt,  
 Gwyddost mor eiddig oeddynt,  
 Hurtaf o ddyn a'i hortiai,  
 Miwail ei fydr, aml ei fai;  
 Gwael oedd ei gerdd, pencerdd pêr,  
 Os coeliwn *Soyl*\* ysgeler.  
*Maro* a orug mawrwaith,  
 Bâs y gwyl *Bawast*† y gwaith;  
 Ni pharchwyd gradd onaddun',  
 Mawr oedd cas *Horas* ei hun.  
 Er Dofydd, pwy ŵr difai  
 A fu 'rioed, na feio rai?  
 Bu gylus gwaith *Mab Gwilym*,  
 A'i gerdd gref, agwrdd ei grym;  
 Pawb a'i cenfydd, o bydd bai,  
 A bawddyn, er na byddai;  
 A diau, boed gau, bid gwir,  
 Buan ar Fardd y beir.  
 E geir, heblaw'r Offeiriad,  
 Gân' bron yn dwyn gwên a brad;  
 Milweis eiddig mal Suddas,  
 Heb son am *Dregaron* gas.  
 Dos trwy glod, rhagod, er hyn,  
 Heria bob coeg ddihiryn,

\* Zoilus.

† Bavius.

A dilyn fyth hyd elawr,  
 O hyd y Gelfyddyd fawr.  
 Od oes wŷr a drygfoes draw  
 Afrywiog i'n difriaw,  
 Cawn yn hŵyr, gan eu hŵyrion,  
 Na roes y ddyhiroes hon.

◆

## PEDWAR ENGLYN MILWR,

YN CYFARCH GORONWY OWEN.

—  
 GAN Y PARCH. E. EVANS.  
 —

HANBYCH well, *Goronwy Ddu,*  
 Y Dryw o Fon Fam Gymru:  
 Gŵr prif y rhif am fydru.

Ni wybuum dy elfydd,  
 Am offrydiaw Awenydd,  
 O *Gybi Mon i Gaerdydd.*

Yn yr oesoedd cyssefin,  
 Oeddynt Feirdd prif, *Taliesin,*  
*Llywarch Hen, a'r Ddau Ddewin.\**

---

\* Y ddau Fyrddin.

Daroedd heddyw arwyrain,  
 Etwa gwell nog un o'r rhai'n  
 Y Prif-fardd *Gronwy Owain*.



### ATTEBIAD Y PARCH. GORONWY OWEN.

Am rhoddes Rhëen riaidd anrheg  
 Anian hynaws, Asgre faws fwyndeg  
 Araf iaith aserw, ddichwerw chweg—Awen,  
 A gorau Llëen, llefn Frythoneg,  
 Neut wyt gyfeillgar, câr cywirdeg—Ddyn  
 Neud wyf gas erlyn, gelyn gysteg.

Mi piau Molawd gwawd Gwyndodeg,  
 Gnawd i'r a folwyf fawl anhyfreg,  
 Haws y'm llawch hydr no chyhydreg—â mi  
 Hambid o'm moli mawl ychwaneg  
 Cenaist foliant fal nad attreg—ym hwnt  
 Dy foli pryffwnt praff *Gymraeg*.

Wyt berchen Awen ben, Baun hoendeg,  
 Wyt Ynad diwad *Deheubarthe*  
 Odid hafal, hyfwyn osteg,—i ti  
 Blaenawr Barddoni, bri Brythoneg.  
 Gwelais Ofeirdd, afar waneg,—o wÿn  
 Yn malu Ewyn Awen hyllgreg.

Neu mi nym dorfu dyrfa ddichweg,  
 Beirdd dilym, dirym, dirammadeg,  
 Ciwed anhyfaeth, gaeth, ddigoethdeg—leis,  
     Sef a'u tremygeis megys Gwartheg,  
 Gweleis Feirdd cywrein, mirein, mwyndeg—lu,  
     Moleis eu canu, cynnil wofeg.

Er a ryweleis, ceis cyssondeg,  
 Ny weleis debyg dy bert anrheg,  
 Ieuan, mwy diddan no deuddeg—wyt ym,  
     Fardd erddrym, croywlym, grym Grammadeg.

## THE PENITENT SHEPHERD.

### A Sacred Poem.

BY THE REV. EVAN EVANS.

A PENSIVE Shepherd, on a summer's day,  
 Unto a neighb'ring mountain bent his way,  
 And solitary mus'd, with thoughts profound,  
 Whilst ev'ry thing was silent all around;  
 The firmament was clear, the sky serene,  
 And not a cloud eclips'd the rural scene.  
 Not so the Shepherd, all was storm within,  
 He mourn'd his frailty, and bewail'd his sin;

His soul alone engross'd his utmost care,  
 Decoy'd by cursed Satan to his snare ;  
 (Alas! with what success he tempts mankind,  
 And leads them to their ruin with the blind!)  
 Awhile he stood, as one in woeful pain ;  
 At last, he broke in melancholy strain,  
 And cried,—

“ O great Creator, ever good and wise,  
 I dare not lift to thee mine eyes—  
 Thy violated laws for vengeance call,  
 And on offenders heavy judgments fall ;  
 Which hurl them flaming to eternal pains,  
 To suffer ever on infernal plains.  
 The terrors of thy justice make me fear,  
 For who can everlasting torments bear?  
 My soul with grief is rent, Oh! stop thy hand,  
 Shivering before thy Majesty I stand ;  
 Long have I trod the 'luring paths of vice,  
 Did tire thy patience, and thy grace despise.  
 Before thy throne I bow with suppliant knee,  
 Grant, gracious God, thy pardon unto me :  
 In solitude my follies I repent,  
 The life so long, so viciously, I spent,  
 O God! I wish undone my wicked deeds,  
 My contrite heart with inward sorrows bleeds.  
 Thou, O my God! art witness of my grief,  
 And thou alone canst grant me a relief.  
 I promise faithfully to sin no more,  
 (I sue for mercy, and thy grace implore,)



And spend my life, for ever, in thy fear,  
 Thy laws to keep, thy holy name revere."  
 Thus plain'd the pensive Shepherd, and his moan,  
 Christ, his Mediator, brought before the throne!  
 Him graciously answer'd God the Sire,  
 His face resplendent with a globe of fire:—

“ My Sou hath paid thy ransom, go in peace,  
 Eternal justice bids thee be at ease!”

He said, and all the choir of angels sung,  
 Harmonious melody, their harps they strung,  
 And heaven's Empyreum to their music rung. }  
 Such is the joy when a poor sinner turns,  
 That with uncommon glow each seraph burns.  
 Thus I may compare small things with great,  
 The Prodigal his tender Father met;  
 Such as the Gospel paints in tatter'd weed,  
 Willing with husks to satisfy his need:  
 And none would give them, though the hungry roam,  
 Till he returned unto his Father's home;  
 Who kill'd the fatted calf, and spread the feast,  
 Where wine and minstrelsy his joy exprest.  
 The Shepherd thus refresh'd with heavenly grace,  
 Return'd with joy eternal in his face;  
 The Saviour's wond'rous love to man he prais'd,  
 And thus his voice with gratitude he rais'd:—

“ All glory to the gracious SON of GOD,  
 Who hast alone the grievous wine-press trod,  
 To satisfy his justice, and for me  
 Hast wrought endless salvation on the tree;

Who hast redeem'd us, and destroy'd our foes,  
 That neither death nor grave can work our woes :  
 Hast overthrown the dragon, and no more  
 Hell, nor its gates have terrors left in store !''

Thus did the Shepherd testify his joy,  
 A theme that might an angel's tongue employ ;  
 He praised Christ, who for mankind did die ;  
 His praise let all resound, to all eternity.



## Y BUGAIL EDIFEIRIOL :

Sef, CERDD SANTAIDD, gan y Parch. E. EVANS, 1764. A  
 gyfieithwyd i'r Gymraeg, ar fesur Cywydd Deuair hirion,  
 gan y Parch. D. ELLIS, 1787.

TRIST Fugail yn arail w̄yn,  
 Wr dwys oedd ar dês addwyn ;  
 Gerddai'n rhwydd heb dramgwyddaw  
 I drum, neu ben mynydd draw ;  
 Meddwl s̄yn, nid meddal swydd,  
 Ystyriai mewn dystawrwydd ;  
 A'r ffurfafen a'i gwên gu,  
 Oedd etto'n glîr o'i ddeutu ;  
 Er hyn y Bugail mewn rhus,  
 Hyll, ydoedd lwyr drallodus ;  
 Galarodd, gwirfodd nid gau,  
 Baich adwyth ei bechodau ;

Ei enaid trist yno trodd,  
 Oddifewn a riddfanodd ;  
 Oblegid cael ei blygu,  
 Gan ddiawl, a'i genfigen ddû ;  
 (Och! o'i lwydd a'i awch a'i lu,  
 A'i dwyll i'n dâl a'n dallu!)  
 Safodd, synnodd dros ennyd,  
 Mewn poenus ofidus fyd ;  
 Yna'n llawn awch dawn uwch d'ar,  
 Llefai fel hyn yn llafar:—

“ Creawdwr mawr cry' ydwyd,  
 Duw doeth iawn da odiaeth wyd.  
 Edrych yn wych arnad Naf,  
 Yn flysig ni lyfasaf ;  
 Dy ddeddfau, geiriau geirwir,  
 Draws nwyf a d'òrais yn wir ;  
 Deil y rhai'n dial ar hynt,  
 Y troseddwy'r trais iddynt ;  
 E deflir pob haid aflan,  
 I ffwrn y diawl, uffern dân ;  
 I boen blin ba wyn a bloedd,  
 Iâs ysig yn oes oesoedd !  
 Ofn dy gyfiawnder, Ner nawdd,  
 Och oer iawn a'm dychrynawdd ;  
 Pwy all arwedd pwell eirias,  
 Anfarwol dragwyddol gâs ?  
 Trwst oer dir trist ar d'òri,  
 O ofn Duw yw f'enaid i ;

Duw, dy farn na ddod arnaw,  
 Tawl dy lid, attal dy law !  
 Ymlid y bum yn amlwg,  
 Anhyffordd draw, hen ffyrdd drwg ;  
 Bliniais di'ystyrtais dost wedd,  
 Duw manwl, dy amynedd,  
 O flaen d' orsedd-fainc 'rwy'n flin,  
 Yn wylaw ar fy nau-lin ;  
 Maddeu, O Dad, gwellhad llon,  
 Dall fy nghoel, dwyll fy nghalon.  
 Rho'ist i'm rhan ddyn truan trwch,  
 Do, fwriad edifeirwch,  
 Am oer wedd ymarweddiad,  
 Borau a hwyr o hir barhâd ;  
 O Dduw, na chawn faddeuant,  
 O'm truan sail a'm troi'n sant ;  
 Fy nghalon yn aflonydd,  
 Yn gwaedu tan sÿnu sydd ;  
 Ti ydwyt dyst, y Duw TAD,  
 Par fawredd o'm pur fwriad ;  
 Ni wnaf i'm dydd tra byddwy',  
 Un pechod, na medd'dod mwy ;—  
 (Erfyniaf wan druan-was,  
 Yn gryf, drugaredd a gras ;)  
 A threuliaf wrth reolaeth,  
 Fy mywyd i gyd yn gaeth ;  
 Dy ddeddfau mât a gadwaf,  
 Dawn yn wir yn d'enw a wnaf."

Dyma gân uthrwan athrist,  
 Heb gael trefn y Bugail trist ;  
 Troi Iesu cŵyn trysor cainc,  
 Wers addfwyn i'r orseddfainc ;  
 Atteb gan Nâf a gafodd,  
 Iesu Fab, a gras o'i fodd ;  
 O buraidd wyneb araul,  
 Lliw iach rhwydd, llewych yr haul :—

“ Fy Mab, o'i arab fwriad,  
 Haeddai'n rhwydd yr hedd yn rhad ;  
 Iesu wnaeth Iawn im' eisoës,  
 Bydd esmwyth o'th lwyth a'th loes.”

Pan glybu'r llu engyl llon,  
 Rad diball yr atebion ;  
 Canasant foliant filiwn  
 I ras hael yr Iesu hwn ;  
 Moliant, gogoniant ganwaith,  
 I'r Drindod pob mawrglod maith,  
 Llawenydd y sydd i'w sôn  
 Y'ngolwg yr angylion ;  
 Os daw pechadur, os daeth,  
 Drwy deg i droedigaeth ;  
 Fel y Mab di arab dôn,  
 Ofer edliw afradlon ;  
 Mewn ing, ac aflwydd gwyddoch,  
 Gwobr main, ni chai gibau'r moch ;  
 Crwydrodd, a rhodiodd y rhawg,  
 Yn wân iawn, yn newynawg ;

Nes dychwelyd hyfryd hŵyl,  
 I dŷ dawnus Dad anwyl;  
 Lladdai hwn, nid llwydd anhael,  
 Y llo tew iawn lletty hael;  
 A thrwsiodd wledd iaith rasol,  
 Gwelwn ni o'i gael yn ol;  
 Y Bugail fu ail wrth ei fodd,  
 Llawn achos llawenychodd;  
 Rhoed iddo, mae'n rhaid addef,  
 Wres yn wir o ras y nef;  
 Rhoes heb wad nid rhoddiad trwch,  
 Wych gywrain ddiolchgarwch,  
 I'r Iesu, prynwr oesoedd;  
 Dewis iaith a madws oedd:—

“ Gogoniant oll yn hollawl,  
 I ti, Ner Fab, tyner fawl,  
 Sethraist, croyw yfaist wryf,  
 Oen euraid y winwŷryf;  
 Boddlonaist, cefaist, mae cof,  
 Do, ras, cyfiawnder, dros of;  
 Cefaist, hir ddeliaist dduloes,  
 I brynu cred ar bren croes!  
 Drylliaist, dialaist, Duw Ion,  
 Ol-ynol ein gelynion;  
 Angau eilun, ing elawr,  
 Oer ddrwg fyth gydâ'r ddraig fawr!  
 Terfaist heb gel wehelyth,  
 Uffern a'i bâr, a'i ffwrn byth!

Dyma swydd diammeu sail,  
 Heb wagedd, Gerdd y Bugail;  
 Gwnawn ninnau un eiriau'n ol,  
 Droï gweddi'n gerdd dragwyddol.

---

DAU ENGLYN, GAN Y PARCH. E. EVANS.

I. I'R ANGYLION.

SERAPHIAID tanbaid tywynbyst,—araul  
 Nef oror ddyscleirbyst,  
 Cerubiaid côr o wiwbyst,  
 Coethion wÿn boethion iawn byst.

---

II. CYNGHOR I'R CYFOETHOG.

AGOR dy drysor dod ran,—trwy gallwedd,  
 Tra gellych i'r truan;  
 Gwell ryw awr golli'r arian,  
 Na chau'r gôd a nychu'r gwan.

---



## CYWYDD

*MARWNAD MR. IFAN GRUFFYDD, O'R TWR  
GWYN, YN NGHEREDIGION.*

---

GAN MR. JENKIN THOMAS, O'R CWMDU.

---

Och! an fwyn, Och yn fynych!  
 Och flined clywed y clych!  
 Och yn brudd! ac Och o'n bron!  
 Och brid oedd! Och, Brydyddion!  
 Och alar! ac Och eilwaith!  
 Och gŵyn oer! ac Och gan' waith!  
 Hyll achos yr holl ochain  
 Caled, sâl oedd clywed sain;  
 Oer y pwnc oedd roi Pencerd  
 Dan gwys ddwys ddofn, colofn cerdd:  
 IFAN GRUFFYDD fwyn graffus,  
 Dyn a'r air a dynnai'r ũs;  
 E brofwyd hwn yn Brif-Fardd,  
 Dir ei fod yn Gadair Fardd:  
 Fe wnai Gerdd yn bencerddiawl,  
 Cysson oedd ei dôn ddidawl;  
 Tebyg oedd ei gyhoedd gân,  
 Lwys ergyd, i lais organ;  
 Fe eiliai gân o fawl gwych,  
 A'r dôn fwyn i'r da'n fynych:

Ail oedd ei hen awen o,  
 A'i wybodaeth i BEDO.  
 Gwnai gynnilwaith perffaith, pur,  
 A didwyll, ail i DUDUR.  
 Gosodai, fel gwe sidan,  
 Blethiadau'n glymiadau glân ;  
 'Roedd yn ei gân ruddyn gwyh,  
 Y tri enaid tirionwyh ;  
 Parodawl, amgen Prydydd,  
 Ni bu o ddawn neb i'w ddydd :  
 Uchelwr oedd a'i chwilio,  
 Mwyn ei ffraint yma'n y fro ;  
 Marw a wnaeth, penaeth y pwyll,  
 Ddywededig Fardd didwyll ;  
 Yn ol ei waith cynnil wedd,  
 Yn y gweryd mae'n gorwedd,  
 Mewn oed hir, rhafir y rhai'n  
 Agos yn bedwar ugain.



CYWYDD I'R TARGET, NEU'R SAETHNOD.

GAN MR. JENKIN THOMAS.

Y CYLCH gwyn, calchog anian,  
 Cylch mawr yn llawn cylchau mân ;  
 Cynllun wyt, ar ben canllath,  
 Disigl bren yn dysgwyl brath :

Llun morcath, ar dwmpath dewr,  
 Llwydwyn, mewn rhuddyn rhyddewr;  
 Yr ydwyt fel torth radell,  
 Ar bawl fe'th welir o bell;  
 Bagad sydd heddyw'n bygwth  
 Dy lygad â rhwygiad rhwth;  
 Pâwb â Gw'n fel pe bai gâd,  
 Druan wyt, â'i drwyn attad;  
 Pe rho'i dart ynot artaith,  
 Pe'th d'rawit ni chwynit 'chwaith:  
 Ac er neb di wynebu,  
 Genau dewr, ar y Gw'n dû;  
 Y dernyn roddo'r ddyrnod,  
 Y blaenaf nesaf i'r nôd,  
 Hwn fydd o'r hyn a feddi,  
 Drwy hedd etifedd i ti.



## ENGLYNION 'AR AMRYW DESTUNAU.

---

GAN MR. JENKIN THOMAS.

---

### I. I'R BONT.

NES i'r rhyd, hyfryd yw hi,—nag i'r Bont,  
 Gwir bentwr o feini;  
 Gwell yw'r bont, pe bront ei bri,  
 Gwybyddwn, nag yw boddi.

II. I GERI, A GLUDODD LAFUR Y BARD D GYDA'I  
LLIFEIRIANT.

Aeth CERI heini' hynod,—yn burlan,  
A'm *Barlys* o'i ystod ;  
Casglodd, rhwymodd e'n rhod,  
Dyrnodd e'r un diwrnod.

III. I DAFARN Y CAWL, AR FFORDD ARBERTH.

Ty Tafarn cadarn y Cawl,—ef unwaith  
Fu enwog am ddwrgawl ;  
O ddigon f'aeth yn ddigawl,  
Llymrig, heb na chig na cawl.

IV. I'R IEUENCTID.

Gorau gŵr wrth garu Gwèn,  
Gwycha' gwedd o goch a gwÿn ;  
'Nawr, Och, gwae ! 'rwy'n arwach gwn,  
Dan fawr lid y gofid gwan.

V. I'R GOFID.

Trwch anferth, a serth y syrthiodd—fy ngradd,  
Fy ngruddiau a lasodd ;  
Gofid o lid a ledodd,  
Ie'nctyd un ffunyd a ffodd.

## CYWYDD O FOLAWD I'R IESU.

---

 GAN IAGO AB DEWI.—1710.
 

---

Bum yn darllen gryn ennyd,  
 Bereiddwaith beirdd heirdd o hyd,  
 Na bu i gael neb o'u gwell,  
 Am roi gwawd ym Mro Gadell.  
 Annel clau rhai'n eilio clod,  
 I frenhinoedd farn hynod ;  
 Rhai'n breladaidd weddaidd wiw,  
 I eglwyswyr aeg lwyswiw.  
 Ar hoff wawd, cai brophwydi,  
 Arbenig fawredig fri.  
 Rhai'n gwario er gwyro gwŷr,  
 Rhyw gainc aur ar goncwerwyr :  
 Cai wŷr haelion ffyddlon ffawd,  
 Cân miloedd eu canmolawd.  
 Goreugwyr, i'w gwir ragod,  
 O gaer a glŷn a gai'r glod ;  
 Dyfalu yn gu heb gel,  
 Dwyn achau a dawn uchel.  
*Ieuan Rhydderch*, loywserch lon,  
 Lawn araeth o *Lyn Aeron*,  
 Ab *Ieuan Llwyd*, baun y llu,  
 A asiai i fam Iesu,

Gerdd brydferth yn ddiserthwch,  
 Ir mal cŵyr a mel o'r cwch ;  
 Mae'r bryd mau, diau o daw,  
 Manolwawd im' mewn eiliaw,  
 I brydferthaf, croyw-Naf cred,  
 Roi fy mawl er fy muled.  
 Iesu yw 'nghof, wir Ddofydd,  
 Iesu fu a Iesu fydd :  
 Eurbor nefol, freiniol fraint,  
 Wych o'r llys, uwch yr hollsaint ;  
 Addwyn Frenin i'w addef,  
 Ynglyn aur angylion nef ;  
 Brenin cred, Ri diledryw,  
 Brenin i bob brenin byw,  
 Yn d'wysogawl disegur,  
 Uwchlaw pawb y iach-lew pur,  
 Offeiriad mewn graddiad gron,  
 Burach nag y bu Aaron ;  
 Ein Por hardd, a hwy'n parhau,  
 Nag Aaron yn ei gaerau :  
 Prophwyd yw ef, nef i ni,  
 Pur loyw-un pair oleuni ;  
 Mirain cynnyrch, llewyrch llêu,  
 Mewn mwysair mwy nô Moesem ;  
 Yn dyst cywir, geirwir, gwâr,  
 A dewin holl lu daear ;  
 Uwch pob rhai rhyglyddai glod,  
 Y mae'n erfai, mỳn orfod ;

A rhagoriaeth berffaith bur,  
 O ran nerth ar un Arthur,  
 Sigodd siol y diafol dig,  
 Fall uffernol, fwill ffyrnig,  
 Er iddo yrru Adda  
 I fyd tost, o fywyd da,  
 Ag Efa yn y gofid,  
 A bâr llawn, i beri llid,  
 A'i holl lân, ond blin fu'r bla!  
 I gaethfyd ar un gwthfa.  
 Llesg oeddym, ein llas gwyddiad,  
 Yma heb rym y Mab rhad,  
 Trwy rinwedd ei groywedd grog,  
 Gorddofodd y gwrdd ddyfiog,  
 Wrth farw ar hon galon glau,  
 Lluddiodd ing, lladdodd angau;  
 A'i gyfodiad gwiw fadwedd,  
 Uchaf Ior, o rych ei fedd,  
 A wiria'n glau er iawn glod,  
 Dduw erfai, iddo orfod.

IFOR HAEL a fawrhawyd,  
 Am haeledd o'i fedd a'i fwyd;  
 Haelder Ior a glodforwn  
 Oedd achos per haelder hwn.  
 Hael yw Iesu, haul orsedd,  
 Hylan yw a hael iawn oedd,  
 Haelionus am rymus rodd,  
 Hyburddewr am ebrwyddrodd:



Hael, hael, hael, tros fyd ydyw,  
 Hael a da rodd, haelder yw :  
 Ys da Duw Tad ceidwad cu,  
 Di os mai da yw Iesu,  
 Pen tēyrn y tēyrnedd,  
 A gaed o'u rhyw i gadw'r hedd ;  
 Pen esgobion ddyfnion ddysg,  
 Pur gywirddawn, Pôr gwirddysg,  
 Pen Prophwyd mawr, roddfawr Ri ;  
 Praff Awdur y prophwydi.  
 Pen ar gedyrn trachwyrn trin,  
 Paun gwrol, Pen eu gwerin ;  
 Goruwch haelion, gŵyr chwalu,  
 Ei rad llawn i reidiau llu ;  
 Ei wehelyth syth y sydd,  
 Euraidd dwf, o wraidd Dafydd ;  
 Ac Abraham ddinam dda,  
 Wr addwyn o ryw Adda ;  
 Ei gorff yn hardd gorhoff Ner,  
 A'i loyw enaid oleu-ner,  
 Y'nt trwy weddus, ferthus fawl,  
 Orau dawn, o ryw dynawl ;  
 Am ei berson cyfionfad,  
 Mab yw, i Dduw byw, heb wād.  
 Pe gallwn, mad Ceidwad cu,  
 Iddo fawl, a'i ddyfalu,  
 Yn ufuddaf â'm tafawd,  
 I'r Iesu'n wir asiwn wawd :

Gan nas gallaf, buraf Bôr,  
 Glymu irwawd, glaim eurior,  
 Gorthewi a wnaf fi fel  
 Gwir adyn, a gorad'el,  
 Mawl yr Ion, mal yr oedd,  
 I bregethwyr brig ieithoedd.  
 Iesu'n gwynfyd da ydyw ;  
 Iesu'n rhan sy' un o'n rhyw.

---

### AWDL FARWNAD SYR THOMAS PICTON,

Marchog enwog o Swydd Benfro, yn Neheubarth, yr hwn a laddwyd yn y Frwydr waedlyd yn Waterlw, Mehefin 18, 1815.—Ar y Pedwar Mesur ar Hugain.

---

GAN Y PARCH. ELIEZER WILLIAMS.

---

Syr THOMAS urddas harddwych—holl Gymru,  
 A'i holl gamrau'n hoywych,  
 A gwir hîl rhai gwrolwych,  
 Gŵr caruaidd gweddaidd gwych.

Cymro o Benfro heb un frad—Marchog  
 Wddfueurog dda fwriad,  
 Fawleirwir wiw filwriad,  
 Blinwr gwŷr, blaenor y gâd.

§ Llaw ddur i Arthur wrthiol,—fu DOMAS,  
 Dyma sy' i'w ganmol,  
 A ranai yn erwinol  
 Ddyrnod ddig i ffyrnig ffol.

I'w wlad o gariad y gwrol,—ddengys,  
 Ei ddawn gais rinweddol,  
 Fydd boddio o fodd buddiol,  
 A dewr waith ei dir o'i ol.

Dros ei Wlad 'n y gâd mal gŵr,  
 \*Melus fydd gan y milwr  
 Farw yn hy, a'i frowyr wnant  
 Wir foliant i ryfelwr.

Llawer un fu, llwyr iawn fodd  
 Wiw filwr a ryfelodd,  
 Ond PICTON purion parhaodd—o'r †Pŷr,  
 Ar y gwyr ragorodd.

Oedd yn ŵr glew, oedd 'n aer gwlad,  
 Oedd dda ei gledd, haeddai glod,  
 Oedd ŵr mawr, oedd o air mât,  
 Oedd fŷr nawdd, oedd o fawr nôd.

§ Arthur Welesley, Dug Wellington, a'i galwai yn wastad ei law dachau.

\* “ Dulce est pro patria mori.”—HOR.

† Pôr, Arglwydd.—Pŷr, Arglwyddi.

Bu wâs tlws a bost y wlad,  
 Ner i lu, a'i enw ar led,  
 Gŵr o hoyw lwyth, garw ei lid,  
 Gŵr i'n budd, goreu yn bod,  
 Gŵr yn y drîn, a grân \*drud,  
 Ac yn y flin frwydryn frwd,  
 Y bu ei hîl bawb o hyd.

Hen Hydd hoyw Ner,  
 Llywydd llawer,  
 E a wnai drai yn y drîn,  
 E a faeddai hŷ fyddin.

Baun mawleirwir, bu'n maluriaw,  
 Bu yn yr erwin for-drin draw,  
 A gerllaw y †gorllewin.  
 Hawdd hir filwr, oedd, ryfelai  
 Hyddur hynaf, dda arweiniai,  
 A foddiai ei hŷ fyddin.

Yng Nghymru ni bu yn bod  
 Fwy parod hynaf purion,  
 Am y glew yma a'i glod,  
 Nid dannod a wna dynion.

---

\* Dewr.

† Yn yr Ynsoedd Gorllewinol Americanaidd, lle bu Syr Thomas yn milwrio.

Nerthol a gwrol ei gyd, oedd PICTON,  
 Naf gywir hoyw-fron, nawf gŵr hyfryd,  
 Naill â'i gledd ennill y glod,—a fynai,  
 Neu farw'n ddifai, hyfron ddefod.

Tystio wna'r \**Dozro*'n hir y dewredd,  
 Roi yn glau yno rai'n gelanedd,  
 A'i wir felus wiw orfoledd,—a'i fri  
 Nid â i dewi hyd y diwedd.

Mewn llawer ardal y dialodd,  
 Ar lu yr estron, ar lawr rwystrodd,  
 Yn hy dros gaerau'n draws e'u gÿrodd,  
 Eu llu â'i freichiau llew frawychodd,  
 Dros goryn dibyn e dybiodd,—tyrfa  
 Roi hy gwt yrfa rhag a'u tarfodd.

Ym †*Musaco*

Y bu ciliò, heb y celwydd,  
 Y Ffreingc faeddai,  
 A draws-grugiai'n hy dros greigydd.

Ym ‡*Madajos*,

Er ei dwy-ffos,  
 Ni bu aros neb o'i herwydd;

\* Afon hynod yn yr Hispaen.

† Mynydd yn Mhortugal, lle y gyrodd y Ffrangcod â'r cleddyf dros y dibyn. Medi 17, 1810.

‡ Tref yn yr Hispaen a ennillodd Syr Thomas â'i gleddyf, pan

Ar y muriau,  
 A'i fanerau,  
 Ni wnai eiriau, e wnai arwydd.

Gwŷr \**Fittoria*,  
 Am y dewra',  
 A'r un blaena', 'r hwn a'i blinodd;  
 A'r marchogion  
 Ffoedigion  
 O rai geirwon, a ry gurodd.

Ar y †*Samber*,  
 Tan ei faner,  
 Y bu digter, o bai degtant;  
 Bardd ni enwa  
 Y gwŷr dewra',  
 Yno'n eitha' hy iawn wnaethant.

Ni bu gilio, ni bu gelyn  
 Heb ei ddyled, heb ei ddilyn,  
 Hawdd i'w yrfa oedd ei erfyn,  
 Hedd i'w dyrfa, oedd ei derfyn.

---

orchymynwyd iddo wneuthur esgus yn unig, tra fyddai ereill yn ei hennill; ond ereill a fethasant, ac esgus Syr Thomas a aeth yn wirionedd. Ebrill 6, 1812.

\* Tref arall yn yr Hispaen lle bu Syr Thomas yn offerynol i ennill y fuddugoliaeth, Mehefin 21, 1813.

† Afon gerllaw Waterlŵ.

PICTON wiion wedd,  
 Fu un o fonedd,  
 Hâd o hen annedd nid anhynod.  
 Gwir hîl gwŷr hâel wedd,  
 Ner, hâd anrhydedd  
 Nâf a hoyw hirgledd, a wnai fawr-glod.

Y Ffrangcod iyrchod i hy archwaeth,  
 Y llew rhuadwy, lluwyr odiaeth,  
 Oeddent, anadlent wan genedlaeth,  
 Dan y mawr hoyw-lew, 'n dwyn marwolaeth,  
 Dychrynodd rhwygodd eu rhywogaeth,  
 A 'nafus glwyfau yn ysglyfaeth.

Pob gwlad yn wastad wnai osteg, i'r \*Glyw,  
 Yn unrhyw rhoe aurheg,  
 Un doeth ydoedd iawndaith hoywdeg,  
 Llüydd da hyfryd llwydd difreg,  
 Llew hy gwedi'n 'n y llu gwiwdeg,  
 A mewn hedda, mwyn oen hawdd-deg,  
 Arth tir o wyrthiau teg, a chydâ'i gledd  
 Anrhydedd yn rhedeg.

I afael rhedai hy filwr odiaeth,  
 E gurai y meirch egr i'w marchogaeth,  
 I gâd ei elyn e godai alaeth,  
 O wiwfodd gwelodd y fuddugoliaeth,

---

\* Llywydd.



Yna \*ing ei ddydd, yn angau ddaeth,—cant  
 Ei hoyw-fawl eurant, a'i hy filwriaeth.

Bu, (ond e ddarfu ei ddydd,)  
 Bu ar lawer bur Lywydd,  
 Bu hy Lew, bu hoyw Lüydd,  
 Bu i gewri byw gerydd,  
 Bu, wrth raid, borth-waredydd,  
 Bu i'r gelyn bur g'wilydd,  
 Bu ddwys gân, bu ddewis gŵr,  
 Bu Filwr heb †hefelydd.

Glân restri y gelyn rwystrodd,  
 Mawr wych dyrfa y meirch darfodd,  
     Rheolai'r helynt,  
     Treiddiai e trwyddynt  
     Mal corwynt, mil curodd.

Mae'r dwylaw yma, a'r delyn!  
 ('R aeth a'r galar!—waith i'r gelyn  
     Ladd gŵr lawdd garant,)  
     Ar sâr hir sòriant!—  
     Ni fedrant hwy fydryn!

\* Yn Mrwydr Waterlw, gyrrodd lu o farchogion ar ffo, trwy gymmorth byddin fechan o wŷr traed, ond yn y fynud y cafodd y fuddugoliaeth, tarawodd pelen ef, a syrthiodd yn farw yn y fan. Mehefin 18, 1815.

† Heb ei ail.

Tra yd, tra âr,  
 A byd a bâr,  
 Ei gyd e \*gâr, gadw ei gwyn;  
 A'i gledd, a'i glôd,  
 Mewn hedd, mew'n nôd,  
 A fedd i fod o fodd fwyn.

Ei ragoriaeth ei wŷr garant,  
 Ei fawl haerant a'i filwriaeth,  
 Ei glod odiaeth, y Glyw! d'wedant,  
 Ei ddawn eiliant, a'i ddynoliaeth.

Ar ei elor, er ei wyllo,  
 Gwlad rydd iddo glod rwyddeiddwar,  
 In' bu Flaenor, un heb flino,  
 Trwy ddwyn wylo, trodd yn alar!  
 I'r gwireddus, a'r rhinweddus,  
 Anrhydeddus, un rhadeiddwar,  
 Gorfoleddus, tangnefeddus,  
 Yw hûn weddus yn y wiwd-da'r.

---

\* *Hyny yw*, Y byd i gyd yn hir a gâr gadw coffadwriaeth am y caledi a ddyoddefodd yn hy yn ei filwriaeth.

## A W D L

GAN Y PARCH. DANIEL EVANS, (DANIEL DDU.)

Ar ei Etholiad yn Fardd i Anrhydeddus Gymdeithas y Gwyneddigion.

YR Awen fau eirian ferch,—wyd union,  
 Wyd anwyl ddewisferch,  
 Dyro, iawnfad dirionferch  
 Gynnes syw, im' gân o serch :

O serch ac annerch i geinion—ddwyswych  
 Urddasawl brydyddion,  
 I Gymdeithas, addas sôn,  
 Ddeheugu'r Gwyneddigion.

Os i'r glod o fod yn Fardd—eirianwych  
 Yr enwyd iselfardd,  
 Profwyf mai gweithred prif-fardd,  
 Cain iawn hwyl yw canu'n hardd.

Diammhur ganiad boed im' ar gynnydd,  
 F'fraethgu anian a ffrwythawg Awenydd  
 Golau i'm monwes, digwl ymenydd,  
 Bywyd di boenau a byd da beunydd,  
 I gynnal a dâl i'm dydd—y lwysfad  
 Bêr wiwgu alwad heb awr o g'wilydd.

Yr Awen wiwffur eirian a hoffais,  
 O'm mebyd yn iawn ei dawn adwaenais,  
 A myfyriadawl yr ymhyfrydais  
 Yn y fwyn gywrain wiwfun a gerais;  
 I'm dwyfron bu lon dy lais,—dy wiwlef,  
 Fain iawndda oslef Fanon ddewislais.

Wrth ddarllain oerfaith grugiaith y Groegiaid,  
 Llwy'r achwynion a llawer ochenaid,  
 Mawr iawn gwyno, am yr Awen ganaid,  
 A ddoe i'm monwes oerddu a'm enaid;  
 Wylwn dan y pwn heb baid—am dani,  
 A hi yn oeri, ferch hoywen euraid.

A phob rhyw awr gyfan pan o'm poenau  
 Y cawn anadliad acenwn odlau;  
 Hyll bwl waith ydoedd yr holl blethiadau  
 Egwan, heb oreulan wiw reolau;  
 Etto i'm min gwin oedd gwau—yn llonydd  
 Yr hoywdeg gywydd ar hyd y caeau.

Gymdeithas addas o Awenyddion,  
 Chwi y'ch ddewisgoeth iawn fawrddoeth feirddion  
 O eurawg Wynedd rywiogwiw union;  
 Chwi, ddwysgu degweis, y'ch ddysgedigion;  
 Gwyddoch chwi mewn bri o'r bron—holl fydrau  
 Ein heniaith orau uniawn a thirion.

Llwyddiant beunydd, cynnydd i'ch amcanion,  
 I gynnal ein hiaith, nefoliaith fywlon,  
 Oedd iaith dra addas ddoeth y Derwyddon  
 (Iesin ddiwaelbarch) a senedd Albion ;  
 Iawn ich' o hyd yw chwennych hon—mewn sel,  
 A hygar arddel ei geiriau heirddion.

Y mwynweis hoywfyg, minnau a safaf  
 O bai trwy golled i'm byw tra gallaf,  
 O blaid ein heniaith bur rwyddiaith bereiddiaf  
 Iawnfaith ei geiriau, hon fyth a garaf,  
 Diwyd fyth y dadweuaf—ei mydrau  
 Ac yu ei rheolau ceinwiw 'r eiliaf.

Hir boed eu helwant i wŷr bydolion,  
 Dwys aur ac ariant dewis ragorion,  
 Glandeg anifeiliaid, defaid dofion,  
 Hyd gŵr eu maesydd, da grymusion,  
 I *ninnau* boed *Awen* union—addfed,  
 A chael ystyried ei chu lais tîrion.

Dilyn glwysgain dda fadiain ddefodau  
 Uniawn a didwyll ffyrdd ein hen dadau ;  
 Chwarae y delyn a charu'i diliau,  
 Euro cu addas rywiawg gywyddau,  
 Dwyn oes addas dyna swyddau—mwynlon  
 I bruddaidd galon a bair ddydd golau.

O ber wiwdda sylwi Bardd iselaf,  
 Ichwi diolwch yn iach a dalaf,  
 I'r Gwyneddigion, dynion di anaf,  
 Cymry o galon, dwysion dewisaf,  
 Da o'm enaid dymunaf—mewn iawn bwyll  
 Yma yn ddidwyll Amen a dd'wedaf.

---

## A W D L

*AR GREULONDER AT GREADURIAID MUDION.*

---

GAN Y PARCH. DANIEL EVANS.

---

AWENYDD derydd dirion,  
 Y Dduwies lwys ddewis lon,  
 Da medri di ymadrodd,  
 Oreu fun, o bob rhyw fodd.—

I roi'r clod i arwyr clau,  
 Dien erfawr dan arfau,  
 A darlunio drwy laniaith,  
 Maes y gwaed nid maws y gwaith,  
 I oreuro arwyrain  
 A genau gwiw i Gwen gain;  
 Yn fynych, seirian Fanon,  
 Gelwir di âg eglur dôn,

A mynych i'r dymuniad,  
Iawn fun, y rhoi glust yn fâd.

I swydd arall, fwyngall ferch  
Union, yn awr dy annerch  
Anturiaf fi, hynt hoywrydd,  
Ac imi rho gamau rhydd.

Cân yn awr, sywfawr y sôn,—yn felys  
I'r 'nifeiliaid mudion :  
Croywlais eu cyflwr creulon  
Darlunia mewn dinam dôn.

Yn y dechreuad o'i gariad gorau  
Ior da a greawdd amryw deg rywiau  
O greaduriaid, gwir ydyw ei eiriau,  
Erfawr bur iawnwaith ar fŷr a bryniau,  
A gwiw roddodd ar bob graddau —'n benaeth  
Adda, ŵr odiaeth, ddeheuwiw radau.

Pob mil truan gwan sy'n gweini—i'r dyn,  
Drwy ordeiniad Celi;  
Ei arch, o'r cadfarch i'r ci,  
A ddysgant yn rhwydd wisgi.

Union Nâf, er hyn ein Ner—iawn hoywffur  
Ni hoffa greulonder,  
At un rhan hyd anian der,  
O'i lanwaith, nefawl wiwner.



Diau erchyllaidd ydyw archollion  
 I hir ddoluriaw yr eiddil wirion,  
 Anifail dystaw dan hirfraw oerfron;  
 Beius yw taro y baw-was tirion  
 Cynnill na wŷyr d' amcanion—na goddau\*  
 Yr holl regiadau a'r hyll ergydion.

Cwyd d'olygon  
 I'r nef hoywlon  
 Lwys a gwiwlon lys y golau;  
 Yno bythol  
 Mae'n drigiannol  
 Ynad dethol arnat tithau.

I ddyn o rhanwyd, addien y rhinwedd,  
 Holl arglwyddiaeth y gre'digaeth degwedd  
 Hynodwych 'wyllys, enaid a challedd  
 A mirain rodio mewn mawr anrhydedd  
 Ei swydd ddilyth fyth hyd fedd,—boed er Nâf  
 Gwaredu'r salaf greadur iselwedd.

Ddewis dra gwirion Dduwies Trugaredd,  
 Merch Duw ei hunan, mor iach dy annedd,  
 Iawnaf wên felys yn Nef anwylwedd,  
 Y fun wyrenig wiwfwyn eirianwedd,

---

\* Bwriad.

Ymwel â'r fron hon mewn hedd,—er mawrles,  
A dysg i'm monwes wiwdasg amynedd.

Dos fy eglurwen feinwen fanol,  
Lle y mynnwn rhodiwn, waith rheidiol,  
Loywlon deithwyr, lawlaw'n odiaethol,  
A da ystyriwn yn dosturiol,  
Oer gur a chyflwr garwol—ymilusgiaid  
A phob chediaid hoff bywydol.

Y gynnes Dduwies lwys dda,—gu hoywlan,  
O gweli greulondra,  
Im' yn hygar mynega,  
Y galar hyll eglurha.

Dacw'r addien darw madien yn rhwymedig,  
A'r huad aflan anwar a diefflig  
Yn darnio y cnawd o'i drwyn cnöedig,  
Fal uffernawl arw anghenfil ffyrnig,  
Rhuadau'r gwan curedig—yn gynnar  
A oer ergydia'r awyr rwygiedig.

A Christionogion, dynion di enaid,  
A gu orfoleddant fal geirw fleiddiaid,  
Chwarddant a chanant wrth bob ochenaid,  
Mal anhoffolion a milain ffyliaid ;  
Dyrys ddifyrwch diriaid—ry greulon  
A esyd dynion, Ow, yn Sataniaid!

Chwerwon geiliogod, hynod ddihenydd,  
 Afrywiawg elwir i friwio'u gilydd,  
 Diau ammhur yw y cur a'r cerydd,  
 Y gwaed a dan i gyd eu hadenydd,  
 A dynion mewn dywenydd—gwynfydant  
 Pan eu gwelant, ba'nd pena' gywilydd!

Dacw'r aderyn ar frigyn fawr agwedd,  
 Mwyngu awr felys mewn gwiw orfoledd,  
 Cu ŵr hynaws, yn cyweirio'i annedd.  
 Da iawn arafwaith dien a rhyfedd,  
 Hydera'n ei dŷ eurwedd—am feibion  
 Deraf iawn hoywlon wiwdorf anwylwedd:

Daw creulonwas diras mewn bradwriaeth  
 Ammhur alanastr a mawr, elyniaeth,  
 I rwygo'i adail oreugu odiaeth,  
 Brudd anwiw helynt, bâr ar ddynoliaeth,  
 Dwyn o'i goel lwysfad yn gaeth—ei feibion  
 I boen, weis tirion, heb iawn ystyriaeth.

Cyni y rhieni cain wŷr union,  
 Pwy a iawn draethai a'u poen, dewr weithion,  
 Gwyw byth y tôrwyd eu gobraith tirion,  
 Hirloes anhyfryd, o'r lwys wen hoywfron;  
 Gulweis a thrymaidd galon,—am eu plant  
 Y galarant ar y gwïail irion.

Wele'r gwenyn yn dŷn a daionus,  
 Yn sugnaw'r meillion yn hoywlon hwylus ;  
 Yn dwyn eu trysorau, pŷnau poenus,  
 Ar hoff adenydd yn wir ffwdanus,  
 I lenwi'n anwyl hoenus—eu hannedd  
 Hygaraf fadwedd rhag awr ofidus.

Dwylaw dyn yn sydyn ymosodant  
 Ar eu holl dlysau gorau a garant ;  
 Eu mirain dŷrau mawrion a dŷrant,  
 Yma wŷr ë'on ni ymarhoant,  
 Eu bywydau ni arbedant ;—mewn bedd  
 Hyllaf agwedd, yr holl lu a fogant.

O dygi eu trysor, dig y trosedd,  
 Ow yn dra gerwin heb un drugaredd ;  
 O tŷri eu muriau tŷr a mawrwedd,  
 (Nid tra hynawsaith ond truenuswedd)  
 Estyn iddynt, hynt mwyn hedd,—eu bywyd,  
 Gwirionaid diwyd gwâr hynod hoywedd.

Yn y gauaf dŷ oeraf a diran,  
 Gwael newynllyd drigolion y winllan,  
 Wiwdda wŷr hoywdlws, a ddaw i'r ydlan,  
 A dwys ofynant, dewisaf anian,  
 I'w maeth y gweddillion mân—di rinwedd,  
 Iawn deulu.mygwedd, yn dâl am hoywgan.

Enaid dyrus, onid diriaid  
 Troi i annel y trueiniaid,  
 Lladd â gŷnau llwydd y gweiniaid,  
 Dirion hoywlywys der anwyliaid.

Dy ddiddanwch,  
 A'th ddifyrwch, waethaf fwriad.  
 Yw eu clwyfo,  
 A'u dolurio, dial irad.

Fa beth, ddyn, bryfyn oer brau,—o carai  
 Duw cywiraf gorau  
 Doethwch, dy boeni dithau,  
 Dy friwio a'th glwyfo'n glau?

I bryfyn llibyn y llawr—neud amlwg  
 Yr un deimlad dirfawr  
 Dewisfab, dan boen dwysfawr  
 Y sydd ac i gelfydd gawr.

Clywaist flin hirflin oerfloedd—anifail  
 Dan ofid yn gyhoedd;  
 Heb achos, dios, nid oedd,  
 Nodiad o'i boenau ydoedd.

I *ddyn* goleurydd, enau—a roddwyd  
 I arwyddo'i loesau,  
 A thafod er clydnod clau,  
 I ddangos ei ddu ingau;

A barn ar gadarn a godo—'i ddwyllaw  
 Yn ddilesg i'w daro;  
 A choesau ffest ni chais ffo,  
 A mawrwas yn ymeirio.

*Anifail* miwail a mwyn—o clwyfaist,  
 Ddrwg glafwaith anhyfwyn,  
 Pan oddef pwy yn addwyn  
 Dêg was a wrendy ei gŵyn?

O mÿni'n hael gael ymgeledd—gan Nâf,  
 A gwiw nawdd er trosedd,  
 Egora ddôr trugaredd  
 At fil gwan it' fal y gwedd.

Gwel loesau y gwael asyn,—a'i benyd  
 A'i boenau diderfyn;  
 Dan lidiawg orphwyllawg ffyn  
 Ei dda ochrau a ddychryn.

Nid cyfiawn, iawn ydyw cofio—y caiff  
 Y ceffyl ei droedio,  
 Drygwaith ar faes i drigo,  
 Yn ŵr henaidd, drymaidd dro.

Rhydew fochyn mae'n rheidiol—egwanwas,  
 Ei gwynaw'n dragwyddol;  
 E'i gÿrir mewn modd garwol,  
 Ar hirdaith er ei faith fòl.

Er ariant, drachwant rhy drechus,—pob pwn,  
 Pob poenau gofidus,  
 Yn ddir a roddir heb rus  
 Ar anifail, awr nwyfus.

Ciaidd a digaidd yw dyn,  
 Hyll wedd, at bob gradd a llun  
 O gre'duriaid euraid Ion,  
 A chreulonaidd fal blaidd blin.

Ond iawn iddo  
 Fyth fyfyrrio,  
 A dwys synio, da wasanaeth,  
 Y geilw'r penaf  
 Dduw goruchaf  
 I farn iawnaf ei frenhiniaeth.

Mawr ei lwydd, dedwydd y dyn,  
 A arbedo'r abwydyn,  
 A wrendy lais tirionder  
 At holl faith anwylwaith Ner.  
 A gofio yn gu hoywfad  
 Pa Bor dwys, pa wiwbur Dad,  
 A'i lluniodd ar holl anian  
 Yn arglwydd glwysrwydd a glân;  
 A ystyrio'n ddwys dirion,  
 Mai o gariad iawnfad Ion  
 Yr ydym ni yn rhodio,  
 Puraf gred, uwch pryf y gro;



Mai iawn yw rhoi am ein rhad  
 Gair dilys gorau daliad,  
 Drwy noddi'n dirion addwyn  
 Holl waith ei law fangaw fwyn.

---

**A W D L.**

*MARWNAD I'R DIWEDDAR BARCH. ELIEZER  
 WILLIAMS, A. M.*

Periglor Cayo a Llansawel, yn Swydd Gaerfyrddin, a Llanbedr,  
 yn Ngheredigion.

---

**GAN Y PARCH. DANIEL EVANS.**

---

GALARUS i'r gwael weryd  
 Wych awen fach, o wyn fyd,  
 Troi'r olwg trwy oer waywloes,  
 A dilyn hynt wael ein hoes,  
 O'r byd edrych draw i'r bedd,  
 Ac o haelfyd i'r culfedd.

A di lai, f' awenydd dlôs  
 Oruchel, hyn yw'r achos  
 It' dewi cyd am deg gâr  
 Diwael, fu dro mewn daear.  
 ELIESER per purwedd,  
 WILLIAMS bach a glymwys bedd;

A dios achos ochi,  
Awen fwyn, yw hyn i fi.

Oedd dda gyfaill haeddai gofion  
Am wir gariad im' ŵr gwirion ;  
Loes i giliau y lwys galon  
Gloi am wyneb Gwilym union.

Fy Athraw\* hylaw hoywlyws—a gwiwlon  
Fu Gwilym oreuddwys ;  
I'm oerddû fron cur mawrddwys  
Wirion gâr, ei roi'n y gŵys.

Mae'n rhaid i'm henaid ddihoeni—('mswynaf !)  
A'm synwyr wallgofi,  
O Wilym, cyn yr eli,  
Y cuaf ŵr o'm cof i.

Tra'r gwaed yn têt ergydio—trwy'm monwes,  
Tra'm anadl yn effro  
Rhaid im' fyth er dim a fo  
Fy hen gyfaill fwyn gofio.

---

\* Awdwr y gân hon a gafodd ei ddwyn i fynu dan ofal athraw-  
iaethol y Parch. Elieser Williams, cyn ei ymsymud i Rydychen :  
a chydâ mynych golli dagrau y mae efe yn adgofio parodrwydd  
ei gariad, tynerwch ei gynghorion, hynawsedd ei ymadroddion,  
a doethder ei barabliad.

Ei ddoniau fy ddiddanwch,—ac eli  
 I'm calon mewn tristwch ;  
 Geiriau ei gyfeillgarwch,  
 Dda ŵr llon, ni ddaw o'r llwch.

Er dâl, er cynnal cŵynion—briw enaid,  
 Er bronau hiraethlon,  
 Mwy ni chlywir, ar dir, dôn  
 Ei ddoniawl ymddyddanion.

Ei lygad oedd fâd, oedd fyw,—a siriol  
 Fal seren oleufyw,  
 Gwelw yn awr yn y glyn yw,  
 Boreu fwyd i brÿf ydyw.

Beirddion teg, o briddo'n tad,—yn gydwedd  
 Iawn godwn alarnad ;  
 Y genau lle bu ganiad  
 Di 'stwr a mud yw ei 'stad.

Yr awen gu, eirian ei gwedd,—gollodd  
 Ei gallu a'i mawredd ;  
 Wyla fyth ar ael ei fedd  
 Heb un gair tra bo'n gorwedd.

Ydoedd ieithydd,  
 A duwinydd,  
 Ac hanesydd gwiw hen oesau ;

Fe fu'n odiaeth  
 Bleser helaeth  
 Ei farddoniaeth i fyrddiynau.

Ond er doniau,  
 Rhagoriaethau,  
 Dewis raddau a dwys roddion,  
 Beddrod obry  
 Ydyw lletty,  
 Du oer wely daearolion.

Bydd wych, os i'r rych oedd rhaid  
 It' hedeg at dy wiwdaid ;  
 Dos yn iach, ni thâl achwyn,  
 Yn ol y câr ni eilw cŵyn ;  
 Etto'n glau dagrau ar d'ol,  
 Rhedant er nad yw rheidiol ;  
 Dy lân reddf a'th gynneddfau  
 A gaiff eu hir wiw goffhau.

Yn dy hapus  
 Annedd iachus  
 Iaith anhoenus, a thi'n huno ;  
 Gan Frythoniaid  
 Bydd yn ddibaid  
 Taer ochenaid hir a chwyno.

Dy gu eiriau, dy gariad,  
 Yn ffynnon o rwyddlon rât,

A redai yn wir odiaeth  
 Fal y llif o fel a llaeth.  
 Megis brawd ymgais a bri  
 Dy enaid oedd daioni ;  
 Daioni i bob dynion  
 A hwyliai fryd dy hael fron.

Dwyn o bwll yr adyn bach,  
 O bur egni heb rwgnach ;  
 Rhoi ei gynghor rhag angen  
 Yn hael i ieuanc a hen ;—  
 Rhoi'n ddistaw o'i law a'i lys  
 A allai o wir 'wyllys ;—  
 Gweini'i rodd i'r gwan ei rym  
 O galon a wnai Gwilym—

A chwyno os nid ychwaneg

Fel Cristion, dros y fron freg.\*

\* Friwedig.

Fel anwyl dad, ddi frad fron,  
 Yn gwblwedd i'w ddysgyblion,  
 Oedd Williams, ac ni ddaliai  
 Hir wŷg am fawr-ddrwg neu fai.

Da ystyriol dosturi

A lanwai'i fron, lanaf fri ;

A chlywai, pan godai gais,

Afradlon ei hyfrydlais.

Ei gywir ddwys gerydd o

Wr boddus, f'ai rhybuddio,

A gwiw arddangos y gwall

A'r ing a ddoi i'r angall.

Araf fwyn eiriau o fel  
 I'r un diwyd roe'n dawel,  
 Ac ethol annogaethau,  
 Dynwr was, o dan yr iau.

Oedd ganwyll yn hardd gynu,  
 Wawl llon, i oleuo llu;  
 Diwygiai y gym'dogaeth  
 A'i addysg i'n mysg er maeth:  
 O falchder ofer afiach  
 Ei dirion ddwyfron oedd iach;  
 Iawn fugail i'w gail deg oedd,  
 Gweinidog y gwan ydoedd.  
 Siomwyd torf dy symud di,  
 Frawd hyfwyn, o fro Teifi;  
 Wylwn oll am alw o Ner  
 Oleu'n byd o *Lanbeder*,  
 A rhoi i bwll oer y bedd  
 Da ganwyll De' a Gwynedd.  
 Y dydd yr aeth ef dan dô  
 Llauer ael fu'n llwyr wylo;  
 Yr awr yr aeth i'r oer-rych,  
 Ni bu son am wyneb sych.

Was cyfiawn, melus cofio  
 Ei der ddwys ymadrodd o,  
 Yn wiw ddysg o'i enau ddaeth  
 Ar wely ei farwolaeth.\*

---

\* Ei ymadroddion, ychydig cyn awr ei angau, â dau neu dri gwyr ieuainc, offeiriaid, a ddygid i fynu dano, oedd ryfeddol

Dan ei boenau,  
 A'i ddu loesau,  
 Ar awr angau, er yr ingoedd,  
 Bu i'w nerthu  
 A'i ddyddanu  
 Crôg yr Iesu, craig yr oesoedd.

ddwys a chyffrous. "Chwi welwch," ebe fe, "nad yw dysgeidiaeth yn yr awr hon (awr marwolaeth) o ddim lles heb dduw-ioldeb. Rhaid i gorff gwael y dysgedig a'r annysgedig, yn ol ychydig ddyddiau o ofalon a helbulon, ddychwelyd i bridd y bedd, ond yr unig sylfaen gadarn a saif ar awr angau ac yn wyneb y tragywyddol fyd yw duw-ioldeb. Byddwch," meddai efe, (a chydâ phwyslais ac egni rhyfeddol y dywedai y geirian,) byddwch ffyddlawn Weinidogion Crist." Meddai efe, wrth ei blant ag oedd yn llefain o'i amgylch cyn ei ymadawiad, "Fy mhlant anwyl, yn llefain y daethoch i'r byd, ac fe allai yn llefain yr ewch trwy y byd, ond gobeithiaf y byddwch yn canu wrth fyned allan o'r byd."

Ni gofiwn dy hynawsedd a'th eiriau rhyfedd rhad,  
 A roddit i'th 'Sgolheigion, ŵr tirion, fel eu tad;  
 Ni gofiwn fyth mor heini' yr o'it i godi'r gwan,  
 A gwneyd dros bob cyflyrau neu radda'n fwyn dy ran.

Ffarwell fy nghâr anwylaf a rhwyddaf i's y rhôd,  
 I ti mewn hyfryd ardal mae heddyw dâl yn dod,  
 I dderbyn meibion Cariad gan Dduw mae gwlad a gwledd,  
 Lle trigant dan ei gysgod yn hynod iawn eu hedd.

I ninnau, Dduw'r gwybodaeth, rho helaeth galon hael,  
 I deimlo'n bêr a mwyn-lân fyth dros y gwan a'r gwael;  
 A dilyn Iesu isel gan dawel gofio'r dydd  
 Ein gelwir o'n mynwentau a'n rhwymau oll yn rhydd.



Diammeu gofid yma gafodd,  
 Ei iawn fron wiriawn a fraenarodd ;  
 Croesau, addoer boenau dderbyniodd,  
 Ei dda hoyw enaid a ddihoenodd :  
 Er hyn mae gan Rhenn\* y modd—i wellhau,  
 Coeliaf ei eiriau, 'r clwyf a yrodd.

Y mae tiroedd a gwiw lysoedd glwysion,  
 Y mae caerâu, neuaddau newyddion,  
 Man nad oes gweli† mewn un dwys galon,  
 Na chwerwaidd ddufrad na chur i ddwyfron,  
 Ond dethawl ber ddanteithion—ar fwrdd gwych,  
 Da einioes hoywych, ein Duw yn Seion :

Ac yno yn drigiannawl—mi goeliaf  
 Mae Gwilym fwyneiddiawl,  
 Gwỳn ei fyd, a'i gân o fawl  
 I'w Dduw union yn ddoniawl.

A'i dywedodd Duw ydyw,  
 A gair y nef gwir in' yw,  
 Mai CARIAD, anwyfad naws,  
 A ddilëa ddû liaws  
 O feiau'n egwan fywyd  
 Ar ein taith i fawrfaith fyd.

---

\* Arglwydd.

† Clwyf.

Oedd anwyl i'w gyd-ddynion,  
 Anwyl yw yn nheulu Iôn;  
 Holl lu y nef llawen ynt  
 O'i roddi'n gymhar iddynt.

Pan aeth i fysg penaethiaid  
 Y nef ar orchfygawl naid  
 Bu'n fud dros ryw fynudyn  
 Cerdd eu Duw er cwrdd â dyn,  
 A'r Iôn o'i fainc, eirian fodd,  
 Adwaenai,—a Duw wenodd.

---

## CYWYDD Y FESEN.

---

GAN Y PARCH. DANIEL EVANS.

---

OLEURYDD awenydd wâr  
 Barablddoeth hoywgoeth hygar,  
 Eilia'n gynnes i'r Fesen,  
 Ddidraws bur gân dda dros ben;  
 Yn glaurwydd gwna'n eglurach,  
 Ei mawr fudd, a hi mor fach.

Yn sywdeg hon osodir,  
 Ferch groenwen, îs tonnen tir;

A gwiwrwydd cwyd yn gawres,  
 Eilwaith o'r pridd llaith er lles;  
 Cymmalog uwch cwm helaeth,  
 Ehed i'r sêr, mal dewr saeth;  
 A'i breichiau yn gwau'n y gwynt,  
 Ymwria fry â'r mawrwynt.

Er temestloedd yn bloeddiaw  
 Aruthr glych, er rhuthrau gwlaw;  
 Er siglo a briwio'i bron  
 A chorn corwyntoedd chwynion;  
 Arw twrf, er crynu o'r tir,  
 O'i thrigle hi ni threiglr;  
 Er bwrw o'r gwynt ar hynt rhydd  
 Ei gwallt o ddeutu'r gelltydd;  
 Heb annwyd saif yn bennoeth,  
 Mal Arglwyddes gynnes goeth;  
 Mae hi'n cysgodi adar,  
 Mwyn swydd, yn ei mynwes wâr;  
 Yn llu yn hon llawenhant  
 Nosweithiau, ac ni sythant.  
 Yn gywrain daw brain ein bro  
 I ddwyfron hon i huno,  
 A godidog y dodant  
 Ynddi nythau gorau gânt;  
 Caen' syw dy, cynnes i'w dal,  
 Un castell ni chan' cystal,  
 O daw gelyn dig'wilydd  
 I speilio'u gloyw dŵr hoyw rhydd,

Arfogant yn fawr fagad,  
 A garw stwr ar gwr eu stad ;  
 Codant yn filwyr cedyrn,  
 Tröant a chwythant yn chwynn ;  
 Eres oll y gweryllant,  
 Rhag aflwydd i'w plwydd a'u plant.

Yn ol glân ymlydanu,  
 Gwel y Fesen geinwen gu,  
 Fawr drefn ar y ce'nfor draw,  
 I *Amerig* yn moriaw.

Hi a gynnwys yn ddwys dda  
 Filoedd yn ei mawr fola ;  
 A deil ar ysgwydd y dòn  
 Lwyddiannus lu o ddynion.  
 Mynych gwel, rhyfel îs rhod,  
 Mewn mesen mae'n ymosod ;  
 Gloywdeg rhoir arfau gwledydd  
 O fewn ei chroth fwyniach rydd ;  
 Daw i maes o'i cheudod mawr  
 Trymion daranau tramawr :  
 Llef oer, uwch swn llifeiriant,  
 A ffrydiau ugeiniau gânt :  
 Swn hynod gan lewod lu,  
 A myrddiwn o deirw mawrddu.  
 O'i wirfodd y dewr forfil,  
 Chwynnai cawr, mewn dychryn cil  
 Y'mhell, gan fantell o fwg,  
 O'r gwawl ni welir golwg.

Gwir mae'r Fesen ddienn dda,  
 Yw dy benyd di \*BONA.  
 Ni thraethir er poeni'r pen  
 Fisoedd, holl waith y Fesen,  
 Dwys hygar dywysoges,  
 Yn llong, mawr iawn yw ei lles ;  
 Ar wendon hed i'r India  
 Ymaith, dwg bob moethau da.  
 Holl ddychryn diderfyn dig  
 Y ddudon fawr chwyddedig,  
 A gorwyllt riedr geirwon  
 Ni rwystrynt mo helynt hon.  
 Ydd ynyd foroedd anferth,  
 Weithiau yn eu carthau certh,  
 Yn hyll wancus a'i llyucant  
 I lawr i'r chwerw a'r berw bant.  
 Cyfyd eilwaith o'r ceufor,  
 Rhed i maes o rwyd y môr ;  
 A naid o'i draflwnc yn ol,  
 Ganwaith yn gynt nâ gwennol.  
 Llwgwr hwy a wel'sai Lloegr hen,  
 Oni fuasai'r fwyn Fesen.  
 Llewndid trigolion Llundain,  
 A phob trefydd celfydd cain.  
 Iach wiwfun yn ei cheufol  
 Dalir bwyd i lawer bol ;

---

\* Buonaparte.

O'r glasfor draw daw i dir,  
 A deugeiniau digonir :  
 Lleinw o ffrwythau pellenig,  
 Diwall y tro, 'r wlad lle trig ;  
 Trwy'n hynys pob llys sy'n llawn  
 O eithaf bêr ddanteithiawn :  
 Gwenu ym mhob digonedd  
 Mae Prydain gywrain ei gwedd.  
 Gorau o brennau'r bronnydd  
 I'w pherchen y Fesen fydd ;  
 Gloyw y daw dan glo daear  
 I bwll cul pan ballo câr.

Doed barn cydwybod arnoch,  
 O roi mes i besgi'r moch :  
 Dwys holwch a'i disylwedd  
 Eu gwaith os distadl eu gwedd.  
 Trwy 'mywyd nis tro miwyach  
 Dan droed mo'r wên fesen fach.  
 Dyma hyder llawnder llon,  
 A gwrolbarch gwâr *Albion*.  
 Tra mes o ddotu'r meusydd,  
*Brittania* wên yn ben bydd.

*Rhydychen, 1814.*

## AWDL I'R GWANWYN.

---

 GAN Y PARCH. DANIEL EVANS.
 

---

Yn awr, yr arddwr gwr rhagorol,  
 A â i'r maes yn wir ormesol,  
 I droi â'i aradr yn der wrol  
 Y ddaear lwysaidd irwiw lesiol,  
 A rhoi hâd fal mae'n rheidiol—i'w harffed  
 A ga o'i nodedd yn gynnyddol.

Y tymheststloedd, floedd arw flin—hedasant  
 A'u diserch lais oerflin ;  
 Daeth nefolaidd hafaidd hîn,  
 A glwys agwedd glas egin.

Daeth y Gwanwyn mwyn a mad—i filoedd  
 Yn felus iawn gènad,  
 A'i lewyrch yn oleuad,  
 Ar uchelfryn a glyn gwlad.

Yr haul per araul pur eirwawr—bywlon  
 A'i belydr dysgleirwawr,  
 Sy'n bywhau llyisiau'r llawr  
 Trwy ei wiwnerth tirionwawr.



I fywyd dwg yn fuan—yn hoywdeg  
 Bob hedyn bach egwan ;  
 Ei lygad glwysfad a glân,  
 Rydd enaid i wraidd anian.

Y ddaear hygar ei hagwedd—yn awr  
 Mewn eres orfoledd ;  
 Ei mynwes gynnes geinwedd,  
 Egyr hon â gwawr o hedd :

A daw myrdd o bryfed mân—o honi  
 Yn heinif iawn allan ;  
 A theimlant, teg lwyddiant glân,  
 O'u mewn fywyd mwyn fuan.

Mae meillion gwynion ugeiniau—lliwdeg  
 Yn dilladu'r caeau ;  
 A gwisgir paentir pob pau,  
 Fel Eden a heirdd flodau.

Yn awr pob gardd hardd ei hurddas,—gwena  
 Yn geinwych ac irlas ;  
 Llawn o glod yw pob llwyn glas  
 Gosgeddig, mewn gwisg addas.

Llawenydd sydd drwy'r llwyni ;—gwâr adar  
 Yn goreudeg odli :  
 Clyd fwriad yn clodfori  
 Awdwr nef a'n daear ni.

Ar y coed daw'r cawodydd—iawn anwyl  
 I eneinio'r gwinwydd;  
 Gwlaw gwresog a rywiog rydd  
 Yr eginau ar gynnydd.

Yr hwsmon, dirion ŵr da,—ar ei wych  
 Oreu waith pan sylwa,  
 Yn wirfoddus rhyfedda,  
 Gwenu'n anwylgu a wna.

Ar foreuddydd  
 Yn gywreinrydd  
 Yr uchedydd ar iach aden,  
 A'i mawl gywydd  
 Fry i gaerydd  
 Ion ein llywydd â yn llawen.

Draw y gwelir yn dra golau—yr ŵyn  
 Eirianwedd yn chwaraau;  
 A gwyllt mae eu traed yn gwau,  
 Ber anian ar y bryniau.

Llwyr ddefnyddiwch tra meddwch eich moddion,  
 Oriau ieuentid a hyfryd hoywfron,  
 Neidiwch, byw redwch a ch'lonau brwdion;  
 Ni welasoch, etto, anwyl weision,  
 Aua, nac eira, nac oerion—wyntoedd,  
 A bair ryw gannoedd heb ri o gŵynion.

Bore einioes yw, mae'r bryniau—'n desog,  
 Dewisaf fynudau ;  
 Iach a diddan yw'ch dyddiau,  
 Mewn hoen boed ich' eu mwynhau.

Na ragwelwch wyr gwiwlon—y gyllell  
 A'r gwellaif awchlymion ;  
 A dwyn gan ddwylaw dynion  
 Eich dillad mewn brad o'r bron.

Awr y gwanwyn ry ugeiniau  
 Fwynaf loywdwf o fân flodau ;  
 Gwyn a llonwawr y gwinllanau,  
 Gwyrdd a deiliog gardd a dolau.

Yn y Gwanwyn daw'r gu wennol—loywdeg  
 O wledydd estronol ;  
 Gwestai ydyw gwastadol,  
 Yr awrhon ar dôn a dôl.

Yn gynnar pob giâr, wraig eirian—happus  
 Ei heppil try allan ;  
 O'i hol yn lliaws hoywlan  
 Y daw'r gwyr a'u diwair gân.

A'i gwiw ewinedd i'w gweinion—lwysblant  
 Dwg faethiant dêg foethion ;  
 Daear chwilia drwy'i chalon  
 Am bryfed ar lled yn llon.

I rodio mae'n oreudeg—hyd waelod

Y dolydd mwyn irdeg,

A gwrando ar gywreindeg

Lais yr afon dirion dêg.

Yn awr yr adar a gynnar ganant,

Oll ar y manwydd, lle yr ymunant

Yn briodasol; (manol eu mwyniant,)

Mewn bwriad hoywych mwyn barotöant

Deiau plyf i gadw eu plant—anwylion,

Rai addas gwiwlon, a wir ddisgwyliant.

Eu hygar annedd a hoyw gywreiniant,

Gwiw eithaf seiri, eu gwaith fesurant,

A chlai y mwswm yn awchlym asiant,

Blew mân a sidan yng nghyd osodant;

O foddion oll ganfyddant,—fo gweddaidd,

Yn lladronaidd i'r unlle dirwynant.

Fwynweis gwahanol fanau—dewisant

I osod eu teiau;

Rhai'n uchel ar ben prenau,

Rhai mewn lladfrwyn a brwyn brau.

Rhag chwerwder a digter dyn

Ceisian, iawn buchiant bob un,

Ryw fan draw nas daw ei dôn,

Er eu mawr gur na'i sur swn.

Y *fran* yn yr awyr fry,  
 Gwiwlyws y gwna ei gwely;  
 A'r *dryw* addas, gwas gwan,  
 O'r golwg dan ryw geulan:  
 Ni welwyd tŷ anwylach,  
 Cul yw y drws byrddrws bach,  
 Rhag bysedd digllonedd llanc,  
 Gywir ofal a'i grafanc.  
 Eu had coledda'r adar,  
 Mal dynion, weis gwirion gwâr;  
 Eu cynnydd a fydd yn faeth,  
 Mawr alar eu marwolaeth.

Drwg erchyllwaith,  
 Hagr elynwaith,  
 A dyryswaith, wiw der weision,  
 Dwyn eu hethol  
 Blant iachusol,  
 Gwywo, bythol, eu gobeithion!

Oer ran y mwyn rieni—i'w galar,  
 Gwaywloes, a chaledi;  
 Llawinion y cwyp o'r llwyni  
 Dagrau 'nawr i'r llawr yn lli'.

Y fam ar y brigyn fydd—(gwely oer)  
 Yn galaru beunydd;  
 Ei meibion tirion, terydd,  
 Anwylgu, darfu eu dydd!

Gan ofidio,  
 Dwys och'neidio,  
 Troi ac wylo, tŷr y galon,  
 Drom aflonydd  
 Ar y gwinwydd,  
 Wynias gerydd, yn ysgyrion.

Tirion yw holl naturiaeth,—mor gynnes  
 Mor gain yw'r gre'digaeth;  
 Holwn trwy ba law helaeth,  
 Mor fwyndeg, mor deg y daeth.

A gawn ni sylwi ar gynnesolion  
 Belydr yr Haul, fawrgu araul goron;  
 A gawn ni weled mor hoywgan wiwlon  
 Gannoedd o ellydd gynneu oedd wylltion,  
 A glwyswawr ddolydd gleision—heb rod-di  
 Da fawl i Geli â dyfal galon?

Am a feddwn  
 Ac a welwn,  
 Iddo dygwn haeddedigol  
 Glod yn barchus,  
 Ein Tad cofus,  
 Iawn haelionus, anelynl.

Trwy ei gènad,  
 A'i ordeiniad, Ior da union,



Pob hyfrydwch  
Neu ddiddanwch ddaw i ddynion.

Heb weniaith gwedd in' beunydd—dy gyfiawu  
Adgofio, Duw Ddofydd :  
Gwanwyn a phob rhyw gynnydd,  
Tad yr hael, tydi a'i rhydd.

Gwelir di Geli gwiwlan,—yn yr ia,  
Yn yr awel fwynlan ;  
Yng ngwellt, dwr, yng ngwylt darau,  
Cawod a mellt ac ôd mân.

*Ebrill, 1822.*

---

## ENGLYNION

I Hen Wr yn galaru herwydd marwolaeth ei oedranus Gyn-  
mares, â'r hon y buasai yn briod ragor nâ 60 mlynedd.

---

GAN Y PARCH. DANIEL EVANS.

---

Anniddan yw fy nyddiau,—a phoenus,  
Gorphenodd mwynderau,  
A gwÿnodd y gwallt gwinau,  
Oedd gynt yn y gwynt yn gwau.



Dihoenodd y traed heini—o danaf,  
 Y doniau sy'n soddi ;  
 O'u gwirfodd mae'n diffoddi  
 Y ddau lygad fad, Ow fi !

Hanner byw yn awr yw bod ;—fy oriau  
 A fwriad mewn trallod ;  
 Daeth yn rhwydd annedwydd nôd,  
 Gyrfa henaint i'm gorfod.

Gyda meirwon mae'm hen gydmares—fu  
 Oreu fwyn gyfeilles,  
 I'r fynwent aeth o'r fonwes,  
 I'r llwch pan oedd fawr ei lles.

Gwanaidd a henaidd oedd hon,—yn nychu  
 Dan awchus flinderon ;  
 Etto rhoddai lluniai'n llon  
 Ei siarad ryw gysuron.

Oedd i mi un ddiarnhur,—a rannai  
 I'r enaid fawr gysur,  
 Oedd un dan bob gwrthun gur,  
 A fwyn welai fy notur.

Unigol wyf o wan agwedd—nesu  
 Mae noson fy niwedd ;  
 Ar fyr yr âf i orwedd,  
 O glyw byd i glai y bedd.

Mawr gysur mewn cur oer caeth—i'm meddwl  
 Yw moddion Rhagluniaeth ;  
 Duw Ior mwyn, dy air yw'm maeth,  
 A'm eli dan drwm alaeth.

Duw'r cariad ein tad wyt ti—Duw â llais,  
 Duw â llef tosturi,  
 Ein lles iawn ewyllysi,  
 Ior mad, medd dy air i mi.

I dy eiriau fyth hyderaf—finnau  
 Am fwyniant, a chredaf,  
 Uwch bedd, er camwedd, y caf  
 Gu deiau nas gadawaf.

Gorweddaf, hunaf mewn hedd,—a ngwely  
 Yng ngwaelod y dyfnfedd ;  
 A thrwy Naf caf o'r ceufedd  
 Etto fyw tu hwnt i fedd.

Caf yna ym mysg cyfiawnion—drigfa  
 Heb un drygfyd weithion,  
 O gyrraedd gwaeau oerion  
 Angau a'i rwyg—yng Nghaer Ion.



## ODE ON THE DEATH OF SIR THOMAS PICTON.

---

 BY THE REV. DAVID ROWLAND.
 

---

O wake the lyre, ye minstrels hoar,  
 The deep ton'd strings of sorrow sweep;  
 For Cambria's hero is no more,  
 Around his tomb her daughters weep.

Weep on ye forms angelic,—pour  
 A flood of tears upon that tomb;  
 A mightier warrior ye deplore,  
 Than any son of Greece or Rome.

Brave Picton, son of Victory,  
 His life-blood shed this realm to save;  
 The arm, that set all Europe free,  
 Lies nerveless in the clay-cold grave.

He left the world a legacy,  
 Peace profound and prospects bright;  
 His works achieved, his soul burst free,  
 And wing'd her ways to realms of light.

Who can recount each daring deed,  
 The feats of valour he perform'd  
 The hosts he chas'd with eagle's speed,  
 The battles gained, the forts he storm'd?

His deeds shall swell the trump of fame,  
 Worth from honor who can sever?  
 He died,—but left a deathless name,  
 In glory's blaze 'twill live for ever.

---

The above Ode was sung at the Caermarthen Eisteddfod, on the 9th of July, 1819, by Miss Bartlett, adapted to the air of "Anhawdd Ymadael."

*A TRANSLATION OF THE ODE ON THE DEATH  
OF SIR THOMAS PICTON,*

By three Individuals, with the intention of rendering it as close to the original as the strict rules of Welsh Poetry would permit, allowing an Englyn to each English Stanza.

Gerddorion mwynion a mad,—O tynnwch  
O'ch tannau alarnad ;  
Forwynion, cenwch farwnad,  
Eirian glain, arwr ein gwlad. *S. PRICE.*

Dewch er côf i wylofain—ar wyddfa  
Yr addfwyn lyw cywrain,  
Ail ni bu i'r cu wr cain,  
Er rhyfyg Groeg a Rhufain. *W. WILLIAMS.*

Picton ei Alon wylodd—rhag taerni  
Rhwyg teyrnas achubodd ;  
Rhyddion holl Ewrop rhoddodd,  
Marw yw 'nawr, a mawr y modd. *J. HOWELL.*

Rhodd hyfryd gwir bryd ger bron.—a gludai,  
I'r gwledydd heddychlon ;  
Aeth 'nol gorphen dybenion,  
I entyrch llewyrch yn llon. *S. PRICE.*

Pell edrych, pwy eill adrodd,—y nerthol  
Iawn wyrthiau gyflawnodd ;  
Gelyn traws o'i geulan trodd,  
Ei gaerau oll a gurodd. *W. WILLIAMS.*

Gwych udgorn clod, nod a wna—o'r gwyrthiau,  
A'r gwerth nis gwahana ;  
Marw wnaeth, yna daeth enw da,  
Yn fythol hwn ni fetha. *J. HOWELL.*

*Copy of a LETTER from the Rev. David Rowland to Mr. Samuel Price, Postmaster, Llandovery.*

---

SIR,

MY best thanks are due to you. and your Brother Bards, for the honour you have done me, by your elegant translation of my Ode.

I have endeavoured to express my sentiments in a few English, the incorrectness of which I trust you will excuse, on account of the very critical state of my health.

I am, Sir,

Your very humble servant,

D. ROWLAND.

*Vicarage, Carmarthen, }  
Jan. 13, 1820. } 5*

---

*Diolwch yr Awdwr i Feirdd clodadwy Llanymddyfri, am eu rhag-  
orol gyfieithad o'i Awdl.*

---

CHWI brydasoch ber wawd iesin,—ail yw  
Hael a wen Aneurin,  
Diliau mêl yn dâl i' mân,  
Da ber ganiad \*Bro Ginin.

---

\* D. ab Gwilym's birth place.

Tri Bardd, a dawn hardd neud un-nerth,—Teiroides  
 I'r tirion wŷr prydfferth ;  
 Oferwawd fau o fawrwerth,  
 Sydd yn awr ni sudda'i nerth.

Hi gai foethus gyfieithad,—i'r heniaith,  
 Lle'r hanodd awenfad,  
 A'i thrwsio uthr asiad,  
 Un drosgl oedd hi ar draws gwlad.

WILLIAMS, PREIS, da weis dewisol—o ryw.  
 I'r awen Feirdd doniol ;  
 A HOWELS, 'r oedd ar y lās †rôl,  
 Goreuddyn, a Bardd graddol.

Diolchaf diau eilchwyl,—accen-mawl,  
 I'r ceinmyg wŷr anwyl,  
 Ffawd iddynt haeddynt deg hwyl,  
 Gwiw eirchiad am eu gorchwyl.

---

† Enrolled among the Bardic Order, Insignia Blue.

## ENGLYNION

Ar Ffurfiad Cymdeithas Gymroaidd Caerfyrddin, Hydref 28ain,  
1818.

---

GAN Y PARCH. D. ROWLAND.

---

E dōrodd draw o'r dwyrain,—oleuni  
A lanwa wlad Prydain,  
Beunydd y bydd cynnydd cain,  
Groesaw it, wawl goreusain.

Gŷr etto ar ffo i'r ffau,—y caddug  
Fu'n cuddio talentau ;  
Cymry teg y camre tau,  
Barant fel gw lith y borau.

I hadau dyfu'n hoywdeg,—drwy'n maesydd,  
A chynnydd ychwaneg,  
Nes ffrwytho'r dda fro'n ddi-freg,  
Ac o'r unrhyw ceir anrheg.

Anrhegwn, rhoddwn i'n Rhi,—a'n Cynnor,  
Amcanwn ei foli,  
\*THOMAS ben addas i ni,  
Duwiol ganlynydd DEWI.

---

\* Lord Bishop of St. David's.



## DEFFROAD YR AWEN.

---

 GAN JOHN HOWELL, (IOAN AB HYWELL.)
 

---

CYFOD dy ben, f' Awen fach,  
 Deffro'n ddibwyllo bellach,  
 Cysgu'n hir yn wir a wnaist,  
 Diog, anfywiog, fuaist,  
 A rhy egwan i ganu,  
 Tan drwch o dywyllwch dû.

Tòrodd yn awr y wawr wych,  
 Cei oleuni cu lonwych,  
 A hwyl gadarn, haul gododd,  
 I draw y gaddug a drodd.

Gwŷr mawrion glewion ein gwlad,  
 Foneddigion fwyn ddygiad,  
 Parchant dy iaith hoywfaith hen,  
 A'i dawn ebrwydd dan wybren;  
 Y drwg dwys o'th lwys iaith lon,  
 Ysgubir gan Esgobion,  
 Trwy gymhorth Beirdd heirdd eu hynt,  
 Swyddau doniol sydd danynt;  
 \*Mae dau'n awr a adwaen i,  
 Diwyd dan Esgob Dewi,

---

\* Y Parch. Eliezer Williams, un o'r Beirniaid yn Eisteddfod Caerfyrddin, a'r Parch. Dafydd Rowland, Cofiadur i'r Gym-leithas Gymroaidd, Dyfed.

'N ddysgedigion mwynion mād,  
 A phurwych ddau Offeiriad,  
 Dau wŷr enwog rywiog rin,  
 A gwir Feirdd o Gaerfyrddin;  
 Duw, rhoddwr profwr prifiaith,  
 A'i law dda gu lwyddo'u gwaith.

---

## ENGLYNION

A fyfyrwyd wrth ddarllen Marwnadau Syr Thomas Picton, o  
 waith y Parch. Eliezer Williams.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

ELIEZER ber ddawn barod,—GWILYM,  
 Gwelaf ei fyfyrdod;  
 I'r hoenus Filwr hynod,  
 Rhwydd, a glew, y rhoddai glod.

Llyw Llanbedr a fedr fydru,—ydyw 'fe,  
 Da ei fod yn Nghymru;  
 Saif yn gadarn i farnu,  
 I bawb eu twyll o bob tu.

A'i ddawn gain gywrain, egora,—ŵr doeth,  
 Air Duw i gyn'lleidfa;  
 Athraw manol, doniol, da,  
 Brig ieithoedd e bregetha.

I'r Parch. W. J. REES, yr hwn a ennillodd Ariandlws yn Eisteddfod Wrecsam, 1820, am Draethawd ar Hanesion Ynys Prydain mewn Hen Awduron.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

GWILYM RYS, hysbys yw hyn,—yn ollawl  
 Ennillodd Fathodyn;  
 Am i'r doeth lewddoeth loywdlyn,  
 Roddi gwaith ar ddu a gwÿn.

Myfyriai, chwiliai uchelwaith—hen oes,  
 Hynawsaidd oreuwaith;  
 Hanes ein gwlad fwynwlad faith,  
 Rhoddai i ni mewn rhwyddiaith.

E lafuriodd,  
 Gwych areithiodd,  
 A dangosodd, diau'n gysson,  
 Agoriadau,  
 Ar ysgrifau,  
 Hynod eiriau, hen awduron.

---

Duwinydd, lleuydd llon,—ydych WILIAM,  
 Adchwiliwr hanesion  
 Dyrus,—gwaith Hen Awduron,  
 I'r ynys wâr hygar hon.

DEWI GWYNOG.

## A W D L

Ar y Pedwar Mesur ar Hugain: sef, MARWNAD er Coffadwriaeth am yr enwog Benciwdawd SYR THOMAS PICTON, yr hwn a orphenodd ei yrfa yn anrhydeddus, pan oedd yn ymladd tros ei wlad, yn y Frwydr fawr waedlyd yn Waterlw, Mehefin y 18fed, 1815; Testun Eisteddfod Caerfyrddin, a gynnalwyd Gorphenaf yr 8fed a'r 9fed, 1819.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

OCH! gân o gwynfan i gyd,—mae achos  
 Mwy ochain trwy'r hollfyd;  
 Aeth un llon o bigion byd,  
 Ar ei \*wylfa i'r eilfyd.

SYR TOMAS fwyn-was a fu,—ŵr enwog  
 Ei rinwedd o Gymru,  
 Arweinydd a llywydd llu,  
 A oedd ddirfawr! e ddarfu!!

O! PICTON hoywlon hy alwad,—O! frawd,  
 I Frydain bu'n geidwad;  
 Gwael oernych a galarnad,  
 Marw un glew a mawr o'n gwlad!

---

\* Watching.

O! gist oer, a gauaist ti  
 Ar hwn oedd filwr heini;  
 Mewn trymder am Ner y'm ni,—sy'n isel  
 Ddwys tawel ddystewi.

Gŵr o rif gwŷr i ryfel,  
 Gŵr fu enwog swyddog \*sêl,  
 Gŵr dewrwyd oedd glodwyd glau,  
 Gŵr o achau goruchel.

Cŵynwch Frython Feirddion fil,  
 Achwyn sydd ac ochain sâl,  
 “ Y gŵr mwyn a geiriau mêl,  
 Aeth i briddfedd ceufedd cul.”

O! wael sŵn y wylaw sydd,  
 Marw yw PICTON wiwlon wedd,  
 Flaenor da, ni flinai'r dydd,  
 Huna'n fud heno'n ei fedd.

Cyfiawn cofio,  
 Ein brawd o'n bro;  
 Ni fedd cywrain Frydain fras  
 Mo'r addas gymmar iddo.

---

\* An espying,—Gwyliaid.

Dyn oedd ef adwaenai ddur,  
 A dyn nerthol dan \*Arthur;  
 Mwyn ŵr a dewr, mÿnai'r dydd,  
 A'i eirf enwog, ar fynydd  
 † *Busaco*, bu'n llywio lla;  
 Torfoedd o'i ŵydd yn tarfu,  
 O elynion blinion blaid,  
 Dewrion fygyllwyr diriaid.

Tafiai'n Milwr dwyswr da,  
 Fw̄g taerwyllt i ‡ *Figtoria*.

Di os, o *Badajos* daeth  
 Fawl eirwir i'w filwriaeth,  
 Bob ennyd trwy fyd, tra fo  
 Fin dŵr yn afon || *Dowro*,  
 Bydd hynod ei fawrglod fyth,  
 A'i wiw hoywlon wehelyth.

§ *Waterlw*, wyt ti oer laith,  
 O soniwn am ei synwaith;  
 Baeddu i gael buddugoliaeth,  
 Ar dy dir yn wir a wnaeth;

\* *Arthur Wellesley*, Duke of Wellington, Commander in chief of the Allied Forces at the Battle of Waterloo.

† A mountain in Portugal.

‡ *Vittoria*.

|| *Dowro*,—A noted river in Spain.

§ *Waterloo*,—A town in Flanders, where he fell gloriously, fighting for his king and country.

A'i einioes fwyn hynaws fodd,  
 Ar ffyniant a orphenodd.  
 Bu'n y fyddin ben ufuddol,  
 Union gawr o anian gwrol,  
 A nerthol yn ei wyrthiau;  
 Ei barodrzydd mewn brwydrau—oedd fywiog,  
 I yru'n felltog eirwon foltau.

Tarawai gleddyf trwy goluddion  
 Y mawrwyth agwedd, a marchogion:  
 Tros bennau muriau mawrion—y llàmai,  
 E a reolai ar ei talon.

Anffurfiodd, rhwyllodd eu †rhiallu,  
 I beri ochain a brawychu,  
 Gwnai â gwg erwin gan eu gÿru,  
 Hyfol weis gwrol i wasgaru,  
 Yn guchiog ofnog, i gefnu,—yn llaith,  
 I wir wan obaith oer wynebu.

Pan f'ai trechu,  
 Gwaith ymlynu, gwthiai 'm laenaf;  
 Pan f'ai ciliaw,  
 Ef a'i ||ddwylaw, fyddai olaf!

---

† Gelynon.      ‡ Eu canmil.

|| His Followers.



Mae hanesion,  
 Am wŷr glewion,  
 Dewr, a chyfion eu dyrchafwyd ;  
 Ef yn bena',  
 Gaiff ei goffa,  
 Gŵr o \*Walia, gorau welwyd.

Nid oes-hanes un dwys hynod,  
 Mewn rhyw fodd y mae'n rhyfeddod,  
 Ail i'r purwych wiliwr parod,  
 Heddyw f'Arglwydd haeddai fawrglod.

Mawrwych glirwych glod,  
 Sydd, a fydd i fod,  
 I'w lewder hynod, Lyw dewr hoenus :  
 Bu wych ei †buchiant,  
 I gael mael moliant,  
 A'i eirf i lwyddiant, orfoleddus.

‡Pôr gwiw o Filwr pur gofalus,  
 Ddaliai i'r ammod ddwy law rymmus,  
 Ei gâd reolai'n gyd §arialus ;  
 Fe oerai elyn afreolus.

\* Cymru.

† Dymuniad.

‡ Arglwydd.

§ Courageous.

Dewr ymladd a lladd Llywyddion,—taer-lu,  
 'N *Waterlŵ* wnaeth PICTON;  
 Ei eirch manwl a'i orch'mynion,  
 Da eu cadwyd di hoccedion;  
 Efe roddai fyw arwyddion,  
 I'w gu filwyr, a'u gafaelion  
 Trywanent, briwient ger bron,—yn ddarnau,  
 Galonau gelynion.

\* Twym iâs wir iddyut, Tomas a roddodd;  
 Hyll dân gwreichion yn union ennynodd;  
 O! mor gu lanwych a mawr y glynodd;  
 Molir naws calon, Milwr nis ciliodd,  
 Am lewddyn a ymladdodd,—bydd datgan;  
 Seinia bob oedran, sÿn i bawb adrodd.

Pèna'n y fyddin, pa enw na faeddodd?  
 Iraidd arddyrnau, i'r ddae'r a ddarniodd:  
 Cawr o iawn allu, caerau ennillodd;  
 Trwy foddau gerwin, trefydd a gurodd;  
 Oer ddychryn i'w elyn a wylodd,—gwnaeth;  
 Niwl a milwriaeth 'nol a'i maluriodd.

Och! i'r fellten, chwerwa' follt-ias,  
 Ar y Llywddeur i ro'i lluddias;

---

\* Deliwch sylw,—Y Llythyrenan cyseffin yn mreichiau y mesur hwn, a wnant enw y Penciwdawd, sef THOMAS PICTON,

Plwm o drwm dreiriad,  
 A roes loes i wlad,  
 Du oernad i deyrnas.

Oer sain i Frydain fro-dir,  
 O'i herwydd arwydd eirwir,  
 Dû\* o hyd yw Deheudir ;  
 Môr o wylo mawr welir,  
 A dawn gysson dangosir,  
 Ar gwynion oer a genir,  
 " Colli un mawr call o'n mysg,  
 Gwiw hyddysg," a gyhoeddir.

†Aerfa oerfyd,  
 Odfa adfyd,  
 Garwa' gweryd, gŵr gwiwradd ;  
 O! 'n cawr, un cu,  
 Awr fawr oer fu,  
 I lawr o'i lu, ei lwyr ladd.

Er ein cŵynion oer a'n caniad,  
 Fe gai alwad fyw gu wiwlon,  
 I arferion orau fwriad,  
 Un afaeliad â nefolion.

---

\* Mewn galar-wisgoedd.

† Lladdfa,—Slaughter.

Da iawn darfu Duw'n y dyrfa,  
 Ddwyn o laddfa ddyn i lwyddfyd,  
 Un a orfu yn ei yrfa,  
 Cu fudd hyfa, cafodd hefyd  
 Yn yr wylfa, ddiogelfa,  
 O breswylfa, brau iselfyd,  
 I wych hwylfa, nef uchelfa,  
 Trwy gu ddalfa, trag'wyddolfyd.

---

## MARWNAD

*MISS MARY REES, O LANYMDDYFRI;*

A fu farw Tachwedd 30, 1819.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

Och! syndod chwithdod a chaethder,—Och! ing,  
 Och! angau ysgeler!  
 Och! trwm newydd sydd dan sêr!  
 Och! airdwys blin a chwerwder!

Mae difrif boen i'm dwyfron,—du ofid  
 Sy'n difa fy nghalon,  
 Gan drymder oer brudd-der bron,  
 Aeth Mari i blith meirwon!

Mewn galar 'nawr mawr a mân,  
 Gwelir ei thylwyth gwiwlan,  
 A llawer bron yn llwyr brudd,  
 Roi dae'ren ar ei dwyrudd !

Galar mawr dirfawr i dyrfa,—gladdu  
 Goleuddysg o'r dyfna',  
 Gwiw rinwedd o duedd da,  
 Gollwyd wrth guddio'r galla'.

Merch ddawnus hoenus heini,—ddiwallgof,  
 Ddeallgar oedd Mari,  
 Merch rinweddol freiniol fri,  
 Lon ddifrad o Lan'ddyfri.

Bu hon yn harddlon o hyd,—soniarus,  
 Synwyrol, a diwyd,  
 Crefyddol hyfol hefyd,  
 Ddiwael fron o dduwiol fryd.

Yn yr Ysgol,\*  
 Bu flaenorol,  
 A doeth rëol da Athrawon,  
 Yn rhyfeddol,  
 Egwyddorol,  
 Dwysgu ddoniol, dysgai ddynion.

---

\* Sabbothol.

Aroglodd yn yr Eglwys,—yn aelod  
 Anwylaidd a chymmwys,  
 Yn weddaidd Fun lariaidd lwys,  
 Pur rodiai'n ffordd Paradwys.

O'n hen fyd nychlyd ni—ai yn ifanc  
 I nef y goleuni,  
 Mawrion oedd breintiau Mari,  
 Boed im' ran o'i haniau hi.

Ei chorffyn oedd briddyn brau,  
 Gwywodd, trengodd, trwy angau ;  
 Yn y llwch y mae'n llechu,  
 Dan dōnen y ddae'ren ddu.  
 Pan ddel angel i yngan,  
 A galw y meirw o bob man,  
 " Cyfodwch o'r llwch a'r llaid,"  
 Unir pob corff a'i enaid,  
 Cyfyd o'i bedd mewn gwedd gu,  
 Rasol, ar ddelw yr Iesu,  
 Yn nefol a siriol sant,  
 I ganu ei ogoniant!

## MARWNAD

*MR. JOHN RICHARD JONES, O LANYMDDYFRI;*

Yr hwn a orphenodd ei yrfa yn y 27ain Flynedd o'i oedran,  
Hydref 2, 1821.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

MAE galar trwm ag wylaw,  
Mae trist lef yn y dref draw;  
Blodeuyn gloyw-wyn o'n gwlad,  
Bri Llanymddyfri ddifrad,  
Hardd impyn brigyn ein bro,  
A ga'dd ei isel guddio;  
Ow! bwriwyd JONES heb eiriach,  
I waelod y beddrod bach;  
Ei gyfeillion gwiwlon gant,  
Ar ei ol a hir wylant.

Angau hwn roes ing a haint,  
A hyll gur i'w holl geraint;  
Trom loes i'w dad, w'r mât mwyn,  
Guddio ei fab gwiw addwyn;  
Mae ei fam ddinam ddoniol,  
'N rhyfedd oer wedd ar ei ol,  
O'i chalon glaf trymaf tro,  
Hiraethus mae'n areithio,  
"O! fy mab arab irwedd,  
O'r byd a gludwyd i'r bedd!"



Och arwed i'w chwiorydd,  
 Oedd gwybod ddarfod ei ddydd;  
 Trymion yw dwyfron deufrawd,  
 Wrth gofio briddo eu brawd;  
 Un a fu yn ei fywyd,  
 Gyfeillgar hawddgar o hyd.

Na wylwn mwy ni welir,  
 JONES etto yn teithio'n tir;  
 Yn ein cŵynion a'n cyni,  
 Beth a wnawn?—gobeithiwn ni  
 I'r Arglwydd ei drosglwyddo,  
 I wlad nefawl freiniawl fro.

Yma'n wir ar dir nid oes,  
 I'r enwog ond bër einioes;  
 Gwaelod bedd yw diwedd dyn,  
 Ebrwydded yr â'n briddyn!

Cofiw'n tu yma i'r ceufedd,—y lle  
 Mae lliaws yn gorwedd;  
 Er iached, gwyched ein gwedd,  
 Awn ninnau i'r un annedd.

## ENGLYNION

AR ENEDIGAETH CYNFAB Y PARCH. D. L. JONES,  
CAERFYRDDIN.

I'r Athraw hylaw, hoywlon,—gwiw enwog,  
Y ganwyd mab tirion;  
Mal ei dad yn y wlad lon,  
Dyrchafer e'n dra chyfion.

Mwyniant da lwyddiant del iddo,—rhinwedd  
Yr hen-iaith a wypo,  
Cain, addwyn, y cynnyddo,  
OFYDD hardd, a BARDD y bo.

IOAN AB HYWEL.

Ganed mab, cynfab cu,—i chwi Dafydd,  
Mab bach difai mwyngu;  
Hir oes a hedd fo'n feddu,  
Dda hoywedd deg, heb ddydd du.

Brysied a deued y dydd—y byddo  
'N ŵr buddiol i'r gwledydd,  
A boed yn ben Awenydd,  
A doethwr, areithiwr rhydd.

DEWI GWYNOG.

## ENGLYN I ANNERCH I. AB HYWEL.

MAE Brychan yn dy annerch,—ŵr geirwir,  
 O gariad cywreinserch,  
 A chalon naws union serch,  
 A gair-syw efo gwirserch.\*

I. BRYCHAN.

---

 ATTEBIAD.

O'TH fin iaith fad serchiadol,—gu ofeg,  
 A gefais, Fardd brawdol;  
 Gwir gydserch annerch unol,  
 Rwydd yn awr, wy'n roddi'n ol.

Wyt ddawnus, medrus, a mydrwr—cywir,  
 Ac awen goleddwr,  
 Di fraw a hylaw hwyliwr,  
 Ar y gainc yn oreu gŵr.

Dy waith dwys gwiwlwys gwelir,—dy ddoniau  
 Dyddanawl a berchir;  
 Diwyd brif-fardd clau-fardd clir,  
 Da hoywdeg y Deheudir.

I. AB HYWEL.

---

 \* Difyfyr ydyw.

## ENGLYN I BONT AR SAWDDE.

YN Sawdde bum bron soddi,—oer ofid

A wnai'r afon imi,

O waith i'r Bont front ddi fri,

Uwch y dwr, och! i d'ori.

W. WILLIAMS.

## RHAGORIAETH RHWNG CYBYDD A MEDDWIN.

Y CRINWAS diras, daearol,—gorwag,

A gâr olud bydol;

Ni rydd o'i eiddo'n raddol,

Ond cyfran fechan i'w fol.

Cychwyn wna Meddwyn cochwedd,—a difyr,

I dafarn wael annedd;

Afiachus yw ei fuchedd,

Rhoi'n ei fol yr hyn a fedd.

I. AB HYWEL.

## ENGLYNION I EISTEDDFOD CAERNARFON.—1821.

CAER-YN-ARFON lon, eleni,—rhyfedd

Y rhif welir yn thi,

O'n Gwynedd Feirdd yn gweini,

Addurnant a harddant hi.

Beirdd doethion dyfnion eu dysg,—ymroant  
 Am rywiog oreuddysg,  
 I gadw'n iach mwyach i'n mysg,  
 Y gêmawg iaith ddigymmysg.

Daw'r hen Iaith loywfaith trwy'r wlad,—i filoedd  
 Daw'n felus i'w siarad,  
 Daw i fri gan wŷr di frad;  
 Daw i minnau'm dymuniad.

I. AB HYWEL.

—◆—

A W D L

Ar Raglywiaeth ein grasusaf Frenin SIOR y Pedwerydd; yn enwedig o'r dydd y tiriodd Byddinoedd Prydain Fawr yn Mhortugal, hyd ddydd eu Buddugoliaeth ogoneddus ar Faes Waterlw. Ynghyd â 'chwanegiad byr ar Farwolaeth ein diweddar Frenin SIOR y Trydydd, a Choroniad ei Fawrhydi SIOR y Pedwerydd, &c. Testun Eisteddfod Aberhonddu, Medi 25ain, 1822.

—

GAN JOHN HOWELL.

—

DYRED, Awenydd dirion,—dwg imi  
 Dy gymmorth i gysson  
 Draethu cynnes hanesion,  
 Dewr-naws hwyl y Deyrnas hon.

Nef ferch gain firain fawrwerth,  
 Wyt ddidawl o nwyfawl nerth ;  
 Dyro eurddawn drwy urddas,  
 O'th anian i'th wiwlan was,  
 A phwyll, i ddidwyll dd'wedyd  
 Y gwir, yn gywir i gyd.  
 Tremia, f' Awen, dan wenu,  
 Ar Frydain y fro gain gu ;  
 Gwel ei \*Rheol ddeddfol ddwys,  
 A'i hoywlon Lywydd hylwys,  
 A grym ein Llywodraeth gref,  
 Di eiddil fu, rhaid addef,  
 Pan oedd yn hen ein Brenin,  
 A †blaidd rhuadwy a blin,  
 Cyfrwys elyn cyndyn cas,  
 Gwael swyddog, ail i Suddas ;  
 A'i fryd ar lwyr ddifrodi  
 Golud a nerth ein gwlad ni,  
 A'i arfogion croesion cras,  
 Mewn taerni am ein teyrnas.

Teyrnas gyfaddas gu foddiol,—a brwd,  
 Er bradwyr gormesol ;  
 Ein prydfferth Filwyr nerthol,  
 Calon un nis ciliai'n ol.

---

\* Ei Chyfreithiau.

† Napoleon Buonaparte.

A'n Morwyr yn ymwriaw,  
 Yn hwylus yn drefnus draw,  
 I yru mellt yn eirias,  
 Ar y cefnfor gloywfor glas,  
 Yn barod nawn a borau,  
 Gyferbyn a'n gelyn gau;

Briwient a rhwygent i'r eigion,—Longau  
 O Lynges yr estron;  
 Yn syn gwnaent i elynion,  
 Soddi'n llwfr îs dwfr y dòn.

Gwŷr trawsion dewrion a dôrwyd,—lluoedd  
 I'r llawr ddarostyngwyd;  
 A llawer yn nigter nwyd,  
 I fol âr a faluriwyd.

BONI a fu yn benaeth—y gwledydd  
 Goludog ehelaeth;  
 Ym \**Mhortugal* dial daeth,  
 I fron hwn a'i frenhiniaeth.

---

\* An army under the command of Sir Arthur Wellesley, (afterwards Duke of Wellington,) destined for Portugal, where it ultimately landed, consisting of about 10,000 men, sailed from Cork on the 12th of July, and arrived at Corunna on the 20th, 1808.



Os poenodd ef *Hispania*,  
 Ca'dd Prydain fad ddifrad dda,  
 Yntef i'w phalf mewn dalfa,—mawr ddychryn  
 Wnai'n gelyn yn gwla.

Anfonwyd, gŷrwyd gwerin,—o Frydain,  
 Y frodor wiw iesin ;  
 Heb ofn na braw draw i'w drin,  
 Baeddwyd ef gan ein byddin.

*Wellington* hylon a hwyliodd—ei dorf,  
 A dirfawr ymladdodd ;  
 Ffrainc i ebwch tristwch trodd ;  
 Gelyn o'i flaen a giliodd.

Glyw dewr y'mhlaid gwladwriaeth,  
 I *Lisbon* yn eon aeth,  
 Bwriodd i âr daear dòn,  
 Do, ladron dilywodraeth.

Rhod dai i *Spain* ei rhyddid,—o'r camwedd,  
 Er cymmaint fu'r erlid ;  
 Rhag nerthol elynol lid,  
 Medrai amddiffyn *Madrid*.

*Ardalydd Mon*, wiwlou was,  
 I'w loywddur ni bu luddias,  
 Darniodd fradwyr y deyrnas,—cadwai'n ol  
 Elynol alanas.

*Moore* oedd yn wŷr mawr addas,—a chadarn  
 Warcheidwad i'n teyrnas;  
 Nerthol foddiol ufuddwas,  
 Och! bu poen i'w lu pan \*lâs.

*Hill* a fu gynnill genad,—a bywiog  
 I bwyaw eirth anfad:  
 A hoenlyw dewr o'n henwlad,  
 Oedd *Picton* gwron y gâd.

Rhy faith im' unwaith enwi,  
 Ein hyfol wŷr nerthol ni.

Oll oeddynt yn dra llwyddawl,—wŷr enwog,  
 Wroniaid llüyddawl;  
 Ddygent i'n gwlad fuddugawl,  
 Y gwrthrych o fynych fawl.

Erchyllaf wŷr archollwyd,—gan Frython,  
 Llauer gwron i'r llawr a gurwyd.

Ym mro *Glan-Dowro*† daearwyd—lliaws,  
 A llauer gymmerwyd;

---

\* This brave General fell in the Battle of Corunna, January 16th, 1809.

† *Douro*, a river running through Spain and Portugal.

I oer garchar amryw gyrchwyd,  
 Dir am lwyddiant dewr ymladdwyd,  
 Llu yr estron oll a rwystrwyd,  
 Ein gelynion wangalonwyd,  
 Gweilch anfad o'r wlad erlidiwyd,—miloedd  
 O dorfoedd a darfwyd.

Y Galon yrwyd i gilio,—o'r fan,  
 Ar fynydd \**Busaco*,  
 Ni bu chwerwach trymach tro,  
 Yn eu gwyneb nag yno.

Rhag eirf dur Arthur wyrthiol,—a brathiad  
 Y Brython egniol,  
 Ai'r fyddin fawr ryfeddol  
 Dan griaw a neidiaw'n ol.

Yn dÿrau chwerwon diras,  
 Tros bigog le creigiog cras,  
 I'r dibyn mawr diobaith;  
 Eirwon weis, Ow! erwin waith.

Yn awr i ddyfod yn nes  
 At duedd rhinwedd 'r hanes,

---

\* See Lord Wellington's official account of the Battle of Busaco, addressed to the Earl of Liverpool, dated Coimbra, Sep-30th, 1810.—*Gibson's History of the Wars.*

Pennodi wyf pan ydoedd  
 Ochain tristaf blinaf bloedd,  
 Trymaidd yn ngwledydd tramor,  
 Hynt a fu tu hwnt i fôr;  
 Teyrnasoedd lluoedd mewn llid,  
 Ymrafael a mawr ofid;  
 A gelyn drwg yn gwgu,  
 Fod Prydain fad geinwlad gu,  
 Yn ardal dirion eurdeg,  
 Heb ryfel yn dawel deg.  
 A'n Brenin ar fin oer fedd,  
 Yn o egwan ei agwedd.  
 Ein Senedd-wŷr yn seiniaw,  
 Eu cydlef yn y \*Dref draw,  
 Yn lew am ddyn i lywio,  
 Ein siriol hardd freiniol fro.

Er bri i'n rheoli 'rhawg,  
 Dewiswyd gwiw †DYWYSAWG  
 CYMRU (y fro lwysgu lân)  
 Yn Rhaglyw mwyn rhywioglan,  
 I roddi nerth arwydd nôd,  
 A dewrder prif awdurdod;  
 Bu yn enwog ben Ynad,  
 Ein Llyw dewr yn lle ei Dad,

---

\* Llundain.

† The Prince of Wales was appointed Regent Feb. 6, 1811.

Yn gwyliaw'r fad henwlad hon,  
 Rhag bradwyr, treiswyr trawsion,  
 Rhyfedd yn eu dannedd dig,  
 Ffrwynodd fygylwyr Ffreinig.

Anfon da weision dewisol—a wnaeth,  
 Yn eithaf buddugol,  
 Gyda nerth i gadw yn ol  
 Galonau gwŷr gelynol.

Ym *Madajos* dangoswyd  
 Grymusder yn uchder nwyd ;  
 Blin fu'r dydd i lüyddion,  
 Newydd irad braeniad bron,  
 A thrwm i hyll orthrymwyr,  
 Ar y Castell fod gwell gwŷr ;  
 O warth wylent wrth weled  
 Arfogion cryfion eu cred,  
 Sef \*PICTON a'i lewlon lu,  
 A'r faner fawr i fynu.

Tros gaerau a muriau main,  
 Parodawl filwyr Prydain,  
 Yn hyfol ar ysgolion  
 Esgynent, llàment yn llon ;

---

\* General Picton took possession of the Castle of Badajos by escalade, April 6, 1812.

A rheolent, wŷr hylm,  
Y dref er mor gref ei grym.

Marchogion taerion \**Fittoria*,—gurwyd

Gan ein gwŷr mewn lladdfa;  
Anwyl Frython dewrion da,  
Brwd daenent glod *Britania*.

Fal ydoedd yn fawledig,  
Am droi Galon duon dig,  
A gwarthus yn eu gwrthol,  
Tros bènau †mynyddau'n ol.

Pelau poethion,  
I'n gelynion,  
Drwy arwyddion, draw a roddent;  
Dig arfogion,  
Napolëon,  
Yn ysgyrion a wasgarent!

Gwalch twyllodrus,  
Cenfigenus,  
A fu rymus, ef a rwyment;

\* *Vittoria*, a town in Spain, where the Duke of Wellington gained a glorious victory, June 21, 1812.

† The French were driven over the mountains of the Pyrenees to their native country.

Gwnaed ei drigfa  
 'N ynys Elba,  
 Y gŵr chwerwa' a garcharent.

Och! fi'r estron mewn llid a chyfrwystra,  
 Wnaeth fawrdwyll trwy amhwyll y tro yma;  
 Barus ei elfen i'w hen breswylfa,  
 Yn syn deuai'r gelyn i-dir *Galia*,  
 I'r bwystfil oer bu westfa,—gydâ bloedd,  
 I alw ar filoedd i ail ryfela.

Ebrwydd rhoddai arwydd orn,  
 Flaidd adgas trwy floedd udgorn;  
 A galw y'ng hyd wnai'r gelyn,  
 Bob heriwr o swyddwr syn;  
 Ger eu gwydd cyfarwyddai,  
 Ei weision chwerwon yn chwai,  
 "Deuwch, ymdrechwch am drais,  
 Fintai, cymmerwch fantais;  
 Mynwch, ennillwch yn ol  
 Frodir hen Ffrainc hyfrydol;  
 Yn rhadawl cewch anrhydedd,  
 A gwynfyd, hawddfyd, a hedd."

Ac i ollawl gau allan,  
 Frenin LEWYS o'i lys lân,  
 Troi'n elynawl fradawl fryd,  
 Wnai'r oflyd NEX ŵr aflan.



E drodd yn rhywfodd y rhod,  
 Uno i geisio gosod,  
 Hen elyn gwyllt ffroenwyllt Ffrainc,  
 Ar ei swyddfawr orseddfainc.

Er bloedd rhai miloedd a mwy,—drwy lawen  
 Droï LEWYS ar aswy ;  
 I ymlid a'u herlid hwy,  
 E gai nerthol gynnorthwy.

Gwelid gwiwlan,  
 Arwydd eirian,  
 Parod anian y Prydeiniaid ;  
 Ac o'u lledol,  
 Awstriaid nerthol,  
 Wŷr dirusol, a'r da Rwssiaid.

Pan oedd y lluoedd mor llon,  
 A'u gilydd yn un galon,  
 Yn *Flanders* draw, bu braw brudd,  
 I'r gelyn oer ei goludd.

\*Prwssiaid, Prydeiniaid, pur doniol,—aethent  
 Yn eithaf egniol,

---

\* The Prussians and Britons were the only part of the Allied Army engaged in the sanguinary Battle of Waterloo, the Austrians and Russians having not arrived.

Yn un fryd o anian frawdol,  
 Gydâ'n Arthur i gâd nerthol;  
 Ef a'i restri ni fu rwystrol,  
 Iawn ennillent yno'n ollol,  
 Wlad Ffreinig le dyffrynol,—oedd greulon,  
 Dan estron dinystriol.

Dewr gwilient y bradwr gwelw,  
 Bob awr ar lawr *Waterlô*;  
 Cwypent a briwient ger bron,  
 Ei ryfygus arfogion;  
 A bu câd ddychrynadwy,  
 Ddyfal, cyn eu hattal hwy;  
     Trwm waith tra mawr,  
     Aerfa erfawr.

Ymladd diorphwys yn dradwys \*dridiau,  
 Sŵn mal nerthol derwynol daranau,  
 Llewych a phylor, lluchio â phelau;  
 Meirwon tan draed a'r gwaed o'u rhwygiadau,  
 Llanwodd y tir yn llÿnau,—pan gwypent,  
 Fyrdd o wÿr sengent ar farw ddrws angau!

Ac yn y ddirfawr lwyddfawr ymladdfa,  
 Dialedd fu'n dilyn gelyn *Galia*,

---

\* This horrid Battle lasted three days, viz. the 16th, 17th, and the 18th of June, 1815; on the 18th Napoleon was totally defeated.

Dduodd i oerfel ddiwedd ei yrfa ;  
 Yn lle mawrbarch, cael ammharch yma,  
 Ac ailboen gwaeth noc *Elba*,—trosglwyddwyd,  
 Nes hwnt y laniwyd e'n *Saint Helena*.

Y Corsican druan draw,  
 Yno welid yn wylaw,  
 Mewn trymder a blyngder blin,  
 I feddwl am y fyddin ;  
 Hir lywodraeth a'r \*loywdref,  
 Gelloedd heirdd a gollodd ef.

I'r adyn hwn yr ydoedd,—poen ddirfawr,  
 Pan ddarfu rhyfeloedd ;  
 Hefyd gwiwdeg adeg oedd,  
 Felus i amryw filoedd.

Cael mwynhau dyddiau diddan,—cu heddwch  
 Cyhoeddwyd yn fuan ;  
 Cael agor i'r gloywfor glân,  
 Da ddorau gwledydd eirian.

Trwy ddifrad gariad geirwir,—ammodawl,  
 Rhwymedig, a chywir,  
 Cawsom drefnus weddus wir  
 Undeb, â'r holl Gyfandir.

Yn ol hyn bu syn seiniad,  
 Anfynych gan glych ein gwlad ;  
 Gloyw darian ein gwladwriaeth,  
 Gwedi nych ein gadaw wnaeth !

Ein Brenin mwyn a breiniol,—gwareiddiaf,  
 Gÿraeddwyd yn farwol,  
 Gan saethau angau ingol ;  
 Galarwyd wylwyd o'i ol.

Mewn galargŵyn,  
 Am ein cufwyn,  
 Wron addwyn ei rinweddau ;  
 Prydain dirion,  
 Ac Iwerddon,  
 Wylent bruddion ddigron ddagrau.

Rhag dechrau rhwyg a dychryn,  
 Mewn gwlad ymddifad o ddyd,  
 Cynfab Sior, ein Por a'n Pen,  
 Yn Llywydd, a'n gwnai'n llawen.

Hynod Aer parod i'r perwyl—ydoedd,  
 Ar adeg i'w ddisgwyl ;  
 Ac wedi hyn gydâ hwyl,  
 Coronid ein Cawr anwyl.

Tra pharchus yw Glyw ein gwlad,—ei ddynion  
 A ddenodd trwy gariad,  
 Mal ei fwynlon dirion dad,  
 A chyfiawn ei dderchafiad.

I Gymru E fu yn faeth,—i godi  
 Hen gadair dysgeidiaeth;  
 Mawr yw'n bri, noddi a wnaeth  
 Beraidd anian Barddoniaeth.

Gwiw ryddid gu a roddodd,—i'w ddeiliaid  
 Addoli o'u gwirfodd,  
 Bob siriol grefyddol fodd,  
 Dull addas da y llwyddodd.

Tros ddyfroedd moroedd mawrion,—yn fynych  
 Anfonid \*Cenhadon,  
 Y der Efengyl dirion,  
 Da waith yn achos Duw Ion.

Ynys Prydain gain ar gynnydd,—fytho,  
 Yn faeth i wir grefydd;  
 Poed Sior hawddgar BEDWARYDD,  
 Yn Dŵr, Diffynwr y Ffydd.

---

\* Missionaries.

Duw anwyl a dywyno,—ei fendith,  
 Yn fwyndeg i'w lwyddo;  
 Hir oes fŷg i'w Ras a fo,  
 A dynion cywir dano.

---

## ENGLYNION

*AR SEFYDLIAD CYMDEITHAS CYMREIGYDDION  
 CAERFYRDDIN.*

---

GAN JOHN HOWELL.

---

CAERFYRDDIN mae cu wir fawrddysg—ynot,  
 Ac anian goreuddysg;  
 Mydrawl rinweddawl addysg,  
 A ennyn mwy yn ein mysg.

Feirddion cawn wiwlon weled,—per daenir  
 Prydeiniaith dan noded;  
 Trwy'n bro, hir lwyddo ar led,  
 Wna difyr Awen Dyfed.

Boneddigion llon yn llu,—a godent  
 Hen gadarn iaith Cymru,  
 Yn filwch o dywyllwch dŷ,  
 I dyner ail dywynu.

\*Heno, in' frodyr hoenus,—a nodwyd  
 Yn adeg ddaionus;  
 Llefarn yn llafurus,  
 Trown ymaith o'r iaith yr us.

Er goheb gwrthwynebwyd,—ar gynnydd  
 Mae'r geiniaith is awyr;  
 Cyd floeddiwn gwaeddw fal gwŷr,  
 “Iach lwyddiant i'w choleddwyr!!”

*Awst 3, 1822.*

---

“CYMRU FU, CYMRU FYDD.”

Testun Cymdeithas Cymreigyddion Caerfyrddin, Mawrth Iaf,  
 1824.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

RHOWCH osteg yn deg am un dydd,—frodyr,  
 Mae'n frwd ein llawenydd,  
 “Cymru fu, Cymru a fydd,”  
 A'i chaniad ar ei chynnydd.

---

\* Sef Prydnawn Cyfarfod Misol y Gymdeithas.



Cadarn fu hen Gymru gynt,  
 Mewn grymus hwylus helynt,  
 Arwraidd hyd yr awr'on,  
 Cadwodd ei hiaith lwysfaith lon,  
 A chywrain rhwng ei chaerydd,  
 Cadarn hyd y farn a fydd.

Gwiw naturiol Gantoron,—a Thelyn,  
 A theulu o Feirddion,  
 A Iaith hyf o eithafon,  
 Yn flwch ydyw harddwch hon.

Down i gyd yn unfrydol,—i goledd  
 Y gulawn Iaith wreiddiol,  
 Na fid wyneb neb yn ol,  
 O honom yn wahanol.

Sylwedd ein gwaith a seiliwyd—ar ysgwydd  
 Yr \*Esgob, a chodwyd  
 Ein mamiaith o'r llediaith llwyd  
 I dda orsedd ddiarswyd.

Y berffaith heniaith hōno,—fu'n seirian  
 Fwyn siriol flodeuo,  
 Diattal y daw etto,  
 Ei gwawl i'n hyfrydawl fro.

---

\* Arglwydd Esgob Tŷ Ddewi.

Daw eiliad asiad iesin,—ymadrodd,  
 A mydrwaith Caerfyrddin,  
 Heb rus yn felus i fin;  
 Bêr ganiad ail Bro Ginin.

Yn un galon â'n gilydd,—myfyriwn  
 Am fawrwydych ddywenydd;  
 ARCHDDIAGON BEYNON bydd  
 I ni'n llewyrch a'n LLYWYDD.

O canwn fawl i'n cynnor,—goreulyw,  
 Gwr helaeth ei drysor;  
 Anrhydeddus barchus Bôr,  
 Hael yw ef, ac ail Ifor.

Bardd gwiwradd urdradd erddrym,—a difyr,  
 Oedd Dafydd ab Gwilym,  
 Hwylus awenwr hylwm,  
 Ei gerdd ef oedd gref ei grym.

Ifor o'i drysor a drwsiodd—Dafydd,  
 Fardd difai gwobrwyodd;  
 A BEYNON rwyddlon ei rodd,  
 Yn eirianfwyn wna'r unfodd.

Carwr a noddwr ein Iaith—gu, ydyw,  
 Ac edwyn gyssoniaith;  
 Gwel helaethder, mwynder maith,  
 A rhinwedd, yn yr heniaith.

Seiniwn, eglurwn wiw glod—mwyn iddo,  
 Mae'n noddwr Eisteddfod,  
 Bydd hyd arch iawn barch yn bod,  
 I'r gŵr hwn, a'r gair hynod.

Diau daw dyddiau dedwyddyd,—hoenus  
 Ddihunir celfyddyd ;  
 Yn ddidwyll cawn ddywedyd,  
 Fod ein Iaith yn beniaith byd !

---

## ENGLYNION

*AGORIAD EISTEDDFOD CAERFYRDDIN,  
 MEDI 24, 1823.*

---

GAN JOHN HOWELL.

---

DYMA adeg dêg y diwygiad,—ffraeth  
 Mae ffrwythau pêr eiliad,  
 Sef Barddawl lesiawl asiad,  
 Mewn bri yn gorlenwi'r wlad.

Hwn yw dydd cynnydd caniad,—cu lwyddiant  
 Coleddwyr awenfad ;  
 E welir yn glir ein gwlad  
 Hoff rywiog ar ddeffroad.

Deuwch, lon Feirddion o fawrddysg,—heddyw  
 Cyhoeddwn er addysg,  
 Bêr awengar ddengar ddysg,  
 A dodda galon diddysg.

Llefwn a bloeddiwn o blaid,—goreuwaith,  
 Gwir awen yn ddibaid;  
 Ym mhob helynt gynt e gaid  
 Yn hon nwyf i'n hynafiaid.

Bu dawn fad i'n hen dadau,—byw etto,  
 Heb attal yn ddiau,  
 Yw'r Awen a'i gwên yn gwau,  
 Mewn anian ynom ninnau.

Adfywia, WALIA wiwlon,—llawenydd  
 Fo'n llenwi dy galon;  
 Cafodd dy iaith lwysfaith lon,  
 Arddeliad gan Urddolion!

Diwyd gwnai Esgob Dewi,—i lewych  
 Hael Awen gyfodi;  
 Anwyl ymddengys ini,  
 Des 'splenydd ei hafddydd hi.

Pob gŵr llên a gwên gwyneb,—yn geinfwyn,  
 A genfydd iawn burdeb  
 Iaith ei wlad, yn anad neb,  
 A ffrwyth hon yw ffraethineb.

Y Bonedd hoenwedd heini,—a welaf  
 Mor wiwlon yn rhesi ;  
 Pwy Fardd na chwardd arnoch chwi,  
 Wên addas am ei noddi ?

Y diwyd Feirdd, O deuwch,—mae'n weddus  
 Am noddod Brawdgarwch,  
 I'n dedwydd hoff Lywydd fflwch,  
 I ni dalu'n diolwch.

Gwych hwylus gu Uchelwr,—pur ydyw  
 Pôr odiaeth DINEFWR ;  
 A Chymro glân, eirian wr,  
 A'i deidiau'n rhes o DEWDWR !

Tra bo gwawl desawl y dydd,—ac uchel  
 Gu achau'r DRENEWYDD,  
 Dyfed a'i chân fwynlan fydd  
 Yn llawen dan ei LLYWYDD.

ENGLYN I'R HAF.

CROESAW, wych harddwych hirddydd—gwiw lesawl,  
 Yn glasu'r holl feusydd,  
 Addurno deilio dolydd,  
 A gras Duw, sef gwres y dydd.

I. AB HYWEL.

## CANIADAU AR AMRYW DESTUNAU ;

AR Y TRI THRAWIAD, NEU GADAEI TIR.

## MARWNAD

Yr ardderchog Lywydd SYR THOMAS PICTON, Marchog  
Milwraidd o Swydd Benfro, yn y Deheudir.

GAN Y PARCH. ELIEZER WILLIAMS.

TRIST wedd sy'n ddiweddar, ac wŷlo a galar,  
A \*Dyfed edifar, yn trydar trwy'r trwch,  
O roddi gŵr addas, a'i brudd-glod dan bridd-glâs,  
Syr THOMAS, ein hurddas, a'n harddwch.

Trwy'r sîr y mae hiraeth, e wylir marwolaeth  
Y Paun hy' ein penaeth, mae alaeth o'i ôl;  
A galar ac wŷlo, 'n unfryd sy i Benfro,  
Bob Cymro a garo ddyn gwrol.

Am BICTON, ffynhonau a darddant ar weddau,  
Yn hygron o ddagrau, dan aelau di nawdd;  
Ac †attal gofalon, a gofal mor gyfion,  
Am BICTON, i ddynion sydd anhawdd.

\* Benfro.

† Quis desiderio sit pudor aut modus  
Tam cari capitis?—HOR.

O PICTON mawr doniog, dewisol dywysog,  
 Y llywydd galluog, ŵr arfog a fu,  
 Rhyw ddechreu oer ddychryn, twrf trist sydd i'n terfyn,  
 Bob gronyn, y gloywddyn, o'th gladdu.

O gael Buddugoliaeth, mae ŵylo, mae alaeth,  
 I dir y wladwriaeth, mae hiraeth o hyd,  
 Ar arch ddwyn un parchus, o waith milwriaethus,  
 Dewrweddus, clodforus o fywyd.

O'i gryd ei hyfrydwch, oedd gwrol hawddgarwch,  
 A gwiwlan ddirgelwch dedwyddwch a dawn,  
 O fod yn gu lüydd, i'w wlad a gwyliedydd,  
 A beunydd o ddeunydd, wedd uniawn.

I'w hyfryd wlad lydan, yn dŵr ac yn darian,  
 Hyn oedd iddo'n ddiddan, a gwiwlan y gwaith;  
 I guro gwŷr geirwon, a rhwystro gwŷr estron,  
 I dreisio'n gwŷr gwirion a'n gwariaith.

Y gwirion a garai, y geirwon a gurai,  
 Y wlad a wylidai, a barai o'r bron;  
 A rhês o ormeswyr, a falai â'i filwyr,  
 A thwyllwyr, a threiswyr, a thrawsion.

A'i hoyw eirf gloywon, pwy Hector fel PICTON?  
 Yn hy' ac yn eo'n, yn galon i gyd,  
 Dewisol dywysog, arweinydd wir enwog,  
 Gwnai'r marchog dwrf-arfog drwy fawrfyd.



Ym Mhortugal talodd, y gofid a gafodd,  
 Y fyddin a faeddodd, a sathrodd yn sŷn;  
 A 'Spaen a esponia ei waith hyd yr eitha',  
 A'i ddewrdrâ, a'i yrfa, a'i erfyn.

In' cyfiawn yw cofio, yr hanes ro'ir yno,  
 Y gwaelwyr wnai gilio, a gwylio'm mhob gwedd;  
 A llanwodd yn gryno, yn llawn bob lle yno,  
 \**Busaco*, a †*Dowro*, â dewredd.

Drist, Wb! dros y dibyn, e giliodd y gelyn,  
 E gurwyd ei goryn â dernyn o'r dur;  
 A llaw drom Syr THOMAS wnai gampau o'i gwmpas,  
 A'i gledd-glas, rho'i urddas, y mawrddur.

'N y mán ym mhob annedd, e rifwyd yn rhyfedd,  
 Gael yno gelanedd yn gorwedd yn garn;  
 Cyrff Ffreincwyr yn feinciau, ar led, a'r aelodau  
 Yn rhisiau, ar eisiau, ar wasarn.

‡*Badajos* gref hefyd, am air ei chymmeryd,  
 Rho'i argoel rhoi ergyd, neu fywyd yn fyr;

\* *Busaco*, mynydd yn Mhortugal, lle y gyrodd Syr Thomas y Ffrancod â'r dŷr-bin oedd ar y drylliau, i daflu eu hunain rhag ofn dros y dibyn, ac ar draws y creigiau.—Medi 17, 1810.

† *Dowro*, afon yn rhedeg trwy yr Hispaen a Phortugal.

‡ Tref yn Hispaen, yr hon a gymmerodd Syr Thomas Picton, Ebrill 6, 1812. Fe orchymmynasid i'r Marchog i wneuthur es-

E neidiai'n hynodol, ar fur anarferol,  
Rho'i ysgol i'w bobol yn bybyr.

Hy' warchae teg erchwyd, er esgus, rhyw ysgwyd,  
Y mur a gymmerwyd, a faeddwyd o fodd,  
E wyddai'n awyddus, o rwysg i droi'r esgus,  
Yn hwylus, air rhwyfus, o wirfodd.

A'i Faner i fynu, yn llydan yn lledu,  
A'i fyddin gan faeddu, yn saethu'n o syn,  
Rho'dd arwydd ddihiraeth o gael Buddugoliaeth,  
Er gwiraeth ac alaeth i'r gelyn.

A'i Faner i fynu, ei sŵn a wnai sŷnu,  
I'w fyddin i faeddu heb wiwlu o'i blaid ;  
I gastell i gosti, a'i thŵr, ond ei thòri,  
Gan wisgi ŵr heini' ar unnaid.

Trwy 'Spuen y bu'n taenu, ei fawl gan ryfelu,  
I elltydd o'r neilldu, o bobtu, yn ben ;

gus ymosod o un ochr, tra yr oedd milwyr ereill yn cymmeryd y dref yr ochr arall. Ond y milwyr ereill a fethasant ac a giliasant; pa fodd bynag, pan edrychwyd yn ol, yr oedd baner Syr Thomas eisoes ar fur y Castell. Fe neidiasai dros y mur, ac a roddasai gynnorthwy i'w wŷr i ddringo yr adeilad. Pan feiwyd arno am gymmeryd y lle heb orchymmyn y Pen-llywydd, o herwydd na orchymmynasid iddo ef ond i chwarae *esgus*, efe a atebodd, " Ni fedraf fi chwarae esgus; canys pan elo Cymro i'r frwydr, nid *esgus* rhyfela a wna."

Ar fin yr afonydd, ar lif ac oer lefydd,  
Bu beunydd yn llywydd hy' llawen.

Ei arfer oedd gorfod, â'i arfau'n ddiddarfod,  
Ei ddoniau oedd hynod, a'i ddyrnod yn dda,  
Ei dân a lydanodd, ei fyddin a faeddodd,  
Arswydodd, fwg'trawodd, \* *Figtoria*.

Eu sawdwyr arswydodd, y dyrfa a darfodd,  
Eu mawrion cymmerodd, neu helodd yn hyll;  
Eu muriau maluriodd, eu tyrau oll torodd,  
Dymchwelodd, a ffystodd eu cestyll.

Fel hydd dros fynyddau,† a thwrf a gwaith arfau,  
A ffêl wŷr ceffylau, a gŷnau a gawr,  
Y gelyn a'r gaulu, yn hylwydd bu'n helu,  
I'w tarfu a'u gŷru i'w gorawr.

Bu rhyw wedd o heddwch,‡ ail hedd heb del'eiddwch,  
Na gwir na brawdgarwch, dedwyddwch na da,

\* *Figtoria*, neu Vittoria, tref yn Hispaen, lle yr ennillodd y Dug Wellington fuddugoliaeth hynod, Mehefin 21, 1813; a Syr Thomas Picton, trwy ymosod ar y gwŷr meirch, a fu yn offer-ynol i ennill y fuddugoliaeth hon.

† Fe yrwyd y Ffrancod dros fynyddau y Pyrenees i Ffrainc, a Syr Thomas a fu ddiwyd a gwisgi yn eu hymlid i'w gwlad eu hunain.

‡ Fe fu heddwch twyllodrus dros ychydig rhyngom â Ffrainc,

A'u gŵyrgam wŷr gwargul, yn achwyn yn achul,  
A'u *Pen-mul* 'n ei helbul yn *Elba*.

I äang le diangai, y llwynog, a lluniai,  
Llu filoedd llyfelai, a rhedai yn rhydd,  
Ei wyneb i weiniaid, fu ddeuryw, fu ddiriaid,  
I'r deyrnblaid wnai niwaid o newydd.

Yn llŷn yr ennynodd, y rhyfel yn rhywfodd,  
Drachefn dyrchafodd, a flamiodd yn flwch;  
Wŷr prysur doi'r Prwssiaid air astrus a'r Awstriaid,  
Yn ddiriaid doi'r Rwssiaid i'r dryswch.\*

Yn nesa' o'r ynnysoedd, uwch llewych y lluoedd,  
Yn abla' o bobloedd, o diroedd yn dod,  
Y Brython calonog, a milwyr hy' maelog,  
Ai'n fywiog, yn arfog, i orfod.

Pa les wna gormesu, o'r trwch, a gortrechu?  
A Europ yn haeru iawn drefnu y drin?  
Ffrainc dost am ymfrostio! dyallwyd dy dwyllo,  
A'th 'speilio, i foddio dy fyddin!

a Buonaparte a anfonwyd i ynys Elba, ond y mae yn hysbys i bawb pa fodd y diangodd, ac yr ail ennywyd tân y rhyfel.

\* Y Prwssiaid a'r Brythoniaid, neu wŷr Prydain, yn unig oeddynt yn y frwydr waedlyd hon, yr Awstriaid a'r Rwssiaid ni ddaethant mewn amser.

Yn *Waterlw*\* bwriwyd, it' dâl a dialwyd,  
 Y boen a dderbyniwyd, a gafwyd o go' ;  
 A PHICTON eonaf, i'th flino ddaeth flaenaf,  
 A glewaf, a dewraf, i'th daro.

Yn ochr bryn uchel,† e rifwyd y rhyfel,  
 A maes a chwm isel, yn diwel i'r dwr ;  
 A'r gelyn o'r gwaelod, a boerai fflam barod,  
 Yn syndod i ddyndod ei ddwndwr.

O'r ochr draw t'rawodd, y gelyn, a gwlawiodd  
 Ei belau, e biliodd a lladdodd y llu,  
 A'i arfog farchogion yn hy' ac yn eo'n,  
 Ddoi'n greulon, yn sythion, i saethu.

A'r Gw'n ar bob ergyd, a gur rai i'r gweryd,  
 A Gw'n-bel, ac enbyd, a diwyd y daw,  
 A'r gwaed gan ergydion, yn llifo'n hyll afon,  
 A thristion accenion yn cwynaw.

A mellt trwy y gelltydd, taranau trwy weunydd,  
 A llu dan eu llywydd, trwy'r gwiuwydd yn gwau ;

---

\* Yn *Waterlw*, gerllaw yr afon Samber yn Fflanders, y bu y frwydr fwyaf waedlyd a ymladdwyd er ys blynyddoedd ; yn y frwydr hon Syr Thomas a ynnillodd y fuddugoliaeth, ac a gollodd ei fywyd.

† Yr oedd y Ffrancod ar fynydd o'r naill du, a'r Brytaniaid ar fynydd o'r tu arall, yn mrwydr *Waterlw*.

A gawr ym mhob goror, a mŵg yn ymagor,  
Dygyfor, a phylor, a phelau.

'N awr \*Arthur anturiodd, i guro, agorodd  
I'r gelyn, argoeliodd, e ledodd ei lu;  
A PHICTON galonog, a'i weision lliosog,  
Yn fywiog, yn arfog, a orfu.

Mal Llew dû galluog,† yn heini', 'n newynog,  
I lain y praidd gwlanog, yn gefnog, yn gwau;  
Hoff reinciau y Ffrancod, a rwyllai â thrallod,  
I'w gorfod â dyrnod y dwrnau.

Ei fyddin ryfeddol, â'i dur bin derbyniol,‡  
Ei draedwyr dirieidiol, wŷr llesiol i'r llu,  
Trwy arfog farchogion, trywanent, tro union,  
Eirf gloywon, iawn teirfion, i'w tarfu.

A PHICTON eo'na'n y blaen gydâ'r blaena',  
A'i dduryn, ai'n ddewra', yn drecha'n y drin;

\* Arthur Wellesley, Dug Wellington, a agorodd ffordd i wŷr meirch y Ffreinc yn y frwydr, ac a gauodd arnynt yn filwraidd drachefn.

† Yr oedd Syr Thomas mewn galarwisg am ei frawd, yn mrwydr Waterlw.

‡ Fe ymosododd Syr Thomas ar fyddin o wŷr meirch y gelyn, ac a'u gyrodd yn ol â dur bin, neu *fayonet*, byddin o wŷr traed y Brytaniaid.



E gurai'r segurwyr, canmolai'r cain milwyr,  
Yr hy' wŷr, ei frodyr, 'n y frwydrin.

Tri march fodd amharchus, â'r glaif yn wir glwyfus,  
'N y drin âi'n druenus, yn boenus heb ball;  
Rhai'n oll gan archollion, a fwriwyd yn feirwon,—  
Ca'dd PICTON, hy' wron, un arall.

Ar hwn yr arweiniodd, ei sawdwyr, gosododd  
Ar fil, a rhyfelodd, a llywiodd y llu;  
A'i gledd yn galonog, ymhoelai wŷr maelog,  
A'r taëog wŷr arfog a orfu.

E waeddai'n awyddus, 'n y frwydr ddifrodus,  
I annog yn hoenus, ei hwylus wŷr hy';  
Os dynion calonog, oedd dano, 'r hydd doniog,  
Gair serchog a'u hannog, er hyny.

“ Ym mlaen â'r cledd eo'n, a'r dur, y gwŷr dewrion,  
“ Galanas gelynion yw dynion â dur;  
“ Ym mlaen â'r pur dduryn, i guro ar goryn,  
“ Pob gelyn, a'u dilyn â dolur.

“ 'Nawr etto, wŷr atynt, unwaith, ac o honynt  
“ Ni fydd un a fedd hynt, na thraws hynt na thro,  
“ I'r carn â'r cledd arnynt, rhown ddur eu rhau idd-  
ynt,  
“ Awn trwyddynt mal corwynt i'w curo.”



Y gair mal ar ergyd, yn ddifai, ro'dd fywyd  
 I'r milwr ymhoelyd yn ddiwyd â'i ddu;  
 A gwŷrth yn eu gwrthol, elynion olynol,  
 Yn wrol, yn nerthol, mal Arthur.

Eu gwyr mawrion gurodd, eu rhestri a rwystrodd,  
 Eu milwyr ymhoelodd a yrodd yn ol;  
 Y gelyn a giliodd, ei fyddin a faeddodd,  
 Gorch'fygodd, ynnillodd, yn hollol.

Yng nghanol ei foliant, ac o loes ddilysiant,  
 O boeriad rhyw beiriant, ei lwyddiant i lawr;  
 Yng ngho'l Buddugoliaeth, Rheolwr marwolaeth,  
 O'i arfaeth, ry'r alaeth, ar elawr.

Y Naf sy'n y nefoedd, sy'n llywio sŵn lluoedd,  
 I ddwyn i fyddinoedd, a'u hoesoedd eu hŷd,  
 Fe fyn eu terfynau i foroedd, rhy furiau,  
 A bàrau i'n beiau a'n bywyd.

Yn ol buddugoliaeth, mae wŷlo, mae alaeth,  
 O'r haid o wŷr odiaeth, ysywaeth y sydd;  
 Yn gorwedd mewn beddau, och! laddwyd â chleddau,  
 Yng Nghaerau, yn nhŷrau, o'n herwydd.

Ond ARTHUR faluriodd y dreigiau a'u drygodd,  
 Eu gwyr a wasgarodd, a bwyodd i bant;

A BLUCHER gymmerodd, ei flaenwyr pan flinodd,  
Dibenodd, gorphenodd, eu ffyniant.

Y Ffrancod difrodus y dydd anrhydeddus,  
Hwn, helwyd yn hwylus yn drefnus i dre';  
A deulu hy' dilys i'w teiau i'w tywys,  
Wyr ysbys, i'w dadrus hyd adre'.

Duw'r dial a dala, y deyrnas gadarna',  
A fythol ddyfetha er gwaetha' eu gwyr;  
'Run wedd os troseddant, hîl herwyr alarant,  
Dychrynant a synant o'u synwyr.

Rhyw ofid yw rhyfel, hawdd ergyd Barn ddirgel,  
Er ochain i'r uchel, a'r isel ei radd;  
Gwae iddo! dug oddef, a gwyntrist i gantref,  
A dolef, ac ynglef, ac angladd.

Och! rif yr ymddifaid, a'r boen i'r benywaid,  
Wna drin yn drueiniaid, mewn ysbaid un awr,  
Yn wŷlo'n anhwylyd, o guddio gwyr gweddus,  
Gwyr taclus 'n alarus, ar elawr.

Maes y gwaed mŵs gwed'yn, ddû ochrau rydd ddych-  
ryn,  
Pob gŵr pawb â'i goryn ar ddernyn o dd'ar;  
Rhai oll yn archollion, rhai'n glwyfus, rhai'n gleifion,  
Rhai'n feirwon, i'r galon ry'r galar!

Y meusydd mewn mesur a lefant ei lafur,  
 A gwyrthiau'r gwiw Arthur, a'r mawrddur ŵr mwyn,  
 Y \**Samber* gymmerodd, ddu waedlif ddyhidlodd,  
 A wridodd, a gochodd, i gychwyn.

Y gŵr haeddai gerydd, i lidio wnai wledydd,  
 I rànu'r dihenydd, sydd beunydd yn bod,  
 I ddynton o ddoniau, o rodres a brwydrau,  
 Ymladdau, ac arfau, a gorfod.

Ond ein gwlad dan galedi, wna anun yn heini',  
 A'r dur lawr i dòri, drygioni'r di-ras;  
 I rwystro gwyr estron i guro'n plant gwirion,  
 Yn greulon, a'n dynion, a'n dinas.

A PHICTON galonog, â'i haiarn ar euog,  
 A dòrai'n flinderog, wyr taëog â'r tân;  
 Yn dÿn amddiffynwr, i'w wlad yn wylledwr,  
 Yn dŵr rhag pob herwr heb arian.

Ei glod hyd y gwledydd, o'r genau ar gynnydd,  
 Yn drafwyn drwy drefydd fydd beunydd yn bod;  
 A'i enw da doniog, a'i hanes lon enwog,  
 Wna i ysgog, bob arfog, heb orfod.

---

\* Afon gerllaw maes y gwaed.

Tra parch i hy' Farchog, a lleisiau lliosog,  
 A geiriau gwiw eurog, i'r doniog a'r da;  
 A Thâf loywaf afon, a'i dwr hoyw yn dirion,  
 Clod PICTON fydd burion i bara.

Tra dydd a phrydyddion, a'r dda'r, a cherddorion,  
 A bri a gwobrwyon i'r dewrion a'r da;  
 I actau'r glew BICTON, e geisir yn gysson,  
 Glod cyfion; a'n hwyrion, a'i haera.

I Frydain hyfrydwch, a llwyddiant llawn heddwch,  
 A gwir a brawdgarwch, dedwyddwch a dawn,  
 Yn brysio fo'n brysur, yn llif ar ein llafur,  
 Gan Awdur gwir gysur, yn gysawn.

Bo'i uchel a bychain, wir frodyr o Frydain,  
 Dawn hyder dan adain Duw'r Ne' gain, Dŵr nawdd,  
 A mwy rhad i'r mawrion, er cofio'r Iôr cyfion,  
 Y Duw Ion, cywir-Ion, a'u carawdd.

Duw ràno i'r deyrnas hir heddwch wir addas,  
 A harddwch ac urddas cyfaddas i fod;  
 A doniau a dynion, i \*lainio'n gelynyon,  
 Mal PICTON, aer purion, ŵr parod.

---

\* Curo.

I Gymru, clod odiaeth, o deg enedigaeth,  
 Y gŵr a'i fagwriaeth, a'i driniaeth a dry;  
 A Rhwydd-deb a Llwyddiant, ddaw fyth yn ddi-  
     fethiant,  
 A Ffyniant, a Mwyniant, am hyny.

---

## BUGEILGERDD ;\*

Y GYNTAF.

---

Gan MR. EDWARD RICHARD, Ystradmeirig.

---

GRYFFYDD.

Pwy ydyw'r dyn truan, fel hyn wrtho'i hunan,  
 'Rwy'n canfod yn cwynfan, fel baban dan berth;  
 A'r dwr dros ei ddeurudd, yn gostwng dan gystudd?  
 Myneged i *Ryffydd* ei drafferth.

MEURIG.

Di weli d'anwylyd, hen gyfaill mewn gofid,  
 Corff egwan dan adfyd, o'i blegid a blyg:

---

\* This Pastoral (by way of dialogue between two shepherds) was composed on the death of the Poet's Mother, which happened in the year 1765. Her name was Gwenllian, and her character answered, in general, the account given of her in the Poem. She idolized her son, and he was very dutiful to her.

Bid immi drugaredd, fe ddarfu pob rhinwedd,  
Anrhydedd, a mawredd, ym *Meuryg*.

GRYFFYDD.

A laddodd y bleiddiaid, yn ddfifwyn dy ddefaid?  
Neu a giliodd dy goelaid, lloer gannaid o'i lle?  
O'r wŷn aeth i *Frwyno*,\* 'does un nad oes yno,  
Pob un a grwydro a geir adre'.

MEURIG.

Ymwasgu a gwâg gysgod, a charu'r byd ormod,  
Ar ddarn o ddiwrnod i drallod a dry;  
Ni chefais fawr golled, am dda nac am ddefaid;  
Mae'r ddôr yn egored i garu.

GRYFFYDD.

Ai trawsion trwy ysu, di-fudd sy'n dy faeddu,  
A thra-mawr orthrymu'n diraenu dy rudd?  
Och'neidiau rhy oerion, sy'n nghiliau fy nghalon,  
Fod dwyfron dyn-gwirion dan gerydd.

MEURIG.

Fy nyddiau'n anniddan, ân' oll o hyn allan,  
Gosodwyd *Gwenllian* mewn graian a gro;  
Mae hiraeth fel cleddau, yn sŷn dan f' assenau,  
Fe lwyda lliw'r aelau, lle'r elo.

GRYFFYDD.

Er syrthio'r dywarchen, i'r ddu oer ddaearen,  
Hi gyfyd fel haulwen, yn llawen o'i llwch.

---

\* *Brwyno* is a noted sheep-walk on the hills above Strata Florida.



I'r sawl sy'n troi ato, mae bywyd heb wywo,  
Ym mreichiau ei Dad iddo, a dedwyddwch.

## MEURIG.

O taer yw naturiaeth, ni thry er athrawiaeth,  
Ond wŷlo gan alaeth, a hiraeth am hon ;  
A'r galon dan glwyfau, di les, a dû loesau,  
A dŷr heb naws geiriau, 'n ysgyriion.

## GRYFFYDD.

Mewn henaint, mewn ie'nctyd, mewn nych, ac mewn  
iechyd,

Mae'n aml rai'n symud o fywyd i fedd ;  
Nid oes na dyfeisio, na golud, na gwyllo,  
All rwystro neb yno, na bonedd.

## MEURIG.

Fy nydd sydd yn nyddu, yn fanwl i fynu,  
A'r nos sydd yn nesu, i roi'n isel fy mhen ;  
Ac un nid oes genni', er wŷlo ar oer wely,  
Pan bo im' glafychu, glyw f' ochain.

## GRYFFYDD.

Ymostwng yn astud, i Ffynnon y Bywyd,  
Ac ochain am iechyd, i'th glefyd a'th glwy' ;  
E fydd, y mae'n addo, i'r gwas sy'n ei geisio,  
Dan wŷlo ei gŵyn wrtho, 'n gynnorthwy.

## MEURIG.

*Gwenllian* fwyn serchog, 'rwyf fyth yn hiraethog,  
Yng nghŵyn yr anghenog, gwnai'n rhywiog ei rhan ;



A phorthi'r trafferthus, yn hael, a'r anhwylus,  
Gwnaeth llawer gwan lliwus, *Gwenllian*.

GRYFFYDD.

Pe rhanwn yn rhywiog, fy nghroen i'r anghenog,  
Heb waed yr Oen serchog, ŵr euog yr wyf;  
A thÿnu 'ngwythienau ar led, a f' aelodau,  
I'r poenau'n dameidiau, dim ydwyf.

MEURIG.

Os hoffi gorchymyn ei Dad wna'r credadyn,  
(Trugarog i adyn o elyn yw o,)  
Ac adde' ei ddiffygion, mewn cof am un cyfion,  
Ni chais ei law dirion le i daro.

GRYFFYDD.

Gan hyny bydd foddlon, fod cariad mor dirion,  
Yn myned yn union at Seion a Saint;  
Fel ffrwyth pan addfedodd, mor deg hi 'madawodd,  
O'i gwirfodd, hi hunodd mewn henaint.

MEURIG.

Nid oes mwy hynawsedd, i'w gael, nac ymgeledd;  
Gan roi'r un garuaidd a llariaidd i'r llwch;  
Na gobaith 'does genni', gael unwaith ond hyny,  
Mewn mwynder, chwaer iddi, a char'eiddwch.

GRYFFYDD.

Gad ochain mor drymed, a dagrau i rai digred,  
(Na byddo gwàrgaled, yn niweid i ni;).

Ti a'i gwelaist, gobeithio, mewn heddwch yn huno,  
Ac amdo'n digwyddo'n deg iddi.

## MEURIG.

Dy eiiau da arail, ni nyddant hen wiail;  
Cyn hawsed i fugail, a siglo sail serch,  
Roi gosteg i'r gwyntoedd, a thwrf mawr y moroedd,  
Neu weddwod o'i hanfodd i henferch.

## GRYFFYDD.

Mae genyt ti ganu, a rhinwedd gyfranu,  
Da ddoniau'n diddanu, a llòni pob lle;  
Os chwiban dy bib-goed, felusgerdd dan las-goed,  
O'r coed ni fyn dwy-droed fyn'd adre'.

## MEURIG.

Pen addysg pan oeddwn, i'r gwyrdd-ddail mi gerddwn,  
A'r man y dymunwn mi ganwn â'r gôg;  
Yn awr dan ryw geubren, rwy'n nychu ac yn ochain,  
Fel c'lommen un adain, anwydog.

## GRYFFYDD.

Ni gerddwn dan chwiban, at *Ned\** o'r dre', druan,  
Cawn hwn wrtho'i hunan, mewn caban main cul;  
Mae'i gwrw fo o'r gorau, i'w gael yn y gŵyliau,  
Gwnawn dyllau'n o forau'n ei *faril*.

---

\* *Ned o'r Dre'* was the vulgar name by which the Bard was known in the neighbourhood.

## MEURIG.

Mi welais ryw eilyn ar fwrdd yr oferddyn,  
 A *Ned* wrth ei biccyn, yn llibyn a llwyd;  
 Pab Rhufain, pe profai, (er maint ei rym yntau,)  
 A grynai, gwn innau, gan anwyd.

## GRYFFYDD.

Er niwl ac anialwch, a thrawster a thristwch,  
 Daw dyddiau dedwyddwch hyfrydwch i'r fro:  
 Daw *Anna*\* i dywynnu, cyn nemmawr, cân immi,  
 Di weli blwy' *Dewi*'n blodeuo.

## MEURIG.

Er mynych ddymuned, o'r galon ei gweled,  
 Mor luniaidd, mor laned, a haeled yw hon;  
 Mae'm march yn din-denau, a'r llif dros y dolau,  
 Yn chwarae pentanau *Pont-Einion*.†

## GRYFFYDD.

Rhyw faich o'r afiechyd, sy gâr i seguryd,  
 A hunan brydnawn-fwyd yw bywyd y balch;

\* *Anna*.—She was a daughter of ——— Powell, Esq. and sister to Thomas Powell, Esq. and to William Powell, LL. D. of Nanteos. She was married first to Richard Stedman, Esq. of the abbey of Strata Florida; and after his death, to Sir Herbert Lloyd, of Peterwell. At the time the Poet wrote, she lived at Foelallt, in the parish of Llanddewi-brefi.

† *Pont-Einion* is a bridge over the river Teivy, in the way from Ystradmeiric to Foelallt.

Rhesymau mwyn hyfryd o'r galon yw'r golud,  
A'r iechyd i'r ynfyd a'r anfalch.

## MEURIG.

Y *Phenics* hoff anian, aur eglur rywioglan,  
Ni thynn *Feuryg* allan o druan o'i dre';  
A'r manna, pe'i rhenid, yn rhwydd er cyrhaeddyd  
Yr ynfyd a chysglyd, ni chasglai.

## GRYFFYDD.

*Nanteos* heb orphwys, o'i mebyd, a *Mabwys*,  
A'r *Trawsgoed*, le gwiwlwys, sy'n cynnwys gwŷr call;  
Gwell ambell awr ddigri', gael rhan gydâ rheini,  
Na phoeni'n trysori tros arall.

## MEURIG.

Nid oes well cyfeillion, nâ doniau mewn dynion,  
Gwyr rhyw y goreuon, yn galon i gyd;  
Er maint eu rhinweddau, diogel yw cartre',  
Yn ara' daw maglau i dŷ myglyd.

## GRYFFYDD.

Gan nad oes tu yma i dy fedd a dy foddia,  
Amen, mi ddymuna, na ffaela'n dy ffydd,  
Rhag myn'd i'r poen didranc, fel annoeth un ieuanc;  
Neu hen-lanc, dwy grafanc, di-grefydd.

## MEURIG.

Pob math ar fendithion, fy nghâr, am gynghorion,  
Fo'n llòni dy galon mewn dynion a da:

Diwael fo dy wely, mewn lafant a lili,  
A'r mêl yn diferu'n dy fara.

## GRYFFYDD.

Y ddafad ddû gyrnig, gei'n lân yn galenig,  
(Cydymmaith caredig yw *Meuryg* i mi,)  
O'r hwrdd sydd ym *Mrwyno*, mae'n gyfeb, 'rwy'n  
cofio,  
Dwg hòno'n rhwydd etto, un rhodd itti.

## MEURIG.

Mae genyf bâl newydd, was diddan, er's deuddydd,  
Un graffus wèn, Gryffydd, a hylwydd yw hi;  
Danfonaf hon heno i'th dŷ, o waith *Deio*,\*  
Pan dreulio, mae'n addo mân iddi.

## GRYFFYDD.

Mae'n bwrw yng *Nghwamberwyn*,† a'r cysgod yn es-  
tyn,  
Gwna heno fy mwthyn yn derfyn dy daith;  
Cei fara a chawl erfin,‡ iachusol, a chosyn,  
A 'menyn o'r enwyn, ar unwaith.

\* *Deio*.—The name of a blacksmith in the village.

† *Cwamberwyn*.—A ravine among the hills above Tregaron, to the S.S.W. from Ystradmeiric. Showers seem to advance from thence, and proceed along the chain of hills to the south of the Teivy, the skirts of which generally reach Ystradmeiric, to the north of the river.

‡ Maip.

## MEURIG.

Gwell cyngor rhagorol, na maeddu'r heneiddiol,  
 Ond un peth dewisol, swydd rasol sydd raid ;  
 Gofalwn am hwnw, ni wŷr pridd a lludw,  
 Y dydd y bo galw Bugeiliaid.

*Ystradmeirig, Ionawr 1, 1766.*

---

 BUGEILGERDD ;

YR AIL.

---

GAN MR. EDWARD RICHARD.

---

## Y TESTUN.

HYWEL ac IWAN yn cyfarfod yn y Tŷ wrth *Lyn Teifi*,—yn annog y naill y llall i ganu,—yn achwyn ar yr Amser,—yn cysuro ac yn cynghori eu gilydd.—Swm y cwbl, “ Yr un peth anghenrhaid.”

---

 HYWEL.

Hoff iawn oedd gorphènu tŷ haf wrth lŷn Teifi,  
 A'i dônau'n ymda'nu yn loywddu at y làn ;  
 Mae gweled ein gilydd yn llunio llawenydd,  
 Cawn beunydd gân newydd gan IWAN.

I WAN.

Mae *Hywel* mor hwylus, mor wych, ac mor awchus,  
 Wr enwog o'r ynys, gardd felus, gerdd fwyn ;  
 Min miwsig mwyn moesol, ac araith ragorol,  
 Mor siriol a gwennol y gwanwyn.

H Y W E L.

Yn fore myfyrio mwyn gân a mân *Gwèno*,  
 Yw golud bugeilio, a rhodio'n w'r rhydd ;  
 Yn llwm ac yn llawen, mae'n amlach brig brwynen,  
 Na deilen erfinen ar fynydd.

I WAN.

Pa beth a dâl canu, a diddan brydyddu,  
 A'm defaid o'm deutu yn llàm wrth y llyn ;  
 Ac ereill wrth garu, a'i swyno a chusanu,  
 Yn denu'r fain aelddu f' anwylddyn ?

H Y W E L.

Dyn beunydd dan benyd\* wyf finnau'r un ffunud,  
 Heb obaith am iechyd i'm clefyd a'm clwyf ;  
 Ond annerch lliw'r hinon â phinau drain dïon,  
 A danfon pennillion pan allwyf.

I WAN.

Dibarch gan y merched a fydd dyn diniwed,  
 Ni fynant hwy glywed na gweled y gŵr ;  
 Gwarth ydyw, gwrthodant, coegenod cydganant,  
 A chwarddant am lwyddiant ymladdwr.



## HYWEL.

Yr Iuddew'n awyddus i'r bydol wybodus,  
 O flaen y dyn dawnus sy'n dewis y da;  
 Ac aeres wâg goryn, sy'n gwrthod y glanddyn,  
 A dderbyn oferddyn i fawrdda.

## IWAN.

Na son am fursenod, na drygau bydragod,  
 O wrando cymmendod coegenod cei gâs;  
 Hwyl fyddan' anfoddlon i garu dyn gwirion,  
 A ffyddlon i'r dewrion wŷr diras.

## HYWEL.

Mae'r awel yn chwythu uwchben a chwibanu;  
 Gwel accw'r hwrdd torddu yn llechu'n y llwyn;  
 Mae'r adar hyfrydlais yn canu symudlais,  
 Rhwng cangau (cais gydlais) cysgodlwyn.

## IWAN.

Nid hir bydd gan landdyn iaith hylwydd na thelyn,  
 Byd drwg sy'n gyffredin yn dilyn y da;  
 Mae cainc yr aderyn yn arwydd o ddryccin;  
 Mwy cyttun â'r henddyn yw'r hindda.

## HYWEL.

Yr o'it ti'n llanc llawen, yn llawn o'r *Feillionen*,  
 Fe nythai'r fwyalchen dan dalcen dy dŷ:  
 Peth rhyfedd i dderwen, mor union a brwynen,  
 Fel 'sgolpen o'r grommen wargrymmu.

## IWAN.

Lle bum yn byw'n benna' o gant ar y cynta',  
 'Rwy'n awr y gŵr gwaela' a lleia'n y llys;  
 A'r ddwyrudd i'r ddae'ren, a 'ngham yn anghymmen,  
 A'r ddeutroed anniben a nawbys.\*

## HYWEL.

Cofleidio mae'r cyfion ddewisol dda weision,  
 A golud i'r galon mae'n danfon a dysg;  
 Bastardiaid a lyssa, a chasbeth ni chosba,  
 Lle y cara, cerydda, ceir addysg.

## IWAN.

Bucheddu'n hiraethlon ar ol hen gyfeillion,  
 A ysgarai'n ysgyrion y ddwyfron o ddur;  
 Ni feddaf fawr iechyd, na chyfaill gwych hefyd,  
 I ddweyd wrth f' anwylyd fy nolur.

## HYWEL.

Fe ddarfu'r hen amser o fyw mewn esmwythder,  
 Ar giniaw ac ar swpper mewn llawnder yu llon;  
 Heddyw'n clodfori â'n tafod Llyn Teifi,  
 Y foru'n llon ganu'n Llyn Gynon.†

---

\* *Nawbys*.—From an accident which happened to him while he was composing this Pastoral, he had the misfortune to lose one of his toes. The skill of his old pupil, Mr. David Hopkins, Surgeon, of Aberystwyth, was of essential service to him in this troublesome, and indeed (considering the grossness of his habit) dangerous case.

† *Llyn Gynon*.—A pool, or lake, lying nearly east from Strata-

## IWAN.

Lle byddo cybydd-dod yn cloi ar gydwybod,  
 Ni ddyi, y neb gardod heb ddannod i ddyn;  
 O'r afon yr yfant, a'r bwyd hwy arbedant,  
 A dynn o'r byw gilddant bugeilddyn.

## HYWEL.

Eu hyswi at ei hosan gyrr ymaith a'r crymman,  
 Ac erlid o'r gorlan yr aflan o ryw;  
 A chais at ei chosyn, amynedd, a'i 'menyn,  
 Y gelyn i'r enllyn o'r unlliw.

## IWAN.

Y cerlyn creulona' â'i fol a ryfela;  
 Ei ocraeth a lygra, e bydra'n y bôn:  
 Mae dynion di-ddoniau, rhai dall, a rhidyllau,  
 Yn arfer cau beddau cybyddion.

## HYWEL.

Lle dygai'r gym'dogaeth, yn hwylus a helaeth,  
 Am ddawn ei farddoniaeth wiw luniaeth i lanc;  
 E fagodd cenfigen o Glarach\* i Glaerwen,  
 Mae hyn yn dwyn awen dyn ieuanc.

Florida, at the distance of about five miles. It is about three miles to the south of Llyn Teivy.

\* *Clarach* is a fine little vale, about two miles to the north of Aberystwyth, principally noted for its produce of fine barley, and its early harvest. *Claerwen* is a rapid river, which for some miles forms the boundary between the counties of Cardigan and

## IWAN.

Os colli di'r gallel, a'r byd os â'n isel,  
 Ni wahawdd neb *Hywel*, w'r tawel, i'r tŷ;  
 Ni welir ar wyliau y Bardd wrth eu byrddau;  
 I ddrysau ceginau cei ganu.

## HYWEL.

Pe gwyddit ti ragor nâ Bugail *Llangoedmor*,\*  
 (Ac aur ym mhob goror yw cyngor y call,)  
 Heb dâl am dy letty gwell dal ar y neilldu,  
 Rhag iti, Fardd, oeri ar fwrdd arall.

## IWAN.

Tra'r march yn gorchfygu yn wych ac yn wisgi,  
 Fe geiff ei glodfori a'i berchi'n y byd;  
 Pan gollo fe'r gwirfaes yn oerllwm a hirllaes,  
 Ni chlyw ond—Ffei, dinllaes ffwdanlyd.

## HYWEL.

Mae llawer fel llewod, yn wrthun, neu arthod,  
 Er gwaetha' cydwybod yn gwrthod y gwir;  
 Pa fugail a ganai (a gweled mynyddau  
 Fel Hendre' dan gaeau) dôn gywir?

Radnor. It is about four miles to the east of Ross-fair. The *Claerddu*, a stream mentioned in the 34th Stanza, falls from the north-west into the *Claerwen*, the *Claerwen* into the *Elan*, and the *Elan* into the *Wye*, two or three miles below Rhayader.

\* Doctor James Phillips, Rector of Llangoedmore, near Cardigan, a friend and correspondent to the Bard.

## IWAN.

Er bod ambell fwthyn ar Fynydd y Brenin,  
 I dderbyn bugeilddyn o'r dryccin ar dro,  
 Er hyny ar groen hwnw, o'r Ffair-rhôs i'r Dderw,\*  
 Nid oes ond blew garw'n blaguro.

## HYWEL.

Mae cyflwr y deiliaid yn gul ac yn galed,  
 A blinder eu llygaid yw gweled y gwâs,  
 A'i ogwydd i wagedd, i fâr, ac oferedd,  
 Wrth fuchedd, a rhinwedd yr henwas.

## IWAN.

Nid chwith y pryd hyny, i'r forwyn arferu,  
 O'i bodd ymdrybaeddu, a chrafu'n ei chrys ;  
 Swydd arall sy'r awrhon, a gwewyr ei galon,  
 I'r hwsmon yw mingron a'i meingrys.

## HYWEL. -

Mae llawer un lliwus er byw yn helbulus,  
 Na phrawf mo'r bwyd blasus, a melus i'r mân ;  
 A'i fwthyn di-foethau heb fêl nac afalau,  
 Na chnau yn ei gaerau, nac eirin.

---

\* *Dderw* is a farm lying about a mile to the west of Rhayader. The lately deceased Thomas Prichard, Esq. who was the proprietor, built an elegant box of a house there. The distance from *Ross-fair* to *Dderw* is near twenty miles, over a very mountainous and uncultivated district.

IWAN.

Ceiliogod, cŵn hirion, a ffydd yn y porthmon,  
 Na âd i'w gym'dogion na chynffon na chorn,  
 A yrrodd rai gwledydd, a'r dwr ar eu deurudd,  
 A'u meusydd a'u bencydd heb unicorn.

HYWEL.

Y synwyr a brynodd, ein ffydd a'i diffoddodd,  
 O Feuryg! tros foroedd e giliodd y gân ;  
 Y tiroedd a'r trethi, a dorrodd ein diri,  
 A chwm'ni'r hen chwilgi\* ein uchelgan.

IWAN.

Crochan y felldith, a'r bara gwan gwenith,  
 A yrrodd bob bendith a'r llefrith i'r llwyn ;  
 A'r hwsmon, ŵr esmwyth, yn wâg ac yn ddiffrwyth,  
 O'i dylwyth a'i danllwyth i dinllwyn.

HYWEL.

Anaddas i nyddu, na bod yn y beudy,  
 Trin llwch trwyn a llechu, darparu dwr poeth,  
 A gwrthod y garthen, a wnaeth y wenithen,  
 Yn laswen ei thonnen, a thinnoeth.

---

\* *'R hen chwilgi.*—It is a well known fact, in the recollection of some persons still living, that the Bard suffered some inconvenience from the too curious and scrutinizing eye of an excise officer.

IWAN.

Y gŵr o ragoriaeth ac amal gydymmaith,  
 Pan wisgo'r gynhysgaeth heb obaith i ben;  
 I garchar ag efo, fel dall wedi 'i dwyllo,  
 Ni fedd o i'w roi dano redynen.

HYWEL.

Y wreigan rywiogaidd, a hinon ei hannedd,  
 Sy'n deall o'r diwedd, a'i llechwedd i'r llwch,  
 Mai sidan a siopau, cig gwŷu, a'r cacenau,  
 Yw mamau dû foreu 'difeirwch.

IWAN.

Ni chawn ond achwynion yn nyth yr annoethion,  
 Seguryd sy goron i feibion y fall;  
 Dewisach it' oesi rhwng Claerwen a Chlaerddu,  
 Na phlygu ac hyderu ar gŵd arall.

HYWEL.

Tòr allan bob amser dy bais wrth dy bwer,  
 Byw'n uchel dy fwynder i drawsder a dry;  
 Gwna'r manna dymunol, a gwîn yn ddigonol,  
 I'r rhadol wr moesol ormesu.

IWAN.

Èr da ac er defaid, er meibion a merched,  
 Heb weddi iddo'n fwcled, er teced y tŷ,  
 Byr iawn fydd ei bara; y peth a ddisgwylia,  
 Lle gwela'i dwf lonna', yw diflannu.



## HYWEL.

Er teced y tafod, mae llawer un hynod,  
 O eisiau cydwybod, â gormod o gest;  
 Peth anhawdd, 'rwy'n tybied, i'w gael rhwng bug-  
 eiliaid,  
 Sy'n gwylied yr enaid, wr onest.

## IWAN.

Na ddewis y dderwen, na dyn wrth ei donnen,  
 Heb ddysg yn ei dalcen, na'i ddiben yn dda;  
 E ddaeth yn ein hamser, i'r byd amryw bader,  
 A llawer trwy Ficcer Trefecca \*

## HYWEL.

Nid ydyw'r tai tecaf, na'r tiroedd llydanaf,  
 Yn arwydd cywiraf a phenaf am ffydd;  
 Na moethau ac esmwythdra, e fydd, na ryfedda,  
 Lle gwreiddia grâs bêna', groes beunydd.

## IWAN.

Chwilia'r ysgrythur, rywioglan air eglur,  
 Mae llawer o dwyllwyr a bradwyr i'n bro;  
 Na âd i'r gau frodyr, fy nghâr, na chynghorwyr  
 Disynwyr Deuheudir dy hudo.

---

\* *Ficcer Trefecca*.—The famed Mr. Howell Harries, one of the fathers of Methodism in Wales. After travelling for a few years through most parts of the principality, he ceased from his itineracy, and became generally stationary at Trefecca, in Breconshire, where he formed a kind of religious colony, consisting of

## HYWEL.

Tra'r byd anwybodus tan ladron twyllodrus,  
 Hil Uzza ryfygus, cŵn gwancus i gyd ;  
 Lach eiriau ni charan', trwy ffydd hwy offryman',  
 Y cyfan \* \* \* \* \*

## IWAN.

Wrth edrych a rhodio, byw'n gul a bugeilio,  
 Mae'r bellen heb bwylo yn llusgo at y llwch ;  
 Dewisach mewn dyffryn im' fath o ryw fwthyn,  
 Pe cai dyn da dyddyn dedwyddwch.

## HYWEL.

Mae'n anhawdd cael unman heb nyth y Lefiathan,\*  
 Sy'n achub y ddwyran yn gyfan i'w gŵd ;  
 Na osod dy letty yn agos i'r fagddu,  
 Sy'n hyncu, gwae Gymru! gig amrwd.

## IWAN.

Ei iawnfrawd o'r unfon yw'r Behemoth greulon,  
 Gwir lun eu tad Mammon, rai dŷon a dig ;

disciples from different parts of Wales, who had delivered up themselves, their families, and their property, to be directed and managed by his sole discretion. He was considered, in the first years of Methodism, as the most eminent teacher of the party. He was a layman.

\* The traditional explanation of the terms *Lefiathan* and *Behemoth*, handed down among the farmers of the neighbourhood, is that they were two attorneys of that time.

A'u dannedd hyll allan, na ddelo dryw druan,  
I ran y ddau aflan ddiëffig.

## HYWEL.

Gan faint ydyw brynti eu dwy rwyd a'u direidî,  
Mae'r plentyn heb eni'n ymgroesi'n y groth;  
Cymmered y gigfran ei llwyth o'r Lefiathan,  
A'r man y bu Haman, Behemoth.

## IWAN.

Rhowch ddiöd i landdyn, a lletty i gardottyn,  
Anrhydedd i frenin, a gwenyn i gwch;  
Cyfrenwch o'ch cyfoeth, arweiniwch yr annoeth,  
Eich gwisg i was tinnoeth, estynwch.

## HYWEL.

Arferu a myfyrio, waith ellyll, a thwylo  
Yn rhywiog, a rhuo, a bloeddiö'n wÿr blin;  
Mae'r bräs fel bu Rhosser,\* â chig ar ei swpper,  
Mae'n rhaid i'r cul arfer cawl erfin.

## IWAN.

Yn ol hir ymhaeru, gwaith anghall, a thyngu,  
Trwy'r trwch a gortrechu, a gwasgu ar y gwan,  
Y geiniog oedd gynneu heb lid yn ei blodau,  
Fel dwr o ridyllau a red allan.

---

\* *Rhosser*.—A notorious robber and plunderer, who lived not a hundred miles from Llanidloes, in the sixteenth or seventeenth century.

## HYWEL.

Nid haeach er trawsed yw'r gelyn gwargaled,  
 Sy'n ginio\* rhai gweiniaid heb arbed yn byw :  
 Na's gall y Gŵr gwirion, sy'n gweled y galon,  
 Roi coron uchelfron yn chwilfriw.

## IWAN. .

Cais bwyll ac amynedd, a disgwyl y diwedd,  
 Cei weled plant camwedd, er cymmaint eu llu ;  
 A'u tegwch yn gwywo, y gwir yn blaguro,  
 A'r dô† sy'n dy flino'n diflanu.

## HYWEL.

O eisiau gonestrwydd îs wybren, a sobrwydd,  
 A chariad wych arwydd a sicrwydd y saint ;  
 Mae'n wâg yr ysgubor, y maes yn ddidrysor,  
 A'r môr yn dygyfor digofaint.

## IWAN.

Er goddef hir gafod, o newyn a nychdod,  
 Usuriaeth a sorod, am bechod y byd,  
 E all y Tad tirion, roi gras i rai croesion,  
 A'i ffrwythlon haf anfon hufenfyd.

## HYWEL.

Hwyr wylo hir welir ar wyneb yr anwir,  
 Pan delo dydd dolur, a gwewyr i gant ;  
 Diogel tan greigiau, main nâdd, a mynyddau,  
 Mewn tonnau na beddau ni byddant.

\* Diosg, ysbeilio.

† Cenedl

I WAN.

Nid oes ond un angen. Mae deunydd dy dalcen  
 Fel pêr olew-wydden ar haulwen yr haf ;  
 Rho gynghor yn echwyn, mi dala i ti'n ddibrin ;  
 Nid wyf ond ysgellyn, os gallaf.

HYWEL.

Os mynni, was mwynaidd, drwy guro drugaredd,  
 A'th roi mewn tangnefedd, w'r llariaidd, i'r llwch ;  
 Rho glust i'r eglwysi, na phaid â'r prophwydi,  
 Mae'r rhei'ni'n cyhoeddi cei heddwch.

I WAN.

Rhyfela'n ofalus â gwyniau drygionus,  
 Mae'r galon yn glwyfus, anhwylyus yw hi ;  
 Ac arfer elïau i laesu ar ei loesau,  
 Picellau a nodwyddau na'd iddi.

HYWEL.

Nac ammau, gwna gymmod â'th Dad a'th gydwybod,  
 Yn ddistaw dy ystod heb 'nafod i neb ;  
 Drwy ddiwyd weddio, diwegi a diwygio,  
 Lle bo, fe gâr wrando gwiriondeb

I WAN.

Derchafi'n dra chyfion, o'r gweryd i'r goron,  
 Ond maethu'n dy ddwyfron y galon o gig ;  
 A golchi'th bechodau yn lân ar dy liniau,  
 Dy glwyfau cyfadde', cei feddyg.

## HYWEL.

Tro'r praidd i le dirgel, mae'n bryd i ni ymadael,  
 A thynnu i le tawel, tŷ'n isel tan allt;  
 Cawn ran o bob rhinwedd, gwnawn heno gynghanedd,  
 Mewn gwledd o orfoledd i'r Feulallt.

## IWAN.

Ni egyr yn agos un tŷ ond Nanteos,  
 A dâl yn y cyfnos ei ddangos i ddyn,  
 Bob dydd yn ei blodau, un nos nid yw'n eisiau,  
 Na moethau, na chagau, 'n ei chegin.

## HYWEL.

Yn nhŷ'r hael ei lygad mae bendith yn oestad,  
 A channoedd mewn cariad, yn curo wrth y drws;  
 Am roesaw diweniaeth, llawenydd a lluniaeth,  
 Dros noswaith mae'm obaith ym Mabws.

## IWAN.

Mae Mabws a'i meibion, gwir yw, i'r goreuon,  
 Yn dêg i'w cym'dogion, a'r tlodion, le tlws;  
 Boed heddwch a hawddfyd, lle cefais bob gwynfyd,  
 O'm ie'nctyd, a'm mebyd, ym Mabws.

## HYWEL.

Dedwyddwch da diddan fo'n nofio'n Llanafan,  
 A lletty gwresoglan i'r truan a'r trist;  
 Gwŷr enwog fel glasgoed fo'n tyfu'n y Trawsgoed,  
 A'u câs boed heb undroed yn bendrist.

IWAN.

Ar bob rhyw berffeithrwydd daw diwedd yn ebrwydd,

Ond cyfraith yr Arglwydd i'r dedwydd ŵr doeth,  
 Sydd ehang a hyfryd : na weler, f' anwylyd,  
 O'n bywyd un ennyd yn annoeth.



## CAN Y BONT.\*

GAN MR. EDWARD RICHARD.

Am Bont Rhyd-fendiged mae son mawr a synied,  
 Ar fyr cewch ei gweled mor danbed a'r dydd ;  
 Fel castell gwyn amlwg, goreulan i'r olwg,  
 Neu gadwyn i fwnwg afonydd.

---

\* At the time this song was written, it was a question much debated, whether the county or the parishes of Caron and Gwnws, (the former lying on the south, and the latter on the north, of the river Teivy,) were bound to erect and repair the bridge over that river, at the village called *Rhyd-fendiged*. By the assistance of the families of Crosswood, Nanteos, and Mabws, (particularly the last,) it was carried at the quarter sessions, that the erection and repairs lay on the county. Hence the poet, entering into the feelings of the freeholders and tenantry in those parishes, exhorts them to fidelity and gratitude, and cele-



Hi saif yn ei hunman, y Bont ar ddau bentan,  
 Yn hynod ei hunan a llydan er lli';  
 Tra Banc-pen-y-bannau yn dàl uwch y dolau,  
 A ffrydiau mewn tonnau'n myn'd tani.

Gwna'r pentref mwyn serchog tros fyth yn gyfoethog,  
 Wrth ddwyn yr arianog a'r llwythog i'r lle;  
 A phan elo'n athrist heb ddim yn ei ddwygyst,  
 Hi helpa'r dyn didrist fyn'd adre'.

Os digwydd ar brydiau fod llif dros y dolau,  
 A gwagedd y pentre'n eu crysau'n rhoi cri,  
 Geill cyfaill heb gafan, ar d'w'llwch fyn'd allan,  
 Heb gwrdd ag un dafan o Deifi.

Bydd *Dan* yn ŵr cadarn, a rhywiog i'r haiarn,  
 Gof arfog cywirfarn i'r dafarn pan dêl,

brates the hospitality and friendly condescensions of the representatives of those families.

By the *answer* to the first song, it is evident that the expectations of the Bard, with regard to the bridge, were disappointed. Neither the design nor the execution pleased him. And, though it continues to stand, with some occasional repairs, to this day, (1824,) yet it must be confessed that it is a coarse and clumsy piece of building. His indignation against the building extends to every thing connected with it;—to the village, the workmen, and even to himself. It is a very spirited little composition.

Ar gawsai lân gysson, o gèryg mwyn meinion,  
Yn union o'r afon i'r efel.

Er gwneÿd hon yn ffyddlon, er mwyn y glân ddyinion,  
A rhei'ny'n gym'dogion da mwynion i mi,  
Bydd NED o'r Dre', druan, ar fyrder mewn graian,  
A llawer awff trwstan eiff trosti.

Gwyr Gwnnws a Charon, cydunwch fel dynion,  
Cewch felly'n gyfeillion wÿr dewrion a dwys ;  
A sefwch yn ffyddlon tra Pont dros yr afon,  
A meibion o feibion i Fabwys.

Mae etto le tirion, ei gofio sydd gyfion,  
Yn llawn o gymdeithion hoff radlon a ffri,  
Hir iechyd i'r achos, na welwyf mo'i wÿlnos,  
Nac eös Nantëos yn tewi.

Na weler ond hyny ond haf ar làn Teifi,  
Na drain, na mieri, na drysni ar droed,  
Na chafod, na chwmwl, yn blino ar ein meddwl,  
Na son am air trwsgwl i'r Trawsgoed.

*Y credit* a'r arian sy'n 'nafu SION IFAN,\*  
Wrth yfed pob dafan yn gyfan o'i go' ;

---

\* *O Ystrad*; y saer maen a gododd y bont.

Pan dreulio'r cyfeillgar ei geiniog yn gynnar,  
'Difeirwch diweddar daw iddo.

Y cyfaill caruaid, a saer y maen mwynaid,  
Cais wella dy fuchedd, o'r diwedd, w'r da;  
Y dolur a'r dyli, o'th ledol, a thlodi,  
Yw'r cwm'ni ddaw itti o ddiotta.

Gwna cwrw a'r tobacco, i GARON\* hir guro,  
Yn llydan a llidio a bloeddio'n w'r blin,  
Try allan yn ddrylliau, y cèryg o'r caerau,  
A seiliau'n holl greigiau'n hyll gregin.

Os cyll yr hen fachgen y ddiod o'i ddwyen,  
Hoff liwgar mewn flagen, a'r ddeilen o'i ddant,  
Ni thâl ei forthwylion un geiniog, na'i gynion,  
A'i ffyddlon ebillion a ballant.

---

## ATTEB I GAN Y BONT.

---

GAN MR. EDWARD RICHARD.

---

Er swm ofer ddynion anallu a'u pennillion,  
Yn canmol cymdeithion, a'r haelion w'r hy',

---

\* *Sion Caron*, y mwyn-gloddiwr a gododd geryg y bont.

'Rwy' beunydd yn clywed am Bont Rhyd-fendiged,  
Mor amled ochenaid a chanu.

Pont grin yn tin-grynu, pont dwr yn pentyrru,  
Pont haf a phoen Teifi, pan lifo hi ar led;  
Gwirionedd sy beunydd, â'r dwr dros ei deurudd,  
Gan gystudd o g'wilydd ei gweled.

Mae'n fingul, mae'n fongam, mae'n wargul, mae'n  
    w'yr gam,  
Mae llwybr diadlam anhylam yn hou,  
Ni welwyd un ellyll, na bwbach mor erchyll,  
Erioed yn traws-sefyll tros afon.

Ni chei di'n y pentre', na merch wèn i eiste',  
Dan son am wau 'sanau neu laesau ar dy lin,  
Na rhynion o'r crasa', yn lân am felina,  
Ond llif yn difetha dy fwthyn.

Pob awen sy'n gwywo, pob dyn sy'n oer diwnio,  
Pob cangen sy heb ffrwytho yn llwydo'n ei lle;  
Ni welir ar fydro na glanddyn yn rhodio,  
Na maen o'r Bont yno ar bentanau.

Os llif dros y dolau fydd rhyngot ti a chartre',  
Er bod melusderau dy gaerau'n dy go',  
Yn lletty'r aderyn, le noeth, dan lwyn eithin,  
Neu frigyn coed eirin, cei dario.

Mae NED fel hen geubren, oer yw, heb yr awen,  
 Na synwyr yn gymmen i'w dalcen, na dysg;  
 Gwell yn y gegin yw blawd y cardottyn,  
 Nag eisin oferddyn o fawrddysg.

Fe â'r gof yn ei gyfer heb ymswyn bob amser,  
 Gwellt yn y *morter* sy'n dyner yn dâl,  
 Mae llwybr o gèryg yn ffordd ry fonheddig  
 I w'r nad yw debyg i Dubal.

SION IFAN y cloddiwr, hwyrfrydig hir fradwr,  
 I lawr â'r bolerwr an'donwr i dân;  
 Ffwrdd, feddwyn, mewn cawell, aed ymaith fel par-  
 Yr hen hwch, a chyfaill ei chafan. [chell

Fe ddarfu'r hen gwnwr rhwng Glanddyn a Glanddwr,  
 Morthwylion y mwynwr yn bowdwr y bon',  
 Mae'r cwrw wrth y pared, ni welir un llymmaid,  
 Na drws yn agored i GARON.

Nid â'i yn y diwedd i 'myrryd â mawredd,  
 Mi wn fod anrhydedd ein bonedd yn bur;  
 Ond têtg i'r galluog ro'i law ar w'yr taëog,  
 A brigog air enwog yr anwir.

Os Pont Rhyd-fendiged yw gwenwyn y gweiniaid,  
 Cyfiawnder, heb arbed, fo'n gweled y gwall;  
 Y tân fo'n myn'd trwyddi, a rhyw un y foru,  
 Fo'n peri pentyrru pont arall.

## HUNAN-YMDDIDDAN

WRTH RODIO AR HYD Y NOS.

---

Gan y PARCH. DAFYDD LLWYD, Llwynrhydowen.

---

MEWN gofid 'rwy'n gyfan, byd hylt yw bod allau,  
Tros fryniau traws anian, yn druan o dre';  
A'r nos yn oer nawsaf yn syrthio ar fy ngwarthaf,  
Och! crwydraf, ni fedraf fyn'd adre'.

Yr haulwen o'r nefo'dd, wych lydan, machludodd,  
Ei golau gwiw giliodd, ymguddiodd o'm gŵydd;  
'Does seren i'm sirio, na lleuad i'm llywio,  
Na nôd i 'mgyfeirio'n gyfarwydd.

B'le'r aeth y cerddorion, mwyn leisiau, melusion,  
A'u hodlau'n hyfrydlon, mor dirion trwy'r dydd?  
Y Gôg a'r Fwyalchen, ni chlywa'i'n iach lawen,  
Na sain y wych aden \*Echedydd.

Rhaid heno fy hunan im' drigo, 'rwy'n d'rogan,  
Mewn gwaelod dan geulan; on'd trwstan yw'r tro!  
Os wban, 'does obaith caid yma gydymmaith,  
Er ufudd ddeisyfiaeth, ddoi'm *safio*.

---

\* Dimet. pro Ehedydd.



Daw lladron anhydrin gael cig yn eu cegin,  
 'Mosodan' yn sydyn, rif gwenyn o gwch;  
 Caf, f'allai, gyfeillion, oerygus o'r eigion,  
 Echryslon ellyllon y t'wyllwch.

Beth ydyw'r fath hwdwg wy'n gael yn y golwg,  
 Fel gelyn drwg gilwg o'i fwnwg i'w fawd?  
 Holl enau'r hyll anaf, i \*Fwcci debycaf;  
 Sy'n cynneu, mi gwelaf, o'r gwaelawd.

Fy ngwallt ar fy nghoryn a ddechreu, gan ddychryn,  
 Ymgodi bob cudyn ar linyr i'r lan:  
 Fy nghalon sy'n chwarae, y'nglŷn aeth fy ngliniau,  
 A'm chwŷs trwy trwyd-dyllau red allan.

'Does yma, fy nghalon, ond un o blant dynion,—  
 Nid lledrith na lladron elynion o lin;  
 Rhyw frwntyn, mi w'ranta', sy'n cethin †gwrcaetha,—  
 Mi chwardda'n llon eitha',—llwyn eithin!

Nid ofnaf §ddewinion, 'does bryder ysbrydion,  
 Na ||gwilliaid, na |||gwyllion, rai blinion eu bloedd;  
 Gerllaw y gyrr Llywydd yr wybren yn ebrwydd,  
 Achubydd, mwyn ufudd, o'r nefoedd.

\* Bwgan.      † Pores.      ‡ Myned i garu ar hyd y nos.

§ Consurwyr a witsiaid.      || Robbers. Job 18, 9.

||| Screech owls,—adar y corff. Esa. 34, 14.



Boed hwn, y nos unwedd a'r golau'n ymgeledd,  
 Dwg Naf i'm dangnefedd, yn niwedd fy nydd;  
 Rhag angau, rhwyg ingol, croes IESU grasusol,  
 Fo'm ddwyfol, dda ddoniol, ddiddanydd.

'Morchestaf yn astud, tra'n dydd i gyrhaeddyd,  
 Y ddiwael addewid, o fywyd a fydd,  
 I'm cadw trwy gydol nos angau'n ddiangol,  
 I fythol, wiw lwyddol, oleuddydd.



## CYNGHOR TAD I'W FAB.

GAN MR. SIENCYN THOMAS, O'R CWMDU.

ATTOLWG, fy machgen, rho glust i'r hen awen,  
 Ar ganiad ddigynnen, yn llawen er lles;  
 Yn erbyn trybestod gormodedd o ddiod,  
 A meddwdod, rhy hynod yw'r hanes.

Ti wyddost fod rhwymau dodedig ar dadau,  
 I'w plant roi rheolau, mewn geiriau fo gwiw;  
 A dyled plant eilwaith, yw cym'ryd dysgeidiaeth,  
 A byw yn ol cyfraith y cyfryw.

Ti wyddost dy hunan, heb un dyn i ddatgan,  
 Fod medd'dod yn aflan, neu'n drwstan i'w drin;

A pha fath yw'r ormes a ddaw i'th orddiwes,  
Os byddi mor ddiles a'i ddilyn.

Anfoddio Duw'n fuan, wrth foddio dy hunan,  
A rhodio'r ffordd lydan, rhy druan yw'r draill;  
Gwaethygu dy iechyd, peryglu dy fywyd,  
Heb gael ond y gofid yn gyfaill.

Gwastraffu dy foddion, a digio'th gym'dogion,  
A gyrru'th wraig ffyddlon i droion rhy draws;  
Camdreulio dy amser, boddloni gwŷr ofer,  
A myn'd gydâ llawer i'r lliaws.

Mi fum i mor ynfyd fy hunan dros ennyd,  
Yn trin y gelfyddyd mewn llawnfyd, mae'm llŵ;  
Mi wn wrth fy mhrofiad, pa beth yw'r canlyniad,  
Sy'n digwydd o gariad i gwrw.

Mae'r meddwon wrth ddechrau yn llariaidd eu gwŷn-  
iau,

Yn llawn o syuwyrâu, a'u geiriau'n ddigoll;  
Wrth yfed yn llawen hwy ânt yn ddidrefen,  
Mae honno'n gau fargen gyfyrgoll.

Daw sŵn yn eu clustiau, fe fawdd eu syuwyrâu,  
Fe floesga eu tafodau, â'u geiriau'n rhy gâs;  
Eu traed yn drippedig, eu llygaid yn chwithig,  
Wel dyna lu dieffig le diflas.

Ni cheir rhwng y meddwon ond llid ac ymryson,  
 A thyngu'n echryslon rhyw lŵon rhy laith;  
 Rhai'n ŵylo, rhai'n chwerthin, rhai'n gwthio'n rhy  
     gethin,  
 Rhai'n canlyn i'r dibyn diobaith.

Mae amryw glefydon yn perthyn i'r meddwon,  
 Y *gowt* a'r *consumsion*, rhyw droion rhy drwch;  
 Y *grafel* a'r *colig*, a'r *dropsi* chwyddedig,  
*Briw*, *ysig*, oer pwysig, a'r *peswch*.

Ti gefaist dalentau, diddanus da ddoniau,  
 O gof a synwyrâu, a geiriau digoll;  
 Na threulia trwy anhwyl, dy ddoniau, ddyn anwyl,  
 Rhag cael am fath orchwyl faith archoll.

Ti wyddost yn sicir o feddwl dy Feistir,  
 Beth sydd i ti wneuthur, ŵr prysur, a'r pryd;  
 Cyssondeb a synwyr prif fannau'r Ysgrythyr,  
 A ddarfu i ti eu hystyr yn astud?

Ti wnaethost gyfammod cyhoeddus, â'th dafod,  
 Pan aethost yn aelod, yn barod trwy bwyll;  
 Addewaist, heb weniaith, ymdrechu byw'n berffaith,  
 Paham y troi ymaith trwy amhwyll?

Na ddos i gyfeillach rhai ofer rhy afiach,  
 Tro heibio ysbleddach, bydd burach dy ben;

Bydd fyw mewn gwell *ordor*, a dilyn wŷr sobor,  
Hwy ro'nt i ti gyngor rhag angen.

Tro ymaith, trwy ammod, oddiwrth bob trybestod,  
Sydd raid, ac nid gormod, o ddiod sy dda ;  
Nac arfer, o brysur, ormodedd, mae'n fudur,  
Ac at y cymhesur cymhwysa.

Er bod fy 'madroddion fel saethau blaenllymion,  
Rho barch yn dy galon, iaith dirion i'th dad ;  
A derbyn yn ufudd y ganiad ar gynnydd,  
Sy'n rho'i iti gerydd o gariad.

---

## ENGLYN I AWDWR Y GAN UCHOD.

---

GAN SION RHYDDERCH.

---

MAE i'n mysg hyddysg hy' addas,—Brydydd  
Bwriadol, cyweithas ;  
Llew yn ei rym, llawn o ras,  
Sionç, un twym, Siencyn Tomas.

---

## ATTEB IOAN SIENCYN I'W DAD.

Fy anwyl Dad didwyll, dôf aurben di fyrbwyll,  
 Eich cyngor fel canwyll, mewn caniad mi ce's;  
 I wadu cyfeillach oferwyr rhy afiach,  
 A rhodio'n fwy praffach i'm proffes.

Fe roddodd yr IESU ffordd rwydd i geryddu,  
 Y sawl fo'ch chwi'n garu gywira'n y byd;  
 Myn'd atto fe'i hunan, i dduwiol ymddiddan,  
 Cyn rhoi ei fai allan i'r hollfyd.

Peth hawdd gydâ dynion yw rhoddi cynghorion,  
 A thraethu bygythion o hirion barhâd;  
 Cyn iddynt wel'd gartre', o dan eu ceseiliau,  
 Fod amryw fân dyllau'n eu dillad.

Mae llygredd naturiol yn denu rhai duwiol,  
 I w'radwydd rhyfeddol gan bobl y byd;  
 Nid aeth neb o'r seintiau yn ddiđranc tuag adre',  
 Heb fod dan eu beiau'n eu bywyd.

Mi wn fod rhieni yn rhwym i gynghori  
 Eu plant, a'u ceryddu'n garuaidd eu tôn;  
 Nid torri eu calonau â gwialennodau,  
 Na'u bygwth â geiriau rhy chwerwon.

Eich bai wrth geryddu, oedd eisiau mantellu  
 Fy meiau, a'u celu, rhag golwg y wlad ;  
 Chwi welwch yn eglur mai beiau proffeswyr,  
 Yw gwleddau gwatwarwyr digariad.

'Rwy'n ufudd gyfadde', fy mod dan wendidau,  
 A llawer o feiau mewn bryniau a bro ;  
 Fe wŷr pob dyn duwiol, mor gadarn a nerthol,  
 Mae'r chwantau naturiol yn taro.

Cawn fyned heb rwgnach, i mewn gydâ'm callach,  
 Gwŷr da oedd oleuach, dau feithach nâ fi,  
 A'u blasus resymau, o'r hŷr hyd y borau ;  
 'Doedd lai, rhaid cyfadde', nâ meddwi.

Ni wystlais i bilyn, na dâ, na dodrefnyn,  
 Na *baili* fy nghanlyn, gŵr taerwyn ei ran ;  
 Mi ddysgais yn weddol fy mhlant yn yr ysgol,  
 Mi rho'is hwy'n dda hollol fyn'd allan.

Fy anwyl Dad etto, mae'ch cân wedi'm clwyfo,  
 Gwirionedd mae'n gario yn gryno bob gris ;  
 Nid oes, ar wy'n 'nabod, un drws i bob pechod,  
 Fel meddwdod hyll gafod wallgofus.

Y meddwyn, pan sobro, fe fydd ar wallbwylo,  
 Am iddo ddefnyddio ei foddion mor ffol ;  
 Rhoi'i dŷ a'i feddiannau, ei gorff a'i aelodau,  
 A'i enaid dan nodau niwèidiol.



Pan ddel i'r addoliad, daw'n ddi-barotöad,  
 Ni ddyrcha mo'i lygad, ddyn anfad! tua'r nen;  
 Euogrwydd cydwybod, fydd yno'n ei ragod,  
 Trwy ddannod ei drafod didrefen.

Mae'r meddwdod yn mogi gwaith gras a'r goleuni,  
 A roed er daioni yn enaid y dyn;  
 Ffydd, cariad diffuant, sel wresog ei llesiant,  
 A wywant ym meddiant y meddwyn.

Ni phrofa rhai meddwon weddïau gwresogion,  
 Nefolaidd awelon dan dirion air Duw;  
 Fe oerodd eu cariad, fe sychodd eu profiad,  
 Ant waethwaeth eu rhodiad, gwir ydyw.

Mae pob math o bechod, 'run effaith a meddwdod,  
 Yn beichio'r gydwybod â gormod o bwys;  
 A'u herchyll gamsyniad yw gweithio gwrthgiliad,  
 Oddiwrth bêr-arogliad yr eglwys.

Am lygredd proffeswyr, yr eglwys a geblir,  
 Ym mysg yr erlidwyr, rhai budr sy'n bod,  
 Hwyl haerant heb aros, wrth bawb o'r werinos,  
 Mai crefydd yw'r achos o'u pechod.

Na chredwch mo'u cabledd, mae crefydd yn santaidd,  
 Mae'n ddifalch, mae'n fwynaidd, mae'n rhinwedd o  
 ras,



Mae'n lân, mae'n ddiniwed, mae'n fuddiol, mae'n  
aeddfe'd,

At wneuthur pob gweithred gyweithas.

Duw, cymmorth fi beunydd, i ganlyn gwir grefydd,  
A gadael pob tramgwydd annedwydd yn ol;  
'Gael gorphen fy ngyrfa, trwy ras heb fy nala,  
Gan un rhyw Ddalila ddialeddol.

---

## CWYNFAN Y PRYDYDD

Dan yr enw Cardottyn; (ar ddull Ymddiddan rhwng IOAN a DEWI;) a gyfansoddwyd pan oedd efe yn glaf ar ei wely yn y *Rheumatism*, dri mis, yn y flwyddyn 1782.

---

GAN IOAN SIENCYN, O ABERTEIFI.

---

IOAN.

'Rwy'n ochain yn uchel, a'm calon yn isel,  
Pwy'm dwg yn ddiymgel, yn dawel i'w dy;  
'Rwy'n wan a digysur, heb wybod dan wybyr,  
Gan bwy ddynd da'i natur caf letty.

DEWI.

Taw son, bydd gysurus, yr henwr oedranus,  
'R'wyt yn gydnabyddus â llawer o'r byd;

Cwyd, dos at ryw landdyn, cei dân yn ei gegin,  
A bwyd, ond ei ofyn e', hefyd.

## IOAN.

Mi aethum dan wŷlo, lle buasai \*im' roeso,  
Dieithriaid oedd yno yn gwywo fy'm gwedd,  
Heb un o'r hen achau, i'r tiroedd na'r teiau,  
Na son am eu henwau, 'n eu hannedd.

## DEWI.

Cyfeiria tua'r glennydd, cei gân ar y wawrddydd,  
O ben yr uchedydd wych odiaeth ei phig,  
Mae hon i mi'n gysson, mor *sîr* ei mesuron,  
Ag adar y Goedfron gauadfrig.

Mae yno gynhysgaeth, a hwylus fywioliaeth,  
A *phatrwn* hwsmonaeth am gyfoeth i gant;  
Troi'r glennydd eithinog yn gaeau meillionog,  
Blodeuog, lliosog eu llesiant.

Mae'r *Pantgwyn* a'r caeau, yn ngwyneb y dehau,  
A'r cefnydd fel muriau, rhag stormydd o'r môr;  
A llechwedd *Brynbcâ*, a'i goryn hawddgara',  
'N gysgodfa, o'r wycha, 'n ei ochor.

## IOAN.

Mi brofais yn helaeth o'u llewndid a'u lluniaeth,  
Ond cynghor y gwirddoeth sydd foddiaeth i fi,

\* Blaenpistyll.

I ochel tramwyo'n rhy fynych fyn'd yno,  
Rhag cael yn lle 'ngroeso fy nghroesi.

DEWI.

Mi'th welais di neithiwr yn nhŷ y *marsiandŵr*,  
Mewn digon o glydwr, a'th wlybwr o'th fla'n,  
Mor wridgoch dy ddeurudd, yn datgan y Cywydd  
A wneist o'th awenydd dy hunan.

IOAN.

Maé yno haelioni, a chlydwr i dlodi,  
A bendith y rhei'ny sy'n llenwi'n eu llys;  
Toraethus a chnwdfawr yw *Penylan* glodfawr,  
A gwerthfawr ddaearlawr *Pantirlys*.

DEWI.

Mi adwaen *Dŷ* dedwydd îs Eglwys *Llandygwydd*,  
Sy'n rhoddi cêd beunydd, ar gynnydd i gant,  
Pe ait i *Llwyndyrus*, cait gardawd haelionus,  
A lletty cysurus di soriant.

IOAN.

Rhyw newydd rho imi, neu gwell i ti dewi,  
Y mae elusenni y rhei'ny'n fy rhan;  
Pob gwan sy'n wybodus fod tylwyth *Llwyndyrus*,  
Yn ddigon haelionus eu hanian.

DEWI.

Cwyd bellach, os gelli, dos i *Faenordeifi*,  
A phaid digaloni, a ffaelu fel ffol,

Mae Gwraig yn y pentre', Arglwyddes o raddau,  
 Sy'n rhoi elusenau'n gyssonol.

IOAN.

Mi fum yno, DEWI, flynyddoedd cyn 'leni,  
 Mi ge's wneyd fy lletty, a'm llouni'n ei llys;  
 Heb arnaf ofalon, ond dysgu'r tylodion,  
 A'i gwasanaeth-ddynion yn ddawnus.

Y mae'r Bendefiges, a'i thair Etifeddes,  
 I'r gweiniaid, mi a'u gwelais, yn gynnes dan go';  
 Ni chaiff boneddigion, sydd annhrugarogion,  
 Cym'dogion, nac estron eu rhwystro.

DEWI.

Tÿn nes-nes tua'r godrau, dan nawdd y mynyddau,  
 Lle amlaf bo teiau, mae'n ddiâu bydd dda;  
 Os cwrddi a thaëog, dos at ei gymmydog,  
 Cei rywddyn a'th wresog gynhesa.

IOAN.

Mae'r eira dros glogwyn a garrau *Cwmcerwyn*,  
 Heb arno gysgodlwyn, na thewyn, na thÿ;  
 Gwell gorwedd dan gronglwyd, ar gornel yr aelwyd,  
 Na bod yn yr anwyd yn rhynnu.

DEWI.

Mae rhyngot a'r gogledd, hen balas cyfannedd,  
 A blaenion y bonedd, yw'r clirwedd w'r clau;

Ni phallwyd trugarog elusen luosog,  
Erioed dan ei wresog warddrysau.

## IOAN.

*Cwmgloyn*, o du'r gogledd, yw'r palas cyfannedd,  
Lle bum i chwe' blynedd, yn lluniaidd fy lle ;  
Mewn helaeth fyd hylwydd, trwy gyflawn foddlon-  
rwydd,  
Ce's wneyd yn ddihurtrwydd fy ngartre'.

Fy ngwaith a'm gorchwylion, oedd dysgu rhai tlodion,  
I ddarllen accenion, heb gynnyg naccau ;  
A'r Yswain ei hunan yn rhoi aur ac arian,  
I rhai'n gael eu cyfran o lyfrau.

Mae gwobr cyfaddas i'r Yswain cyweithas,  
Yng nghadw yn nheyrnas a dinas ein Duw ;  
Fe saif heb beryglon, pan syrthio'r rhai beilchion,  
A phob rhyw uchelfron yn chwilfriw.

## IOAN.

Pan ddychwel ei ysbryd at Arglwydd y bywyd,  
A'i gorff i'r tŷ priddlyd dros ennyd yn wir ;  
Ni chleddir mo'i enw tra dae'ren na derw,  
Fe'i gloyw hoff hoyw goffauir.

## DEWI.

Ffarwel iti weithian, beth dâl ein hymddiddan,  
Di wyddost dy hunan y cyfan i gyd ;

Ond cwyd ac ymorol, cais blaid yn amserol,  
At gynnal yn fywiol dy fywyd.

## IOAN.

O DEWI fwyn dawel, mae'm cyflwr yn isel,  
Daeth henaint mewn gafael, i 'mafael â mi ;  
Fe'm t'rawodd â'r droedwst, mwy irad nâ'r wrwst,  
Fe wnaeth i'r gymmalwst fy chwalu.

Mae hon cyn ffyrnicced, yn gwŷnio'n ddiarbed,  
Heb nawdd nac ymwarded, er llwfred fy llef ;  
Mae'm traed yn friwedig, fel cydau chwyddedig,  
Poenedig, anniddig eu goddef.

Hi rwygodd y giau, o'r bawd i'r migyrnau,  
Hi roes trwy'r cymmalau'r gewynau dan gur ;  
Ni allaf fi gychwyn, i lawr dros yr erchwyn,  
Na symud y ddeulin gan ddolur.

Ni allaf ymgrafu, na throi yn fy ngwely,  
Mae'r ddwylaw oedd geni'n ymgynnal â'r byd,  
Yn gnyccau gan wagchwydd, yn boen i mi beunydd,  
Heb rym o naws hylwydd i'w syflyd.

'Rwy'n gorwedd dan riddfan mewn bwthdy fy hun-  
an.

Heb goron o arian yn llydan ei llôg ;  
Na grym ynof ennill ar ddwylaw rhai er'ill,  
O'u pebyll i gynnull y geiniog.

## DEWI.

Clyw, IOAN, fy ngeiriau, b'le mae'th gyfoedionau,  
 Hwyl aethant i'w beddau, awn ninnau fel nhw';  
 Dy gariad diddyfna, oddiar y byd yma,  
 Gofala, myfyria am farw.

## C A N

I ddymuno Llwyddiant i Long newydd, (yr Yswain Llwyd o  
 Gwmgloyn,) a elwir Hebog.

## GAN IOAN SIENCYN.

O'r derw cadeiriog, praff goed Cwm-yr-hebog,  
 Fe'th wnaed yn Llong fywiog, alluog mewn lli';  
 Yr HEBOG mi'th alwaf, yn llong mi'th gyf'rwyddaf,  
 Boed i ti ddianaf ddaioni.

Rhwydd hynt i ti'r HEBOG, o Drefdraeth flodeuog,  
 I'r cefnfor ewynog, cyforog ei faint;  
 Taen dithau'th adenydd, anghofia'r glâs goedydd,  
 Dysg fyw rhwng lleferydd llifeiriaint.

Daw *Neptune* a *Thriton* dros wyneb yr eigion,  
 I'th ddwyn rhag peryglon yn burion dy bryd;  
 A'r cribog fynyddau, haul, lloer, a ser golau,  
 Fydd i ti'n eu graddau'n gyf'rwyddydd.



Dos dithau'n gyweithas, mewn awyr gauadlas,  
 Myn gadw dy gwmpas fel dewrwas mewn dwr;  
 A'th esgyll yn chwarae cyfuch a'r cymmylau,  
 A'th fronau'n gwneyd holltau'n yr halltddwr.

Pan ddygn ddamweinio i'r eigion ymrwygo,  
 A'r tonnau dan rüo am friwio dy fron;  
 Dy drwyn a'u trywano, dy dorr a'u braenaro,  
 Dy lyw a'u gwasgaro'n ysgyrion.

Ehed dan dy lwythi, ar hyd cefn y weilgi,  
 Mor gyflym a'r milgi manylgais ar dir;  
 A dwg dy negesau yn ddiranc tuag adre',  
 O'r manau dan hwylau dy hëlir.

Mae arnat ti'r **HEBOG** rai morwyr calonog,  
**JOHN PRICHARD** yw'th enwog ben-swyddog yn syth,  
 Fe'th geidw mewn tymher ar wyneb y dyfnder,  
 A'i hyder ar fwynder y fendith.

Bydd di yn was'naethgar i'r Yswain **LLWYD** hawdd-  
 gar,

O *Gwmgloyn* yn glaiar heb drydar na dig,  
 Efe a dy biau, e gostodd dy gistau,  
 Gwna dithau'i eirchiadau'n barchedig.

Fe ddaw wrth ei bleser i'th fwrdd mewn addfwynder,  
 I rodio'n ddibryder uwch dyfnder y dwr;  
 Gael gwel'd terfysgiadau y môr a'i dymherau,  
 Rheolau cu radau'n Creawdwr.

Os dygi'n *Ysgwier* i'r Werddon neu Loeger,  
 Na tharia di lawer, myn lywio'n dy ol;  
 Nid cymmaint mae'n hoffi cymdeithas y rhei'ny,  
 Y Cymry mae'n garu'n rhagorol.

Os hwyllia fe'n haelaidd gylch Dehau'n ddiuedd,  
 Neu fyned i'r Gogledd, hyd Wynedd ddi warth;  
 Daw'r bonedd godidog, a'r beirdd yn galonog,  
 I roesaw da **HEBOG** Deheubarth.

Oddiamgylch eu byrddau, gwresogion eu seigiau,  
 Fe gaiff *historiau*'n hen deidiau, wŷr da;  
 A Chwydd ac Englyn, ac Awdlau Taliesin,  
 A chwrw haidd melyn ei wala.

Er llesiant croesawus cymdeithas gariadus,  
 Dychweled ein Ustus yn drefnus i'w dre';  
 Rhag digwydd i fradwr, trwy'r cwmmwd wneyd  
     cynnwr',  
 Tra byddo'n Rheolwr dan hwylliau.

Yr awr y dychwelo, rho'ir clych i gydseinio,  
 Trwy *Gemmes* yn gryno, pan dirio o'r dwr;  
 A'r bobloedd yn dyfod, hyd fôr i'w gyfarfod,  
 Ond iddynt gael gwybod o *Geibwr*.



## CWYNFAN

Ar Ymadawriad LADY LLOYD o Lwynygrawys, yn y flwydd-  
yn 1777.

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

MAE'r tlodion dan nychdod, yn cwynfan, 'rwy'n can-  
fod,

B'le cerddant, rhowch wybod, am gardod ar g'oedd ;  
Y *Lady Lloyd* ddawnus, aeth o *Lwynygrawys*,  
Mae hyn yn gwynfanus i gannoedd.

Gwraig addas, fonheddig, wych odiaeth, barchedig,  
Haelionus, garedig, nodedig ar dir ;  
O hen waed urddasol *Nanteos* gynhyrchiol,  
Pen bonedd di hudol Deheudir.

Hi roddodd ymgeledd o fewn ei thŷ-annedd,  
I bawb trwy anrhydedd, yn fwynaid ddi fâr ;  
A'i gwasanaeth-ddynion, yn ferched a meibion,  
A oeddynt Gris'nogion groesawgar.

Waith colli o'n goror, wraig hael mor anhepgor,  
Mae gweiniaid *Llangoedmor* heb gyngor yn gaeth,  
Yn dweyd am y trista', " Nid ysgafn yw'n gwasgfa,  
" Ni chawn ni fyth yma'r fath Fammaeth."

Ffarwel, Bendefiges, fwyn degaidd gym'doges,  
 Ffarwel i dŷ cynnes a welais i gynt ;  
 Ffarwel, weinidogion, hoffeidlwys a ffyddlon,  
 Caredig, a haelion eu helynt.

Ffarwel, Risiart Thomas, cywirddawn ei urddas,  
 Cydymmaith cyweithas, mwyn addas i ddyn ;  
 Melusgainc caed gantho, ni welais i etto,  
 Mo'i well i roi dwylo ar delyn.

B'le bynnag yr elo y *Lady* i breswylio,  
 Duw fo'n ei bendithio, a'i llwyddo 'mhob lle ;  
 A dyged o'r diwedd, ei henaid tirionedd,  
 I'w santaidd deg fwynaidd drigfanau.

---

## MARWNAD

*MR. THOMAS DAFIS, O PARC-CWNINGOD.*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

I BETH y cyff'lybir wynebau dan wybyr?  
 I laswellt neu wydyr a friwir yn fân ;  
 Neu aderyn a saether i lawr gan y *ffowler*,  
 Pan fyddo â'i hyder i hedfan.

Mae'r angau grymmusol o'n deutu'n wastadol,  
 Yn cario amrywiol o bobol o'r byd ;  
 Lle t'rawo'n ddiffuant, pwy bynnag a fyddant,  
 Fe fydd yn ddisiomiant eu symud.

Fe gludodd o *Lechryd* ŵr gwaraidd i'r gweryd,  
 Oedd fuddiol ei fywyd, a hyfryd i'r fro ;  
 Mae'n awr yn alarus, ar ol THOMAS DAFIS,  
 Cariadus ŵr hoenus i huno.

Yr oedd e'n was'naethgar tra bu ar y ddaear,  
 Anhawdd cael ei gymmar, disiomgar yw'r son,  
 Ei bleser oedd codi, dan luniaidd ymlonni,  
 I wneuthur daioni rhwng dynion.

Nid oedd mo'i ddidrwcach, na chyfaill distawach,  
 Fe gadwai gyfrinach, heb eiriach yr un ;  
 Os cym'rai beth arno, heb ffrwst nac ymffrostio,  
 Fe âi trwyddo yn gryno bob gronyn.

Lle byddai ymyrraeth, a dig mewn cym'dogaeth,  
 Fe'u trefnai hwy'n odiaeth, diweniaith oedd e',  
 Fe chwiliai trwy eigion eu dyrus fatterion,  
 Nes cael eu dirgelion i'r golau.

'Roedd ynddo gynheddfau, llawn iawn o rinweddau,  
 Gwirionedd diammau a gariai bob gris ;  
 Mor ffyddlawn a chywir a neb dan yr wybyr,  
 Serchiadol a difyr oedd DAFIS.

Fe dynnodd ei atteg o'r Lladin a'r Saes'naeg,  
 A grym y Grammadaeg, w'r lliwdeg, mewn lle ;  
 Fe *studiodd* yn helaeth wir fuddiol Rifyddiaeth,  
 Ac amryw fwys araith fesurau.

Fe fu amryw droion yn boddio'i gym'dogion,  
 Ar amryw achosion, yn burion ei bryd ;  
 'Roedd ganddo fe amser, hoff lesiant a phleser,  
 A meder dda hyder i dd'wedyd.

Hoff ganddo'n wastadol gyfrinach gryn fanol,  
 Cymdeithas o bobol ystyriol ddi stw'r ;  
 E fyddai mor llawen â'r gôg ar y gangen,  
 Heb gyffro, na chynnen, na chynnwr'.

Fe safodd â dynion gyfreithiau gryn frithion,  
 Ca'dd lawer o gwynion tra geirwon eu gwedd ;  
 Fe ddaliodd ei afael, trwy ganol y rhyfel,  
 Nes ennill byd tawel o'r diwedd.

Gorphenodd ei ystod ar dir *Parc-cwningod*,  
 Lle'r oedd gydâ'i briod mewn cu-fod digudd ;  
 Yn hynod cydunent, dan ofid pan fyddent,  
 Hwylân ymgeleddent eu gilydd.

Hwy helpient gym'dogion, a phobl dylodion,  
 Lle byddai anghenion ym minion y ma's ;  
 'Roedd CATH'RIN bob amser â'i natur yn dyner,  
 A haelach ei thymmer nâ THOMAS.

'Roedd ef yn ddarllenwr, a diwyd wrandaw-wr,  
 A pheraidd iawn gantwr, yng nghyntedd tŷ Dduw ;  
 Lle byddai ymddiddan a dysgu melus-gan,  
 Fe fyddai mewn cyfran â'r cyfryw.

'Roedd uchel berth'nasau i CATH'RIN ac yntau,  
 A'u tiroedd a'u teiau mewn bryniau a bro ;  
 Mae rhai'n yn dwyn hiraeth â'u holl gydnabyddiaeth,  
 Eu gyd o'r un alaeth yn wylo.

Ffarwel, THOMAS DAFIS a CHATH'RIN gariadus,  
 Fe'u cariwyd, 'rwy'n hysbys, dros ysbaid i'r bedd ;  
 Mewn gwthfa trwy'r caethfyd, hwy gawsant eu symud,  
 I *Lechryd* dan weryd i orwedd.

Gobeithio'n gariadus, i'n Prynwr daionus,  
 O'r bywyd helbulus, eu tywys hwy'n iach,  
 I deyrnas goleuni, at nefawl gwmpeni,  
 I ganu mawl Iesu'n felusach.

Gadawsant gynnysgaeth, a hir etifeddiaeth,  
 I'w plant a'u hiliogaeth, heb fariaeth i'r fron ;  
 Os hwy a gydunant, 'rwy'n gwybod y cadwant,  
 Y tir yn eu meddiant, a'r moddion.

Mae LETTIS, a DAFYDD, a PHEGI'n ddiwenydd,  
 Ac ANN dan drwm gystudd, yn gostwng ei gwedd ;  
 A THOMAS a BETTI yn wylo'r dwr heli,  
 Ar ol eu Rhieni, a'u rhinwedd.



'R un tad a'u cenhedlodd, 'r un fam a'u hesgorodd,  
 Cyd-ranent o'u gwirfodd, ar gyhoedd yn gall;  
 Mae'r gyfraith yn aethlyd, ni phaid nes cyrhaeddyd,  
 Eu golud dan weryd dyn arall.

Un fil, saith cant hylwydd, ac un, ac wyth deng-  
 mlwydd,  
 Oedd oedran ein Harglwydd yn digwydd yn glos;  
 Ac oed y Gŵr cywrain, oedd saith mlwydd a thru-  
 gain,  
 Pan rhoed mewn daearen i aros.

---

## MARWNAD

Y Parchedig MR. DAFYDD LLWYD, Gweinidog Llwynrhyd-  
 owen, Treblacca, a Phenyriw.

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

POB Protestant doniol, sy'n caru byw'n dduwiol,  
 Yn ol yr hen reol, iawn freiniol o frig;  
 A gwrthod gwag dybiau, coeg annoeth *biniynau*,  
 Sy'n llawn o rwygiadau llygredig.

Mae'r grefydd Grist'nogol ar sylfaen 'sgrythyrol,  
 Fu'r deuddeg Apostol yn dystio i'r byd hwn;

A Christ yw ei nerthol Ben-conglfaen bywiol,  
Hi saif yn drag'wyddol, gwybyddwn.

Ond etto ymddengys, trwy'r Eglwys filwrus,  
Ryw bethau blinderus, yn gofus a gawn;  
Mae'n rhaid, cyn myn'd adre', fyn'd trwy orthrym-  
derau,  
Gofidiau, a chroesâu echryslawn.

Ni a welwn yn olau, mai barnedigaethau,  
Yw torri'n colofnau, o deiau Duw Ion;  
Heb obaith dan wybyr, gael cystal dysgawdwyr,  
Meithrinwyr, cysurwyr i Seion.

Mae'r Arglwydd yn danfon i ddwyn ei rai ffyddlon,  
A'r gwylwyr o Seion, cyn anfon ei blâ;  
Fel na bo gweddïau i attal ei gleddau,  
Na'i farnedigaethau i'n dyfetha.

Danfonodd i alw am DAFYDD LLWYD hoyw,  
Mewn cerbyd, wr gloyw, dyrchafwyd e'n glos;  
O'r byd îs yr wybren i'r nefoedd ddisgleirwen,  
A'i gorff i'r ddaearen i aros.

Pan syrthiodd ein seren oleubryd o'n wybren,  
Fe aeth *Llwynrhydowen* bob cangen dan gur,  
Ar ol ein dwys Athro, cryf oedd i'n cyf'rwyddo,  
Mae'r wlad yn cyd-deimlo'r un dolur.



Y naill gael eu dewis i'r nef ogoneddus,  
A'r lleill yn llu astrus i ddystryw.

Mae'r fath athrawiaethau'n gwrthddweyd y 'sgryth-  
yrau,

A'r holl ddyledswyddau osododd Duw Naf,  
Maent groes i'r ammodau rhwng Crist a'i aelodau,  
A'r farn fydd y dyddiau diweddaf.

Dangosodd yn rhyfedd, trwy bwysig wirionedd,  
Nad oes yn y Mawredd na thuedd na thwyll;  
A'i fod yn Dduw cyfion, y gwnaiff â phlant dynion,  
Ei holl addewidion yn ddidwyll.

Erioed ef ni haerodd, fod haeddiant gweithredoedd,  
Yn dwyn dyn i'r nefoedd, nis taerodd fath 'stwr;  
Na chyfiawnhad golau trwy ffydd na thrwy foesau,  
Na dim ond trwy angau'n Cyfryngwr.

Mab Duw'n ol ei swyddau, a'i haeddedigaethau,  
Trwy ei ddyoddefiadau, a ddododd e'n ddwys,  
Yn ben pob trugaredd, yn ffordd a'r gwirionedd,  
A'r drws i'r bur adwedd Baradwys.

Cyhoeddodd gysuron trwy'r holl addewidion,  
Taranodd fygythion tra sythion y sydd;  
Fe roes ysgrythyrau, oedd groesion mewn geiriau,  
I gario'r un golau â'u gilydd.

Er daed y pregethodd, er glaned ymddygodd,  
 'Roedd rhyw fath o bobloedd a'i cablent e'n glos ;  
 Mewn llid a chenfigen, trwy gyfarth o'i gefen,  
 'Doedd ganddynt ddim amgen i ddangos.

Pan rho'ent wrthddadleuon ar ei egwyddorion,  
 Attebai hwy'n union, rai breuon eu bri ;  
 Fe'u plygai bob cangen, fe'u chwalai fel niwlen,  
 Gwnai Cawr mawr *Rhydowen* hwy dewi.

Bu ddwys mewn gweddïau, bu'n ddoeth ei bregeth-  
 au,  
 Bu'n *butrwn* bucheddau'n wych addas i ni ;  
 I fyw mewn uniondeb, a'n gwaith yn cyd-ateb,  
 I'r ffydd a'r cyssondeb sydd yndi.

Yr oedd e'n ben-ieithydd hoff odiaeth a phrydydd,  
 Mewn cynnil waith celfydd, ei fennydd oedd faith ;  
*Parnassus* a gerddodd, a'r *Muses* a hoffodd,  
 Tôn felus a ganodd e' ganwaith.

Ehedodd ar aden iach hwylus uwch haulwen,  
 Gadawodd bob seren o'r wybren o'i ol ;  
 Y berffaith cyn gorphwys, cyfeiriodd yn gymmwys,  
 I mewn i'r Baradwys ysbrydol.

Llu'r nef yn llawenu, y seintiau'n cyd-ganu,  
 Càn' groeso i ti fynu, gwas Iesu'n ddios ;

Ti, anwyl ddyn cannaid, ym mhlith llu bendigaid,  
Nefolaidd gôr euraid, cei aros.

Yn impyn ireidd-deg, yn ddwy flwydd ar bymtheg,  
Dechreuodd yn ddwysdeg ein dysgu ni gynt ;  
Bu bum saith a dwyflwydd yng ngwinllan yr Arg-  
lwydd,  
Yn flaenor mawr hylwydd ei helynt.

Mil, saith gant, i'w harwain, at bymtheg a thrugain,  
A phedair heb orphen, yn gyfain dan go' ;  
Pan rhoed yn ddiysgog, ei anwyl gorff enwog,  
Ym monwent Llanwenog i huno.

Diddaned Duw'n weddus ei Briod anhwylyd,  
Sef LETTIS LLOYD barchus, haelionus ei hwyl ;  
A'i blant ifainc serchog, sy â'u gruddiau'n wlyb-  
yrog,  
Ar ol eu mwyn enwog Dad anwyl.

Mae'r galar yn estyn dros waed *Galltyrodyn*,  
Y LLWYD ga'dd ei feithrin o'u gwreiddyn ar g'oedd ;  
A'i briod rywioglan o LWYDIAID *Llanfechan*,  
Y rhai'n a gyd-gwynan' yn gannoedd.

Mae gwŷr *Llwynrhydowen* a *Chiliau* dan niwlen,  
*Treblacca* îs haulwen sy'n wylo heb gel ;  
A'r *Drefwen* gŵynfanus, a *Phenyrhix*'n ddilys,  
Am ŵr fu'n eu tywys hwy'n dawel.



Aeth \*EVANS *Blaenpistyll* i'r trag'wyddol bebyll,  
 A †JENKIN o'i gynnull, mae nghalon i'n drom ;  
 A ‡LEWIS a §DAFYDD, gwŷr cryfion mewn crefydd,  
 O'n gwiwlan eglwysydd a gladd'som.

Duw, dod o'th drugaredd i'th braidd diymgeledd,  
 Gysuron cyfannedd, trwy rinwedd i rhai'n ;  
 Ar d'enw bendigaid, mawr dwyfol mae'r defaid,  
 Rho iraidd Flaenoriaid i'w harwain.

Fe aeth y gwŷr duwiol i'r Ganaan ysbrydol,  
 A'n gadael ni 'nghanol anialwch y byd ;  
 Duw, dwg ni trwy'r d'rysni, gael fyth mewn goleuni,  
 Dy gyflawn gyd-foli'n yr ailfyd.

\* Y Parchedig Mr. David Evans, Gweinidog y Drefwen.

† Mr. Jenkin Thomas, o'r Cwmdû.

‡ Mr. Lewis Jones, oedd yn dyfod ar amserau i Lechryd a'r Drefwen.

§ Y dywededig Mr. David Lloyd.





## C A N

O Alarnad ar ol Arglwyddes hawddgar a defnyddiol, yr hon a ymadawodd yn ddiweddar er mawr dristwch a gofid i laweroedd, ac yn gosod allan rai o'i Rhinweddau penaf.

---

GAN Y PARCH. DAFYDD JONES, O LANWRDA.

---

GWRANDEWCH, Gymry mwynion, hyn oll o bennillion,  
Mi glywais newyddion go bruddion i'm bro;  
Arglwyddes ryglyddus, heddychwraig ddiechrys,  
Aeth ymaith o'r ynys i *reino*.

Hi daenai'i hadenydd, *fileines* aflonydd,  
Ar led i ryw wledydd, foreuddydd ar frys;  
Nid allaf ddeallu pwy lidiodd y *Ladi*,  
'Roedd gwlad yn ei 'ddoli hi'n ddilys.

Tebygu mae bagad o'r deyrnas, sy'n dirnad,  
Y'ng hylch ei mynediad, ei thrawiad, a'i thro;  
Iddi *rowndio* i'r India, ferch *nêt*, i farchnatta,  
*Snuff*, *tea*, mae'n debycca', a *Dobacco*.

Mi dd'weda' i chwi'n ddiau, yr awrhon ar eiriau,  
Ryw faint o'i rhinweddau, oni wyddoch chwi nhw';  
Hi yrrai'r ferch arwaf, yn doccen o'r deccaf,  
A'r ddüaf yn wynnaf mewn enw.

Hi godai wr isel o ganol gwael gene'l,  
 Cwch a thwr Babel, oruchel ei ranc ;  
 A'r llwfwr ddyn ofnus, a lônai'n galonus,  
 Oedranus anafus wnai'n ifanc.

Hi ddodai wr lledffol ym marn amryw bobol,  
 Yn wr da synwrol, dewisol, a dwys ;  
 Gan droi rhyw auwiredd oer iawn, yn wirionedd,  
 A'r hyn a fai'n gamwedd yn gymmwys.

Nid alla'i ddweyd allan, na chofio'n dra chyfan,  
 Mo'i rhinwedd hi rwan, mae'r awen yn fyr ;  
 'Roedd ganddi reolaeth fawr iawn mewn carwriaeth,  
 O flaen dim ysowaeth îs awyr.

Mae'r crefftwyr, rai *crafti*, yn cwynaw mewn culni,  
 Na welsant mo'r *Ladi* oludog yn hwyr ;  
 Oni ddychwel hi chwippyn, 'nawr etto ar fyr atyn',  
 Ni chwytha un mwgyn o'u magwyr.

Mae'r hwsmyrn, wŷr esmwyth, fu'n dâl tai a thylwyth,  
 Ran amlaf dan drymlwyth ac adwyth i gyd ;  
 Nos da'wch', onis dychwel, madws yw 'madael,  
 A gadael eu gafael mewn gofid.

Pe baech' yn trafaelu trwy Loegr a Chymru,  
 Dinasoedd a threfi, blin ydy'r fath bla ;  
 Ni welwch, 'rwy'n coelio, trwy'r tiroedd yn *tarrio*,  
 Braidd un na bo'n cŵyno am *Becunia*.

Can's hi oedd eu calon, eu meddiant a'u moddion,  
 Rhag tlodi a dyledion, achwynion awch hir;  
 Lle *hentraï* ei *hint'rest*, ni fethai un gorchest,  
 Pa un a fai onest ai anwir.

Os mýnwch chwi hanes pwy ydyw'r Arglwyddes,  
 Wych enwog a chynnes ei lloches a'i llog;  
 Aeth ymaith ar encil, a'r chwerwedd o'i chweryl,  
 Ei henw gwiw cynnil yw "CEINIÖG."



## C A R O L H A F.

—  
 GAN JOHN HOWELL.  
 —

MAE'r ddaear fawr firwythlon, a'i thrysor, yn ddigon  
 I borthi ei thrigolion, yn dirion bob dydd,  
 Pe byddem ni ddynion, mewn cyflwr heddychlon,  
 Yn caru'n un galon ein gilydd.

Pe bai gwir frawdgarwch, duwiolaidd dawelwch,  
 Da ddawn er daddanwch, a harddwch o hyd,  
 Rhwng pawb o hil Adda, ni chai mo'r tylotta',  
 Un wasgfa cul oedfa caledfyd.

Aeth heibio'r holl fyrddydd, a'r düaf oer dywydd,  
 A daeth yr hir hafddydd, dywenydd da yw,

Fod llyisiau trwy'r graëan, yn hollol ddod allan,  
I bawb gael eu cyfran o'r cyfryw.

Os bu yn ddiweddar yn ddû wedd y ddaear,  
Cyd-ganodd yr adar yn gerddgar i gyd ;  
Gwel'd coedydd yn deilio wnai iddynt ymbync-  
io,  
Cyd-seinio, drwy'n hoywfro, draw'n hyfryd.

Llefaru maent beunydd, wir fwyniaith ar fanwydd,  
Moliannu Duw'n Llywydd, yn ufudd a wnant,  
Er's talm dan gyd-blethu cerddoriaeth felusgu,  
Am haf i'w cynhesu, canasant.

Mae'r defaid ar feusydd, a bryniau, a brònydd,  
Yn fawr eu lleferydd o herwydd eu hŵyn :  
Pob 'nifail gwar'eiddia', 'n wir hefyd a'r hyfa',  
Sy â'u tynfa i borfa wiw burfwyn.

Mae'r ddaear yn glasu, a'r coed sydd yn tyfu,  
A gwyrddion yw'r gerddi, mae'r llwyni mor llon ;  
A' heirdd yw'r eginau, a'r dail ar y dolau,  
A blodau'r perllanau pur llawnion.

Y dail iraidd gleision, a'r blodau hyfrydlon,  
Ddangosant yn gysson arwyddion o ras ;  
Nefolaidd blanhigyn, a dyf fel eginin,  
Lle plànwyd y gwreiddyn gwir addas.

Mae'r Haf yn gyff'lybiaeth o'r 'Fengyl bur berffaith,  
 A'r Gaua'n dystiolaeth o'r Gyfraith fu gaeth;  
 E ddaeth yr Haf tesog, Efengyl sydd fywiog,  
 Blodeuog, ddoeth rywiog, athrawiaeth.

Mae amryw derfysgoedd taer naws rhwng teyrnasoedd,  
 A son am ryfeloedd ar diroedd a dŵr;  
 Duw, attal genfigen gelynion bro Prydain,  
 Gwna orphen eu cynhen a'u cwnnwr'.

A chadw SIOR dirion, ein Brenin mwyn graslon,  
 A'i ddeiliaid pur ffyddlon, rai dewrion a da;  
 Dod i ni ddiddanwch, a geirwir hawddgarwch,  
 Tawelwch cu heddwch cyhoedda.

Os rhoddir gofyniad, pwy luniodd y ganiad,  
 Mab ieuanc, llon, difrad ei fwriad wyf fi;  
 JOHN HOWEL, hwy'm galwan', eleni mae 'nhrigfan,  
 Wrth geulan glyn gwiwlan GLANGWILL.

---

## CAROL PLYGAIN.

---

GAN Y PARCH. DAFYDD ROWLAND.

---

CYDEILIED pob Cristion, mewn tymmer hyfrydlou,  
 I'r Arglwydd Dduw cyfion, fawl gysson ar gân;  
 Am anfon yr Iesu, pan oe'm mewn carchardy,  
 I fynnu trwy allu'n cael allan.

Pan greodd Duw Adda, a'i gu-fwyn wraig Efa,  
 Greaduriaid happusa' hawddgara' oedd eu grudd,  
 Gan addo'n deg iddyn' ddedwyddwch diderfyn,  
 Os gwnaent oedd e'n ofyn yn ufudd.

Gosododd y dynion mewn gardd oedd bur ffrwythlon,  
 Paradwys hyfrydlon dra dirion ei dull;  
 Er hyn nid oe'nt ddigoll, rhag myned ar gyfrgoll,  
 Fe'u anafwyd âg archoll oedd erchyll.

Anghofient orch'mynion yr Arglwydd Dduw cyfion,  
 Trwy gredu dichellion afraslon y fall;  
 Y sarff mor gyfrwysed, a'u twyllodd trwy'i hocced,  
 I dd'od i'r fath dynged yn angall.

Ni fuasem cyn yma yng ngwaelod Gehenna,  
 Dan lid y Gorucha', bob coppa mewn cur,  
 Oni buasai i Dduw ddanfon ei Fab i blith dynion,  
 A thyna pan cawsom ein cysur.

Ar gefu y dydd heddy' y ganed yr Iesu,  
 Ym *Methl'em*, o FARI, yn *Fabi* difeth;  
 'Doedd le yn y lletty, fe'i ganed mewn beudy',  
 Mewn tlodi, caledi, cul odiaeth.

'Mddangosodd llu cannaid o hoffwych seraphiaid,  
 I waelion fugeiliaid wrth wylied eu praidd;  
 Gan draethu newyddion, am Geidwad i ddynion,  
 " Fe'i ganed, Oen hoywlon, anwylaidd.

Ewch chwithau oddiyma, i *Fethl'em-Judea*,  
 Cewch weled MARIA, a'i phlentyn da dwys,  
 Yn rhwym mewn cadachau, mewn preseb yn ddiâu,  
 Mae'r hwn a'ch dwg adre' i Baradwys.

Y Doethion o'r dwyrain, pan welsant ei seren,  
 I *Fethle'm* cychwynen' yn gywrain i gyd;  
 I Geidwad plant dynion offryment anrhegion,  
 Aur, thus, a myrr, ddigon, a ddygid.

Bu fyw ar y ddaear, mewn gofid a galar,  
 A phoeredd, a gwatwar, digymmar ar g'oedd;  
 A bywyd galarus, ac angau c'wilyddus,  
 Yw'r driniaeth, mae'n gofus, a gafodd.

Deunaw cant cyfri', yw oedran yr Iesu,  
 Heb achos 'chwanegu, na thynnu dim 'nol.  
 Moliannwn ar liniau ein Tad o'r uchelne',  
 Am gadw ein heneidiau'n hynodol.

---

## CYNGOR I FAB IEUANC.

---

Gan FFRANSIS THOMAS, y Crwthwr dall o Geredigion.

---

LANC, gochel rhag ochain, dy hudo gan hoeden,  
 Pan grycho gan grechwen y globen wên glir;  
 'Rwy'n 'nabod wynebau, ail Gwener eu gwênau,  
 O nadau, hy' nwydau, hen neidir.



Cais riain garuaidd, fo'n oesi'n gu nawsaidd,  
 Dra rhywiog ei rhinwedd, fun gywraidd fwyn gall;  
 Mae greddfollw gruddiau'n annoethig iawn weith-  
 iau,

Yn hadau i ddwyn angau i ddyn angall.

Nid ychain, nid achau, neu dynnion godenau,  
 Sy ddeiliaid syw ddiâu i swyddau dy serch;  
 Tro dilyn, erdolwyn, ddifariaeth dde' forwyn,  
 Ni bydd hi'n rhy anfwyn riainferch.

Na feddwl fod elfen ser ebrwydd yr wybren,  
 Yn orwyllt yn arwain at gangen fwyn gu;  
 Am addfed gynheddfau, da'u dilyn y dylai,  
 Fod gwreiddiau'th serchiadau'n sychedu.

Dros iau anghymmarus, rhy ysgafn yw'r esgus,  
 Coel dynion cildynnus, ffuantus, a ffol;  
 Mewn iaith heb ei noethi, gwaith RHAN, medd y  
 rhei'ny,

Sy'n peri priodi'n bur reidiol.

Nac yngan am dynged, i'n blino, neu blaned,  
 Dû lygredd y digred; 'rwy'n gweled mai gwall,  
 Yw chwilio'r chwedlau gwrachiaidd, Och, i'e!  
 Di olau, dû'n ddiâu, a diddeall.

Dyn syber da sobor ogwydda'i egwyddor,  
 I garu'n ein goror (er rhagor o ras;)

Un weddaidd rinweddol, dda raslawn, ddewisol,  
Yn fuddiol gu foddol gyfaddas.

Pawb ddylent, mae'n ddilys, yn dawel cyn dewis,  
Roi gweddi'n dra gweddus waith moddus a mât ;  
Gael grasau gwiw'r Iesu'n dda fwyn oddi fynu,  
Yn ddoeth i dywysu eu dewisiad.

Da edwyn dawn odiaeth, ar oriau carwriaeth,  
Fod hunan-lywodraeth wiw helaeth o hyd,  
O fuddiol dueddiad, i'w gario'n ei gariad,  
Rhag rhediad rhwydd anfad rhydd ynfyd.

Tra symyl, rhesymol, arafaid, ddifrifol,  
Y dylai un duwiol roi'n frawdol ei fryd,  
Ar eigyr oreugu, o bur wresog braidd Iesu,  
Mae'n well yn ddigelu nâ golud.

I dwtian o deutu, cwyd allan cyn dallu,  
Cei, f'allai, 'n gu felly wir lynu ar un lwys ;  
Hi'th ddiddan yn ddiddig, trwy radau caredig,  
Yn llwybrau puredig paradwys.

---

Llais gwan o egwan egni,—llais cyngan,  
Llais cyngor wy'n rod-di ;  
Llais etto er lles iti,  
Llais Cerddor dall dyall di.

---

## C A N

O Annerch i'r Cymry; a gyfansoddwyd yn Nhref Longford, yn yr Iwerddon, yn y Flwyddyn 1814.

---

GAN JOHN HOWELL.

---

Dos, annerch dwys union, o ganol Iwerddon,  
 I Gymru fwyn dirion, at ddynion o ddysg;  
 Myn agor, mynega, ddrwg drefn y wlad yma,  
 Creulondra ei thyrfa, a'i therfysg.

Mae'n ynys dra helaeth, yn llawn o audduwiaeth,  
 Neu ddelw-addoliaeth, ysowaeth, y sydd,  
 Yn llenwi pob trigfan, trwy barthau'r wlad lydan,  
 Yn gyfan, o geulan i'w gilydd.

Pabyddion anrasol, gwŷr gwancus rhyfeddol,  
 Gweithredoedd di-rëol annuwiol a wnant;  
 A'u bloedd megis bleiddiaid, eu dannedd hyll diriaid,  
 Ar ol Protestaniaid estynant.

Y bobl gyffredin, ymgrymant yn werin,  
 I lawr ar eu deulin, a'u delwau ger bron;  
 Ar FAIR yr erfyniant, ar Seintiau ymbiliant,  
 Maddeuant a geisiant yn gysson.

'R offeiriaid yn ddiau, a werthant genadau,  
 I wneuthur pechodau, rhyw chwarae rhy chwith;

Ac eilwaith am arian, eneidiau gwardan',  
O'r purdan, neu fall-dân y felldith.

Mae'r dynion yn dywyll, yn pechu mor drythyll,  
Ymdro'nt ynddo'n erchyll, fel perchyll mewn pant;  
I'r dyn cyfaddefol, medd 'ffeiriad rhagrithiol,  
" Mi roddaf fi dduwiol faddeuant."

Caiff dyn drwg gwallbwyllog, am \*ddernyn deg cein-  
iog,  
Ei wneyd yn ddihalog, a rhywiog w'r rhydd;  
Maddeuir ei frynti, 'n dra dilys drwy dalu,  
Heb achos ymgrafu am grefydd.

Rhy faith i mi'r awrhon, yw gosod yn gysson,  
Fucheddau'r Pabyddion a'u swynion di sail;  
Bob un yn byw beunydd, dan d'wyllwch dew orch-  
udd,  
Mor benrydd anufudd a 'nifail.

I wylnos pan elir, mor uchel y clywir  
Hwy'n bloeddio'n annifyr, " Ah! hawyr, O! ho!"  
Gan ofyn mewn egni, i'r marw, tan waeddi,  
" Pa ham nas dihuni di heno?"

'Run wedd mewn angladdau, tu ol i'r elorau,  
Y gwaeddant fel gwyddau, nid gweddus eu cri;

---

\* Dernyn o Arian Bathodawl yr Iwerddon.

“ Anwylyd, pam hunaist? pa fodd ein gadewaist?  
Pa ham digalonaist eleni?”

Mae'r wlad yma'n gysson, yn llawn o lofruddion  
Twyllodrus, a lladron, gwŷr duon a dig,  
O fodd yn ufuddol, was'naethwyr i'r diafol,  
Annuwiol, uffernol, lu ffyrnig.

\*Y Cribwyr ysgeler, anafus fawr nifer,  
Cychwynant heb bryder yn nyfnder y nos,  
Trwy'r holl gym'dogaethau, â dannedd eu cribau,  
Braenarant hwy gefnau ar gyfnos.

'Rwy'n teimlo'm bron beunydd, yn flin ac aflonydd,  
Gan hiraeth o herwydd annedwydd iawn yw;  
Am ddyfod mae'm calon, i'ch plith, Gymry mwynion,  
O'r Werddon wlad estron y dystryw.

Er amled cynnygion a wnaed gan Babyddion,  
I ddyfod â'u swynion aunhirion yn hy',  
A'u pardwn a'u purdan i'n teyrnas oleulan,  
Attaliwyd eu haniau o hyny.

---

\* *Y Cribwyr*, (*carders*,) ydynt ysbeilwyr tai, a gyfarfyddant liw nos, gwedi dŵo eu hwynebau, a chanddynt fath ar Gribau, a wnaed o estyll a'u dannedd o hoelion, y rhai blaenaf yn sythion, a'r olaf yn geimion. Pan ysbeiliant dŷ, os dywed un cyfaneddwr air yn eu herbyn, hwy a'i diosgant yn ebrwydd, gosodant y grib rhwng ei ysgwyddau, a thynnant hi i lawr dros ei gefn, gan rwygo y croen a'r cnawd mewn modd truenus!

Rhag dod i'n gwlad odiaeth, y Pab a'i lywodraeth,  
 A'i ofer athrawiaeth, dewiniaeth, a'i dân,  
 O Gymry, gweddiwch, ar Dduw, Tad diddanwch,  
 Am gadw'r tywyllwch tew allan.

Mae hynod argoelion, cawn degwch a digon,  
 Sef heddwch hyfrydlon, i ddynion a ddaw  
 A llawndid pur ffrwythlon, heb ofni gelynion  
 Bydd pob un â'i ddwyfron yn ddifraw.

O Arglwydd Gorucha, ein brenin cynnalia,  
 A'i deulu cyf'rwydda, hyfforddia'n y ffydd;  
 Dysg ninnau i fyw'n union, bob rhyw o raddolion,  
 Yn ffyddlon un galon â'n gilydd.

Un mil ac wythcanmlwydd oedd oedran ein Harg-  
 lwydd,  
 A phedair gyfarwydd, yn dygwydd, a deg,  
 Pan genais ar ystyr o annerch i'm brodyr,  
 A'm cywir gu-wladwyr goleudeg.

Wel, bellach e ballodd fy nhelyn, anhwyliodd,  
 Yr awen a rewodd, hi dawodd yn deg;  
 I'ch plith pan ddychwelaf, wiw frodyr hyfrydaf,  
 Ymlônaf, a chanaf ychwaneg.

## DIRIFAU

Ar amryw Destunau, (canys felly y gelwir hwynt, o'r arddodiad *di*, a *rhif*, am nad ydys yn edrych ar gyhydedd y fraich wrth eu canu; ac nid Duriau, neu Dyriau, fel y tybia rhai,) er mwyn y cyfryw ag sydd yn caru synwyr yn fwy nâ chynghanedd; gan na thâl cynghanedd heb synwyr ddim.

---

GAN IAGO AB DEWI.

---

Y MAE'N haws adnabod dynion,  
Wrth eu chwantau a'u hamcanion,  
Nâ'u hadnabod, yn ddiammau,  
Wrth weithredoedd ac wrth eiriau.

Nid yw'r gwaethaf yn gweithredu,  
Llawer drwg y mae'n ei chwantu,  
Lawer gwaith rhag digwydd iddo,  
Gael ei gospi a'i g'wilyddio.

Ac nid yw y gorau o ddynion,  
Mor ddaionus ag y mynnon',  
O eisiau nerth a rhinwedd amlwg,  
Ac waith bod eu hunain cynddrwg.

Gorau doethder yw difrifwch,  
Gorau physyg yw sobreiddwch,  
Ac o'r golud a'r meddiannau,  
Cydwylbod dda yw'r trysor gorau.



Rhad a rhinwedd addysg hyfryd,  
 Ydyw enaid dyn a'i fywyd,  
 Heb y rhai'n nid byw o hono,  
 Er bod chwyth ac anadl yuddo.

Nid oes undyn byw a'i drigiad,  
 Ar y ddaear islaw'r lleuad,  
 Ddinewidiad na difrychau,  
 Yn wastadol mwy nâ hithau.

Nid oes un yn berffaith hollol,  
 Yn yr amser sydd bresennol;  
 Nid oes am hyn ond byw mewn gobaith,  
 Hyd oni ddel yr amser perffaith.

Mae genyf achos fil o ddyddiau,  
 I alaru am fy meiau;  
 Ond ni feddaf galon barod,  
 I alaru un diwrnod.

Mawr yw'r dadleu yn y gwledydd,  
 Y'nghylch corff a chadach crefydd,  
 Ond am enaid crefydd burlan,  
 Nid oes nemawr o ymddiddan.

Os gweli ddyn yn lled orphwyllo,  
 Na chytgam byth âg ef ymeirio,  
 E daw a son ond dweyd ei gyfran,  
 Ni 'mdaerodd un erioed a'i hunan.

Mwy Crist'nogaidd a rhinweddol,  
 Ar ol sarhâd neu gam aruthrol,  
 (Duw a wŷr) ei lwyr anghofio,  
 Na cheisio talu'r pwyth am dano.

Y dyn ni fedro fwynion eiriau,  
 A ddatguddio'i ddigter weithiau ;  
 Fe fydd hwn wrth lywodraethu,  
 Ben-y'ngbad mewn gwlad a theulu.

Os digwydda it' orthrymder,  
 Cam, ac ammharch, ammhorth, prudd-der ;  
 Cofia hyn, a chymmer gysur,  
 Mae gwell goddef cam nâ'i wneuthur.

Mi ddarllenais ddod yn rhywfodd,  
 I'r byd hwn wyth ran ymadrodd,  
 Ac i'r gwragedd, mawr lles iddynt,  
 Fyn'd â saith o'r wyth-ran rhyngddynt.

Gwell gan adyn llwyrfalch lledffol,  
 Fod yn dincerdd yn wastadol,  
 Nâ dysgu bod yn bencerdd hynod,  
 Gan a fyddo gwell ei wybod.

Ynfyd gŵr a ry-ddigofa,  
 Pan y rhoddir achos iddo ;  
 Ynfytach yw i wŷr ddigofi,  
 Heb ddim achos yn ei beri.

Aeth rhai tadau i Gehenna,  
 Am gasglu cyfoeth a cham-elwa;  
 A'u plant eilwaith sy'n myn'd yno,  
 Am eu gwasgar a'u camdreulio.

Edifeirwch at Dduw gwir-gu,  
 A ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu,  
 Caru pob dyn fel ei hunan,  
 Dyna'r tri pheth rheidiaf allan.

Mae llawer gŵr, Duw a'i cymmortho,  
 A mawr eisiau cyfoeth arno;  
 A llawer cyfoeth gan ryw adyn,  
 Ac eisiau gŵr yn berchen arny'n'.

Er bod Rhufain fawr eleni,  
 Yn cadw'r enw hen oedd arni;  
 E gollodd hon, mae hyny'n resyn,  
 Ei hen ffydd er's llawer blwyddyn.

Mae rhai'n myn'd i golledigaeth,  
 Am nad y'nt yn credu unpeth;  
 Ereill y'nt yn golledigion,  
 O waith credu mwy nâ digon:

Eisiau mawr ar wlad y Cymro,  
 Yw cyfarch Duw a diolch iddo;  
 A mwy undeb yn ei chaerydd,  
 Rhwng athrawon y'ng hylch crefydd.

Nid wrth lathen y mae iti,  
 Fesur o flaen Duw dy weddi;  
 Ond wrth bwys mae i ti ddyfod,  
 Yn ddwys â hon o flaen y Drindod.

Oedi troi at Dduw yn fuan,  
 A phechu dros un orig fechan,  
 All ddwyn tristwch i'r fath adyn,  
 Na ddarfyddo lawer blwyddyn.

Mae rhai mor gelyd a chybyddol,  
 Mal pe baent i fyw'n drag'wyddol;  
 A rhai ereill mor afradlon,  
 A phe baent i farw'r awrhon.

Ni wna tremiad y planedau,  
 Ddrwg i'r dyn sydd a'i feddyliau  
 Yn tueddu yn wastadol,  
 At weithredoedd da rhinweddol.

Lle bo cyfraith Duw'n weledig,  
 I enaid dyn i ffrwyno'i ryfyg,  
 Ni bydd ond awdurdod bychan,  
 Ar wŷniau hwn gan ser na satan.

Nid yw brudiwr nes er gwybod,  
 Tynghedfen ddrwg, heb allu'i rhagod,  
 Nid oes borth rhag hon a'i niwed,  
 Ond ffoi at Dduw i gael ymwarded.

Y dyn y del i maes o'i enau,  
 Bethau budron eu haroglau,  
 Mae'n argoel fod ei enaid heinus,  
 Yn ymborthi ar beth afiachus.

O ryfeloedd y byd yma,  
 Gorau rhyfel ac ymwria,  
 Yw rhyfela ac ymorfod,  
 Am y nef, yn erbyn pechod.

Tra pheryglaf yw drwg ddynion,  
 Yr amseroedd ac y byddon',  
 Gydâ'r duwiol; a'u hwynebaw,  
 Oddiallan megis hwythau.

Fal y bo llywiawdwyr dynion,  
 Yn eu moesau a'u harferion;  
 Felly agos y bydd pob-dyn,  
 Ag a lywodraethir ganddyn'.

O'r ysgoldai a'r athrawon,  
 Sy'n y byd i ddysgu dynion;  
 Gorau ysgol yn yr hollfyd,  
 I ddysgu dyn, yw ysgol adfyd.

Dan dymhestloedd a thrueni,  
 Y byd hwn a'i ddirfawr ddrychni,  
 Gorau gwasgawd ac ymgeledd,  
 Yw boddlonrwydd ac amynedd.

Gofid rhai, a'u dirfawr drallod,  
 Yw eu bod yn meddu gormod ;  
 Gofid ereill, a'u trallodion,  
 Yw bod ganthynt lai nâ digon.

Am ddamweiniau y byd yma,  
 Doed helaethrwydd, doed cyfyngdra,  
 Doed gwaethygu'n lle myn'd wellwell,  
 Nid rhaid aros ynddo'n nebell.

Amser sydd i dewi am bob-peth,  
 Ac amser sydd i dd'wedyd rhywbeth ;  
 Ond ni ellir cael un amser,  
 I ddweyd pob-peth yn ddibryder.

Bu'n edifar fil o weithiau,  
 Am lefaru gormod eiriau,  
 Ond ni bu gymmaint o beryglon,  
 O lefaru llai nâ digon.

Un o'r gorau o blant Adda,  
 Yw gweinidog ffyddlon purdda ;  
 Un o'r gwaethaf o blant dynion,  
 Yw gweinidog drwg anffyddlon.

Nid yw deall, dysg, a doniau,  
 Heb gydwybod dda'n ddiammau,  
 Ond fel llyisiau pèr sy'n trwsio  
 Corff drewedig yn ei amdo.

Ni bydd y farn yn union union,  
 Lle bo cariad gwresog ddigon,  
 Nac ychwaith lle bo direidi,  
 A chenfigen yn rheoli.

Lle bo cariad fe ganmolir  
 Mwy, ond odid, nag a ddylir ;  
 A chenfigen a wyl feion,  
 Lle na byddo dim achosion.

Os bydd i un fy nhwyllo unwaith,  
 Duw faddeuo i hwn ei ddrygwaith ;  
 Ac o'm twylla ddwy o weithiau,  
 Maddeued Duw am hyn i minnau.

Ei fai ef ei hun, yn benaf,  
 Oedd fy nhwyllo y tro cyntaf ;  
 A'm bai innau oedd yr ail-dro,  
 Fod mor ffol a 'mddiried iddo.

Os bydd arnaf eisiau rhywbeth,  
 A fo rheidiol i'm cynhaliaeth ;  
 Y mae'r cybydd, er a feddo,  
 A mawr eisiau pob peth arno.

Myfi wn yn hysbys ddigon,  
 Na bydd arnaf fawr ddiffygion,  
 Tra'r ymgadwyf rhag yr arfer  
 Sy'n y byd o chwennyech llawer.



Rhoed Duw fynno i mi yma,  
 Ped fai'n llawer llai nâ ngwala,  
 Deued llwyddiant, deued methu,  
 Fe fydd gwell nag wyf yn haeddu.

Dyn yn cael ei anrhydeddu,  
 Heb ddoethineb yn ei feddu,  
 Sydd fel pren a fai'n blodeuo,  
 Heb ddim ffrwyth un amser arno.

Bydd barchedig it' dy hunan,  
 Na wna'n ddirgel ddim yn unman,  
 Ond a fynnit ei fynegi,  
 I'r un mwyaf wyt yn berchi.

*Y crocodil*, ar ol wylofain,  
 A ladd y dyn a ddalio'n gelain;  
 A llawer dyn â'i wylo oerllyd,  
 A huda'r llall i dranc anhyfryd.

Nac ymddiried, clyw'th rybuddio,  
 I estron byth, os gelli beidio;  
 Ni thwyllwyd neb erioed yn ormodd,  
 Ond y gŵr a ymddiriedodd.

Perchen tafod a arfero,  
 Ddweyd am bawb y peth a fynno,  
 Bydd rhaid iddo wrando'n fynych,  
 Lawer peth ni bo'n ei chwennyach.

Y chwannocaf i gael breiniau,  
 Yw'r ysgawnaf ei feddyliau,  
 Ni fyn hwnnw lai nâ blysiu  
 Gradd nad yw hi'n addas iddo.

Drwg rhy hael, a drwg rhy gybydd,  
 Drwg rhy drist, a rhy lawenydd ;  
 Ffordd ganolig rhwng dau ormod,  
 Yw ffordd rhinwedd glodfawr hynod.

Drwg rhy lwfr, drwg rhy ofnog,  
 Drwg rhy ddewr, a rhy galonog ;  
 Ni da yw RHY o ddim yn unmodd,  
 Meddai doethion yr hen oeso'dd.

Pa ŵr bynag ar a fyddo,  
 A chyngor drwg annuwiol iddo,  
 Ni erys hwn yn ddiamryfus,  
 Nemawr iawn mewn ffordd ddaionus.

Na fydd farnwr rhwng cyfeillion,  
 Ond cais ddod â hwynt yn foddlon,  
 I gyduno, bob ychydig,  
 O deg a theg yn ddiddig ddiddig.

Odid mawr i undyn weled,  
 A'i ddau lygad, er eu lletted,  
 Trwy'r holl fyd beth mor hyderus,  
 Ag yw balchder anwybodus.

Y mae'n rhaid i'r gŵr a garo  
 Gael y peth a fo'n ddymuno,  
 Yn ddyfal iawn, a mynych mynych,  
 Wneuthur rhywbeth gydâ chwennych.

Dyn â'i dafod a weddiaw,  
 Ac heb wneuthur dim â'i ddwyllaw ;  
 Ni wna'r fath dduwioldeb diog,  
 Reidus byth yn ddianghenog.

Tra bendigaid fil o weithiau,  
 Ydyw'r addysg bur a'r moesau,  
 Yn y dref, y wlad, a'r deyrnas,  
 A ddiwygio natur atgas.

Hwyr y daw i'r nefoedd hyfryd,  
 Neb rhyw ddyn, pan ddarffo'i fywyd,  
 Sydd yn rhedeg ac wynebu,  
 Tra fo byw at uffern orddu.

Ni bydd crefydd dda ragorol,  
 Yn ddaionus nac yn fuddiol,  
 I'r crefyddwr drwg a fyddo,  
 Heb un rhith daioni ynddo.

Fe haera llawer dyn yn ddiball,  
 Fod ganddo gariad mawr at arall,  
 Heb fwriadu minwedd fechan,  
 Ond ei les a'i fudd ei hunan.

Gwaethaf un o'r holl wyllfilod,  
 Yw'r absenwr drwg ei dafod,  
 Ac o'r rhai dôf, medd pawb gan mwyaf,  
 Y gwenieithwr yw'r enbyttaf.

Y deall sy flaenor ac yn benaeth,  
 Yn ysgoldy pob dysgeidiaeth;  
 Ond yr 'wyllys mewn gwirionedd,  
 Sy'n cadw'r blaen yn ysgol rhinwedd.

Y mae satan, tad y pechod,  
 Tu hwnt i neb rhyw ddyn ar wybod;  
 Ond ni fÿn o wir ddireidi,  
 Wneuthur mymryn o ddaioni.

A thebycaf peth i satan,  
 Oni bydd ef yno'i hunan,  
 Yw rhith Cristion tra gwybodol,  
 A fo'n byw yn anghrist'nogol.

Da am dda sydd dra rhesymol,  
 Drwg am ddrwg sydd anghrist'nogol;  
 Drwg am dda sydd dra chythreulig,  
 Da am ddrwg sydd fendigedig.

Yr hwn ni choelia Dduw, pan fyddo  
 Yn gorchymmyn ac yn addo,  
 A gaiff goelio'r pen diweddaf,  
 Holl fygythion y Goruchaf.

Gochel fostio'n fynych fynych,  
 Y gweithredoedd gorau feddych,  
 Rhag cael dannod it' yn rhy-dost,  
 Y gweithredoedd gwaetha' wnaethost.

Pob gwatwarwr, gwnaed a allo,  
 O hir watwar a hir wawdio,  
 A gyferfydd, yn ddiammau,  
 A rhyw un a'i gwatwar yntau.

Na chais byth, os wyt ddeallus,  
 Gyfiawnhau un tro drygionus;  
 E wna hyn o weithred ddisfaint,  
 Hyd y camwedd y dau cymmaint.

---

## TAWELWCH MEDDWL.

Cyfieithad o Gerdd Ladin, allan o "Volusenus de Animi tranquillitate."—Testun y Gerdd yw, Nad oes dim Llonyddwch yn y byd hwn, ond sydd yn deilliaw oddiwrth Ddoethineb a Duw-  
 ioldeb.

---

GAN Y PARCH. EVAN EVANS.

---

PAHAM mwyach yr wy'n cŵyno,  
 Am ddim trallod sydd i'm blino?  
 Myfi yw achos pob rhyw aflwydd,  
 Yn y byd a ddichon ddigwydd.

Ofer ceisio cyrchu golau,  
 O dywyllwch dû anaele ;  
 Neu o gysgod angau digllon,  
 Geisio gwir foddlondeb calon.

Ni cheir mêl o chwerwon lysiau,  
 Ac ar ddrain ni cheir afalau ;  
 Felly byth ni chaiff dyn ofer,  
 Ond ei siomi gan ei bleser.

Y mae pryd a gwedd yn darfod,  
 A'r palasau gwychion mawrglod ;  
 Y mae achau, parch, a golud,  
 Gwledd, a moethau, oll yn symud.

Pob tiriondeb ar a welych,  
 Pob hawddgarwch ar a deimlych ;  
 Nid yw'r cyfan oll ond gwagedd,  
 A breuddwydion, ac oferedd.

Nid oes dim o'r hyn aeth heibio,  
 Wedi ei adael, ond ei gofio ;  
 Am yr hyn y sydd i ddyfod,  
 Pam y cym'ri drafferth ormod ?

Dos, a rhwym y gwynt mewn gefyn,  
 Dâl dy gysgod sy'n dy ganlyn ;  
 Os hyn o gamp ni fedri wneuthur,  
 Gwel mor wâg yw'th boen a'th lafur.

Dylit ti ymado'n rhwyddlan,  
 A'r hyn sydd raid ei gollu'n fuan,  
 Ac ymofyn am beth amgen,  
 Os wyt gall, yn erbyn angen.

Beth a dâl i ddyn, wrth farw,  
 Ei holl olud a'i holl elw,  
 Os na bydd i'w enaid obaith,  
 Wedi'r êl oddiyma ymaith?

Onid doethach dyn a geisio,  
 Drwy iawn fuchedd, beunydd dreulio  
 Ei holl amser, a'i holl amcan,  
 Modd y caffo'r nefoedd wiwlan?

Os chwennychi wir lawenydd,  
 Boddlon fydd ac amser dedwydd,  
 A rhoi'r galon mewn esmwythder,  
 Canlyn beunydd gymmedrolder.

Os âi unwaith dros y terfyn,  
 Och! ni byddi byth ond adyn;  
 Llawn fydd d'oes o boen a thristwch,  
 Ac wrth farw ni chei heddwch.

Os wyt am gyrraedd heddwch llawn,  
 A byw mewn byd fel Cristion iawn,  
 Crist ei hunan croeshoeliedig,  
 Ydyw'r modd a'r ffordd yn unig.



Y credadyn cywir, ffyddlon,  
 Ar dda'r byd ni rydd mo'i galon ;  
 Ond ar rinwedd a daioni,  
 A chael rhan yng ngwlad goleuni.

Y peth a fyddom ni yn geisio,  
 Gan hiraethu'n fawr am dano,  
 Dyna'r peth a ochel yntau,  
 Fel y gwenwynyn glâs, neu angau.

Y mae hwn yn diystyru  
 Y peth a fyddom ni yn garu ;  
 Ac fel tom yn cyfri'r cyfan ;  
 Ni fyn ddim ond Crist ei huan.

Dyma'r dyn sy'n dyodde'n llawen,  
 Bob gorthrymder a phob maethgen ;  
 Dyma ei gred o wraidd ei galon,  
*Heb Dduw, heb ddim ; â Dduw â digon.*

Trwy wir ffydd y mae yn credu,  
 Yn unig ar yr Arglwydd Iesu ;  
 Ac oddiwrth ei ddrud farwolaeth,  
 Y mae'n caffael iechydwrriaeth.

Y mae hwn y pryd y mynno,  
 Yn cael mêl o'r graig i'w sugno ;  
 Ac os myn, fe wna o'r gàreg,  
 Olew pur yn ffrwd i redeg.

Dyma'r dyn sy'n treulio ei fywyd,  
 Mewn hyfrydwch a dedwyddyd ;  
 Dyma'r dyn y sydd yn cynnwys  
 Yn ei galon, holl Baradwys.

Beth a ddichon hwn ddymuno,  
 I roi mwy boddlondeb iddo ;  
 Os yw'n wastad yn meddiannu  
 Yr un Perl a dâl ei brynu ?

Dan ba gymmaint o flinderau,  
 Dan ba ddirfawr erchyll dônau,  
 Y mae ereill oll yn soddi,  
 Oedd â'u meddwl ar ddrygioni ?

Mae'n hiraethu am ymwarded,  
 Oddiwrth bechod a chaethiwed ;  
 Y mae'n achwyn na ddoi angau,  
 I'w ryddhau o'i holl flinderau.

Ac och ! na welwn innau'r dydd,  
 A'm rhoddai oll o'm rhwymau'n rhydd !  
 Modd y gallwn gyrchu yno,  
 Lle mae'n rhaid i bawb ymdeithio.

Y mae'r bywyd hwn ar ddarfod,  
 Y mae'r llall o'i ol i ddyfod ;  
 Yr unig ffordd i'r nefol wlad,  
 Yw dyoddefaint Crist a'i råd.

Och ! pa wedd, heb drist alaru,  
 Yr edrychi arno'n gwaedu ;  
 A'r loes dost a gafodd drosod,  
 I'th iachau o haint dy bechod ?

Tydi erioed, yr hwn ni fedri,  
 Oddef tostrwydd a chaledi !  
 O pa fodd y cei y goron,  
 Heb beth cur, a phoen, yr awrhon ?

Os yw cymmaint o flinderau,  
 Yn faich rhy-drwm i'th ysgwyddau,  
 Cymmer ofal, rhag pan ddelo,  
 Fod yn llwyr annhebyg iddo.

Y mae llewyrch bach ryw seren,  
 Yn tebygu peth i'r haulwen ;  
 A lliw gwelw, a pheth agwedd,  
 I'r ôd gwynnaf ar y llechwedd.

Y mae'r pethau mwyaf blasus,  
 Fel y mêl ei hun yn felus ;  
 Ac y mae'r ysgafnaf bethau,  
 Fel y plu' ar awyr denau.

Pa debycaf fy'ch i'r Iesu,  
 Harddaf oll y cei dy farnu ;  
 Ef yw Awdwr mawr pob harddwch,  
 Ef ei hunan ydyw'r tegwch.

Y sawl sydd yn cywir gredu,  
 Pan fo blinder tost yn gwasgu,  
 Maent yn cofio i'w diddanwch,  
 Am fod Crist mewn poen a thristwch.

Dyma ddynion tra rhagorol,  
 Sydd o naws a thymher nefol,  
 Yn disgleirio megis perlau;  
 Nid yw'r lleill ond chwÿn ac efrau.

Ond yr ydym ni mor ynfyd,  
 Na feddyliwn ddydd o'n bywyd,  
 Nad yw'r cwbl oll ond gwagedd,  
 Nes y delo dydd ein diwedd.

Dyma'r pryd yr wyt yn effro,  
 Ac yn canfod maint dy wallgo;  
 Ac yn wylo am y maswedd,  
 A'th ddifyrwch a'th oferedd.

Ac yno trwy ddychryndod trist,  
 Y gelwi'n brudd ar Iesu Grist;  
 Yr hwn, pan oeddit yn dy wynfyd,  
 Ni chofiaist unwaith yn dy fywyd.

Os trwy rasol edifeirwch,  
 Y prudd waeddi am gael heddwch,  
 Ni naccâ mor hŵyr dy wrando,  
 Gwell er hyny ei forau-geisio.

Os dyfeisi ryw ffordd newydd,  
 I'th ryddau o'th boen a'th gerydd,  
 Bydd dy lafur oll yn ofer,  
 CRIST yw'r UNIG FFORDD bob amser.



## EMYN, NEU HYMN.

GAN MR. EDWARD RICHARD.

MAE Crist â pheraidd lwysaidd lais,  
 Hyfrydlais i'r afradlon ;  
 I'w goel yn ne'n ein galw ni,  
 Gwael y'n ni, a gelynon.

Oh, deffro, f' enaid, deffro'n fwyn,  
 A gwna dy gŵyn yn gynnes ;  
 Cân's noeth, newynog, euog wyf,  
 A gwae fi, clwyf a gefais.

Llidio y mae, a lledu 'mhell ;  
 Heb gymmorth cyfaill cywir,  
 Yr hwn ar groes a'n rhoes yn rhydd,  
 Anaele fydd fy nolur.

Trwy lawer loes â'i ddwylo ar led,  
 Och, hylled ei archollion !

'Ym poenau tŷr, o'm pen i'm traed,  
Ag eli o waed ei galon.

Er bod ei galon union e',  
Dros fyd a'i gwadai'n gwaedu,  
A mil o friwiau'n malu ei fron,  
Bu ffyddlon hon er hŷny.

Ond aden ffydd nid edwyn ffol,  
Y fi â'n ol f' anwylyd,  
Yn was i hwn mewn oes a hedd,  
Diddiwedd yr addewid.



## EMYN FOREUOL.

Cyfieithad o'r Saesnaeg, "Awake, my soul, and with the sun," &c.

---

GAN Y PARCH. DAFYDD ROWLAND.

---

O DEFFRO, gydâ'r haulwen rhed,  
Fy enaid, ddyddiol daith dy dd'led;  
Ymwad â syrthni, 'n ebrwydd c'od,  
Tâl aberth o foreuol glod.

Cais brynu'r amser gwerthfawr, bydd  
Fyw heddyw fel dy olaf ddydd;

Defnyddia'th dalent, bydd bob awr  
Yn barod erbyn y dydd mawr.

Dy rodiad boed yn un â'r gwir,  
Dy galon fel y golau'n glir ;  
Mae llygad holl-weledig Duw,  
Yn gwel'd dirgelion pob dyn byw.

O deffro, cyfod, f' enaid, cân  
Yn gyd-gôr â'r angylion glân,  
Y rhai trwy gydol nos heb boen,  
Sy'n canu mawl i Dduw a'r Oen.

Holl ddaearolion, molwch Dduw,  
Ffynnon ein holl fendithion yw ;  
Y nefol gôr, rhowch fawl ar gân,  
I'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

---

## EMYN BRYDNAWNOL.

“ Glory to thee, my God, this night,” &c.

---

GAN Y PARCH. D. ROWLAND.

---

Mawl, mawl, i Dduw am olau'i ddydd,  
A'i holl fendithion rhoddion rhydd ;  
Duw'r dúwiau, diogela fi,  
Dan gysgod dy adenydd di.



Fy meiau'r dydd aeth heibio, Dad,  
 Pardyna'n rhwydd er d'un Mab rhad;  
 Fel gallwyf huno'n dawel glyd,  
 Mewn hedd â thi, fy hun, a'r byd.

Dysg fi i fyw, fel na b'wyf dan  
 Ofn angau'n fwy nâ'm gorwedd fan;  
 Dysg fi i farw, fel o'r bedd  
 Y codwy'n ddisglaer ar dy wedd.

F' amrantau selied melus hun,  
 Gorphwysed f'enaïd ar Dduw cun,  
 Fel gallwyf ddeffro'r borau'n bêr,  
 A newydd nerth i foli'r Ner.

---

### MYFYRDOD AR WEITHREDOEDD DUW.

Ar y "Drom Galon."

Gan y PARCH. MR. DAFYDD LLWYD, Llwynrhydowen.

ARGLWYDD nef a dae'r, mae'n deilwng,  
 Yn union ystig i ni 'mostwng,  
 I'th anfeidrol fywiol fawredd,  
 Iawn i ganu i Ion ogonedd:  
 Mae holl natur faith o bobtu,  
 Llu'r ffurfafen, adar wybren, a dae'r obry,  
 Yn eilio mawl o foesawl fwsig,  
 I ryfeddodau da dy radau didòredig.

Yr haulwen gynnes, a'r lloer gannaid,  
 A phob eurgor blaenor blaned,  
 A'r ser eithaf sydd yn traethu,  
 Yn rhywfodd oll dy ryfedd allu ;  
 Ni ro'nt un-tro ar hyd yr entrych,  
 Heb dystio'th fawredd, tra dwysglirwedd, a disgleir-  
 wych,  
 Mor fawr, mor hardd, mor ddoeth, mor ddawnus,  
 Yw d' amcanion, bur de union, Bor daionus.

Y ddae'r, a'i gwellt, a'i blodau manol,  
 Coedydd, ffrwythau, llysiâu llesol,  
 Sy'n mynegu'n wiwlan olau,  
 Ar hygar iaith, dy ragoriaethau ;  
 Rhydd dwr, a thir, ac awyr helaeth,  
 O'th alluoedd, uwch y bydoedd, wych wybodaeth ;  
 Milod, pysgod, ac ehediaid,  
 A'r rhai gwaelaf, dirym lesgaf, o'r ymlusgiaid.

Pwy all adrodd dy lywodraeth,  
 A'th ofal dros y rhai'n ar unwaith ;  
 Y bydoedd nefawl gwnant yn ufudd,  
 Ac yn llawen, arch ein Llywydd ;  
 Y rhai'n o'u trigle fyth heb dreiglo,  
 Na choll amser, trwy'r uchelder, troi ar chwildro ;  
 Rho'ist derfynau i'r môr a'i ewyn,  
 Nad all ei lidiog, donnau trystiog, daenu trostyn'.

Difai radau dy Fawrhydi,  
 Gwnant bob un â ffun i ffynnu;  
 D' elusenni dilys hynod,  
 A lonnafiloedd o 'nifeiliod.  
 Pob perchen cèn ac aden hwylus,  
 Gwna'th haelioni, bawb o'r rhei'ny'n bybur hoen-  
 us,

Ond tyn dy law, fe'u gwneir gan angau,  
 Yn wael eu haniau, gul anniddan gelaneddau.

Ond rho'ist, uwchlaw pob rhyw fywiolion,  
 Bob math o ddoniau maith i ddynion,  
 Y dull o'n bod (rho'wn glod dyladwy),  
 Tra dwfn ydyw, ac ofnadwy!  
 Cyfiawn ydyw cofio'n odiaeth,  
 Dy raslonrwydd, o'th hael ogwydd, i'th hiliogaeth;  
 Rho'ist i ddyn dy lun yn wiwlwys,  
 I seinio'n ddiddig, gerdd beredig, gardd Baradwys.

Er hyny, dyn o ran ei duedd,  
 Nis mynnai rodio mewn anrhydedd,  
 Trwy frad y fall, rhy gall, fe gollodd,  
 Yn frwnt, ei ddirfawr fraint o'i wirfodd;  
 Am drosedd aeth i faith ddiffeithwch,  
 Gwyllt, anniben, o fro Eden, a'i hyfrydwch,  
 Mewn byd llwm yn drwm i dramwy,  
 O! 'th ddialeddau, dechrau nodau, dychrynadwy!

Dyg dy fraich, trwy'r baich o bechod,  
 Benna' melldith, boen, a malldod,  
 Trallod, ing, ac angau gwedi'n,  
 Ddaeth i rwysgo mewn goresgyn ;  
 Dros y byd dy lid a ledai,  
 A chêg annwn, hylla' gerw'n, oll agorai ;  
 A diafl â'i rwyd yn dyfal rodio,  
 Mewn tân hyllfyw, yn dwyn ystryw, i'n dinystrio.

Pa fodd, ar goll, heb feddu'r gallu,  
 Oedd yn rheidiol i'n gwaredu,  
 Na chawsai satan bawb yn lluoedd,  
 Dano'n uffern, dân anniffodd ?  
 Ond er ein mwyn yn fwyn anfonaist  
 Dy Fab o'r nefoedd, Aer y bydoedd nid arbedaist ;  
 Iesu'n rhodd derbyniodd ini,  
 Er maint ein beiau, genyd, orau gennadwri.

I'r byd o'i orsedd daeth heb arswyd,  
 O FAIR yn faban gwiwlan gwelwyd,  
 Mewn dawn, a doethder, a chorffolaeth,  
 Aeth ar gynnydd hylwydd helaeth ;  
 Dyg o dirion ddwyfron ddifri',  
 Ei bregethiad, hyddysg gennad, addysg ini,  
 Mae'i athrawiaeth araith rywiog,  
 Ei addewidion, a'i rwydd eirchion, yn ardderch-  
 og.

CRIST, mewn buchedd bur, heb bechu,  
 Rhydd o'n bla'n ei lân Oleuni;  
 IESU garai'n ddiseguryd,  
 Dreulio'i dduwiol fuddiol fywyd;  
 Cleifion, gan ei nerthol wyrthiau,  
 Ca'ent trwy'r hollwlad, wiw gyfodiad o'u gofidiau,  
 Gwnaeth rai'n wych, mewn nych fai'n ochain,  
 A rhai mewn amdo, gwedi huno, godi eu hunain.

Ond er bod i'n Prynwr hawddgar,  
 Gymmain' osgedd gymmwynasgar;  
 Brad a luniai brwd elynion,  
 I'w ben, a'i draed, a gwaed ei galon;  
 Rhoi'i aelodau i ddiodde'n ddiddig,  
 Gŵr angeuol, wnai'n cu radol, Oen caredig;  
 A'i gorff ar led heb noddod iddo,  
 Mewn amynedd a gras haelaidd i'w groeshoelio.

Yn y bedd mewn hedd gorweddodd,  
 Y trydydd dydd yn rhydd a'i rhoddodd;  
 A dyrchafu wnaeth drachefen,  
 (Gwych yw'r wobrwy) uwch yr wybren,  
 Ar fainc ei Dad yn wastad eistedd,  
 Yn eiriol erom â Duw, na ddelom dan ei ddial-  
 edd;  
 A'r angylion gwynion gweddus,  
 Yn cyd-byncio, 'nawr fawl iddo, 'n orfoleddus.

Fy enaid, cred yng Nghrist yn astud,  
 Dod ar ei gymmod hyglod oglyd ;  
 Yn ddwys ufudd rho ddeisyfiad,  
 Am nawdd i lynu'n ei ddilyniad ;  
 Câr e'n awr yn fawr hyd farw,  
 O'r fflam ffyrnig, felldigedig, f' all dy gadw ;  
 Cei ddedwyddol fuddiol feddiant,  
 Fyth heb fethu, 'n mwyngu ganu, mewn gogoniant.

---

## CYNGHORION TAD I'W BLANT.

*AR FESUR TRIBAN.*

---

GAN Y PARCH. DAFYDD-LLWYD.

---

Fx anwyl blant caredig,  
 Rhowch glust i wrando'n ystig,  
 Ar gynghorion dwysion da,  
 Sydd gennyf yma i gynnyg.

Mi'ch megais o'r tirionaf,  
 Mi'ch cerais o'r anwylaf,  
 Mi gyd-ddygais â chwi'n faith,  
 Pan fyddai'r gwaith o'r gwaethaf.

A phan y baech am bechu,  
 Yn peri i mi'ch ceryddu,  
 Fy nghalon drist o'r achos hon,  
 A fyddai 'mron ymrannu.

Gosodais daer ymbiliau,  
 At Dduw, i'r làn ar liniau,  
 Er i chwi gael ei ddiwael ddawn,  
 I wario'n iawn eich oriau.

Fe'ch llygrwyd oll gan bechod,  
 Haeddasoeh lid y Duwdod ;  
 A'r einioes mwy yr un nis medd,  
 A wna dros gamwedd gymmod.

Er hyny, Tad tosturi  
 A roes ei un Mab Iesu,  
 Yn ufudd iawn o'r nefoedd wèn,  
 Daeth ar y pren i'ch prynu.

Am hyny'n brudd deisyfwch,  
 Da ddoniau Duw'r diddanwch,  
 A chael ei ddwyfol nefol nawdd,  
 Fe rydd yn hawdd ei heddwch.

Mae hwn yn Dad trugarog,  
 Fe faddeu feiau'r euog,  
 A 'mroddo i wrthod pechod câs,  
 A cheisio ei ras yn wresog.



Ni thyrr mo'r gorsen ysig,  
 Ni ddiffydd llin mygedig ;  
 Er hyn i'r drygddyn cyndyn ffol,  
 Rhydd gosp uffernol ffyrnig.

Mae'n craffu bob munudyn,  
 Yn gryno ar bob gronyn ;  
 A phob meddwl, gair, a gwaith,  
 Yn berffaith odiaeth edwyn.

Am hyn rhaid dyfal wilio,  
 Y'nghyd â dwys weddio,  
 Rhag drygau'r byd, y cnawd, a'r fall,  
 Na chaffont wall i'n twyllo.

Rhowch barch i'ch Tad o ddifri,  
 Sy'n chwennych eich daioni ;  
 Mewn dyddiau blin ar fin ei fedd,  
 Yn wannaidd dan benwynni.

I'ch Mam rhowch barch o'r unwedd,  
 A'ch magodd mewn amynedd,  
 Pan oedd eich gwendid ar bob cam,  
 Yu galw am ymgeledd.

I'ch meistriaid byddwch barchus,  
 Mewn dysg a galwad hwylus,  
 A fo'n eich parotoi mewn pryd,  
 I fyn'd trwy fyd trafodus.

Bid onest eich hamcanion,  
 Bid rhwydd eich hymadroddion,  
 Bid gostyngedig ddiddig ddawn,  
 O ddifrad uniawn ddwyfron.

Meddyliwch hyn yn ddibaid,  
 Mai un peth sydd anghenrhaid,  
 Am hyn gofalwch ym mhob man,  
 Yn orau rhan i'r enaid.

Yn blant os byddwch ddiwyd,  
 Os santaidd fydd eich ie'nctyd,  
 Os ofnwch Dduw mewn cyflawn fraint,  
 Bydd hafaidd henaint hefyd.

---

## ENGLYNION.

---

GAN Y PARCH. DAFYDD LLWYD.

---

Duw hael a diwael d'olud,—dod allu,  
 Da d'wyllys i wneuthud,  
 Yn f'oes im', cyn fy symud,  
 Mewn gwael wedd i fedd yn fud.

Pechais hyll erchyll orchwyl,—yn d'erbyn,  
 Ond arbed, Ior anwyl!  
 Gwaed Crist hyglod hynod hwyl,  
 A olcho f'enaid eilchwyl.

D' Ysbryd ar loywbryd lwybrau,—yn ddidwyll  
 A ddodo fy nghamrau,  
 A'r un wedd ei rinweddau,  
 Yn gynhes i'r fynwes fau.

---

*PARAPHRASED.*

O DEUS! immensum nutu qui dirigit Orbem,  
 Imples perpetuis et loca cuncta bonis,  
 Sit mihi per cursum vitæ tua sancta voluntas  
 Norma, ut sic tutis passibus ire queam:  
 Nec mea condantur sub cespite membra priusquam  
 Sit tuus erga animam conciliatus amor.  
 Peccavi, fateor, persœpe et atrociter audax  
 In cœlum, alme parens, arma nefanda tuli;  
 At tu parce, precor, miserum nec perde rebellum  
 Ah! quis justitiæ fulmina dira ferat?  
 Abluat et Christi mea tot purgamina sanguis,  
 Candidior nivibus sic erit hæc anima,  
 Cœlestis veri doceat sapientia calles,  
 Virtutesque omnes spiritus intus alat.

## GWAGTER Y BYD.

—  
 GAN MR. EVAN THOMAS, O LANARTH.  
 —

O CWYD, fy serch, ehed i'r nen,  
 Rho dro uwch ben y byd ;  
 Gwel fel mae dynolryw'n mawrhau  
 Rhyw goeg deganau i gyd.

Gwel fel mae dyn yn treulio'i nerth  
 I ganlyn trafferth ffol,  
 A gado y rhan ddewisol dda,  
 A'r perl anwyla'n ol.

Gwel mor ddiffrwyth i barhau,  
 Yw gwychion berlau'r byd ;  
 Amserol yw'r cysuron gwael  
 Sydd yntho i gael i gyd.

Dibrisio hawdd ammodau hedd,  
 Cofleidio gwagedd gwael ;  
 A gwerthu sylwedd i barhau,  
 Am goeg bleserau sâl.

Cribddeilio'n ddoeth er cynnull mael,  
 A gwneuthur Baal o'r byd ;  
 A gyrru'n llwyr a rhoddi'n llon  
 Y galon iddo i gyd.

Darparu llwyddiant clodfawr clyd,  
 I gyrhaedd hyd y nen,  
 Ymborthi ar goeg amcanion syth,  
 Na ddeuant byth i ben.

Gwel gwrs y byd ddamweiniol ddull,  
 Fel hyn fe gyll yn llwyr,  
 Rhwng dwylaw'r dyn sy'n treiglo'n dde  
 O'r bore hyd yr hwyr.

Er maint mae dynolryw'n ymroi,  
 Trwy boen i'w droi a'i drin;  
 Ni all yn amser anghenrhaid,  
 Ro'i iawn am enaid un.

Ni thycia rhagorfreintiau clyd,  
 Pan ddarffo'r bywyd byr;  
 Pob hyder cryf fel gwydr crin,  
 O dan y dyn a dŷr.

O paid, fy serch, a gwibio'n ol  
 Fath goeg areithiol rith;  
 Rhagorfraint happus dewis di  
 O'r byd a bery byth.

## CYNGOR I FERCH DDUWIOL,

Oedd yn myned ar Wasanaeth i dŷ Pendefig.

---

GAN MR. EVAN THOMAS.

---

Mae'n anhawdd iawn, er llwyr ymroi,  
 I'r lili droi mewn drain,  
 Heb lawer gwaith gael llygru ei gwedd  
 A'i rhinwedd gan y rhai'n.

Mae'n anhawdd iawn i'r Cristion pur,  
 Ym mysg rhai anwir fyw,  
 Heb gael ei ddenu lawer tro  
 I bechu a digio Duw.

Neshewch at Dduw mewn gweddi ddwys,  
 Trwy wir hoffeidldwys ffydd,  
 Rhag llithro o'r ffordd fe'ch cynnal hon,  
 Er amled swynion sydd.

Hon yw'r gyfaredd, er amlhau  
 Profedigaethau maith,  
 A'ch dyg trwy'r byd annuwiol ffol,  
 I ganlyn dethol daith.

Os pall odfeydd cyflëus le  
 I ddyledswyddau gwiw,

Gadewch i'ch calon ddwys neshau  
Mewn saeth weddiau at Dduw.

Treiglwch eich golwg at yr Ion,  
A'ch ffydd trwy galon glyd,  
Rhaid byw ym mysg annuwiol blaid,  
Neu fyn'd heb baid o'r byd.



## CAROL NADOLIG.

Ar " Gwel yr Adeilad."

GAN Y PARCH. DAFYDD ROWLAND.

CYD-UNWN, frodyr hawddgar,  
I ganu mawl, yn gynnar,  
I Dduw gogoned;  
Waith dyma'r dydd, diammau,  
Y daeth ein Cyfaill gorau,  
O'r nef i'n gwarded;  
I'r byd, pan oedd ar g'oedd i gyd,  
Yn gerwin orwedd  
Mewn pob anwiredd,  
Heb gael ymgeledd,  
'Nol byw mewn camwedd cyd,  
Fe ddaeth yn addas Noddwr,  
Duw Brynwr, mewn da bryd.



O'r ne', angylion lwyslon le',  
 A gyd-seiniasant  
 Ei felus foliant,  
 Gan ddweyd "Gogoniant,  
 " A llwyddiant y'mhob lle,  
 " Ewyllys da i ddyinion,"  
 Rai blinion yn ddi-ble.

Pa fael i'r côr nefolaidd,  
 Oedd geni Naf tangnefedd,  
 Mewn agwedd egwan?  
 I heppil eiddil Adda,  
 Tra ysig, truenusa',  
 Mae'r Iesu purlan  
 O werth: 'nol cwmpo syrthio'n serth,  
 'Doedd neb digonol  
 I'n codi'n hollol,  
 Ond un o ddwyfôl,  
 Anfeidrol, nefol-nerth;  
 A hwnw oedd y Silo,  
 Preswylydd mawr y berth.  
 Y mae, mwy rhwymau ar bob rhai  
 O honom heddy',  
 I gynnes ganu,  
 Nâ'r nefol deulu,  
 Eu dyled hwy sy'n llai,  
 " O caned pob rhyw dafod  
 Ei fawrglod yn ddi-fai."

Gosodwn heddyw'r borau,  
 Ein didwyll fyfyrdodau,  
     Ar eiriau auraidd,  
 'R Efengyl fwyn sy'n datgan,  
 Modd ganed ein Ior gwiwlan,  
     Mewn cyflwr gwaelaidd;  
 I lawr, disgynai'r Meichiau mawr,  
     O fynwes dirion  
     Ei Dad, a ffyddlon  
     Dorf o nefolion,  
 Angylion gwychion gwiw,  
 I groth y santaidd wryf,  
 I wared dynolryw.  
 Fe'i ca'd, yn isel iawn ei 'stâd,  
     Ar gefn yr awrhon,  
     'Nol cyfri'r doethion,  
     Mewn cadach saelion,  
 Oen gwirion heb ddim gwâd,  
 Mewn preseb gwael yn gorwedd,  
 O gariad rhyfedd rhad.  
  
 Mor isel y daeth Iesu,  
 Ein Ceidwad, er ein codi  
     O'n 'stâd drancedig!  
 Er gallu'n rhydd ein gollwng,  
 I garchar gwnaeth ymostwng,  
     Yn eithaf ystig;  
 Trwy'i oes,—o hyd o'i gryd i'w groes,

Goddefodd ddigter  
 Iuddewon 'sceler,  
 Holl allu'r dyfnder,  
 Barasant lawer loes,  
 Gadawa'i Dad E' o'r diwedd,  
 Ei Fab yn rhyfedd rhoes.  
 O pwy,—a glywodd am ei glwy',  
     Ei chwerwon loesau,  
     Ei ing a'i angau,  
     Am ein pechodau,  
 'N un modd na'i carai mwy?  
 Pa galon, os ystyriai,  
 Na thorrai'n ddiau'n ddwy.

Mae deunaw o flynyddoedd,  
 A deunaw pen o gannoedd,  
     Er pan y ganed  
 Ein Ceidwad mwyn cu odiaeth,  
 Ac Awdwr iechydwriaeth,  
     I bechaduriaid:  
 Mae E'—yn awr o fewn i'r ne',  
     Yn dadleu'n eo'n,  
     Dros euog ddynion,  
     Gwerth gwaed ei galon,  
 O'u plaid hwn ydyw'r ple,  
 Ei fyned ar Galfaria,  
 I'r lladdfa yn ein lle.  
 Er bod—ein beiau rif yr ôd,

Fe'n gelwir heddy',  
 Ddod at yr Iesu,  
 Mae'n cynnyg cannu  
 Pawb sy'n deisyfu dod ;  
 Boed ini gywir gredu,  
 A glynu er ei glod.

---

## ANNERCH I'R CYMRY,

I'w hannog i edifarhau am eu pechodau, a dychwelyd at Dduw, ac i'w glodfori am ein gwared o grafangau'r Ffrancod didrugaredd, y rhai a diriasant yn Abergwaun, Swydd Penfro, yn y Flwyddyn 1797.

---

*“ Bendigedig fyddo'r Arglwydd, yr hwn ni roddodd ni yn ysglyfaeth i'w dannedd hwynt.”— Psal. 124, 6.*

---

GAN NATHANIEL JENKIN.

---

DEFFRO, GYMRU, bydd barodol,  
 Mewn da fwriad edifeiriol ;  
 Ymlanha, cyoedda ympryd,  
 Gad dy feiau, gwella'th fywyd ;  
 Gosod wylwyr ar dy gaerau,  
 Deisyf gymmod, a bydd barod, hwyr a borau ;  
 Dyrchafa'th lef, gweddia lawer,  
 Gwel y drygfyd mawr, a'r gofid sy ar dy gyfer.

Mi debygwn, wrth iawn synied  
 Y nodau gwael, fy mod yn gweled  
 Y meusydd oll yn wŷnion allan,  
 Ac wedi crymmu lawr i'r crymman ;  
 A'r cynhauaf mawr cyffredin,  
 Wrth bob nodau, wedi dechrau, er ein dychryn ;  
 Ac er ein bygwth, gwelir bagad  
 Mewn tywyllwg, dan nôd amlwg, yn ddideimlad.

Mae gwialen Duw'n ymddangos,  
 Am hir bechu, dyna'r achos,  
 Ac yn ysgwyd uwch ein pennau,  
 Ac yn ein bygwth â dyrnodiau ;  
 Ond hyd yn hyn yn cael ein dala,  
 A hyn a ddengys fod Duw a'i 'wyllys in' i wella ;  
 Os hir erys Duw heb daro,  
 Trwm o'r diwedd fydd y dialedd, pan y delo.

O! mor isel y bu'r Iesu,  
 Mewn mwyn agwedd yn mynegu,  
 Y pethau welwn ni eglura',  
 Yn ddiammau'r dyddiau yma ;  
 Cariad brawdol gwedi oeri ;  
 Llid a rhagfarn, mewn modd cadarn, sydd yn codi ;  
 Garw falais a rhyfeloedd,  
 A gofid felly, taer yn ysu, rhwng teyrnasoedd.

Darfu i'r **FRANCOD** dewrion dirio,  
 Wrth *Abergwaun*, o fewn swydd *Penfro*,

Ac yn treisio'n ol eu *pærpas*,  
 Fel ellyllon dewrion diras ;  
 Hwyl a wnaethant aml ddrygau,  
 A cholledion, i amryw ddynion, o'u meddiannau ;  
 A'u peiriannau'n egr yno,  
 Mewn llawn fwriad, ar ddwys d'rawiad i ddystrywio.

Wrth weled bwriad y barbariaid,  
 Fe gyffrodd gwaed yr hen Brydeiniaid,  
 Wrth y miloedd hwyl godason',  
 Fel Prydeiniaid diriaid dewrion ;  
 Yn un asgwrn ac un ysgwydd,  
 Fel Crist'nogion, o un galon, efo eu gilydd ;  
 Gan fyn'd y'mlaen yn bur galonog,  
 Gydâ'u gilydd, yn enw'r Llywydd mawr galluog.

Yr oedd gwŷr cedyrn wedi codi,  
 O *Benfro* sir, ac *Aberteifi* ;  
 Yn gadpeniaid ac yn filwyr,  
 O *Emlyn* dref daeth pobl bubyrr,  
 Gydâ'u gilydd am y cynta',  
 Yn finteioedd, amryw filoedd, am ryfela,  
 Heb na meddwl na gwybodaeth,  
 Y caent eu bywyd, i ddychwelyd yn iach eilwaith.

Yn eu mysg yr oedd Personiaid,  
 Gwiw hoff auraidd, ac Offeiriaid ;  
 A chydâ rhai'n 'roedd arfau hyfryd,  
 Tarian ffydd, a chleddau'r Ysbryd,

A helm yr iechydwriaeth dirion ;  
 Dyna'r arfau, âi trwy galonau'r drwg elynion,  
 Ni allai'r gwilliaid godi erfyn,  
 Nac un biccefl yno o hirbell yn ein herbyn.

Wrth ein gweled mor hyderus,  
 A'n gwir siarad mor gysurus,  
 Heb ddim dychryn, braw, nac ofon,  
 E ddigalonodd y gelynion,  
 Ac a aethant i gyfyngdra,  
 A chaethiwed, fel y Syriaid yn Samaria,  
 A bodloni myn'd i garchar,  
 Rhag eu damnio, a'u hanffurfio yn ddiffafar.

Dyma ryfedd waredigaeth,  
 A'r tro glanaf trwy ragluniaeth,  
 Heb na rhyfel nac ymladdfa,  
 Ond trefn uchel y Gorucha' :  
 Cymmeryd pymtheg cant o ladron,  
 Ar un borau, ar fyr eiriau'n garcharorion,  
 A chymmeryd eu holl arfau,  
 Herwyr creulon, mewn modd union, i'n meddiannau.

O Dduw, rho nerth i deyrnas Lloeger,  
 Yn enwedigol eppil GOMER,  
 I gadw'n Brenin grasol mwynaidd,  
 Yn ddiarswyd ar ei orsedd ;  
 I amddiffyn braint y ffydd Grist'nogol,  
 A'i pherth'nasau, a phob rhadau anghenrheidiol ;



Ac einioes fèr, a chur anorphen,  
Ac aughysur, ym mysg bradwyr, ynys Prydain.

Er bod llawer wedi gweithio  
Ar y testun hwn, 'rwy'n tystio,  
Cymmerwch hyn gan hen ddyn trwstan,  
Pymtheg mlwydd a thrugain oedran ;  
A'r hen Awen gwedi rhewi,  
A NATHANIEL, yn ddwys dawl, ar ddystewi,  
Ond bod y bywyd etto'n para,  
Nid oes hefyd ond afiechyd yn fynycha'.

---

## MARWNAD THOMAS MAKAIIG,

O Benlanfawr, yn Llandigwydd.

*Ar Gwel yr Adeilad.*

---

GAN IOAN SIENCYN, O ABERTEIFI.

---

PRYDYDDION prif amseroedd,  
Iuddewon a Chenhedloedd,  
A gyhoedd ganent,  
Alarus Farwnadion,  
I gwynfan am eu dynion,  
Pan ymadawent ;

Mae gwŷn, pob croes i'w hoes ei hun,  
 A marwol friwiau, angeuol saethau,  
 Yn curo'n caerâu, a'n muriau bob yr un;

I oes gwyrdd-leision lysiau,  
 Cyfflybir dyddiau dyn:

Yn awr, a gwenydd ar ein gwawr,  
 Y foru'r ysbryd, yn llwyr ddychwelyd,  
 O'r babell briddlyd, i'r trag'wyddolgyd mawr,  
 A'n beddau'n ymehangu,  
 I'n llwyr draflyncu lawr!

Mae galar trwm fel gorchgudd,  
 A dagrau yn Llandigwydd,  
 O herwydd hiraeth,

Am wladwr cymmwynasgar,  
 Ni adwaen neb mo'i gymmar,

Trwy'r gymmydogaeth;

Gŵr cu, o *bæwr* mawr tra bu,

Yn dwyn marsiandiaeth, wasnaethgar odiaeth,  
 Fel glân gydymmaith, o galon helaeth hy',

Groesawgar, mwyn cariadus,

A dawnus yn ei dŷ;

Rhoi maeth, i'n gwlad yn wir a wnaeth,  
 Ei werthfawr foddion, at bob achosion,

Dros frigau'r eigion, i ddyuion yma ddaeth,

Och heddyw guddio ei ruddiau,

Mewn arch rhwng caerâu caeth!

Marchnattodd yn garedig,  
 A'n brodyr tramoredig,  
     Parchedig ydoedd,  
 Trwy brif ddinasoedd Lloeger,  
 A Chymru fawr ei *phwer*,  
     Mewn llawer lleoedd ;  
 Yn wir, bu'n hwsmon da ar dir,  
 Gwerydodd'wylltion fraenarau oerion,  
 Gwnaeth gaeau ffrwythlon, gweirglodd-dir gleision  
     clir,  
     Nid adwaen faes meillionog,  
     Mwy serchog yn y sir ;  
 A thai, sylfaenol *reiol* rai,  
 A adeiladodd, pan ymsefydlodd,  
 Fe lwyf ofalodd, myfyriodd yn ddifai,  
     I ddoeth ddefnyddio'i gynnyrch,  
     Pe buasai'i lewyrch lai.

Fe dynnodd ei feddiannau,  
 O'r moroedd a'r mynyddau,  
     Trwy deithiau meithion ;  
 Fel caffai'n gwlad artrefol,  
 A'r dynion cym'dogaethol,  
     Ddefnyddiol foddion ;  
 Heb ble, fe werthai rhai'n yn nhre',  
 Ar eiriau crefftwyr, a chelfyddydwyr,  
 A mân drafaelwyr, sy â'u llwybr y'mhob lle,  
     Ennillent fara ddigon,  
     Trwy nerth ei foddion e'.

Rho'i ran, at achos llys a llàn,  
 A'i briod ddawnus, oedd wraig haelionus,  
 Yn porthi'r rheidus, a phob anghenus gwan,  
 Bendithion gweiniaid gannoedd,  
 A lanwodd *Ben-y-Lan*.

Os aeth *MAKAIG* oddiyma,  
 Dan gysgod bedd a gwasgfa,  
 Angeuol gwsgle;  
 Mae chwech o flagur siriol,  
 Yn tyfu o'i naturiol,  
 Ireiddiol wreiddiau,  
 Ei fwyn, etifedd ar y twyn,  
 Sef *THOMAS* ddawnus, a'r ail yn ddilys,  
 Yw *SION* gariadus, dau liwus o'r hen *Lwyn*,  
 Sydd efo'u mam barchedig,  
 Dan oer gauedig gŵyn;  
 A *SIAN*, barablaidd, luniaidd, lân,  
 A *MARG'RET* ddoniol, a *NEL* serchiadol,  
 A *SARA* siriol, o'r un ireiddiol rân;  
 Duw dod i rhai'n oleuni,  
 Daioni diwahan.

'Roedd pump o ferched iddo,  
 Mae'r hynaf wedi huno,  
 Gwae ni o'r hanes!  
 Tra bu hi'n *Ngallt-y-bwla*,  
 Gwnaeth drysor ni ddiflanna,  
 O'i mwyna' mynwes;

O'i chryd, 'roedd ei boreuol bryd,  
 Yn hardd i'w chanfod, yn nyddiau'i gweddwdod,  
 A thra bu'n briod, un hynod oedd o hyd,

I gynnorthwyo'r gweinion,  
 Dan flin helbulon byd ;

Hi aeth, i'r beddle, cuddle caeth,  
 A'i bywiol enaid, i'r côr bendigaid,  
 A gadael gweiniaid 'n ymddifaid yma wnaeth,  
 Duw wnel i'r rhai'n gael mawrder,  
 A thrwy addfwynder faeth.

Nis cenfydd ein golygon,  
 Ysbrydol artre'r meirwon,  
 Er i ni ymyrryd ;

Na hwythau yma deithio,  
 Ni chaent, pe baent yn chwilio,  
 Ddim lle i ddychwelyd ;

Ni awn, trwy ddyffryn tywyll iawn,  
 I'r ffordd a'r llwybrau, yr aethant hwythau,  
 Er cywch fu'n graddau, ym mlodau dyddiau'n dawn,

Gwir rasol gred i'r Iesu,  
 Fydd y goleuni a gawn :

Ymrown, a doeth ymbarotown,  
 Yn ol rheolau yr ysgrythyrau,  
 Rhag coeg *biniynau*, a ffol gyffeiriau, ffown,  
 At Dduw, tra'r dydd fo'n rod-di,  
 O ffordd trueni trown.

'Does yn y bedd cauedig,  
 Na chyingor na dychymmyg,  
 I'w unig enwi ;  
 Na Bibl gael ei agor,  
 Na gweddi nac egwyddor,  
 I un gyhoeddi ;

Llu mawr, heb lewyrch golau'r wawr,  
 Na rhwysg gormesiaid, na gwaedd y gweiniaid,  
 Mae'r holl fegeriaid, a'r corriaid, fel y cawr,  
 Heb fwyniant, parch, na graddau,  
 Dan oer allweddau'r llawr.

Daw dydd, pan rho'ir y rhai'n yn rhydd,  
 Trwy fawr *bxerau*'r concwerwr angau,  
 Fe'u dwg i'r frawdle, at orseddfeinciau fydd,  
 Gwyn fyd y sawl a ddelo,  
 Na lwyr ddiffoddo'i ffydd.

Un fil, saith cant, a thrugain,  
 A chweblwydd, ar yr adain,  
 Oed Crist a redodd ;  
 Ac oed y Gŵr ireidd-deg,  
 Naw pum-mlwydd, heb ychwaneg,  
 Byr adeg ydoedd.

I'r byw, ni wyddom, heddyw yw  
 Yr amser ini, gael gwir oleuni,  
 Mae'r meirwon wedi diffoddi, a'u claddu (clyw,)  
 Gobeithio eu bod yn gorphwys,  
 O fewn paradwys Duw.

O pwy, na wir ofalai'n fwy,  
 Ddefnyddio'n ffyddlon, ei oriau byrion ?  
 Nid oes achosion, ymyrru â'r meirwon mwy,  
 Ar fyr fe dŷr ein helynt,  
 Ni syrthiwn attynt hwy !

---

## MARWNAD

Y Parchedig Mr. IFAN MORGAN, yn ddiweddar Periglor  
 Llandygydd, Maenordeifi, a Chapel Colman, yr hwn a or-  
 phenodd ei yrfa Ebrill 2, 1770.

Ar y " Drom Galon."

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

MAE'n ddiymgel yn ymddangos,  
 Gŵyn ac achain, nid heb achos,  
 Ar ol Meistir MORGAN hawddgar,  
 Gŵr eglwysig, call, deallgar,  
 Difalch, esmwyth, cymdeithasol,  
 Caredig, rhyfedd, da'i amynedd, a dymunol ;  
 Fe aeth i'r bedd a'r caerâu oerion,  
 Gwely'r hirnos ; cyd-ymaros gydâ meirwon !

*Llandygydd drom, a Maenordeifi,  
 A Chapel Colman sydd mewn culni,  
 Ar ol eu didwyll fwyn Weinidog,  
 A'i athrawiaeth araith rywiog ;*



Anwyl Athraw fu'n eu meithrin,  
 Mewn ffordd ysbrydol, gain hoff radol, yn gyffredin ;  
 Achosion gwlad digwyddiad gweddus,  
 Fe'u cynnorthwyai hyd y gallai, gydâg 'wyllys.

Dyma newydd diammheuol,  
 Trwm yn taro ei Dad naturiol ;  
 Ag sy'n peri braw dolurus,  
 Drywanu brônau ei Fam oedranus ;  
 Lle'r oeddynt hwy'n dymuno mynnu,  
 Fod eu gweddus Fab coledus yn eu 'cleddu ;  
 Tadau a mamau a ddymunant,  
 Ond Duw sy'n gweithio, fel y mynno, er eu mwyn-  
 iant.

Yr oedd ei gariad cywir galon,  
 Yn ymafaelu'n ei blwyfolion ;  
 Ac felly'n hollol fe ennillai,  
 Wryd eitha' eu cariad hwythau ;  
 O fawr i fach pwy bynna' fyddent,  
 Hwyl wnaent erddo, f'ai'n 'wyllysio, os gallasent ;  
 Yn ddeugain oed ar elor cludwyd,  
 Y mab cyfeillgar, iddo'r ddaear ddyweddiwyd.

Fe bregethodd amryw weithiau,  
 Ar i ni ddwyn effeithiol ffrwythau ;  
 A'i gladdedigaeth, mi debygaf,  
 O'i bregethau oedd ddiweddaf.

Myn'd o'n blaen, rhagddangos ini,  
 Rhaid derbyn dwyfol farn anfeidrol y Mawrhydi;  
 Chwiliwn ninnau'n llestri'n bendant,  
 Oes ynthynt olau, neu wàn ffyddiau a diffoddiant.

Ffown oddiwrth bleserau cnawdol,  
 A ninnau'n greaduriaid marwol,  
 Rhag y'nghanol ein pleserau,  
 Glywed ing a galwad angau,  
 Tyr'd i'r farn, rhaid dyfod heno,  
 Pa un ai bywiol, ddyn parodol wyt, ai peidio;  
 Ni chai di'n hwy pe rho'it yr hollfyd,  
 Le i 'mgyweirio, er dymuno, hanner munud.

Ymdderchafwn uwch terfysgus,  
 Dwrf a thrydar byd athrodus;  
 Ac ymsefydlwn ein meddyliau,  
 Ar drag'wyddol, bythol bethau;  
 P'le bydd i'r enaid noeth artrefu,  
 Pa du'r gagendor, parhaus oror, mae'n prysuru;  
 Ein bywyd byr! wrth hwn ei hunan,  
 Mae'n hoes drag'wyddol, os dihangol, wedi hongian.

Y mae'r duwiolion, anwyl deulu,  
 A hunasant yn yr Iesu,  
 Gydag ef mewn llawen wynfyd,  
 Tu draw i'r bedd ar dir y bywyd,

Yn seinio mawl hyd entrych nefoedd,  
 Am eu pryniad, a'u mabwysiad, yn oes oesoedd ;  
 Duw a'n tynno i'r un trigfanau,  
 I ganu'n gyhoedd, nefol ieithoedd, fel maent hwy-  
 thau.

---

## MARWNAD

MR. GRIFFITH JENKINS, o Gilybronau, yr hwn a hunodd  
 Hydref 13, 1781.

*Ar "Ymadawiad y Brenin."*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

Y MAE cŵyn a galar helaeth,  
 Trwm diogan trwy'r gym'dogaeth,  
 Ar ol Meistir JENKINS hawddgar,  
 A'madawodd yn ddiweddar,  
 O *Gilybronau*, ei dreftadaeth,  
 Lle'r oedd yn ŵr defnyddiol odiaeth,  
 Parchedig, call, mwyn, diball,  
 Ei ddeall a'i ddoniau,  
 Yn rhoi'n siriol o'i drysorau,  
 Wiwlwys enwog elusenau ;  
 Yr oedd e'n weddaidd ŵr bonedig,  
 Yn un â'i briod lân barchedig,

Yn llonni llun pob gradd o ddyd,  
 Ie'r adyn gofidus ;  
 Paham gwahanai'r angau astrus  
 Rhwng Gwr a Gwraig oedd mor haelionus ?

Tristwch mawr yw colli gwladwr,  
 Mwyn a gwresog gymwynaswr,  
 Tangnefeddwr enwog addas,  
 Call odiaethol mewn cymdeithas ;  
 Hir ei ben a golwg graffus,  
 Yn canfod trwy fatterion dyrus ;  
 Fe draethai'r gwir i bawb yn glir,  
 Trwy eglur resymau,  
 Mewn arafaidd auraidd eiriau,  
 Teg, a gwiwlou, digon golau :  
 Plwyf *Llangoedmor* cwyna'n irad,  
 Ti gollaist *biler* o'th adeilad ;  
 Pwy chwilia'n gu, d'achosion di,  
 A'u tynu mor drefnus ?  
 Drosot etto p'le'r ymddengys,  
 Un a'th wilia mor ofalus ?

*Cilybronnau* gaeau gleision,  
 Gloddiau hardd, a gerddi gwyrddion,  
 Teiau glân, newyddion, cymmen,  
 Sy'n weigion'nawr o'u parchus berchen.  
 Coed y maes a gyd alarant,  
 Hwsmon gwresog a gollasant,

Ni ddaw ef mwy, atynt hwy,  
 Na thramwy trwy'r tyddyn ;  
 Mae'r tylwyth oll yn uchel achwyn,  
 Am anwyl Feistir ydoedd drostyn',  
 Ni byddant lawer gwaeth gobeithio,  
 Tra bo'i anwyl Briod yno,  
 Gwraig hael yw hi, mewn parch a bri,  
 Sy'n porthi'r tylodion ;  
 Dyna waith a dyn fendithion,  
 Da a diogel, Duw a digon.

Fe ddaeth y Gwr Bonheddig tawel,  
 I'r byd o lwynau achau uchel,  
 O du ei Dad 'r un waed a'r *Llwydiaid* ;\*  
 A'i Fam ddewisol o'r *Lewisaiid* : †  
 Mae'i Fam, a'i Chwaer yn *Aberteifi*,  
 Yn cwyno allan waith ei golli ;  
 A'i gefnder-wyr, o dyfiant pur,  
 Rhwng daufur *Tredefaiid* ;  
 A Meistir Dafis mwyn diniwaid,  
 O *Ben-yr-allt* ei Gefnder cannaid ;  
 I *Balle*'r aeth y saeth a'r dolur,  
 Trwy'i Ewyrth Sion, a'i lân-Gefnderwyr ;

---

\* Ei Nain, sef Mam ei Dad, oedd yn perthyn i Mr. Lloyd o Fabwys, Marchog.

† Lewisaiid Pant-yr-odyn.

Y newydd llwm, droes yn drwm,  
 Fel plwm trwy'r *Fachendre*,  
 Dros Meistir Morris, a pherth'nasau,  
 Meistres Jenkins *Cilybronau*.

Cwyno'n llu mi wn fod llawer,  
 Yn mhlwyf *Penboir*, a phlwyf *Llangeler*,  
 Y rhai a brofent ei gyfeillach,  
 Gynt mor fuddiol yn y *Gilfach*,  
 Mae yno Foneddigion hawddgar,  
 A chymmydogion cymmwynasgar,  
 Yn fawr eu cwyn ar y twyn,  
 Am Jenkins fwyn addas ;  
 Yn enwedigol *Meistir Mathias*,  
 O *Gochdre*, gwr mawr ei urddas :  
 Maith yw'r hiraeth ddaeth o'i herwydd,  
 I ambell un o'r Castell-newydd ;  
 Rhyfeddol fodd pawb ar goedd,  
 A'u cariad oedd atto ;  
 Mwyn a buddiol 'r oedd e'n boddio,  
 Pawb i'r eithaf ffordd b'ai'n teithio.

Yn *Mhen-y-lan* yn wlyb ei ddaurydd,  
 Mae Meistir Caig o blwyf *Llandygweydd*;  
 A Meistres Griffiths fwyn ddisiomgar,  
 O'r *Pant-gwyn* ei gyfeilles hawddgar ;  
 A Meistres Jenkins o *Drefwindsor*,  
 A'i ewythriaid wrth *Langoedmor* ;  
 A'i holl gu garenydd sy,

'N galalaru'n gwynfanus,  
 Ar ol eu carwr glan tymherus,  
 Oedd i ddynion mor ddiddanus ;  
 A'i Gyfnitheriaid o bob oedran,  
 O *Glyn-yr-ynys* i *Lanllunan*,  
 Sy'n cwyno'n fawr, dorri lawr,  
 Wr mawr o'u perthynas,  
 Yr hwn a wnaethai yn gyweithas,  
 Pan y mynent bob cymwynas.

Paham i'r llan y cludai'r elor,  
 Wr o'n plwyf oedd mor anhepgor  
 Paham agorai pridd a cherrig,  
 I guddio pen fath Wr Bonheddig ?  
 Paham na 'dawsai'r angau erchyll,  
 Efe yn fyw a myu'd ac eraill ?  
 Na wnaethai gam, Duw oedd am  
 Ei ddinam ddwyn adre',  
 O fyd heintus i blith Seintiau,  
 Mewn nefol lys heb rîs o groesau ;  
 Gwyn ei fyd fe gadd ei dywys,  
 I mewn i'r deyrnas ogoneddus ;  
 Clodfori Duw, yno yw,  
 Ei hyfryd fywioliaeth,  
 A IESU GRIST am brynu'n helaeth,  
 Iddo'r fuddiol etifeddiaeth.

Ar ei ol mae'i wraig hiraethlon,  
 Et o i fagu pump o'i feibion ;



JOHN yw 'tiffedd auraidd eirian,  
 SYDWYR ethol a SIONATHAN,  
 THOMAS fwyn, a JEREMIA,  
 A GRUFFYDD wiw y mab ieuanga',  
 Ieuanc 'nawr yw eu gwawr,  
 Y Duw mawr daionus,  
 A roddo oes i'w Mam gariadus,  
 Eu dwyn i fynu'n ddynion dawnus ;  
 Bendithied hwy â gras boreuol,  
 I garu ei ffyrdd a'i lwybrau grasol,  
 A chadw'n bur rhag swynion sur,  
 Oferwyr afradlon ;  
 Ac ofni Duw, a pherchi dynion,  
 Fel eu Tad trwy gariad tirion.

Un fil, saith-gant, pedwar ugain,  
 Gyda chofio un *drachefen* ;  
 Yn mis Hydref y diflanodd,  
 Fel y dail ei sail a syrthiodd ;  
 Deunaw mlwydd ar hugain oedran,  
 Oedd ei hynod oed ei hunan ;  
 Byr iawn oedd hi, dysgwn ni,  
 Barodi ein hunain,  
 Heddyw'n gawr, a'n nerth yn gywrain,  
 Yn fawr i'w gael, y fory'n gelain ;  
 Gosodwyd ini farw unwaith,  
 Yn y byd hwn a myned ymaith ;  
 O ceisiwn ras, fyn'd trwyddo i maes,  
 Mewn addas wybodaeth,

Rhag cwympo'n ol trwy anghrediniaeth,  
Dan gaeth reolau'r ail farwolaeth.

---

## MARWNAD

THOMAS LLOYD, YSWAIN, O GWMGLOYN;

Yr hwn, er ein mawr dristwch a'n colled, a hunodd Ionawr 21,  
1788, yn y 55 flwyddyn o'i oed.

*Ar y Galon Drom.*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

NID yw'n bywydau ni'n wybodol,  
Ar y twyn ond ansertenol,  
Heddyw'n dawel yn blodeuo,  
Yn farw swrth y fory'n syrthio;  
Weithiau ein Penaethiaid doethion,  
A gludir ymaith, er mawr alaeth i'r bywiolion:  
Duw ei hun, nid dyn biau'r dewis,  
Nid oes gwrth'nebu ei fawr allu, na'i ewylllys.

Cwyn galarus sydd gan lawer,  
Yn ol *Thomas Lloyd, Yscwier*,  
O *Gwmgloyn*, lle'r oedd e'n dadmaeth,  
Tawel tirion i'r wladwriaeth,

A chymmydog mawr parchedig,  
 Llawn o urddas, addfwyn addas Fab Bonheddig ;  
 Ond gwr mewn oedran, ag ymadrodd,  
 Onest, ffyddlon, llariaidd, rhadlon, ffordd y rhodiodd.

Yr oedd e'n llwyn cysgodfawr parchus,  
 O lwynau'r hen Frydeiniaid hoenus,  
 Gwynfardd Dyfed,\* a'i hiliogaeth,  
 Gynt oedd furiau rhag bradwriaeth ;  
 O'r winllan wresog ni gawn lesiant,  
 Gwinwydd ffrwythlon, a grawn dofion ynddi dyfant ;  
 Ond o'r anwrteithiol berthi,  
 Cawn rawn surion, a drain mawrion, a mieri.

Yn aml fel ehed y gweuyn,  
 I gasglu mel o flodau'r dyffryn,  
 I 'mofyn cysur wrth achosion,  
 I Gwmgloyn y deuai dynion ;  
 Lle caent gywir farn ystyriol,  
 O enau'r Ustus, mwyn gwybodus cydwybodol ;

---

\*Gwynfardd Dyfed 1030, ab Pwyll Pendefig Dyfed, ab Meirig brenin Dyfed, ab Argoel law-hir, ab Pur y Dwyrain, ab Llywelyn, yr hwn oedd yn y Rhyfeloedd â Julius Cesar, ac yn Dywysog ar ei Fyddin.

Y Rhandir a elwid Dyfed oedd yng Ngorllewin Deheudir Cymru, sef Swydd Penfro, a'i pharthau. Pwyll Pendefig Dyfed, oedd Dywysog ar Saith Cantref. E. Ll. p. 262.

Er maint eu gallu a'u dichellion,  
Ni chai bradwyr, traws, na'r anwir, dreisio'r union.

Gwr Bonheddig oedd ef trwyddo,  
Difalch, hygar, hawdd ei deimlo,  
Glan ei bryd a llawn o synwyr,  
Yn mhob achosion yn gymhesur,  
Doeth o galon, eithaf gwladwr,  
Pwyllig, manol, a defnyddiol dangnefeddwr;  
A phawb yn ostyngedig iddo,  
Trwy'r cariad prysur, oedd yn natur dynion atto.

Trafaelwyr moroedd a mynyddau,  
A gyrhaeddent o bob graddau,  
I *Gwmgloyn*, lle caent eu croeso,  
A'r negeson f'aent yn geisio;  
Swyddogion Gwlad ac Eglwys yma,  
Efe roes lawer trwy iawn *bwær* yn eu bara,  
A'r holl dylodion wrth ei ddrysau,  
A gaent serchog, wiwlwys enwog elusenau.

Rhoi llyfrau wnaeth i blant tylodion,  
Ac aur eilwaith at ysgolion,  
A gwella clwyfau dyfnion erchyll,  
Oedd ar ddynion gweinion er'ill,  
Eu trin ei hun a bwydo'r gwana';  
Nes bai'r truan cyn'r ai allan wedi gwella;  
Gan bwy mwyach cânt hwy gyngor,  
Gwae i'r gweiniaid, oedd ei weled ar ei elor!

Gwr anwyl oedd a diddichellion,  
 A gonest yn ei holl fargeinion,  
 Ef yn ddidwyll ac yn gywir,  
 Wnaeth yn union â'i ofynwyr ;  
 Dull y byd yw myn'd a dyfod,  
 Nid yw'r ddae'ren ond rhyw droellen lawn o drallod.  
 Nid oes hanes trwy'r 'sgrythyrau,  
 I fyw'n dduwiol undyn grasol heb ei groesau.

Ni wariodd gwys o'i dir hyfrydlon,  
 Ar hyfrydwch gwyllt afradlon,  
 Nag wrth ddâl ar draed ceffylau,  
 Na choeg wagedd na cheiliogau,  
 Nag ar drachwant nwyfiant natur,  
 Nid oedd llareiddiach, na'i ddiweiriach dan yr awyr ;  
 Ond trwy feichnïo dros rai trafferthus,  
 A chael colledion ar yr eigion mawr peryglus.

Yr oedd e'n *Batrwn* i'r wladwriaeth,  
 O'r oes yma am hwsmonaeth,  
 A'i dai yn lân a'i dir yn drefnus,  
 Drosto'n ffrwytho yn doraethus ;  
 A'i was'naethwyr a'i ddeiliadon,  
 I gyd a'i carent, a dangosent hyny'n gyson ;  
 A phob methiedig dan ei adain,  
 'Roedd e'n eu sirio, nes baent yno'n meirw eu hunain.

Pumtheg mlwydd a deugain ydoedd,  
 Yn mis Ionawr pan yr hunodd,

Yn Un fil, saith-gant, pedwar ugain,  
 Ac wyth a gaf, na ddaeth yn gyfain ;  
 Dyna'r flwyddyn oer aflawen,  
 Daeth cwyn afrifed, rhwng y Llwydiaid achau llyd-  
 ain ;

A'r *Scourfields* oll, a'r *Bowens* graddol,  
 Ein glân flaenoriaid, a'r *Lewisaid* wyr dewisol.

Mae *Aberteifi*'n gweled eisiau,  
 Am un o'i Phen-cynghorwyr gorau ;  
 A'r gymdeithas anrhydeddus,  
 Yn *Eglwys-wrwr*, sy'n alarus,  
 Ar ol yr aelod werthfawr helaeth,  
 Oedd er dyrchafiad, hyfryd alwad i'r frawdoliaeth.  
 Trafaelwyr geirwir oedd e'n garu,  
 A'r hen Frydeiniaeth, anwyl effaith oedd e'n hoffi.

Gwas'naethu Duw yr oedd e'n hyfryd,  
 Yn ei dŷ a'r eglwys hefyd ;  
 Ac fe ganai yn soniarus,  
 Yno fawl i Dduw yn felus,  
 Mynai'i chyweirio gyda chariad,  
 Fel byddai'n drefnus, babell ddilys i'r addoliad ;  
 Y *Bayvil* bach di ai'n wanach trwyddod,  
 Yn ol ein Ustus addfwyn, dawnus, gladdwyd ynod.

Fe'i tywyswyd er ei lesiant,  
 Diammau genym i ogoniant,

Yn un arafaidd o'r Gwryfon,  
 Sydd yn eu cannaid ynau gwynnion,  
 Yn moli Crist ein Prynwr mwynlan,  
 Yng ngogoneddus lys daionus Duw ei hunan,  
 Yn ddisgleiriach nag yw'r haulwen,  
 Drwsiad lesol, hoffaidd firiol o'r ffurfafen.

Yn ol yr *Yswain* a'i haelioni,  
 Cyd ddymunwn bawb ddaioni,  
 I *Morris Williams* trwy anrhydedd,  
 Ei gar naturiol a'i etifedd,  
 I godi'n ddewisedig wladwr,  
 Fel bu yntau'n ddoeth a dethau Lywodraethwr,  
 A rhoi'n wresog lle bo eisiau,  
 (Puraf perwyl) o'l lys anwyl elusenau.

---

## MARWNAD

DIANA GRIFFITHS, o'r Pant-Gwynn; ar ddull ymddiddan  
 rhwng y Fam a'r Ferch.

*Ar fesur Breuddwyd y Frenhines.*

---

GAN IOAN 'SIENCYN.

---

Y FAM.

DIANA deg eneth, o'r byd aethost ymaith,  
 Gorphenaist rifyddiaeth dy ddyddiau,



Pan aethost dan loesion, angeuol ddyrnodion,  
Dieithrodd arwyddion dy ruddiau;

Mewn ymdrech mawr ar lithrig lawr,

Di gefaist gwypm gan angau gawr;

Ar hyn o dro, dy enaid do,

A aeth i'r fawr drag'wyddol fro;

Trafaeliaist yn blentynaidd,

Dan gauad len ddirgelaidd,

At deulu ysbrydolaidd, uwch daear lathraidd lawr,

Nid all'sai bri'n cnawdoldeb ni,

I ben dy daith dy ddanfôn di;

Ond wylo ar ran dy enaid gwan,

Ar Dduw oleuo'th ffordd i'r lân;

Mae'th Dad a'th Fam dan deimlad,

Ochneidion oerion irad,

Er dydd dy ymddattodiad, a'th ymadawiad di.

#### Y FERCH.

Fy Nhad a'm Mam dyner, 'dyw'ch galar a'ch blinder  
Am danaf ond ofer, chwi wyddoch;

Na chynnygiwch ddych'mygion i 'morol â'r meirwon,  
Danghosiad mwy cyson a geisioch;

Gwybyddwch pan roed fi'n eich rhan,

O gynta' i'm gwel'd yn blentyn gwan,

Mae Duw a'm rhoes, nid o ran croes,

I'ch plith i fyw tra parai f'oes;

Ond oedd yn gyfiawn hefyd,

I'r Arglwydd fy nghymeryd,

O'r tŷ daearol priddlyd, y funud fynai'i hun.

Cofiwch Mam, alaethus lam,

Mewn ebrwydd hwyl am Abraham,

Offrymai ddyn i'w Arglwydd cun,

Ië'i unig Isaac bach ei hun.

Ystyriwch Job brofedig,

A ddywedodd, Duw (yn ddiddig)

Sy'n plannu a thynnu'n unig, boed fendigedig fyth!

Y FAM.

Fel cwyd yn ddi 'mryson y dur at y *loadstone*,

Rhieni'n awchlymion ddychlamma',

Mewn cariad cywirfodd at blant eu 'mysgaroedd,

Mae'i ddiffodd e'n anodd, Diana!

Dy wel'd yn byw f'anwlyd wiw,

Mewn dysg a dawn ac ofn Duw,

Yn ber ddibaid i ninnau'n blaid,

Mewn henaint rhwym os buasai'n rhaid,

Wel dyna oe'm ni'n ddisgwyl,

Oddiwrthyt eneth anwyl,

Nes daeth dy irad arwyl, gyfnewid bryd fu i'm bron;

Nid allai'n syth tra ynwyf chwyth,

Anghofio'th dyner fwynder fyth,

Aeth dan y llen mewn arch o bren,

Yn nyddiau pwyll yn nawmlwydd pen,

F'le heddyw mae'th sefyllfa,

Pwy yw dy ffrind anwyla',

Dy Dad a'th Fam o'ent yma yn benna i ti'n y byd.

## Y FERCH.

'Dyw cariad Rhieni, ond eilun gysgodi,  
 Gwir gariad Crist Iesu at ei bobloedd :  
 Fy nghyfaill hawddgara', fy Ngheidwad anwyla',  
 A roes i mi noddfa'n y nefoedd,  
     A chryfder nerth, mewn sangfa serth,  
     Ei briod waed roes droswy'n werth,  
     Iachaodd fy mriw yn Ninas Duw,  
     Gogoniant byth i'r Iesu byw.  
 Fy ngwmp'ni yw'r gwryfon,  
 Mewn gynau cannaid gwynion,  
 Moliannu'r Iesu'n gyson, yn Seion yw ein swydd.  
 Pe rho'ech chwi am dd'od attoch, Mam,  
 Y byd i gyd, ni dde'wn i gam,  
 Mae'r gwynfyd mau wyf yn fwynhau,  
 Dros drag'wyddoldeb i barhau;  
 'Ry'ch chwithau'n ansertenol,  
 Ar glogwyn byd annuwiol,  
 Mewn bywyd mor ddamweiniol a niwlen ganol nos.

## Y FAM.

Fy mhlentyn happusol 'rwyf fi'n edifeiriol,  
 Am fod yn rhy gnawdol fy nwydau,  
 A grwgnach o'th herwydd yn erbyn yr Arglwydd,  
 Dy ddwyn i happusrwydd y seintiau,  
     Lle dyl'sai taith dy lwybrau maith,  
     Ein dwyn ar gof am dân y gwaith,

O drwsio'n gwedd, a cheisio hedd,  
 Cyn syrthio'n cyrph i byrth y bedd;  
 Mae'n rhaid i ninnau ateb,  
 Wrth orsedd barn uniondeb,  
 Lle nid oes anghywirdeb, na derbyn wyneb un.  
 Gwynfyd y sawl sy'n canu mawl,  
 Ar dir y bywyd hyfryd hawl,  
 Lle ni ddaw rhith gelynyion chwith,  
 Na heintiau pla fod yn ein plith,  
 Cyfeiriwyd di tu ag adre',  
 Pa ffordd cyfeiriwn ninnau,  
 Mae trawsfyrdde fil o weithiau, rhwng yma a chaerau'r  
 Nef.

## Y FERCH.

Darllenwch y 'scrythyr, cewch weled yn eglur,  
 Bob llwybr tan awyr sy'n tywys,  
 Trwy'r anial fydd caddug, trwy'r tonnau chwyddedig,  
 At ddinas buredig Baradwys:  
 Na ro'wch eich bryd ar bethau'r byd,  
 Cysgodau gwael sydd ynddo'i gyd,  
 Ymrowch yn brudd ar adain ffydd,  
 Addoli Duw wrth olou'r dydd,  
 Gan roddi cyfarwyddyd,  
 I'ch plant a'ch tylwyth hefyd,  
 Lafurio am y gwynfyd, a'r bywyd bery byth;  
 Pan ddel eich nod o dan y rhod,  
 I'r fynwent fel y finnau'i fod,

Dymunol fydd cydwybod rydd,  
 A theimlo ffrwyth gwobrwyon ffydd,  
 Yn un â'r Côr dihangol,  
 Sy'n seinio yn gysonol,  
 Gerddoriaeth Moses dduwiol, a reiol gân yr Oen.

---

## MARWNAD

Y Parchedig Mr. DAFYDD LLWYD, Gweinidog Brynbeirian,  
 Trefdraeth, a Bethel.

*Ar y Galon Drom.*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

Nis gall y byd troedig radau,  
 Na'i drwm lwythfawr genhedlaethau,  
 Na dim ac sydd dan haul naturiol ;  
 I gael parhau'n anghyfnewidiol,  
 Gwedd wynebpryd pob creadur,  
 Dan yr wybyr, cofiwn nodir cyfnewidiant ;  
 Hyd nod y Saint trwsiadus lampau,  
 Wrth fyned adre', dyrnod angau nis dihangant.

Meistir DAFYDD LLWYD gyfeillgar,  
 A gyfnewidiwyd yn ddiweddar,

O'r babell briddlyd drom ddaearol,  
 O blith ei braidd i'r Ganaan nefol,  
 O fryniau'r eglwys at ei Arglwydd,  
 I serchawgrwydd, gynhes ebrwydd fynwes Abr'am ;  
 Heibio i byrth trueni dringodd,  
 Man lle syrthiodd myrdd o bobloedd i'r ddiadlam.

Fel Timotheus yn llanc boreuol,  
 Cofleidiodd ddysg a dawn 'sgrythyrol ;  
 Nid wrth wilio traed Gamaliel,  
 Nid yn Athen, ond yn Bethel,  
 Dan gyfarwyddydd gras a golau,  
 Yr ysgrythyrau, a'u pwerau, mwyaf perwyl,  
 Nes prifio'n gadarn wr godidog,  
 A Gweinidog grasol, enwog, gwresog anwyl.

Ef a ordeiniwd ym *Mrynbeirian*,  
 I fod yn ganllaw yn y Winllan,  
 Lle bu yn impio'n orwych gangen,  
 O fewn corph y wir Winwydden,  
 Diwallu'r praidd cysuro'r gweinion,  
 Ceryddu'n dirion, troi'r afradlon o'i ynfydrwydd ;  
 A Duw fendithiodd ei athrawiaeth,  
 Er adeiladaeth, trwy'r gym'dogaeth, helaeth hylwydd.

Fe ymhelaethodd ei derfynau,  
 Ar gadarn sail yr ysgrythyrau ;

Fe blanodd ddwy trwy ddirfawr gariad,  
 O eglwysydd, ddedwydd ddodiad,  
 Un yn Nhrefdraeth, dadmaeth tawel,  
 A'r llall yn Bethel, Duw goruchel fo'n eu gwarchod ;  
 Mewn galar trwm mae'r tair cyn'lleidfa,  
 Wrth deimlo yma fod ei yrfa wedi darfod.

Yr oedd e'n felus Efengylwr,  
 Ag yn wresog gymdeithaswr,  
 Gostyngedig, hawddgar, siriol,  
 Yn ei 'madrodd yn gymhedrol,  
 Er mwyn cynnyddu gras a synwyr,  
 I'r gwrandawyr, dyna'i gysur a'i ddangosiad ;  
 Duw ei hun, nid dyn a'i denodd,  
 I ddysgu pobloedd, a Duw fendithiodd ei bregethiad.

Nid er mwyn ymffrostio'n astud,  
 O'r hen dadau 'r wyf yn dywedyd,  
 I ddyfod Dafydd addfwyn dawel,  
 O wiw lwynau achau uchel,  
 Pen rheolwyr, prif flaenoriaid,  
 Hen Frutaniaid, blaenion *Llwydiaid* euraid irwych ;  
 Ond heddyw mae uwch cnawdol achau,  
 Y'mhlith y Seintiau'n cael o freintiau'r nefoedd en-  
 trych.

Derbyniodd nerth pan oedd ef wanna',  
 Wrth gyfarfod pen ei yrfa,



I ganmol Duw a nofio'n rymus,  
 Trwy'r Iorddonen yn ddiddanus;  
 Gan ddweyd, Mi wn i bwy y credais,  
 Mae'n fy mynwes fwynaid *ernes* hedd fy Marnwr;  
 Mi gaf fod gyda'r Oen caredig,  
 (Bendigedig) cyn pen 'chydig, fy Iachawdwr.

Yr ochr draw disgleiriai'i wyneb,  
 Ar lawr bryniau trag'wyddoldeb,  
 Lle'r oedd myrddiynau'n d'wedyd wrtho,  
 Enaid grasol tyr'd, a groeso;  
 Trwy'r serth ehangder fe 'mddyrchafodd,  
 Heibio i fydoedd, amryw gannoedd, (ni wn i amgen-  
 ach,)

Yn ebrwydd iawn nes cael teyrnasu,  
 Gyda'r Iesu, byth heb golli ei gyfeillach.

Gwyn ei fyd fe ga'dd ymddattod,  
 O fyd llygredig llawn o bechod;  
 A'i ddwyn yn un â'r Côr dihangol,  
 I ganu moliant yn drag'wyddol,  
 Ym Mrenhinllys mawr y Duwdod,  
 Wedi gorfod holl golynod eu gelynyon;  
 Ger bron ysbrydol orseddfeinciau,  
 A'u cynheddfau'n awr mor olau â'r angylion.

Duw trag'wyddol maent yn weled,  
 Ac yn canmol mor unioned

Yw'r cysondeb, prydlon, golau,  
 Sydd rhwng ei ddoeth briodoliaethau ;  
 Perffaith hanfod ynddo ei hunan,  
 Creawdwr diddan, unig anian pob daioni ;  
 A hwythau ar ei briod-ddelw,  
 Ddisglaer loyw, dda iawn elw'n ei addoli.

Nefoedd fyth anfarwol fywyd,  
 Yw gwel'd y Tad, y Mab, a'r Ysbryd,  
 A'r Tri yn Un yn rhoi disgleirdeb,  
 Goleuni'r Saint dros drag'wyddoldeb ;  
 A hwythau'n un dan rwym priodwerth,  
 Gwaed yr Aberth, Iesu prydferth, a'u priod-  
 odd ;  
 Ac wedi eu dwyn o'r byd gorthrymias,  
 Yn ei deyrnas hwynt hwy'n addas ogoneddodd.

Teimlo Crist mae'r santaidd dyrfa,  
 Yn fwy na theimlad *Tomos* yma,  
 Wedi teimlo'r dwylo hoeliwyd,  
 A'i lân ystlys a drywanwyd ;  
 Maent hwy'n teimlo ffrwythau haeddiant,  
 Mewn gogoniant, a dangosant hyny'n gyson ;  
 Hyd entrych nef mewn mawl soniarus,  
 Byth fe 'mddengys hyn yn felus i'r nefolion.

Nid all gwr o synwyr helaeth,  
 Nid all pin 'sgrifenydd odiaeth,

Nid all tafod llithrig dystio,  
 Nid all clust o gnawd i wrando,  
 Nid all calon dyn ddychymmyg,  
 Mor fendigedig, le puredig yw Paradwys,  
 Dinas Duw preswylfa'r Seintiau,  
 Mae'i phyrth a'i muriau 'i gyd o berlau golau gwiw-  
 lwys.

Trafaelu wnaeth y Saint dichlynaidd,  
 Nes meddiannu'r ddinas santaidd,  
 A'n gadael ni ar glogwyn stormus,  
 Mewn anial dir a llwybrau dyrys ;  
 Canlynwn ol eu traed yn wrol,  
 Tua'r Ganaan nefol, llwyr ddewisol, lle mae'r Iesu,  
 I gael ein gwisgo â gogoniant,  
 Mewn didranc fwyniant, byth heb rusiant i deyrnasu.

Tri phedwar cant, tri phedwar deugain,  
 Tri phedwar, un, a deg a thrugain,  
 Yr aeth ei gorph mewn arch i orphwys,  
 A'i enaid adref i Baradwys ;  
 Yn ol bod dr'ugain a dwy flynedd,  
 Yn arwain buchedd, lawn o rinwedd, lariaidd enwog.  
 Yn ddeg ar hugain'r oedd e'n Fugail,  
 Ar braidd arail, da iawn adail, a Gweinidog.

Cysured Duw â gras a doniau,  
 Ei Wraig, a'i Blant, a'i holl Berth'násau ;

A danfoned ddoeth arweinydd,  
 Er gwir lesiant i'r Eglwysydd ;  
 Ger bron dy rasol santaidd Orsedd,  
 Mae'r praidd yn 'mhwedd am ymgeledd, a goleuni,  
 Dod iddynt ddoeth arweinydd golau,  
 Mewn addurniadau, o lawn bwerau i'w blaenori.

---

## MARWNAD

Mr. DAFYDD GRUFFYDD, o'r Pant-gwyn, ym Mhlwyf  
 Llangoedmor, Swydd Geredigion.

Ar y " Drom Galon."

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

Ystyriwn bellach bawb yn bwyllig,  
 Fod ein hoes yn ddarfodedig,  
 Er cryfed ydyw ein haelodau,  
 A sain wrol ein synhwyrâu,  
 Mewn tai o glai y mae'n sefyllfa,  
 Ar fyr enyd cawn ein symud o'r oes yma ;  
 Mae'r angau'n curo wrth ein caerâu,  
 Fe ddaw'n fuan i droi pawb allan o'u pebyllau !

Onid ydym yn brofiadol,  
 O gŵyn a galar anhepgorol,

Ar ol Meistir Gruffydd hawddgar,  
 O'r Pant-gwyn aeth yn ddiweddar,  
 I waelod bedd, lle mae e'n huno ;  
 A'r holl gym'dogaeth sydd mewn alaeth yma'n wylo !  
 Y mae'r galar hwn fe'i gwelir,  
 Dros ei gydnabod yn taer osod yn y tair-sir !

Yr oedd ei gynnes lân ddisgyniad,  
 O'r uchelwyr mawrwyd alwad,  
 Fu gynt yn *Nghawrens* yn bwerus,  
 Llawnion diroedd a *Llwyndyrus* ;  
 A'i Fam heddychol fwyn ddi-ddichell,  
 Oedd ferch i *abal* wr fu'n cynnal yng *Nghwm-conell*,  
 O'r hen wiw golofnau yma,  
 Daeth Dafydd Griffith aur wehelyth wr o'r haela'.

Fe dyfodd yntau'n wr parchedig,  
 Gonest, didwyll, glân, caredig,  
 Hir ei ben, a maith ei gwmpas,  
 Manol dethau mewn cymdeithas,  
 Gwladwr didwyll fel ei dadau,  
 I'r holl gymmydogion fe wnai'n gyson gymmwynasau ;  
 Colled mawr trwy blwyf Llangoedmor,  
 Am air, a gweithred, oedd ei weled ar ei elor !

Nid oedd nemawr trwy'r gym'dogaeth,  
 O'r un synwyr mewn hwsmonaeth ;

Fe wnaeth dyddyn gwerthfawr hyfryd,  
 O dir anial gwyllt newynllyd,  
 Mae hwnw'n awr dan gloddiau trefnus,  
 I gyd a'r caeau yn dwyn ffrwythau yn doraethus,  
 A rhyfedd oll mae'n rhoddi allan,  
 Wenith graenus ceirch a barlys drosto'n burlan.

Fe g'ododd arno deiau addas,  
 Fe blanodd goed i gyd o'u cwmpas ;  
 Ac wrth y rhai'ny erddi gwyrddion,  
 Llawn o dwf, a llynnau dyfnion ;  
 A'r cwbl oll o'r adeiladaeth,  
 A wnaeth e'n barod at naws hynod eu gwasanaeth ;  
 Mae yn y byd gyfnewidiadau,  
 Y gwr a'u piodd ymadawodd â'i holl deiau.

Yn ei fywyd 'r oedd e'n barchus,  
 Wr Bonheddig call, deallus ;  
 A'i dŷ yn llawn bob dydd o'r flwyddyn,  
 I dderbyn bonedd a chyffredin ;  
 Ac yntau'n rhwydd ei galon rywiog,  
 'N llawen yno yn ei groeso'n ddigon gwresog ;  
 A'r holl dylodion wrth ei fyrddau,  
 Gaent fwyd a lletty a'u cynhesu yn eu heisiau.

'Roedd ynddo wreiddiol raddol riddyn,  
 Ni chymerai gam gan undyn ;

Ac fe fynai yn ddibryder,  
 Trwy uniondeb ei gyfiawnder ;  
 Oddiar y bwrdd yn enwog ddigon,  
 Ar sail ddisigil gw nai ei gynnill ddoeth fargeinion ;  
 Rhagwelai bethau cyn eu dyfod,  
 A'u canlyniadau, ag a'u henwai'n ddigon hynod.

Gyda dynion 'r oedd mor hoffed,  
 I gael ei air, a chael ei weithred ;  
 Gwirionedd didwyll oedd yn draethu;  
 A dynion geirwir oedd e'n garu ;  
 Fe argyhoeddai benau bonedd,  
 Ac a'i ceryddent, os hwy haerent un anwiredd.  
 Geiriau purion ddalient brofi,  
 Nid rhyw weniath goeg ei heffaith oedd e'n hoffii.

Fe berchenogodd diroedd mawrion,  
 Synwyr maith, a chyfoeth ddigon,  
 Parch a chariad anghyffredin,  
 A llwyddiant amlwg yn ei ganlyn ;  
 A chalon dyner gyda hyny,  
 Haelionus ryfedd llawn o rinwedd i'w cyfrannu ;  
 A thalu'n llwyr i bawb yn llawen,  
 Y'mhob cyfrinach 'doedd mo'i haelach dan yr haulwen.

Yr oedd e'n aelod gref barchedig,  
 Yn yr Eglwys Sefydledig ;



Ac yn mynych wrando'n brysur,  
 Ar lawer un o'r Ymneillduwyr,  
 Rhoddai gymmorth nid yn gynnill,  
 At gynnal llwyddiant anwyl fwyniant yr Efengyl ;  
 Colled mwy nag allaf dd'wedyd,  
 Oedd claddu grasol wr mor fuddiol yu ei fywyd.

Darllynydd ydoedd a chofiadur,  
 O lawer gwers y'nghorph y 'sgrythyr ;  
 Ac yn werthfawr ei wasanaeth,  
 Yn yr Eglwys, a'r Wladwriaeth :  
 Fe gwnnai i ddibenu cynnw'r  
 Rhwng dynion 'styfnig 'roedd e'n ddiddig dangnefedd -  
 Fe chwiliai'r achos o bob ochor, [wr,  
 Fe'i troe hwy'n fuan yno i gyngan wneyd ei gyngor.

Galarus yw ei holl gyfeillion,  
 Ei was'naethwyr a'i ddeiliadon,  
 O gladdu Meistres fu'n eu meithrin,  
 A chladdu eu Meistir cyn pen blwyddyn ;  
 Ar nos Galan hi 'madawodd,  
 Nos Galan-gaua' coeliwn yna fe'i canlynodd,  
 I *Landygwydd* at eu Teidiau,  
 I'r un lle priddlyd dan y gweryd oer ei gaerau.

Oed ein cadarn Dŵr a'n Ceidwad,  
 Pan fyfyriwyd hyn o Farwnad,

Un fil saith gant, cyfrif cyfain,  
 Ac un ar-ddeg, a phedwar ugain,  
 Pan ymddyrchafodd er ei fwyniant,  
 A'i fwyn gydmares, gobeithio'n gynhes i'r gogoniant,  
 Sydd mewn addewid ar y ddaear,  
 I'r dynion hyny sy'n lwys iawngu elusengar.

Mae'r galar hwn yn anhepgorol,  
 Yn pwyso ar ei blant naturiol,  
*Thomas* yw'r Etifedd hoyw,  
 Pen Athraw Celfyddydau ydyw ;  
*Dafydd* hefyd, *Nel*, a *William*,  
 Duw a lwyddo, ac a ddonio rhain yn ddinam,  
 I fyw'n enwog ac yn heini,  
 Mewn parch a mawredd, o'r un rhinwedd a'u Rhieni.



## CYNGOR

I FAB IEUANC OEDD YN GLAF O'R PALSŴ.

*Ar y Galon Drom.*



GAN IOAN SIENCYN.



WILLIAM DAFIS, wiwlau dyfiad,  
 Iach a ch'ruaidd o'ch dechreuad,

Nes i chwi gwnnu'n ddyn calonog,  
 Ym mhlith onest dylwyth enwog;  
 Yn *Llanychâr* a'r holl gym'dogaeth,  
 Mewn gwlad ac eglwys, 'r o'ech yn gymwys lân gyd-  
 Mwyn a dethau'n mhob cymdeithas;— [ymaith,  
 Nid oedd o wladwr, amgen campiwr yn eu cwmpas.

Pan oedd eich corph a'ch holl aelodau,  
 Yn ddi-bwledig yn eu blodau;  
 A chwithau'n meddwl ond ychydig,  
 Nad oedd gennych ond eu benthyg;  
 Nes gyrodd Awdwr natur attoch,  
 Mewn cystudd irad argyhoeddiad, fel y gwyddoch,  
 Trwy ei gennad ef a'i gyngor,  
 Y daeth y *Palsy* i'ch gwanychu yn eich *ochor*.

Pan ddifuddio Awdwr natur  
 Rym aelodau ei greadur;  
 Na chynnygied neb i farnu'n angall,  
 Fod hwnw'n waeth na rhyw ddyn arall;  
 Y mae dibenion y Goruchaf,  
 Uwchlaw gwybodaeth, dealltwriaeth y rhai dewraf;  
 Fe dry y pethau mwyaf chwerwon,  
 Yn faeth, a bywyd, c'ruaidd astud yn y Cristion.

Pan fo'ch chwi'n teithio yn eich methiant,  
 Rhai a'ch cwyna, rhai'ch gwatworant;

Heb feddwl denfyn Duw wialen,  
 Ar eu hanwyl gyrph eu hunain ;  
 Dyna chwithig ryfyg rhyfedd,  
 A dŷn yn sydyn o'i hir ddilyn ryw ddialedd ;  
 Peidiwch chwithau a gwàn galoni,  
 Eich Tad nefolaidd, sy'n arafaidd yn eich profi.

Chwi gymerasoch feithion deithiau,  
 Trwy boen a phenyd i ffynhonau ;  
 Rhai yng Nghymru, rhai yu Lloeger,  
 Heb gael yuddynt lesiant lawer.  
 Gweddiwch ar y Meddyg mwya',  
 Yr hwn o'i wirfodd, a'ch archollodd, all eich gwella.  
 Mae dwfr, a llysiâu weithiau'n llesol,  
 Ond Duw yn sicr sy'n eu gwneuthur hwy'n effeithiol.

Disgwyliwch mewn amynedd yma,  
 Fel y claf wrth lŷn *Bethesda* ;  
 Ac os yw'r Arglwydd yn 'wyllysio,  
 Chwi gewch werthfawr iechyd ganddo :  
 Ac onite na rwgnach ronyn,  
 Ti haeddaist, gwybydd, fwy o gerydd ar dy goryn.  
 Cwypa ger ei fron, a dywed,  
 Duw y duwiau, oll i finnau, gwellhâ f' enaid.

## HIRAETH GWR AM EI BRIOD.

Ar y Galon Drom.

---

 GAN IOAN SIENCYN.
 

---

Fy anwyl Briod barod burwen,  
 Fwyn ddiniwaid, CATH'RIN OWEN,  
 Myfi sydd yma'n oer fy nhynged,  
 Dan bwys galar eisiau'ch gweled;  
 Ac OWEN bach fy Mab naturiol,  
 A NEL ireiddbleth, f'anwyl eneth, fwyn ddymunol;  
 Croesau chwerwon, dwysion, diriaid,  
 Oedd peri f'attal i gyd gynnal efo'm gweiniaid.

Nid eich bai f'anwylyd olau,  
 Na beiau'ch Tad, na'ch Mam, na minnau,  
 Ond beiau'r sawl o'wn i'n obeithio,  
 Fuasai yn ein cynnorthwyo;  
 A minnau'n wyllt a drwg fy natur,  
 Mi es ar gerdded, beth dâl sonied eisiau synwyr,  
 Deheuach fuasai im' aros gartre',  
 I ffyddlon drefnu ffordd i faethu 'mhlant a chwithau.

'Rwyf fel llysiuyn glâs yn gwywo,  
 Yn *Aberteifi*, lle 'rwy'n tario;  
 O eisiau bod yn cyfanneddu,  
 Yn *Nhrefriw* fach wrth *Aberdyfi*,

Gydâ'm gwraig a'm plant anwyla',  
 'Trwy gywir gariad, yn ol eirchiad y Gorucha';  
 Er gwell, er gwaeth, y priodasom,  
 Diderfyn rwymau, nes i'r angau ysgar rhyngom.

Fy mai fy hun, f' anwylddyn dawel,  
 Nid o 'chydig, oedd eich gadael;  
 Maddeuwch im', 'rwyf yn dymuno,  
 Mi ddeuaf adref attoch etto,  
 Er colli'n lle, cawn deiau ddigon,  
 I fagu'n gweiniaid, anwyl gowlaid, cym'rwch galou;  
 Os tad a mam a'n gwrthyd yma,  
 Rhydd ein Creawdwr ini *swcer* o'r gwresoca'.

Ni chaf bleser mewn cwm'niaeth,  
 Iach rwydd eiriau na cherddoriaeth,  
 Nac wrth fy ngwaith gan faith och'neidion,  
 Sydd yn agos torri'm calon,  
 Rhag ofn fod fy mhlant, a chwithau,  
 Fy mhriod fwynaid, dyner nawsaidd, yn dwyn eis-  
 iau;  
 Mi ddeuaf 'nol, os chwi sy'n dewis,  
 Rhowch i mi'n siriol, ateb hollol, o'ch ewyllys.

## CAROL,

Yn dangos Cynnyrch a Gwres yr Haf, a Thraul y Gauaf a'i  
Oerfel.

*Ar yr Hen Dón a elwir "Clod i'r Haf."*

---

GAN MR. IFAN GRUFFYDD, O'R TWRGWYN.

---

MAB wy'n chwenny ch yn fy \*chwen,  
I draethu pennill mwyn o'm pen;  
Ac os cerwch chwi hawddgarwch,  
Byth na soniwch roi i mi sèn.  
Yn ol fy neall canu a wnaif,  
Glyd eiriau rhwydd o glod i'r Haf,  
Wrth ei weled mor hawddgared,  
A'i liw ar led, bro-euraid *braf*.

Phœbus wresog, rywiog radd,  
Ar ei gwên daw heb ei gwa'dd,  
I'n hachlesu, a'n gwiw gynhesu,  
I'n llawenhau, ac nid i'n lladd.  
Cwyd y lleuad lygad pêr,  
Firiol, siriol, rhwng y ser,

---

\* *Chwen* is used in some parts of South Wales for *whim*, or an odd fancy.



Dirion, dyner, ddi-dwym dymmer,  
Loyw leuer, nifer Ner.

Dolydd, a gweirglodd-dir clau,  
Eu gwel'd yn rhwydd a gaiff pob rhai,  
Tan fargodion glennydd gloywion,  
Mor hyfrydlon meillion Mai;  
Llyisiau, llafur, graendir, grawn,  
Ffrwyth ar goedydd, bronwydd, brawn,  
*Rôs a lili*, lanwych lwyni,  
A fyddant felly'n llenwi'n llawn.

Llwybyr wybyr, mygyr mawr,  
Glân a golau fydd eu gwawr;  
Tes ysplennydd fydd yn ufydd,  
Mewn llawenydd yn lliwio'r llawr.  
Taena'r manwlith drifrith dros  
Ddyffryniau, bryniau, rhiwiau, rhôs,  
Yn dywalltedig, daenelledig,  
Tra fo 'chydig fenthyg nos.

Bydd yr adar yn y gwŷdd,  
Gydâg agor torr y dydd,  
Yn ei roeso, gan ymbyncio,  
Cair eu gwel'd wrth rodio'n rhydd.  
Fe ddaw'r gôg a'r ceiliog dû,  
Y fronfraith gron, a'i chywion cu,

A *Philomela*, i'r fro hyfryda',  
A'u llais llawena', llona' llu.

Bydd y gwenyn mân yn gwau,  
I gynnull mêl o feillion Mai ;  
Fe fydd rhinwedd yn gyfrodedd,  
I wel'd y Mawredd 'n ein mawrhau :  
A'r morgrugyn yn ymroi,  
Erbyn gauaf i grynhoi,  
A'i fryd heb fâr i *safio* ei *shâr*,  
Cyn bo'r ddaear glyd ar gloi.

Ymlusgiaid, 'hediaid, a phob hydd,  
A gant yn rhwydd eu pennau'n rhydd,  
A'r saith cysgadur yn gofiadur,  
Cyflawn gywir ddifyr ddydd ;  
A phob anifail 'mâd â'i flew,  
Ond da ydyw'r Haf a dû ydyw'r rhew,  
Fe bair goffa'r naws llarieiddia',  
Pan fo garwa'r gaua' glew.

Pob dyn yu frau a fydd â'i fryd,  
I gydio'n glos i gadw'n glyd,  
Gan drafaelio i fedi a rhwymo,  
Tra parhao baich y byd :  
Ond pan ddel y gauaf dig,  
Yn oer ei ben, yu arw ei big,

Yr hyn a fyddo'r haf yn *ildio*,  
Efe â trwyddo fôn a brig.

Fel yr haul mewn grym a gwres,  
Fel y tonnau dan y tês,  
Meddwl ddyn, cyffelyb un,  
Wyt ti dy hun, a'th lun, a'th les:  
Ond pan ddel penllwydni brith,  
Yn fach ei chwarae'n fyr ei chwyth,  
Fe fydd y ddiwyg yn fethiedig,  
A'th holl ryfyg ni thâl e rith.

Tra fo ieuencid, ynfyd yw,  
Yn uchel ffroen, yn awchus ffriw,  
Fe fydd â'i fawredd ar oferedd,  
Egwan agwedd, anwedd yw:  
Ond pan ddel henaint, a phob haint,  
I'th dorri'n frau oddiwrth dy fraint,  
A phob gofydi gydâ hyny,  
A ddaw i'th faeddu, ni wyddis faint.

## C A N

Ar Ffurfiad y Gymdeithas Frawdol (Club) yn Nhafarn-y-bwlch,  
\*Gwyddfa'r Cilgwyn, yn swydd Benfro.

*Ar yr un Mesur.*

GAN IOAN SIENCYN.

NUNI, gyfeillion mwynion maith,  
O eppil Gomer dyner daith,  
Sy'm Mwlch-y-mynydd gydâ'n gilydd,  
Rhoed Duw gynnydd ar ein gwaith ;  
Ein dibenion yn ddiball,  
Yw cynnorthwyo'r naill y llall,  
Er ymgeledd, trwy anrhydedd,  
Mewn Cymdeithas g'ruaidd gall.

Ein ammodau golau gwiw,  
Sy'n un â doeth orchymyn Duw,†  
Ymrown yn drefnus, frodyr dawnus,  
Yn gariadus foddus fyw ;  
Amddiffynwn trwy fawrhad,  
Euwau ein gilydd rhag sarhad,  
Ein dyledion yw yn gysson,  
Fyw'n heddychlun yn y wlad.

---

\* Gwyddfa,—a place of presence.

† Ioan 13, 34.

Gorau rhinwedd auraidd un,  
 Yw cariad hael fe gerdd' ei hun,  
 Mae fe'n hoffi mewn goleuni,  
 Wneyd daioni i bob dyn;  
 Ymorolwn ninnau 'nghyd,  
 Trwy addfwyn bwyll ddefnyddio'n byd,  
 Gan drysori rhag caledi,  
 Er daioni i ni gyd.

Golwg werthfawr glodfawr glyd,  
 Yw canfod brodyr yn byw 'nghyd,  
 Mor gariadus, rhoi'n haelionus,  
 I'r anghenus wnawn o hyd :  
 Ein anrhydedd rinwedd ran,  
 Yw cadw'n cleifion y'mhob man,  
 A myn'd yn hoyw i gladdu'n marw,  
 A chysuro'r weddw wan.

Myn'd i'r eglwys gymmwys gu,  
 Yn dyrfa hardd a wnawn yn hŷ',  
 I foli'n felus, fel mae'n weddus,  
 Duw daionus yn ei dŷ;  
 Ac oddiyno'n weddaidd iawn,  
 Anwylaidd rai, i wledda'r awn,  
 Cyd-ymsiarad mewn gwir gariad,  
 Dyna'n bwriad trwy'r prydawn.

Y mae'n Rheolau'n ein cyffroi,  
 Am rymus ras i bawb ymroi,

Rhag (trychineb anffyddlondeb,)  
 Mewn un drwg i neb ymdroi,  
 Os goludog neu dylawd,  
 A dyrr y rhai'n trwy daerwyn wawd,  
 Fe gaiff ddyodde'n ol ei feiau,  
 Rhaid ryw brydiau ddeol brawd.

Er ein bod yn talu 'nawr,  
 Ychydig bris bob mis i lawr,  
 Rhai yn hoyw cyn b'ont feirw,  
 A'i cant yn ol, ac elw mawr;  
 Melus fydd gan hen-ddyn gwan,  
 Fod iddo wresog rywiog ran,  
 At gael ei borthi o'n trysordy,  
 Pan bē'n methu myn'd o'r man.

Y dynion moesol freiniol fryd,  
 Sy'n chwennych ein Cymdeithas glyd,  
 I Fwlch-y-mynydd, deuent beunydd;  
 Yr un lawenydd gawn ni gyd.  
 Dyrchafwn bawb weddiau'n faith,  
 I'r nef am fendith ar ein gwaith,  
 Yn Ngwyddfa'r Cilgwyn i gyd-ganlyn,  
 Nes del terfyn ar ein taith.

## C A N

Yn dangos Cyflwr Dyn, yn ei Ieuenctid, yng Nghanol Oedran,  
ac mewn Henaint.

---

Gan JENKIN THOMAS, o'r Cwmdu.

---

ATTOLWG, Ie'nctid, dewch yn nes,  
Gwrandewch ar gynnes ganiad,  
Wyf yn rod-di yn eich mysg,  
Er addysg a chyfrwyddiad ;  
Nid oes yn thi ond y gwir,  
Ar fesur hwylus hylaw,  
Yn ol a brofais i fy hun,  
Ar hyn o destun distaw.

Pan oeddwn blentyn ieuanc glân,  
Y'mysg plant mân fel minnau,  
Heb fawr o'm bwriad am y byd,  
Ond rhoi fy mryd ar chwarae ;  
Fe ddaeth Ie'nctid *ffrolic* ffraeth,  
A'i weniaith helaeth hwylus,  
A'i gyfeillion gydâg e',  
I'm dirio i le dyrus.

Y rhai'n a dd'wedent yn ddiffael,  
Os mynnwn gael anrhydedd,  
Am droi allan gydâ hwy,  
Y cawn i fwy o fawredd ;



A minnau'n blentyn hawdd ei droi,  
 Gwell geny' ymroi nâ tharo,  
 Mi a'u dilynais hwy'n dda 'ngwedd,  
 Tros ugain mlynedd cryno.

Canu a dawnsio gydâ'r tant,  
 Yn fawr fy chwant at *fiwsic*,  
 Dilyn y gelfyddyd hon,  
 Y'mhlith cyfeillion *ffrollic*;  
 Chwarae *cardau*'n dda fy null,  
 Ar hyder ennill arian,  
 Ac yfed cwrw oedd fy ngwaith,  
 Tros lawer noswaith gyfan.

Wedi hyny myn'd yn ffol,  
 I ganlyn gwrol gampau,  
 Tafu bàr neu faen heb fwyth,  
 Neu godi llwyth lle byddai;  
 Ymaflyd codwm ar dir teg,  
 Neu redeg am y cyntaf,  
 Nofio, neidio, saethu'r nôd,  
 A cheisio bod yn bènaf.

Amser bellach, medd pob ffrynd,  
 Oedd i mi fyn'd i wreica,  
 Caru'r merched teg eu gwedd,  
 Yw'r gorchwyl nawsaidd nesa';  
 Colli 'nghysgu lawer nos,  
 O achos GWEN lliw'r lili,

Nes troi meddwl teg ei phryd,  
I roi addewid i mi.

Yn ol priodi glân ei phryd,  
A chynnal byd dros wythnos,  
Yr oedd Ieuenctid wedi ffoi,  
Er dim ni ddeuai'n agos;  
A phan aeth Ie'nctid dros y drws,  
Oedd gymhwys iawn bob cymmal,  
Fe ddaeth gŵr arall yn ei le,  
A'i enw 'fe yw Gofal.

Nid oedd genyf fawr o barch,  
I gyfarch i'r fath gyfaill,  
Gan mor llawen ac mor llon,  
Oedd y cyfeillion eraill;  
Mae yntau'n llawn o ffwdan dwys,  
Ni orphwys, ond gofalu,  
Yn llawer mwy ei 'stwr nâ'i waith,  
On'd blinder maith yw hyny?

Fe ddeuai attaf gydâ'r wawr,  
I'm galw i lawr yn forau,  
I yrru'r gweision at eu gwaith,  
A chym'ryd taith i'r caeau;  
Gwylio gwallau ar hyd y tir,  
Trwy'r borau hir mewn fferdod,  
Chwilio pob lledfegyn gwan,  
A'i osod dan y cysgod.

Dechreu troi yn hwsmon da,  
 A gwella o'r hen arferion,  
 Bod yn ddiwyd ar bob cam,  
 Gofalu am fy moddion ;  
 Pa fwyaf oeddwn yn grynhoi,  
 'Roedd hyny'n rhoi annogaeth,  
 I ofalu byth yn fwy,  
 Rhag colli trwy fabiaeth.

Fe ddywedai wrthyf yn y man,  
 Rhag myn'd yn egwan eiddil,  
 Am gasglu arian, gwneuthur côd,  
 A byw a bod yn gynnill ;  
 Gwr gofalus y'mhob man,  
 Gaiff fenthyg gan gymmydog,  
 A'r gwr gwastraffus llwyd ei big,  
 Ni chaiff ef fenthyg ceiniog.

Ni chawn i daro'm dwylaw 'mhleth,  
 Nac aros peth yn 'smala,  
 Na b'ai e'n dywedyd yn ddifeth,  
 Fod arnaf dreth a gwestfa,  
 A *rhent* mawr i feistir tir,  
 A hûr i'r gweithwyr dyfal,  
 Ni chawn i lonydd mewn un man,  
 Na gorphwys, gan y Gofal.

Mi archwn iddo ambell waith,  
 Gymmeryd taith i'r mynydd,

At fy ngweithwyr yn fy lle,  
 A'm gadael innau'n llonydd ;  
 Fe'm hattebai ar fyr dro,  
 Beth bynag wnelo rhei'ny,  
 Dyma'r gwir, os coeli fi,  
 Mae'n rhaid i ti ofalu.

Mi dd'wedwn hyn mewn geiriau *plain*,  
 Mae'r rhai'n a'r rhai'n yn rhodio,  
 Yn fawr eu parch, eu bri, a'u clod,  
 A minnau'n gorfod gweithio ;  
 Fe'm hattebai'n ddigon traws,  
 Nid ydwyt haws er hyny,  
 Nid oes fawr gyfoeth gydâ neb  
 O'r rhai sydd heb ofalu.

Dywedwn i, gan roddi sèn,  
 Fod gwallt fy mhen yn llwydo,  
 A'r corff sydd wedi myn'd yn wan,  
 Ni allaf weithian weithio ;  
 Fe'm hattebai'n ddigon syn,  
 Tydi sydd yn y fagal,  
 Er nas gelli weithio o hyd,  
 Ti elli gym'ryd gofal.

'Rwy'n awr yn bedwar ugain oed,  
 Ni bum erioed cyn saled ;  
 Er bod yn wych, 'rwy'n awr yn wael,  
 Chwennychwn gael fy arbed ;

Nid wyf yn caru'r drafferth hon,  
 'Rwy'n awr y'mron a marw,  
 Ac oni byddi'n ail dy le,  
 Mi goda'r chware i gadw.

Taw di a sôn â'th swm mor sâl,  
 Os rhoi di'r gofal heibio,  
 I ŵr arall, deall di,  
 Ti golli'r bri a'r swcro :  
 Di âi'n fethiedig ac yn wan,  
 Heb fyn'd o'r man er mynnu ;  
 I bob pleser cân yn iach,  
 Gan i ti bellach ballu.

Mi roes y Gofal o fy llaw,  
 Gael bod yn ddifraw ddigon,  
 Pwy ddaeth attaf yn ddilai,  
 Ond Henaint a'i gyfeillion ;  
 Fe dd'wedai hwn, bid gwaeth, bid gwell,  
 Y byddai'n gyfaill i mi ;  
 A'i berth'nasau o bob-rhyw,  
 Yn barod i'w was'naethu.

Fe ddaeth y fogfa'n gynta' gwaith,  
 A'r peswch maith yn pwyso,  
 Y gymmalwst efo'r cryd,  
 A'r gw'thi 'gyd yn gweithio ;  
 Y gwaed yn oer, a'r pen yn drwm,  
 A'r corff yn grwm fel crymman,

Ni fedraf 'sgoi, er maint fy *scîl*,  
Na myn'd o gîl y pentan.

Mae'r blew a'r gwallt yn fân-blu gwyn,  
A'r olwg yn tywyllu ;  
Trwm yw'r clywed, crug yw'r llais,  
A'r ciawd fel clais yn glasu ;  
Hyfrydwch bydol mwy nis caf,  
Fynychaf 'rwy'n afiachus ;  
Yn iach i'r byd a groeso'r bedd,  
Dymunaf ddiwedd happus.



## CYFLWR DYN MEWN HENAINT,

*A RHYBUDD I'R IEUENCTID.*

Ar y "Galon Drom."

GAN MR. JENKIN THOMAS.

Trom yw'r galon, llesg yw'r chwantau,  
Pwl yw'r olwg, trwm yw'r clustiau,  
Llwm yw'r esgyrn, crych yw'r ddeurudd,  
Trist yw'r meddwl heb lawenydd ;  
Dannedd pydron a briwedig,  
Corff auystwyth, tra anesmwyth, yn troi'n ysig ;  
Nid all y traed mor myn'd yn neppell,  
Gan boen dyfal sy'n mhob cymmal, er eu cymhell.

Nid oes noswaith na diwrnod,  
 Na bo'gwaew y'mhob aelod,  
 Ni ddaw gwynt, na gwlaw, na stormydd,  
 Nac un math o symud tywydd,  
 Ar un amser yn y flwyddyn,  
 Na bo chwerw wŷn, a gwaew, y'mhob gewyn;  
 Yn ol hir nychdod ac afiechyd,  
 Yn y diwedd rhaid fydd gorwedd yn y gweryd.

Chwithau'r ie'nctid mwynion tyner,  
 Cymmerwch rybudd tra bo'n amser,  
 I ddiwygio ac i wella,  
 Tra bo'r ieuenctid per yn para,  
 Dewiswch ran nas gellir golli,  
 O'r ddinas enwog, lân galonog, lawn goleuni;  
 Cymmerwch afael ar y bywyd,  
 Sydd heb ammau, i chwi'n ddiâu, mewn addewid.



## SAITH CWMWL HENAINT.

GAN MR. JENKIN THOMAS.

SAITH Cwmwl tywyll, dû, dros ben,  
 Sydd yn ffurfafen Henaint,  
 Yn ymledu'n gynnar iawn,  
 A'u gwedd yu llawn digofaint,



A rhei'ny sydd bob dydd, bob awr,  
 Yn cuddio'r wawr gysurus,  
 Wedi bod yn hir fwynhau  
 Ei goleuadau melus.

Mae'r holl synwyrâu yn llesgâu,  
 A'u hofferynau'n pylu,  
 Rhai oeddynt unwaith fel y sêr,  
 Mewn gloywder yn llewyrchu,  
 Y clyw, a'r olwg, sydd yn waeth,  
 Yr archwaeth, a'r aroglïad,  
 A'r teimlad hefyd o bob rhan,  
 Sydd beunydd dan waethygiad.

Y nerth naturiol sy'n lleihau,  
 A'r holl aelodau'n wannach,  
 Rhai oeddynt gynt yn cadw'n hy',  
 Dechreuant ballu bellach,  
 Myn'd yn hwyrdrwm yn y daith,  
 A llesg mewn gwaith a gorchwyl,  
 Ac ofni pob esgynfa serth,  
 Heb fawr o nerth i ddisgwyl.

Y swydd-gynneddfau oddi fewn,  
 Oedd gynt yn llawn gwresogrwydd,  
 Dealltwriaeth, barn, a cho',  
 Heb nemawr o fywiogrwydd,  
 Mae rhai'n a'u llewyrch yn lleihau,  
 Dan dew gymylau duon,

Er eu bod o ran eu gwraidd,  
Yn foneddigaidd ddigon.

Yr anwyl iechyd ar ei daith,  
Aeth ymaith yn ddiammau,  
Ac yn ei le y daeth y'mla'n  
Amrywiol fân glefydau,  
Haint, a nychdod, dyrnod dwys,  
Dan chwerw bwys o beswch,  
A'r rhai'n i gyd yn amlhau,  
Nes llwyr leihau llonyddwch.

Mae'r dannedd wedi myn'd yn friw,  
A cholli eu lliw llewyrchus,  
Ac wedi pydru'n îs nâ'r croen,  
Trwy chwerw boen enbydus;  
A phan gollo dannedd dyn,  
Gwaethyga ei lun a'i ddelw,  
Ni chny mo'i fwyd, mae hyny'n brudd,  
A'i air ni bydd mor groyw.

Mae'r gwaed yn oer, a'r wâr yn grwm,  
A'r corff yn drwm i dramwy,  
Cysuron natur aeth ar ffo,  
A'r cwsg yn cilio fwy-fwy,  
Holl nwyfiant, anian, tegwch pryd,  
Mae rhai'n i gyd yn darfod,  
Gydâ'r dyn, pan êl yn hen,  
Fe fydd mewn troellen tralloð.

Fe fydd cyfeillion mwynion maith,  
 Yn cilio ymaith weithian,  
 Pawb yn myned ar ei dro,  
 A'r henaint wrtho'i hunan!  
 Ac yn y cyflwr isel hwn,  
 Dan gyflawn bôn o benyd,  
 Yn disgwyl elor ar bob tro,  
 I'w gario hyd y gweryd.

Er bod hyn yn wir i gyd,  
 Ni chred mo'r ie'nctid ofer,  
 Ond felly'n bod a byw ar gam,  
 Heb feddwl am gyfyngder;  
 Ond pan del henaint ar eu traws,  
 Ni byddant haws o wingad,  
 Hwyt gant brofi, mewn modd syn,  
 Mai gwir yw hyn o ganiad.



## Y RHAGORIAETH

### RHWNG IEUENCTID A HENAINT.

GAN MR. EVAN THOMAS.

SAITH seren siriol hardd dros ben,  
 Sydd yn ffurfafen Ie'nctid,  
 Ym morau'n hamser mae mwynhau,  
 Eu rhagorfreintiau hyfryd;

A rhai'n pan treulio Ie'nctid brau,  
 Dan dew gymylau ymgyrch,  
 Ni cheir mwynhau pan eir yn hen,  
 Mo'u siriol lawen lewyrch.

Dyma'r pryd 'ry'm ni'n mwynhau  
 Ein holl synwrau'n gryfion,  
 I chwilio'n ol naturiol gais,  
 Bob manol ddyfais ddofon;  
 Pan ddel Henaint pwyllig, pall  
 Y deall, a'r amgyffred,  
 Pob canghen o'r synwrau pêr,  
 A fethant er eu meithed.

Mae'r cof yn dda gan Ie'nctid tyn,  
 I ddysgu'r hyn a fynno,  
 A'r hyn a glywo gaiff yn haws,  
 Argraffiad irnaws arno;  
 Yn hen, f'â'r cof yn rhwyllog iawn,  
 I gynnal dawu dysgeidiaeth,  
 Fe syrthia'r pethau mwya' eu mael,  
 Oddiarno'n amal ymaith.

Yn nyddiau'n Ie'nctid hefyd mae  
 'N serchiadau'n fwyaf bywiog,  
 At orsedd gras ddyrchafu mawl,  
 Am ddidwyll hawl odidog;  
 Mae'r serch gan Henaint yn llesgau,  
 A'r dymuniadau'n feirwon,

Yn ol trafferthion gwael y byd,  
Fe gilia bryd y galon.

Dyma'r pryd, cyn èl yn hwyr,  
Mae'n fwyaf llwyr tebygol,  
I ni fod byth yn bobl bur,  
A hunan wir ymwadol;  
Mae'n anhawdd iawn pan ddelo haint,  
A Henaint ar ein gwarthaf,  
Roi heibio'r ymarweddiad gau,  
A'r cnawdol heintiau cyntaf.

Cariad Ie'nctid ddiwyd ddawn,  
Sydd gyflawn o wresogrwydd,  
I garu'r Arglwydd Dduw yn ddwys,  
Lle'r erys pwys happusrwydd;  
Pan eir yn hen, ein cariad glân,  
A ranna'n fân ganghenau,  
Rhai at Dduw, a'r lleill ar ol  
Y byd a'i gnawdol bethau.

Mae'r Ie'nctid amlaf, amlwg yw,  
Yn caru rhyw ynfydrwydd,  
A thyna'r pryd cymhwysa' mae  
Ymlawenhau'n yr Arglwydd;  
Nid oes yn canlyn Henaint prudd,  
Ond poen neu gystudd gwastad,  
Fe droir, pan ddel cysgodau'r hwyr,  
Eu dawns yn llwyr alarnad.

Yn Ifanc mae at gario'r gol,  
 Y nerth corfforol orau,  
 Fyn'd dan y gair, a thramwy'n ol  
 Y rhadol ordinhadau;  
 Pan ddel arteithiau Henaint dig,  
 Rhaid rhodio'n bwyllig bellach!  
 A'r corff o dan fethiedig glwy',  
 A fydd yn tramwy'n drymach.

Doethineb rheidiol i bob rhai,  
 Dan ragorfreintiau I'entid,  
 Yw treulio eu nerth, a chwilio'n ol,  
 Trag'wyddol fywiol fywyd;  
 Cyd-geisiwch nefol freiniol fraint,  
 Cyn dyddiau Henaint digllon;  
 Peryglus iawn yw oedi'r gwaith,  
 Am iechydwriaeth dirion.

—◆—

## C A N

Yn annerch SION IFAN y Crydd, o Gebidiog, yr hwn oedd yn Brynwr a Gwerthwr Ceffylau gwerthfawr; efe a gymmerodd ei Gyllell i'w Farchdŷ (*Stable*) i wneuthur rhyw orchwyl, ac a'i gadawodd yno trwy anghof; y Gyllell yn ddamweiniol a syrthiodd i'r sarn, â'i blaen i fynu, un o'r Ceffylau a orweddodd arni, a bu farw yn fuan, a Cheffyl arall a dorrodd ei wddf; y ddamwain hon a wnai ddeg Punt ar hugain o golled i Sion. Y Cryddion o Drehedyn a anfonasant atto Ganiadau i'w gysuro, ac an-

fonodd yntau Ganiadau yn ateb iddynt. Y Gân hon yw y drydedd, o waith JENKIN THOMAS, o'r Cwmdu.—1737.

*Ar y " Galon Drom."*

DYMA'r ffyddlon Gryddion graddol,  
 O *Drehedyn* ddidro hudol,  
 SION IFAN lân i'ch cyfan gofio,  
 Ac yn anfon attoch etto,  
 O bur gariad trwsiad traserch,  
 Mwynaidd, hyfryd, ar ol ennyd yr ail annerch,  
 Yn dystiolaeth helaeth hwylus,  
 O gyfarchiad, ac nid lliwiad bwriad barus.

Glyn tra llydan o drallodion,  
 Yw'r byd hwn, i ddoniol ddynion,  
 Aml ddrygau golau gwelwch,  
 A gaiff y dynion cyfion cofiwch,  
 Er mwyn eu dwyn o'r dibyn diball,  
 I iawn serchu, a hyderu, ar fyd arall,  
 Llà mae bywiol bythol bethau,  
 Mewn gwlad *reiol*, dda ddymunol, ddiddamweiniau.

Os oes rhyw fradwr 'n ymhyfrydu,  
 Garw ei floedd a gorfoleddu,  
 Wrth weled llidiog fawr golledion,  
 Ei gymmydog enwog union,  
 Gan roi gair drwg mewn gwg a gogan,  
 Nis gŵyr felly na ddaw hyny iddo'i hunan,  
 Gwael ac aflan yw ei gyflwr,  
 E ddaw trallodion aml loeson i'r maleiswr.



Pa beth a dalai i'r hudolwr,  
 Gwan, ac ynfyd geufigenwr,  
 Ymlawenhau mewn ing mor anghall,  
 Gwarth gamp oer, wrth gwymp gŵr arall,  
 Gwae a fago wael genfigen,  
 Hi ddod anhwyl, anhoff orchwyl, yn ei pherchen;  
 Dyna lesiant pob maleiswr,  
 Gofidio ei hunan, gwael ac aflan yw ei gyflwr.

Nid yw'r byd a'r golud, gwelwn,  
 Ond anwadal fel y nodwn,  
 Heddyw'n dyfod drwy fawr drafael,  
 Ac y foru gwedi ein gadael;  
 Ddoe'n gyfoethog enwog unwaith,  
 A diflannu cyn y foru, cŵyn i'w fariaeth,  
 Fe newidia yma'n amal,  
 Waith myn'd a dyfod yw ei hynod ddefod ddyfal.

Glynwch, gwiliwch yn eich galwad,  
 Yn dda'ch agwedd a'ch ymddygiad;  
 Os aeth dâ'r byd gan oflyd aflwydd,  
 Fe ddaw adref trwy ddiwydrwydd.  
 I'r diymrafael tawel diwyd,  
 Addfwyn hawddgar ar y ddaear, mae'r addewid;  
 Ond i'r dyn a'i ddygyn ddiogi,  
 Efe a'i dylwyth gaiff dâl adwyth o dylodi.



## C A N,

Yn rhoddi Hanes am Gyflwr Dyn ym mhob Rhan o'i Oes:—yn gyntaf, yn ei Enedigaeth, ac yn ei Fabandod;—yn ail, yn ei Ieu-entid;—yn drydydd, yn ei Ganol Oedran;—yn bedwarydd, yn ei Henaint.

---

Gan FFRANSIS THOMAS, y Crwthwr Dall o Geredigion.

---

MOR rhyfedd gyfnewidiol yw  
 Pob rhan o amser dynolryw ;  
 Mae'r oes yn dirwyn yn ddi-ball,  
 Heb ddydd yn llwyr 'run fath a'r llall.

Y dyn pan ddel o'r bru i'r byd,  
 Rhaid iddo aros dro yn fud ;  
 Heb ynddo nemawr iawn o rym,  
 Heb wybod gair o iaith na dim.

Caiff newid eilwaith yn y bla'n,  
 I ddechrau trin teganau mân,  
 Heb un rhyw ofal yn y byd,  
 Dan gwrr ei fron yn cwrdd â'i fryd.

Caiff newid eilwaith yn ol hyn,  
 I ie'nctid hardd fal rhosyn gwyn,  
 Gan ddechreu arfer cynnal cân,  
 A hoffi hyfryd bynciau mân.

Caiff newid eilwaith yn ddiog'd,  
 I gyflwr gwych mewn rhwysg a rhod ;  
 A than ei ofal ef a'i ddawn,  
 Dalentau aml gwerthfawr iawn.

'Nol hyn fe ddechreu gasglu'r byd,  
 A'i gludo'n dyrrau mawr y'ng hyd ;  
 Ac yn ei fryd yn ddi-naccâd,  
 Gael bod yn bennaeth ar y wlad.

Codenau aur a chelloedd llawn,  
 A'i fryd ar ddringo'n uchel iawn ;  
 Yn fawr ei awydd cais o hyd,  
 Fawr glod a pharch gan blant y byd.

Fe bryna dir, fe seilia dai,  
 A'n farnwr rhyfedd rhwng pob rhai ;  
 Ac yn ei fryd o hyd am fyw  
 Dwy oes arferol dynolryw.

Ar hyn daw henaint ar ei draws,  
 Yn hyll ei wedd yn oer ei naws ;  
 Yn awr rhaid iddo ddechrau trin,  
 Blynyddoedd trist a dyddiau blin.

Ei wedd oedd hardd brydweddol brâf,  
 Fel blodau hyfryd ganol haf ;

Fydd 'nawr yn gwywo fel yr hesg,  
A'r corff i gyd a'r llun yn llesg.

Y galon lawen fydd fel plwm,  
Y traed yn llesg, a'r cnawd yn llwm,  
A'i ddannedd mân oedd hardd eu llun,  
Fel dail yn syrthio o un i un.

Pen-moelni noeth, a'r clyw yn waeth,  
Y gwaed yn oer, a'r fron yn gaeth,  
A'r eis ar lan fel grwn o dir,  
Heb un dan gudd, na bèr na hir.

Yr awen wresog fywiog gynt,  
Fydd 'nawr mor oer a'r gogledd wynt,  
Rhyw wÿniau mynych, forau a hwyr,  
Yn toddi'r dyn fel canwyll gŵyr.

Rhyw *styfftra* rhyfedd maith a mwyth,  
A llonaid llaw yn hanner llwyth;  
A'r llais yn arwach, dyna 'spwyl,  
Fel tannau telyn maes o hwyl.

Yr olwg glir a graffai'n lew,  
A edrych 'nawr trwy niwlen dew;  
A'r tafod ffraeth â bloesgni'n llawn,  
Fel un heb fedru'r iaith yn iawn.

Y genau yntau'n newid blâs  
 Danteithion melus drud a brâs;  
 Y sylw'n wan, a methiant mawr  
 Yn tynnu'r dyn yn llesg i'r llawr.

Y warr oedd gref sydd 'nawr yn grwm,  
 A'r traed yn hwyr yn tramwy'n drwm,  
 A'r cam heb nemawr iawn o hÿd,  
 A'r dwylo'n curio yn y cryd.

Fe fydd yr anadl yn byrhau,  
 A'r *'stymog* dreulfawr yn gwanhau;  
 Y cof a'i wedd yn rhwyllog blin,  
 A'r cwsg fel hanner ar ddiheu.

Beth fydd y byd ar hyn o dro.  
 Ond megis hûn aeth heibio ddo';  
 Holl harddwch natur fywiog aeth,  
 Fel llong ddrylliedig ar y traeth.

Rhaid newid eilwaith maes o law,  
 Mae angau llym â'i gledd gerllaw;  
 I lwyr ddystrywio'r babell hon,  
 Fe friwia dÿ y galon don.

Fe ddyd y corff a'i ddefnydd trwch,  
 A'i wedd yn llonydd yn y llwch,

A'i enaid noeth eheda i fyw,  
I'r manau da lle mynno Duw.

Pwy saif, (O! f'enaïd, enwa ef,)  
Gerbron y Tad yn ninas nef?  
Nid dyn â malais dan ei fron,  
A breswyl hardd anneddau hon.

Nid dyn mewn dig fo'n dala gwg,  
O dan awdurdod natur ddrwg;  
Ond dyn trwy ras orchfygo'r cnawd,  
Gaiff roeso a bri gan Iesu'n brawd.

Nid eiff yr aflan byth i'r nef,  
Mae'r wlad yn groes i'w anian ef;  
Y dwylo glân a'r galon bur,  
A seilia dŷ ar Salem dir.

O Arglwydd Ion, cymmwysa di,  
Gynneddfau gwan fy enaid i;  
At fyw a bod y man lle mae  
Dedwyddwch hyfryd heb ddim gwae.

## RHYBUDD I'R MEDDWON,

Y'ng hyd â rhai Nodau'r Tafarnwyr.

*Ar Ddifyrwch Gwyr Dyfi.*


---

 GAN Y PARCH. D. JONES.
 

---

YMSWYNED pob gŵr, rhag diod *Glandwr*,  
 O herwydd ei thrafod mae syndod yn siwr :  
 O'i hyfed bydd gwae, mawr drydar didrai,  
 Pob siol a syfrdanai, a'r garrau'n gwanhau,  
 Ei hyfed ni fethan' trwy gyfan Sabbothau,  
 Mor dewed a succan, neu'r bwdran ar brydiau ;  
 O *lapiant* fath *froth* mewn awen annoeth,  
 Tost gyflwr aflawen y bledren yn boeth,  
 Ei *ffroth* yn dew melyn, fel ewyn sudd bana'l,  
 A hwnw pan gwnno yn bendro, pwy gynnal  
 Ei synwyr ei hun, na donio fel dyn,  
 Anferthach nâ'r 'nifail ei *lefel* a'i lun.

'Rwy'n gwel'd nad oes pall i'r symyl a'r call,  
 O'u cwrw i'w yfed nes myned yn ddall,  
 Mae gŵesaw i'w gael i'r hylm fo hael,  
 Fe ffwylir fo'n ffaelu, a'i lysenwi'n *sot* sâl ;  
 Os gwelir bod arian hwy fyddan' yn dirion,  
 O llenwch eich *glasses*, cof 'wyllys gyfeillion ;  
 O'i thynnu na thewch, gwreng dylwyth, gwrandedd,  
 Os gwariwch, gwerth punnoedd o'm gwirfodd a gewch,



Y gŵr yma ffaelo wrth *ddelo* i dalu,  
 Rho'r *pocer* i'th *sticcio*, dos etto'r cystowci,  
 O'm golwg a'm tŷ, nid dyma'th le di,  
 Y bralog aflawen, anniben, i ni.

Wrth yfed ar *dasg* y cwrw o'r *casg*,  
 Awch halltaidd i 'mholli yu wisgi hi wasg ;  
 Ymchwydu mewn och, ymfachu fel moch,  
 Tro mawr yn trybaeddu trwy regu a rhoch,  
 Yn galw ar hwnw mae banw mewn poendod,  
 Y priâ crug egwan, prawf etto gragenod,  
 Mi'th welais di gynt, i'n hannog ar hynt,  
 I yfed cwpanaid mor gynted a'r gwynt ;  
 Diod, wragedd, heb gellwair.—Cynllwynwyr, ewch  
 allan,

Nid yma cewch fogi, ewch ymaith i fegian,  
 'Does ceiniog mewn côd, rhai budr yn bod,  
 Danfonwn chwi'r bolgwn, pa'm clwyfwn ein clod.

Nid yw eu happusrwydd ond c'wilydd a gwael,  
 'Nol llenwi pob bola 'does gwala i'w gael,  
 Ond galw am 'chwaneg, 'rwy'n myneg' y gwir,  
 Y pen yu drwm hynod, a'r ceudod mewn cur,  
 Ysgogiad go-'sgeler, mewn gwaelder a gwaew,  
 Mawr anferth ymgreiniad difwriad i farw,  
 Trwm chwalu tra chwith, fath bla ddaeth i'n plith,  
 Gan bobol anufudd digrefydd ond rhith ;  
 Ni a welwn, heb ammau, fod barnau cryf cadarn,  
 Am hyny yn dyfod, yn erbyn tŷ tafarn,

Rhai cyfiawn nid y'nt, nôd hynod yw'r hynt,  
 Bod barn drom ysgymun i'w herbyn hwy gynt.

Os holiad a ddaw, pwy ledodd ei law,  
 I osod ysgrifen, gwaith awen ni thaw,  
 Y sawl sydd â'i fryd at sobrwydd y'nghyd,  
 Ac achos y cwrw ei lanw o lid,  
 At dylwyth tŷ tafarn, a'u rhagfarn mewn rhyfyg,  
 Sy'n byw mor anaddas yn ddiras bonheddig,  
 Mewn *cambric* a *lawn*, os coeliwch fy nghân,  
 Y *felfed* trwy'r wythnos, a'r *ffurbiloes* mân,  
 O druain yslafwyr sydd gywir *stwfennod*,  
 O achos eu doddi i ymddwli ar ddiod,  
 Mewn diffyg *coat* lwyd, a phrinder o fwyd,  
 Nid haws, er mawr chwysu, ymroddi o'i rhwyd.

'Dwy' etto'n naccau ymddygiad go *gay*,  
 Lle bo boneddigion yn gysson nesâu,  
 A chadw yn lân eu teiau a'u tân,  
 Ac hefyd ymwisgo yn gryno mewn grân,  
 Fo gweddaidd ymddygiad ger bron boneddigion,  
 A gwiwdda o ddoniau, fel gweddai i ddynton,  
 Yn llwyr felly'n llyn, dwys syniad di syn,  
 Da gweddaidd ymgadw, gwaith hoyw yw hyn,  
 Ond *tiplan* tafarnau, off'rynau tra ffyrnig,  
 Gan wario mewn malldod yn wir felldigedig,  
 Mewn gwegi a gwawd, sy'n doddi'r dyn tlawd,  
 Wrth fynych ddiotta, heb fara na blawd.

## YMROAD GWR I YMADAEL A MEDDWDOD.

*Ar " Bryniau yr Iwerddon."*


---

 GAN IOAN SIENCYN.
 

---

O blith yr ofer ddynion, o blith cyfeillion ffol,  
 O blith yr yfwyr afiach,—âf bellach yn fy ol;  
 Tu fewn i'r tai tafarnau, lle amlaf beiau'n hod,  
 Ni tharia'i'n hir lle byddo *bir*, annifyr yw ei nôd.

'Rwy'n gwel'd yn ddigon golau y canlyniadau tost,  
 A gaiff y meddwon heddyw i gadw gydâ'u cost;  
 Gwaethygu'r anwyl iechyd, peryglu'r bywyd pêr,  
 Tylodi'n rhan, a'r gofid gwan, yn salw dan y ser.

Dechreu'n araf ddigon mae'r meddwon ar eu gwaith,  
 Cyd-yfed gydâ phleser, yn llawn o'r mwynder maith;  
 Cildynnu ac ymffrostio, cyd-ruo mor ddiras,  
 Annuwiol blant, datguddio wnant, eu cïaid drach-  
 want cas.

Fe floesga'r tafod mwynaidd, eu pryd a gwedd a gyll,  
 A'u llygaid rhwthion chwithig, a'u traed tripedig  
 hyll,

'R ewyllys wedi dallu, a'r rheswm golli ei farn,  
 Y pen yn waeth, y cof yn gaeth, a'r synwyr aeth yn  
 sarn.

At ŵr y tŷ'n ddiarbed rhaid iddynt yfed 'nawr,  
 Mae hwnw fel y morfil, fe lwnc y faril fawr;  
 A'r wraig wenieithus lawen, heb ar ei gwen un gwg,  
 Mewn rhif yn rhoi pob *peint* yn ddau, wel dyna  
 'mdroi mewn drwg.

Rhai'n chwerthin fel ynfydion, heb wel'd mor drom  
 yw'r dreth;  
 Rhai'n wylo fel babanod, heb wybod am ba beth;  
 Rhai'n canu oerlais diffaith, coeg fariaeth fwy nâ mwy,  
 A'r lleill yn cwrdd o tan y bwrdd, yn chwydu ffwrdd  
 â nhwy!

Wrth fyned o'r tafarnau, rhai'n torri eu gyddfau'n siwr,  
 Ac ereill wedi boddi, wrth geisio croesi dwr;  
 Rhai wedi lladd eu gilydd, mewn carchar cudd ni a'u  
 cawn;  
 Och! dyna ddull y meddwon hyll, on'd yw yn er-  
 chyll iawn?

Llawer 'tiffedd tiriog ddechreuai'n gefnog gynt,  
 A wariai'i dir a'i waddol fel gwennol yn y gwynt;  
 A'r crefftwy'r o bob graddau sy'n sugno brônau'r brâg,  
 O le i le mewn gwlad a thre', nes el eu pyrsau'n wâg.

Yn ol gwastraffu eu meddiant, y crwydrant 'rhyd y  
 wlad,  
 Mewn gwisgoedd carpiog budron, yn llymion am  
 wellhad,

Ysgubion pob cyn'leidfa, gwehilion gwaela' eu gwŷn,  
Drewedig ryw, gwirionedd yw, yng ngolwg Duw a  
dyn.

Pa ddygn drwm drueni sy'n amgylchynu dyn,  
Yn gaeth i'r fath oferedd, yn *slaf* afluniaidd lun,  
I werthu ei gorff a'i enaid i boenau diriaid daith;  
Ei wraig a'i blant, cardotta gant, eu porthiant mwyn-  
iant maith.

Trwy gymhorth Duw i'm cadw, ni byddaf feddw fyth,  
Na chanlyn ffol gyfeddach y meddwon sothach syth;  
Cymmeraf gymmedroldeb trwy wirffyddlondeb mwyn,  
Yn ffrynd, yn gâr, yn gyfaill gwâr, tra tariwyf ar y  
twyn.

---

## C A N

I Long Newydd yr Yswain LLWYD o Gwmgloyn, a'r Cadpen  
TUCKER o Shilyham, yr hon a elwir GREYHOUND.

*Ar Freuddwyd y Frenhines.*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

HAI, 'r ffyddlon, pwerus, y MILGI mawr craffus,  
Cychwyna'n llwyddiannus dy dymmer,  
Pr cefnfor anesmwyth, o dref *Aberystwyth*,  
Yn ddigon diadwyth dy hyder;

Gorphenwyd, do, dy wneyd dan go',  
 Gan RUFFYDD RHYDDERCH, draserch dro,  
 Hawddgaraf gwr, fe'th wnaeth yn siwr,  
 Yn Llong ddeheuaf nofiodd ddwr,

Bydd hyny yn gysurus,  
 Dý gael i fyn'd yn hwylus,  
 Wrth l aw dy Gadpen medrus,

Yn drefnus ar bob tro :

Dos dithau i ma's, fel bywiog was,  
 Yn fawr dy glod ar gefnfor gl as ;  
 A rhed yn gynt ar gyflym hynt,  
 N 'r llongau gorau o flaen y gwynt,

A dwg dy fuddiol foddion,  
 Tros frigau'r trawsfor eigion,  
 O bell aberoedd ffrwythlon,  
 Fo'n llawnion i'th wellhau.

Fe'th elwir gan ddynion yn ol enw union,  
 Hen FILGI mawr ffyddlon ein tadau,  
 A ddodwyd yn odiaeth i ddwyn coffadwrlaeth,  
 Am dan eu milwriaeth a'u harfau ;

Rhyfelwyr fu'n hynafiaid ni,  
 A droent yn ol bob estron lu,  
 Oedd trwy sarhad am ddwyn ein gwlad,  
 A'n trin a'n troi o dan eu tra'd ;

Brytaniaid ffyddlon oeddynt,  
 A gadwent Gymru arnynt,  
 Am dan ein hawl a'n helynt,  
 Diolchwn iddynt hwy.



Dos dithau'n awr, yn deg dy wawr,  
 Bydd ffyddlon ar yr eigion mawr,  
 A hwylia'n hael am fuddiol fael,  
 Nid rhodio fel rhyw grwydryn gwael;  
     Ond canlyn mewn ffyddlondeb,  
     Onestrwydd ac uniondeb,  
     A pheidio gwneyd ffolineb,  
     Nis ofni wyneb un.

Myn wibio'n galonog am dan y 'Scyfarnog,  
     Nid yw MILGI diog werth dimmai;  
 Am hyny rho droion i'r Alban a'r Werddon,  
     A Lloegr wèn dirion iawn dyrrau.

O fan i fan lle'r âi i'r lan,  
 Boed llwyddiant rhywiog yn dy ran,  
 Nes taenu'th glod o dan y rhod,  
 Mai ti yw'r MILGI gorau erio'd,  
     Am gadw'th gwrs yn gysson,  
     Rhwyng dwr ac awyr dirion,  
     O dan dy fentyll gwynion,  
     Uwch tonnau geirwon gur.

Os digwydd loes i'th anwyl oes,  
 Mewn 'stormydd trymion creulon croes,  
 Ymgadw ma's rhag creigydd cas,  
 Na syrthio fyth ar draethen fâs;  
     Pwerau oddiuchod,  
     Yn barchus fo'n dy warchod,  
     A'th ddwyn yn ddianafod,  
     O dan bob trallod trwm.



SIOR LLWYD anrhydeddus yw'th Gadpen gwybodus,

Gwr ifanc haelionus ei anian ;

A'i wyr yn ddiweniaith, sy'n gwbl â'u gobaith,

Oddiwrth dy helwriaeth gael arian ;

Eu tŷ a'u tŵr wyt i bob gwr,

Ac arch i'w dwyn goruwch y dwr,

Fel gwylan gròn yn dringo'r dòn,

O flaen dy lyw heb friw'n dy fron ;

Os gyrra ar dy gefen,

*Americans*, neu *Ffrenshmen*,

Na phrisia ddim i frwynen,

Am dan eu crechwen groes.

Wyneba'n lân â'th arfau mân,

A chwarae'n deg trwy chwerw dân,

Cyn colli'th fri gwna 'nghyngor i,

Y MILGI ifanc, dianc di ;

Gwell gŵr yn iach ei goryn,

Er noethed fyddo'i fwthyn,

Na myn'd dan ddwylaw'r gelyn,

Bob plwyn sy arno'n bod.

Y 'Scwier LLWYD tyner, a'r mwyn Gadpen TUCKER,

Gwŷr mawrion o *bŵer* dy biau ;

Maent hwy â'u hewyllys dy gadw yn barchus,

Wrth nosio'n llwyddiannus y tonnau,

I fyn'd a bod yn fawr dy glod,

Lle by'ch ti'n rhwym o dan y rhod ;

A phawb o'th wŷr o galon bur,

A fo'n dy gadw di'n ddi-gur,

I 'mofyn am *farsiandaeth*,  
 Yn hwylus a'th gynhaliaeth,  
 O drefydd tramor helaeth,  
 Heb fariaeth yn dy fron ;  
 Tro'n ol yn well o'r gwledydd pell,  
 Ac aur ac arian lon'd dy gell,  
 Ac yma'n wir cei'th barchu'n hir,  
 Yn *Nhrefdraeth* lon ar dirion dir ;  
 A chlywed dweyd gan ddyinion,  
 Na nosfodd foroedd mawrion,  
 Happusach llong nâ'r ffyddlon  
 Hardd FILGI tirion teg.

---

## C A N,

A roddodd y Prydydd, ar Forau Dydd Calan, i ddifyru Gŵr Bonheddig, yr hwn oedd dan ychydig o groesau y byd cyfnewidiol hwn.

Ar y Galon Drom.

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

I'ch cyfarch yma, pura perwyl,  
 Yr Yswain serchog, enwog, anwyl,  
 Fe ddaeth y Prydydd hen methiedig,  
 I'ch gwiw lannerch am galenig,  
 Dan ddymuno yn ddiommedd,  
 I'r flwyddyn 'leni, wneyd eich llonni, 'n fwy nâ lly-  
 nedd :

Mae Duw'n godde' i'w blant anwyla',  
I fyn'd dan groesau, oer godymau'n y byd yma.

Newydd sâl ddaeth i' chwi'n sydyn,  
I'r weilgi lyncu'r \*MILGI melyn,  
A gwaith anrasol wnaeth y *Ffrenshman*,  
I soddi'r †HEBOG bywiog buan :  
Y croesau chwerwon trymion yma,  
A roisai lawer yn ddi *bæer* i gael bara ;  
Ond i chwi, yr Yswain euraid,  
Mae tiroedd lawer, meddiant nifer o'ch hynafiaid.

Fe ddaeth i'ch profi etto'n bruddach,  
Drwm anghysur oedd agosach,  
Gwel'd eich ceraint yn blaguro,  
A chydâ'u blodau yn machludo,  
‡Claddu dau Nai ieuanc serchog,  
O'ch glân fwynaid, foneddigaidd, annedd enwog :  
Mae cŵyn yn taro wrth naturiaeth,  
Pau cleddir dynion, ieuainc haelion, o'n gwaedol-  
iaeth.

\* Llong newydd, yn cynnwys 70 o dunelli, a enwyd *Greyhound*.

† Llong arall, yn cynnwys 50 o dunelli, a enwyd *Hawk*.

‡ Mr. *William Morgan*, Cadpen ar y Môr-Filwyr, a Mr. *George Lloyd*, Cadpen ar Long Marsiandaeth, un yn nai fab cefnder, a'r llall yn nai fab cyfuither, i'r Gwr bonheddig. Hwyl a gladdwyd allan o'i dŷ ef.

Fe gariodd angau'r ddau ddyn ieuanc,  
 O'r byd adre' i fywyd diŋranc,  
 A'ch gadael chwi er bendith helaeth,  
 Yma'n dirion i'r wladwriaeth;  
 O dan bob croes i'ch oes gyfeillgar,  
 Fel Job obeithlon, byddwch ddigon amyneddgar,  
 Er chwerwed fo'nt, hwy dro'nt yn rhyfedd,  
 I chwi'n felus wîn daionus yn eu diwedd.

Yn ol codwm mae cael codiad,  
 Fel ca'dd Adda o'r dechreuad;  
 A Moses gollodd lÿs y brenin,  
 Fe gafodd fwy o godiad wedi'n.  
 Job, a Lot, trwy fawr ryfeddod,  
 Eu holl feddiannau, aent yn ddarnau, ar ddiwrnod.  
 Gau Ddafydd ar brydnawn 'roedd cyfoeth,  
 'Doedd gwraig na phlentyn, na dodrefnyn, ganddo  
 dranoeth.

Gorfu ar y patriarchiaid,  
 Ffoi ar diroedd anial ŋiriaid,  
 Heb dai, heb dân, heb ddillad clydion,  
 Cyn cael y nef caent groesau chwerwon;  
 A Christ ei hun oedd un fu'n ymdaith,  
 Heb dÿ na gwely i'w gynhesu gantho noswaith.  
 Nid ydych chwi ddim gwaeth eich mwyniant,  
 Mae tiroedd meithion, oll a'ch moddion, yn eich  
 meddiant.

Os rhedodd dyled rhwng eich dwylo,  
 'Does nemawr ond cybyddion hebddo ;  
 'Roedd genych fodd i dalu'n gyfion,  
 I bawb heb edliw eich dyledion,  
 Ond eich gofynwyr oedd gyfynga',  
 Yr un diwrnod, yr oe'nt yn dyfod, am eich difa,  
 Yn onest iawn y cafodd rhei'ny,  
 Trwy'ch cyflawn foddiaeth, heb attaliaeth, bawb eu  
 talu.

Nid yw'r byd a'i olud helaeth,  
 Dan ein dwylaw ond hudoliaeth,  
 Y borau'n gynnes iawn yn gwenu,  
 A chyn y cyfnos dechreu cefnu ;  
 A phawb yn gyrru am gael arian,  
 Eu hel a'u hymlid, yw ein gofid, yma'n gyfan,  
 Yr hwn sydd foddlon y'mhob cyflwr,  
 Yw'r dyn cysurus, gorfoleddus, felus filwr.

Chwi wnaethoch fwydo ambell Judas,  
 O'ch danteithion a'ch cymdeithas,  
 Gan dybio fod eu hynod anian,  
 Yn iach onest fel eich hunan,  
 A thyna'r rhai oedd gynta'n rhuo,  
 Dan noethi dannedd afrywiogaidd, i'ch difrigo ;  
 Eich uchel barch sydd yn llewyrchu,  
 A'r sawl a geisient, byth nid allent, ei dywyllu.

Mae i chwi gannoedd yn y flwyddyn,  
 O bunnoedd heb i neb eich gofyn,  
 Digon ydynt i'ch cyfreidiau,  
 A rhoi elusen lle bo eisiau ;  
 Byth ni wnaethech beth oedd ddoethach,  
 Na myn'd mewn amser, yn rhydd o *eger bŵer* baw-  
 ach ;

Ni ddaw mwy un ocrwr diffaith,  
 I'ch *parlŵr* purwyn, nac i'ch cegin, i'ch marchogaeth.

Duw a'ch tynnodd fel y lili,  
 Allan o blith drain a drysni,  
 Cyn iddo losgi'r gwrysg anffrwythlon,  
 Yn un oddaith â'r cybyddion ;  
 A garo arian, medd un geirwir,  
 Gan hyd eu pyrsau, byth eu genau ni ddigonir,  
 Pan tawdd yr aur y poenir hwythau,  
 O ! wŷr truenus, gydâ'u barus ddewis dduwiau.

Dyna'r pryd caiff pawb gydnabod,  
 Mai gonest ydyw eich cydwybod,  
 Hi dystiolaetha'r gwir o'ch mynwes,  
 Na wnaethoch gam â dyn na dynes,  
 Mewn man o'r byd lle b'ai chwi'n teithiaw,  
 Na gwasgu'n galed, un o'ch deiliaid, dan eich dwy-  
 law ;  
 Ond eich blasus waith dewisol,  
 Oedd cyfranu o'ch daioni'n gyffredinol.



Ni ddaeth i'ch grasol galon groesau,  
 Erioed o achos un o'ch achau,  
 Nac o'ch achos chwi eich hunan,  
 Fe wŷr y byd i gyd yn gyfan,  
 Beth bynag oeddynt, 'roedd Duw'n godde',  
 I brofi natur, grym, a mesur, eich grasusau;  
 A'ch cannu yma i'ch gwneyd yu gymmwys,  
 Etifedd helaeth, yn bur odiaeth, i baradwys.

Safasoch lawer o flynyddoedd,  
 Ym myddin Brenin y breninoedd;  
 A gwleddasoch yn gyffredin,  
 Drwy bur rinwedd gydâ'r Brenin,  
 Ar y pasgedigion brasaf,  
 A'r gloyw radol, wîn dewisol, o'r melusaf,  
 I fywiocâu eich holl ysbrydoedd,  
 A'ch hwylio i gerdded, yma'n addfed, at y nef-  
 oedd.

Pe ymgymmysgai'r byd preseunol,  
 Trwy ryferthwy tra aruthrol,  
 Y tir a'r dwr a'r holl elfenau,  
 Yn derwynol gan daranau,  
 Fe saif eich traed ar Graig yr Oesoedd,  
 Mewn dinas hyfryd, dawel, astud, ddidymhestl-  
 oedd,  
 A Duw â'i olwg yn eu gwylio,  
 Ei ddwyfol foliant, a'i ogoniant, ganant yno.



Hir oes hyfryd i chwi'r '*Scwïer*,  
 Dan bob bendith ac addfwynder,  
 Mewn ysbryd cryf a chalon lawen,  
 'Tra bo'ch milwriaeth dan yr haulwen;  
 Arwyddion yw fod Duw'n eich caru,  
 'Does blentyn iddo, nad yw'n addo ei geryddu,  
 Ei ddiben yw eich cael chwi'n gwbwl,  
 I hwyso nes-nes ar ei gynnes fynwes fanwl.

---

## C A N,

A ddanfonwyd gydâ Ffon Bengam, i'r Gŵr Boneddig uchel-  
 ddysg, a'r Cymro diledryw, a gwir Garwr ei Wlad a'i Genedl ei  
 hun; Darllenwr, Amddiffynwr, ac Angeleddwr yr hen Frytan-  
 iaith, &c. THOMAS LLWYD, Yswain, o Gwmgloyn.

*Ar Guinea Windsor.*

---

## GAN IOAN SIENCYN.

---

O GARIAD 'rwy'n danfon f' annerchion yn barchus,  
 I annerch deheulaw y '*Scwïer* da hwylus,  
 Pen bonedd Deheudir, mwyn iawn yn ei adwedd,  
 Yn lluniaidd ei rodiad, yn llawn o anrhydedd;  
 Yng *Nghwmgloyn* mewn palas clyd,  
 Yn fawr ei barch gan wŷr y byd,  
 'Mae'r '*Scwïer* LLWYD cariadus,  
 Yn eistedd, anwyl Ustus,

Rhydd allan farn ddeallus,  
 Y'mhob matterion dyrys  
     Gwybodus yw ei ben,  
     Nid adwaen i mo'i gydmar o dan y nen.  
 Llew'n ei fraint yn lluniaidd fry,  
 Yw arfau'r gŵr mewn yrfa gu,  
     Sy'n p'wyso'n hy'n achosion,  
     O fewn clorianau union,  
     A rhagorfreintiau mawrion,  
     Yr holl Frytaniaid mwynion,  
     Yn llon a gysson gais,  
     Heb ofni mo fygythion na swynion Sais.

Ffon newydd wy'n roddi a orphenais yn rhyfedd,  
 Yn bengam oddiarni nid amgen nâ dyrufedd,  
 A llun yn allanol, pen ebol wy'n dybied,  
 A'i ddull yn gyfrodedd, llawn agwedd a llygaid ;  
     A hyn i gyd gwir bryd ger bron,  
     O ddawn a pharch i harddu'r ffon  
     Y gollen gron barchedig,  
     A dyfodd yn y goedwig,  
     Yn impyn dewisedig,  
     I foddio gŵr boneddig,  
     Caredig ffrolig, ffraeth,  
     Nid er mwyn llaw gyffredin un dyn y daeth ;  
 Mae drosti wisg o risgl glân,  
 Ar eitha' modd o frithi mân,  
     Fel gŵn o sidan blethau,  
     Fai'n gydradd dros ei godrau,

A'i chorff odiaethol hithau,  
 Yn bedair o droedfeddau,  
 I ddewis cammau mannau mwyd,  
 Nid teilwng neb ei phleser ond y '*Scwier* LLWYD.

HUGH HUGHES yn ei efail gu adail a gydiodd,  
 Mewn efydd, a'i goethi, rhagorol y gweithiodd,  
 Gylch' melyn pwerus, dan rymus iawn rwygau,  
 Sy'n gampus yn edrych o gwmpas ei godrau;

A hoel brydferth dan ei bla'n,  
 O biniwn maith yn bennau mân,  
 I anturio graian terrig,  
 A llawer llethr llithrig,  
 A chroesi dwr a cherrig,  
 Rhag digwydd cam na dirmyg,  
 Neu flin adwythig waith,

Tra fo rhwng dwylaw'r '*Scwier* ar dyner daith.

Pa beth dâl llewyrch cynnyrch *cane*,  
 Ddaw dros y môr yn fyrgyrs mân,  
 Heb un yn bengam hefyd,  
 Ar ddull y gollen hyfryd,  
 Mor fuddiol am gyrhaeddyd,  
 A lle i'r gŵr afaelyd,

Yn ddiwyd, coeliwch hyn,  
 Mai'r gollen yw rhagorfraint ffyniant ffyn.

Os teg yw ei golwg yn wyneb y dalaeth,  
 Mae oll yn gyssonawl yn well ei gwasanaeth,

Nid er mwyn taro, ond myned yn dirion,  
 Oddiamgylch i rodio'n neheulaw'r gwalch rhadlon,  
 Ar hyd ei feusydd deunydd dawn,  
 I weled cynnyrch llewyrch llawn,  
   Gan eitha' grawn toraethus,  
   Y gwenith coch a'r barlys,  
   A thir meillionog melus,  
   I'r anifeiliaid hwylus,  
       Sydd foddus iddo fe,  
 Mae'n glodfawr iddo weled mor llawned lle ;  
 Os aiff trwy fwlchle drysle'r droed,  
 Fe gydia'r crybach am y coed,  
   Mae'n barod o bwerau,  
   I oleddu dros ei gloddiau,  
   I wel'd ei weithwyr weithiau,  
   Sydd yno yn ugeiniau,  
       I gyd mewn gorau gwaith,  
 Hir einioes gaffo'r '*Scwier* mewn mwynder maith.

Nerth gras a'r ysgrythyr gyff'lybir, 'rwy'n gwybod,  
 I ffon a gwialen wrth dramwy trwy'r gwaelod,  
 Lle dodwyd yn fadwys i'r eglwys wir oglyd,  
 I ddichlyn y llwybrau a'r camrau mae'i gym'ryd ;  
   Dyna ffon a chleddeu'r saint,  
   Sy'n cadw'n ol bob hudol haint,  
       Wrth enuill braint a choron,  
   A threiglo trwy beryglon,  
   Y fall, a'i holl ddichellion,

Mae'n cadw'i ben yn gysson  
 Uwch daearolion lu,  
 Tua phyrth y wlad drag'wyddol freiniol fry.  
 O ddiwyd ddyn, ei ddedwydd awr,  
 Yn nyffryn cysgod angau gawr,  
 Pan gollo'r wawr naturiol,  
 Fe fydd y byd ysbrydol,  
 O'i amgylch yn ddisgleiriol,  
 A'r cyfarwyddwyr grasol  
 Yn ei ddewisol ddwyn,  
 I mewn i'r etifeddiaeth foddiaeth fwyn.

---

## TRIOEDD ;

*AR FESUR TRIBAN.*

---

GAN IAGO AB DEWI.

---

TRI pheth a'm rho'dd mewn adfyd,  
 Hir orwedd mewn afiechyd,  
 Anrhaith tân, (Duw ar fy rhan!)  
 A henaint egwan hefyd.

Tri pheth a wella 'nghystudd,  
 Da heddwch Duw fy Llywydd,  
 Marw yn nawdd fy Mhrynwr mad,  
 Ac adgyfodiad dedwydd.

Tri gwenwyn pob cymmydog,  
 Athrodwr cyfrwys geuog,  
 Gwr gwenieithus teg ei wên,  
 A Suddas hen enllibog.

Tri pheth ni char fy nghalon,  
 Sef barnu rhwng cyfeillion,  
 Segura wrth oleuni'r dydd,  
 A gwraig anufudd ddigllon.

Tri chasbeth drwg eu harfer,  
 Gair teg a gwaith ysgeler,  
 Buchedd front gan lân o bryd,  
 A gwraig yn d'wedyd llawer.

Tri pheth sydd yn fy synnu,  
 Clywed fy nerth yn pallu,  
 Fy nhraed yn drymion yn y glyn,  
 A'm llygaid yn tywyllu.

Tri pheth sy'n hardd ar Gymro,  
 Dysgu yn graff a ddysgo,  
 Cofio ei ddysg yn graff heb feth,  
 A dweyd y peth a fedro.



## DIOLCHGARWCH Y PRYDYDD,

*I DDUW A DYNION; YN DDWY RAN.*

Ar yr un Mesur.

---

 GAN IOAN SIENCYN.
 

---

RHAN I.—I DDUW.

Ym mlaenaf mewn dyrchafiaeth,  
 A moliant a chanmoliaeth,  
 Moliannaf Dduw, fy Llywydd llen,  
 A'i ddiranc ben llywodraeth.

Duw sy'n rheoli'n hyfryd,  
 Y nef a'r ddaear hefyd,  
 Y gwynt, a'r gwlaw, a gyrfa'r don,  
 A'r mellt poeth-wylltion fflamllyd.

Mae'r llu damnedig, credwn,  
 Trwy gystudd wedi eu gostwn',  
 O tan ei law mewn carchar cau,  
 O fewn cadwynau annwn.

Os ymherawdwyr creulon  
 Gais ladd teyrnasoedd gweinion,  
 Maluria Duw, fel gwydr brau,  
 Eu cynnwrf a'u hamcanion.



Pan daeno haint niweidiol,  
 I fwrw'r bobl yn farwol,  
 Myn Duw ei hun mewn amser da,  
 Lwyr rwystro'r pla dinystriol.

Mae'n nerthu'n holl aelodau,  
 Mae'n rhifo gwallt ein pennau,  
 A'i drugareddau wrth y myrdd,  
 Yn llenwi'n ffyrdd a'n llwybrau.

Mae'n gyfiawn, mae'n arswydus,  
 Mae'n rasol, mae'n dosturus,  
 Mae'n weithydd rhydd, os d'wedaf lai,  
 Bydd arnaf fai anafus.

Lle'r oeddwn yn gystuddiol,  
 Dan budredd mall gormesol,  
 Ffordd drefnodd i wellhau fy llun,  
 'Rwy'n awr yn ddyn iachusol.

O f' Arglwydd Dduw, 'rwy'n galw,  
 Am nerth a chymmorth heddyw,  
 O hyn hyd fyth i fyw a bod,  
 Er clod i'th hynod enw.

RHAN II.—I DDYNION.

Y Cymry, 'rwy'n gobeithio,  
 Y dyoddefwch etto,  
 I ddweyd rhinweddau dyn i ma's,  
 A'r clod sydd addas iddo.

Mae'r boneddigion gorau,  
 Yn gwneuthur elusenau,  
 Canmoled pawb ei ddewis ddyn,  
 Mae clod i un gan innau.

Pan ganfu'r *'Scwier* prydlon,  
 Ei fardd dan glwy' mor greulon,  
 Fy nanfon wnaeth o'i haelaidd blaid,  
 I dŷ'r doctoriaid tirion.

At Meistr *Bowen* serchog,  
 A Meistr *Newman* enwog,  
 Ni wn i fod ar dir na môr,  
 Feddygon mor odidog.

Y Meistr *Newman* anwyl,  
 A'i offer awch i'w orchwyl,  
 Ddiwreiddiai'r drwg fel chwynu gardd,  
 Rhag nyrddo'r Bardd o'i berwyl.

A'u glân brentisiaid hawddgar,  
*Tom Griffiths* fwyn gyfeillgar,  
 A *John Evans*, p'le mae gwell  
 Dau gyfaill ar y ddaear.

Mae meistri rhai'n, neu hwythau,  
 Yn barod hwyr a borau,  
 Yn Aberteifi i drin o'r gwraidd,  
 Bob math o glafaidd glwyfau.

Boed rhad a bendith arnynt,  
 I wella pawb ddel attynt,  
 'Does un all gadw'r angau'n ol,  
 Rhag d'od i'n hol o'n helynt.



## CAN Y GYMMALWST;

I ofyn Pâr o Esgidiau, gan Dr. Davies, o Aberteifi.

*Ar yr un Mesur.*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

ATTOLWG, Meistr DAFIS,  
 Y Doctor mwyn gwybodus,  
 A rowch chwi Elusen rwydd o'ch rhan,  
 I'r Prydydd gwan anghenus.

Fe ddaeth y *Gowt* wenwynig,  
 O balas rhyw bendefig,  
 Attaf fi i'm bwth tylawd,  
 I rwygo'm cnawd yn ffyrnig.

Hi ddaeth fel ffol anffodiog,  
 O wely mân-bluf gwresog,  
 I wely gwellt o ysgafn drwch,  
 A brethyn cadfwch chweiniog.

Yr oedd hi'n cael ei digon  
 Mewn teiau boneddigion,  
 O felus fwydydd wrth ei chwant,  
 A'i maethu ar ddanteithion.

Cael *gin* i yfed yno,  
 Neu'r *liccer* fyddai'n *leicio*,  
 A gwas a morwyn wrth ei chlun,  
 I'w throi a'i thrin pan fynno.

“Come here, Jack, come quickly,  
 “Take care to turn me easy,  
 “Kick away that clumsy maid,  
 “I am afraid she'll kill me.”

Gwas na morwyn heini',  
 Ni feddaf i roi iddi,  
 Ond hen wraig gibddall grych ei grân,  
 I'w threiglo'n drwstan drosti.

Cawl dwr a gaiff hi druan,  
 I *frecwast* yn fy nghaban,  
 'Scadenyn hallt am hanner dydd,  
 A thracht, os bydd, o fwdran.

Yn denau caiff hi'r 'menyn,  
 Ar fara o haidd melyn;  
 O frwd a rhost ni chaiff hi bryd,  
 Tra par'o hÿd y flwyddyn.

Ni chaiff hi yfed hefyd,  
 Ond diod ledfain wichlyd,  
 A llawer iawn o ddwfr glân,  
 A gloywon succan surllyd.

Gan gynddrwg yw ei groeso,  
 Mae hithau yn ffyrnigo,  
 Ac yn gwthio ugain gwaeth,  
 O ddiffyg maeth i'w sirio.

Mae'n chwalu f' holl gymmalau,  
 Mae'n gwÿnio trwy'r gwythienau,  
 A'r gïau, gydâ'r croen a'r cnawd,  
 O ben y bawd i'r sodlau.

Hi'm trodd â'm torr i fynu,  
 'Does dim wnaiff foddiaeth iddi,  
 Ni ddyoddefa hi'r hen *scrâd*,  
 Mo'r dillad ar y gwely.

Mae'r *gowt* yn waeth i'w chanlyn,  
 Nâ *scold* o wraig ysgymmun,  
 Fe gysg y fenyw weithiau'n *stowt*,  
 Ni chysg y *gowt* amrantyn!

Os nad oes meddyginiaeth,  
 I'r hen gymmalwst ddiffaith,  
 Gan faint ei gwyth a'i gwyniau i gyd,  
 Hi ddyg fy mywyd ymaith.

'Rwy'n hen, 'rwyf yn fethiedig,  
 Ni cheisiaf genych physig,  
 Ond pâr o 'Sgidiau'n ddi sarhâd,  
 'Roi am fy nhraed chwyddedig.



## CYNGOR

IOAN SIENCYN I DDAFYDD EI WYR,

Pan oedd efe yn myned ar Wasanaeth at y Parchedig Mr. Thomas Griffiths, *Andover, Hants.*

*Ar yr un Mesur.*

FY anwyl Wyr, 'rwy'n erfyn,  
 It gofio pob gorchymmyn,  
 Ge'st gan dy Daid a'th fagodd, do,  
 Yn rymus, o dy rwymyn.

Mi'th gostiais yn yr ysgol,  
 I ddarllen llyfrau buddiol,  
 Ym mlaenaf dim tra f'ot ti'n fyw,  
 Addola Dduw'n wastadol.

Yr wyt yn myn'd i Loeger,  
 Yn ieuanc ac yn dyner ;  
 Cais ras gan Dduw fel plentyn da,  
 I esmwyth hela'th amser.

Na ddyro nâg am neges,  
 I'th feistir nac i'th feistres,  
 Os gwnâi eu harch trwy barch a bri,  
 Dy gynnal gei di'n gynnes.

Bydd garuaidd, bydd serchiadol,  
 Wrth blant dy feistir grasol,  
 A helpia hwy, di gei'n ddi-gas,  
 Dy gyfri'n was dewisol.

Rho barch i bawb, erdolwyn,  
 Na ateb neb yn daerwyn;  
 Rhag geiriau sarrug dan y ser,  
 Bob pryd ac amser ymswyn.

Llefara eiriau prysur,  
 Nac arfer lŵon budyr,  
 Mae Duw yn tywallt llid a bâr,  
 Yn rhygil ar y rhegwyr.

Bydd barod wrth achosion,  
 At law dy feistr prydlon,  
 Gwas'naetha ef â chalon rwydd,  
 Cai gantho'n ebrwydd wobron.

Amgylcha'th waith dy hunan,  
 Yn fywiog ac yn fuan;  
 Nid gado'th waith a helpu ffrynd,  
 Gad iddo fyn'd i chwiban.



Os gweli wastraff creulon,  
 Ar bethau'th feistir tirion,  
 Myn argyhoeddi'r sawl a fo  
 Yn camddefnyddio ei foddion.

Pan yrrer di yn gennad,  
 Gwna frys i fyn'd a dywad ;  
 A dyro gartre'n ufudd iawn,  
 O'th neges lawn fynegiad.

Os cei dy holi'n rhyfedd,  
 Trwy arswyd wrth yr orsedd,  
 Gwell i ti oddef cerydd llym,  
 Na thaeru dim anwiredd.

Rhaid i ti wyllo'n wastad,  
 A gwel'd â'th bedwar llygad,  
 Cyn bod yn gymmwys, coelia 'ngair,  
 I wneyd dy ffair na'th farchnad.

Dau yn dy wyneb purwyn,  
 Yn gwel'd pob cywir landdyn ;  
 A dau'n dy wegil, f' anwyl was,  
 Yn gwel'd dy gâs a'th elyn.

Na ddilyn ofer ddynion,  
 Na gwneuthur eu cynghorion,  
 Gweddia ar Dduw rhag estyn bys,  
 Y'mhlith twyllodrus ladron.

Na chanlyn ffyrdd na llwybrau  
 Y rhai fo'n dweyd celwyddau,  
 Nid gwaeth gan ddynion union hawl,  
 Yw gwel'd y diawl nâ hwythau.

Os byddi'n onest landdyn,  
 A geirwir fel 'rwy'n erfyn,  
 Ennilli barch ac enw da,  
 Gan fonedd a chyffredin.

Os gweli ddryll o arian,  
 A gollodd neb yn unman,  
 Na chadw ef, ond myn dan go',  
 Ei holloll grïo allan.

Bydd araf ac yn hwyrdrwm,  
 Wrth roi neu ateb rheswm,  
 Dyna'r union ffordd it', cred,  
 I ddattod caled gwllwm.

Bydd ddall mewn ambell gornel,  
 Bydd fyddar yn y dirgel,  
 Mewn llawer tŷ bydd ddigon mud,  
 Yn ymswyn d'wedyd *cwysel*.

Os cai dy wysio'n brysur,  
 I ddwyn tystiolaeth gywir,  
 Twng y gwir yn ofn Duw,  
 Dy ddyled yw ei wneuthur.

Os drygddyn gais dy guro,  
 Ddwy waith diodde'th daro,  
 A chyda'r drydedd taro e'n ol,  
 Dod arno ol dy ddwylo.

Paid a balchio natur,  
 O'th ddillad nac o'th synwyr,  
 Gwas penysgafn hanner ffel,  
 Fydd falch ar gèl ei feistir.

Na ddilyn goeg fursennod,  
 Sy'n boethion yn eu bwthod,  
 Hwyl ddystrywiasant, lawer tro,  
 Niferoedd o wrrywod.

Os byddi'n caru cwrw,  
 A mynych sipian hwnw,  
 Ti golli'th glod a'th barch dy hun,  
 Cei'th alw'n lòlyn meddw.

Paid a hiraethu'n ormodd,  
 Am dad na mam yn unmodd,  
 Na'th frodyr, na'th chwirydd cain,  
 Na'th daid na'th nain a'th fagodd.

Na ddisgwyl am y dyddiau,  
 Gael myn'd yn rhydd o'th rwymau,  
 Ond meddwl di o bryd i bryd,  
 Fod arnat fyd o'r gorau.

'Dyw un ar hugain oedran,  
 Ond blwyddyn wyllt benchwiban,  
 Dwl a meddal fydd dy fryd,  
 I ddechrau â'r byd dy hunan.

Os byddi'n ddyn daionus,  
 Yn ol it' fod yn *brentis*,  
 Fe ddyd dy feistir di'n ddifeth,  
 Mewn rhyw fywioliaeth hwylus.

Cwmp ar ben dy ddaulin,  
 Gweddïa, f'anwyl blentyn,  
 Hwyr a borau, tra fy'ch byw,  
 Am fendith Duw i'th ganlyn.

Mae gweddi'th daid oedranus,  
 Ar i ti fyw'n gysurus,  
 Yn ofn Duw hyd fin dy fedd,  
 Fel ceffych ddiwedd happus.

---

C A N

*I OFYN PERWIG I HEN WR 77 OED.*

Ar yr un Mesur.

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

ARTHUR JONES, Ysgwier,  
 O *Aberddwylan* dyner,  
 Wrth dref *Caerfyrddin* 'ry'ch chwi'n byw,  
 A blasus yw eich plaser.

Eich gwaith yw trin achosion,  
 Yn degaidd rhwng cym'dogion,  
 Mae'r gair rhwng pawb mewn llan a llys,  
 Eich bod yn Ustus cyfion.

Mae llawer un yn cwynfan,  
 Na wnaethech chwi eich trigfan,  
 Yn *Aberddwylan* fel eich Tad,  
 Er gwella'ch gwlad eich hunan.

'Rwy'n cyfarch i chwi'n barchus,  
*Ysgwier* mwyn haelionus,  
 Mi fum gymmydog i chwi gynt,  
 Yn byw mewn helynt hwylus.

Yn fynych gwnawn esgidiau  
 Dewisol, a bottasau,  
 A foddient *ladies*, beth dal son,  
 A'r boneddigion gorau.

Ond ni allasai 'nghalon,  
 I weithio'r *grefft* yn gysson ;  
 Gwell oedd genyf, dyna wir,  
 Ddifyrwch gwŷr bon'ddigion.

Mi fum yn heliwr hwylus,  
 Yn dal byrfwchod awchus,  
 A'r dwrgi dig, dan waeddi'n groch,  
 A'r cadno coch twyllodrus.

Mi fum yn *ffowler* dethau,  
 Yn cario *gwn* o'r gorau;  
 Mi saethais gant cyffyllog glân,  
 Ac ambell 'scythan weithiau.

Wrth godi'r *cock* yn uchel,  
 Yn uniawn mi wnawn *lesel*,  
 Mi saethwn wennol yn y gwynt,  
 Pe ehed'sai'n gynt nâ'r awel.

Mi weithiwn ffunen weithiau,  
 Heb gwllwm arni'n unlle,  
 Yn wastad deg o'r bôn i'r bla'n,  
 Fel gwaith o sidan blethau.

Mi wnes enweiriau hirion,  
 Rho'es blu ar fachau ceimion;  
 O *Gych* a *Theifi* dan eu nôd,  
 Mi ddeliais bysgod mawrion.

Mi blennais goedydd irion,  
 Mi wnes berllannau ffrwythlon;  
 Ennillais glod a chariad llawn,  
 Gan lawer iawn o ddynion.

Trwy f' holl drafferthion dyrus,  
 Ni cheisiais yn ofalus,  
 Bentyrru arian mewn un man,  
 Cyn myn'd yn wau oedranus.

Dechreuais fyn'd yn gleirchyn,  
 A'r henaint yn fy nghanlyn,  
 A minnau'n llwm, heb ddim dan glo,  
 I rannu iddo ronyn.

Fe wnaeth fy nhraed yn hwyrdrwm,  
 A'm hen ysgwyddau'n wargrwm;  
 Mae gwallt fy mhen, 'does arno fawr,  
 Mor wynned 'nawr a'r carlwm.

O'm clustiau, dros fy nghoryn,  
 'Does ar fy iâd un blewyn;  
 Mae 'mhen, a'm gwallt, a'm gwddwg i,  
 Yn mynych oeri'n erwyn.

Am hyn 'rwy'n ostyngedig,  
 O Meistir JONES garedig,  
 Yn deisyf arnoch ger eich bron,  
 Roi i mi burion BERWIG.

Un ydwyf fi'n ei fegian,  
 O'ch hen BERWIGAU'ch hunan,  
 Ni waeth pa wallt fo arno'n glwyd,  
 Os bydd ei rwyd yn gyfan.

Ni wisg'soch chwi, na'ch teidiau,  
 Ddim ond y moddion gorau,  
 Os rhoi a wnewch, fe dâl ei hol,  
 A'i ganmol gennyf finnau.



Pe cawn i BERWIG cryno,  
 Rhown ddiolch mawr am dano,  
 A \*phais a'm gw nai o'r bôn i'r brig, [\**coat.*  
 Yn w'r boneddig etto.

Ac wedi'n mew n cyn'lleidfa,  
 Caf weled rhai'n *cwncela*,  
 A'r lleill yn dweyd dan estyn bys,  
 " Ai Ustus yw'r gŵr yna."

Attebir hwnnw'n llawen,  
 " Paid camgymmeryd, fachgen,  
*Bankrupt* yw, sydd newydd 'nawr,  
 A dod i lawr o Lundain."

Ceir gwel'd pob gwraig oedranus,  
 'N *cartheiso*'n ddigon medrus,  
 A'u gwŷr yn tynnu eu hetiau 'lawr,  
 I BERWIG mawr yr Ustus.

Mi rodiaf finnau'n serchog,  
 'Run ddull a gŵr cyfoethog,  
 Beth wyddant hwy wrth wel'd fy llun,  
 Na byddaf ddyn arianog.

Os âf i dafarn weithiau,  
 Fe dd'wed y wraig yn ddiâu,  
 " Syr, dewch i'r *parlwr*, mi wna lŵ,  
 Y cewch chwi'r cwrw gorau.

'Rwy'n deall wrth eich dillad,  
A'ch doeth synwyrol siarad,  
Eich bod yn rhyw uchelwr glân,  
Diogan o ymddygiad."

Pan wisgo gwŷr tylodion,  
Hen ddillad boneddigion,  
Hwy gant ddyrchafiaeth ynddyn' nhw',  
Heb law eu cadw'n glydion.

Os rhowch chwi BERWIG glandeg,  
Wr anwyl, i mi'n anrheg,  
Mi garia'ch clod chwi Sul a Gŵyl,  
'Does le i chwi ddisgwyl 'chwaneg.

Danfonodd y Gwr Boneddig werth Pymtheg Swllt o *Berwig* i'r  
Hen Wr, Rhagfyr 12, 1787.

## CANMOLIAETH CYLLELL

O Waith SION DAFYDD, y Gôf, o'r Gelli-dêg, ym Mhlwyf  
Maenordeifi.—1746.

*Mesur*,—" *Serch Hudol*."

GAN IOAN SIENCYN.

DAN glo, at SION y Gô',  
Gŵr mawr ei barch lle bo,  
A'i fron ddifreg, o'r *Gelli-dêg*,  
Rho'es i mi anrheg, do ;

Nid seidyn sâl wyf wedi gael,  
 Ond Cyllell *reial* rym ;  
 Fath awch ni ddaw o Loegr draw,  
 Ni luniodd llaw mor llym ;  
 Yn wir hi nâdd y dur,  
 A'r gwydr glâs yn glir,  
 Hi dery dân o'r bôn i'r blaen,  
 Hi rwyga'r maen o'r mur ;  
 Hi nadda gyrn yn ddigon chwyrn,  
 A'r esgyrn breision gwiw,  
 A'i min fel saeth, heb fod ddim gwaeth,  
 Offeryn odiaeth yw :  
 Llifanu hon ni bydd,  
 Na'i hogi nos na dydd,  
 Ni ddaeth o bell erioed mo'i gwell,  
 Mae'n burion Gyllell crydd ;  
 Mae enw SION, gerllaw i'r bôn,  
 Rhag ofn lladron hyll,  
 Ac enw'r Bardd, fel blodau gardd,  
 Mae'n ddigon hardd ei dull ;  
 Ni chaed erioed ar ddur,  
 Fath dymmer, dyma'r gwir,  
 Glâs wawr-goch yw ei serchog liw,  
 Pob Cymro, clyw fi'n glir ;  
 Mae'n lleisio'n llyn, fel tant fai'n dÿn,  
 Mewn telyn, dylwyth llon ;  
 Rho'f glod mewn co', i SION y Gó',  
 Eleni am lunio hon.

Mae'r carn yn boddio'm barn,  
 A'r seidin heb ddim sarn,  
*Brazeel* yw'r coed sydd yntho'n bod,  
 Ni ddaeth erioed fath ddarn;  
 A'i amgarn tyn o *ivory* gwŷn,  
 Hi bar fel hyn yn hir;  
 Nid oes mo fath y gŵr a'i gwnaeth,  
 Tu fewn i'r dalaeth dir.  
 O de'wch, nac amhe'wch,  
 Y Cymry, mwy mawrhewch;  
 Gan SION heb sèn, yn bur ar ben,  
 Pob arfau cywrain cewch,  
 A'u gwedd yn *drim*, na welwyd dim,  
 Mor awchlym yn y fro,  
 A rhai'n yn llawn manolwaith, cawn,  
 Celfyddgar iawn yw fo;  
 Preswylid hwn ar dir,  
 Mewn iechyd hawddfyd hir,  
 Nes dysgu ei blant, ac ereill gant,  
 Dymheru dant y dur,  
 Er cynnal braint, heb hudol haint,  
 I'r Cymry cywraint waith,  
 A llenwi'n llon y deyrnas hon,  
 Ag arfau mwynion maith:  
 Pe deuai'r *Efrensh* y'ng hyd,  
 A'r *Spaniards*, *begers* byd,  
 Dros gefnfor glàs, i ymladd *sias*,  
 Trwy geisio'n teyrnas glyd,

Aiff Cymry y'mlaen, â'u harfau'n gain,  
 I glirio'r *train* o draw,  
 A pheri'n ffol, i droi'n eu hol,  
 Bob rhyw elynol law.

---

## CANMOLIAETH I WYR LLANDYSILIO,

Am ddal Cadnaw heb gynnorthwy Cŵn.

*Mesur*—"Sweet Richard," y ffordd fyraf.

---

### GAN IOAN SIENCYN.

---

WRTH rodio'r ma's foreuddydd glâs,  
 Ar Gnwc-y-Saer ddisiomgar sias,  
 Mi welwn Fadyn bronwyn bras,  
 Dros geugwm cras yn croesi;  
 Yn sydyn serth, fel cewri certh,  
 Daeth gwŷr *Llan'silio*'n fawr eu nerth,  
 I bwttio bawb o bob tu'r berth,  
 Yn gydnerth am ei godi;  
 Rhai â bêrau'n ddrwg eu naws,  
 Yn rhuthro ar draws yr eithin;  
 Ac ereill â'u pigfforchau 'nghyd,  
 Yn rhedeg 'rhyd y rhedyn;  
 O allt i allt yn wyllt eu gwawr,  
 Diammeu seinient, Dyma ei sawr,  
 Codi'r floedd a'r larwm fawr,  
 Nes cyffro llawr y dyffryn.

Hela'r pant ac ochrau'r nant,  
 A chyrs, a gwŷdd, a chorsydd gant,  
 A chreigiau moel, a chrygiau mant,  
 Heb fethiant wrth ei gynffon;  
 Gwaeddi'n fyw o dan y rhiw,  
 Wrth wel'd y Cadnaw'n codi ei ffriw,  
 Dringo'r fron a'r ddaear friw,  
 'Roedd pawb o'r *criz* yn greulon;  
 Y goreu ei draed i gario'i drwyn,  
 O lwyn i lwyn yn llinyn,  
 A'r lleill yn gwaeddi, 'R lleidr gwael,  
 Di haeddit gael dy ddilyn:  
 Y Cadnaw'n dianc fel y bêl,  
 A hwythau'n galw'n salw'u sel,  
 Fe orfydd i ti yn ddi-gêl,  
 A'th hoedel 'madael, Madyn.

Cwmpasu'n *rhanc* o ddeutu'r banc,  
 Pob henwr llesg mor llon a'r llanc,  
 A'r Llwynog brych yn llunio'i *branc*,  
 Pa ffordd i ddianc heibio;  
 Fe ffodd ar gais trwy odrau'r clais,  
 Yr oedd e'n crynu wrth eu llais,  
 A'r coed a'r cerrig ar eu cais,  
 Tuag at ei bais yn pwyso;  
 Fe waeddodd DAFYDD PHILIP—FOX,  
 Gan daflu ei *glocs* yn atgas,  
 A'r gwynt o'i drwyn yn gynt ei draed,  
 Na neb a gaed o'i gwmpas,



Fe dynnai blygiau arno'n fwyn,  
 Gwnaeth iddo droi er gwaetha'i drwyn,  
 I 'mguddio'n bendrist yn y brwyn,  
 Tu fewn i'r llwyn yn llanas.

Fe orfu'n awr, yn llesg ei wawr,  
 I'r hen Lwynogyn melyn mawr,  
 O'i gampau'n lân i gwympto i lawr,  
 Rhwng tyrfa ddirfawr arfog;  
 A rhocciad bach, â'u corgwn crach,  
 Yn ffoi oddiwrtho wich di wach!  
 Ym mrig y grug ni welodd gwrach,  
 Ffyrnicach, llymach Llynog;  
 Yr oedd e'n debyg gario'r dydd,  
 Nes daeth SION DAFYDD greulon,  
 Yn draws ei bryd, â'i drosol bren,  
 I hollti ei ben yn 'scyrion;  
 Fe gwympai'r lliaws arno'n llyn,  
 I ddarnio'r bradwr ar y bryn,  
 'Roedd gwŷr *Llan'silio*'n taro'n dŷn,  
 I \*gaffio yn ei gynffon.

Pe deuai gwŷr y Deheu-dir,  
 A Gwynedd hen a'i gwenydd hir,  
 I hela (clywch) ar forau clir,  
 Fel brodyr difyr prydferth;  
 Yn uwch eu bri, mewn croywach cri,



Bydd gwŷr *Llan'silio*'n seinio si,  
 Ar hyd y coed heb redeg ci,  
     Hwy ddaliant Gedni'n gydnerth :  
 Pe deuai arth o barth y byd,  
     Neu flaidd newynllyd creulon,  
 I *Llan'silio* i gadw eu gradd,  
     Hwy gaent eu lladd yn union ;  
 Mae yno helwyr difyr da,  
 O gedyrn hen, mi gadarnha',  
 A ddaliant bryfed diriaid dra,  
     O'r garwa' dan y goron.

---

## PENNILLION,

A anfonodd y Prydydd mewn *Valentine* i'w Gariad, wedi hynny  
 ei Wraig.

*Ar Spanish Minuet.*

---

GAN IOAN SIENCYN.

---

F' ANWYLYD hyfryd hafaidd,  
 Yn syw heb sèn, derbyniwch, Gwen,  
 Fy llythyr, meinir fwynaidd,  
     I'ch mawredd bonedd ben ;  
 Damweiniodd i mi'n gynnar,  
 Wrth *lot* yn wir eich enw pur,  
 Yn ol f' ewyllys hawddgar,  
     Fy meinwar glaeare glir ;

Am hyny'n awr mi ddoda'i lawr,  
 Eich enw gweddus, dauliw gwawr,  
     Mewn *Valentine* ddewisol,  
 Nid er mwyn tâl o fawrion fael,  
     Ond geirwir gariad gwrol,  
     Dymunol genyf gael:  
 Da gwyddoch chwi, 'r Fun *braf* ei bri,  
 Pa beth yn hawdd a'm boddia i,  
     Cael arwydd cu o'ch cariad,  
 Trwy obaith llawn o'r cyd y cawn  
     Gyd-oesi trwy ddewisiad,  
     Fy nghariad deg ei dawn.

Mae coed y maes yn deilio,  
 A'r 'hediaid glân, o fawr i fân,  
 Fel tannau pêr yn *tixnio*,  
     Ymliwio maent yn lân;  
 Mae pob rhyw edn hawddgar,  
 Yn canu'n glyd, mor fawr ei fryd,  
 Yn gydnerth am ei gydmar,  
     Tros wyneb daear fyd:  
 A minnau sy, ddyn ffraethaidd *ffri*,  
 Yn ddiwyd yn eich dewis chwi,  
     Fod i myfi'n gydmares,  
 O waith fy mod o dan fy nôd,  
     I'th wylïo er y'th welais,  
     Cei genyf gynnes glod;  
 F' anwylyd bur, mae'n wir fy mod  
 Yn caru'ch gwedd trwy glauwedd glod,

Lliw'r manod hynod hanes,  
 C. R. 'rwyf fi'n dy ddewis di,  
 Fod i mi yn gydmares,  
 Fy nuwies gynnes gu.

---

## CANMOLIAETH MERCH,

A Chwynfan ei chywir Garwr.

*Ar y Duke of Gloucester's March.*

---

GAN JOHN HOWELL.

---

DEWCH, Brydyddion, dewrion, dwys,  
 Glewion, glwys, i gymmwys gammol-  
 Merch ragorol, fwynaid, faul,  
 Gwaddol gwiw yw ei gwedd ;  
 Pe cawn i feddiannu hon,  
 Feinwen union, hoywfron, hyfryd,  
 Mi gawn wynfyd mewn llawenfyd,  
 Hawddfyd clir, hir, a hedd ;  
 Wrth edrych ar ei thegwch,  
 Mae diddanwch da i ddyd,  
 O'i gweled hi cyn laned,  
 Ac mor llòned yw ei llun,  
 Blodau'r teir-gwlad, hardd ymddygiad,  
 Claf yn wastad wyf o'i chariad,  
 O waith i mi hoffi tremiad  
 Llygad llon hon ei hun :

Fy nghalon sydd ddolurus,  
 Dyn afiachus ydwyf fi,  
 Byw tan boenau trymion beunydd,  
 'Rwyf yn brudd o'i herwydd hi,  
 Y baunes benaf, aeres araf,  
 Fun ddaionus fwyn ddianaf,  
 Yn y bedd ar fyr y byddaf,  
 Oni chaf *braf* ei bri.

Y feillionen lawen, lon,  
 Dwyrudd dirion, union, enwog,  
 Lân, galonog, bydd drugarog,  
 Fywiog ferch, serch y sydd;  
 Dere heddyw, dyro hedd,  
 Gwna drugaredd beraidd burion,  
 Claf yw nghaniad, clyw fy nghŵynion,  
 Linos lon gron ei grudd;  
 Truenus boenus benyd,  
 Yw fy nghlefyd sy'n fy nghloi,  
 Dere'n gymil, dirion gannaidd,  
 Bydd o'm plaid, a phaid a ffoi;  
 Bydd feddyges, ddynes ddawnus,  
 I fy ystlys sydd ddolurus,  
 Mae fy nghalon glafaidd glwyfus,  
 Megis plwm trwm yn troi:  
 'Rwy'n cario cerydd cariad,  
 Cystudd gwastad, profiad prudd;  
 Fy ngobaith, eneth anwyl,  
 Sydd yn disgwyl am y dydd,

Yn yr ammod ini 'mrwymo,  
 Hyn yn fwyndeg wna i mi *fendio*,  
 Cyn yr elo'm corff mewn amdo,  
 Lawr i'r gro, rho fi'n rhydd.

Lawen Leuad ddifrad dde,  
 Wiwdeg oreu erioed a gerais,  
 Mi'th gymmeraf yn gymmares,  
 Ddynes ddoeth, goeth, os caf,  
 Mae rhyw fwynder llawnder lles,  
 Yn dy gynnes fynwes, feinwen,  
 Hardd winwydden, liwus, lawen,  
 Seren syw, clyw y claf;  
 A gwel fy agwedd egwan,  
 O mor druan 'rwy'n ymdroi,  
 Gwn, os mynni, gelli rod-di  
 Gair yn *ffri* i'm gwir gyffroi,  
 Dim ond addo hyn im' heno,  
 Cawn ammodau cyn ymado,  
 I ymrwymo, doed a ddelo,  
 Dyro'th gred, d'wed y doi,  
 I gael cyrhaedd cwlwm cariad,  
 Hen arferiad hyn o fyd;  
 Cei anrhydedd parod puraidd,  
 Hyd y bedd, a hedd o hyd;  
 Mewn amynedd c'ruaidd, croyw,  
 Di gei fawredd da hyd farw,  
 Tro fy chwerw gerydd garw.  
 'N loyw lân gân i gyd.

CYFFES AC ACHWYNIAD MAB IEUANC, A SIOM-  
WYD MEWN CARWRIAETH.

*Ar Bonny Jockey.*

Gan JOHN EVANS, o Lanfiangel-Ystrad, Swydd Ceredigion.

Dos, Lythyr dwys lyth'renau,  
Hyd at fy nghariad innau,  
Lliw blodau coed afalau,  
    'R perllanau gorau eu lliw ;  
Dwy olwg fel eu gilydd,  
Mor llon yn llawn llawenydd,  
Arwyddion tég o'u herwydd,  
    Sydd yn dy ddwyrudd wiw ;  
F' anwylyd fach fwyneiddia',  
Dawn weddol o'r dedwydda',  
Ti'm rho'ist mewn penyd poenfa,  
    Lliw'r eira gwyna'i gwedd ;  
Gwna d'allu gwell nâ'r hollfyd,  
A chael ychwaneg iechyd,  
Cyflawna'n dda dy addewid,  
    Cawn fywyd hyfryd hedd.

Pe cawn i'r fwyaf garwn,  
Dduwiesan, ti ddewiswn,  
Dim chwaneg ni chwennychwu,  
    Cofleidiwn hon o hyd ;



O clyw fy nghŵyn, attolwg,  
 Rwy'n awr o galon ddiddrwg,  
 A'm dwylaw am dy wddwg,  
 Ffraeth olwg deg ei phryd;

Os *mentri*, blodau Cymru,  
 Lân gowlaid, yn gydwely,  
 Digionedd ydyw geny'  
 Dy feddu, Gwen ddifai;

Cawn fyw yn gyfanneddol,  
 Cyd-dynnu mor gytunol,  
 Trwy gariad tra rhagorol,  
 Pur *reiol* yn parhau.

Er hyny 'rwyf yn gweled,  
 Yn llawn o flaen fy llygaid,  
 Blinedig ydyw'r blaned,

A'r dynged 'rwy'n eu dwyn;  
 Serchiadau anorchfygol,  
 Dwys gariad anesgorol,  
 Rhyw foddion rhy ryfeddol,

Fel anamserol swyn:  
 Yn awr 'ry'ch chwithau'n gwadu,  
 Mewn geiriau nad wy'n caru,  
 Na chair mewn llwyn llawenu,

Mwy mo'ch cwmpeini chwi;  
 Am hyny mae'n beth rhyfedd,  
 Fod cariad oer yn cyrhaedd,  
 Yn rhynu blodau rhinwedd,  
 Amynedd da i mi.



Os wyt ti, dwyael feinion,  
 Am dorri'r hen addewidion,  
 Fu rhyngom gynt yn ffyddlon,  
     Dwys union, dewis di,  
 Ac yn bwriadu'n helaeth,  
 Roi heibio mor ddiobaith,  
 Heb gofio'r hen garwriaeth,  
     A'r ffraeth gydymmaith *ffri*;  
 Rho etto i mi ateb,  
 Heb fod yn llwyr wrthwyneb,  
 Cydseinia mewn cyssondeb,  
     Llon wyneb main ei llun;  
 Os ffarwel pob athrodion,  
 Dymunaf eithaf moddion,  
 Rhyw un wrth fodd dy galon,  
     Heb droion, hawdd ei drin.

Pob llwyddiant a llawenydd,  
 Fo ganwaith ar wiw gynnydd,  
 I chwi a'ch holl garennnydd,  
     Iach beunydd wrth eich bodd;  
 Yn 'chwaneg, beth dâl achwyn,  
 Am bethau nad yw'n perthyn,  
 Aeth rhyngom bob yn ronyu,  
     Bai ar ba un yr oedd:  
 Ond cadwed pawb ei feddwl,  
 Nid yw hyn fawr o *drwbwl*,  
 'Nawr cilio wnaeth y cwmwl,  
     A'r meddwl yn y man:

Pan dderfydd tywydd oeraidd,  
 Daw hyfryd hinon hafaidd,  
 Mi rodiaf mewn anrhydedd,  
 Bydd rhinwedd ar fy rhan.

---

C A N,

Yn gosod allan Fywyd helbulus y TRI CHAETHWAS, neu  
 DRI SLAVE CYMRU.

*Tôn Miss Molly Brown.*

---

GAN EVAN THOMAS, O LANARTH.

---

TRI *Slave* wy'n weled yn y wlad,  
 Yn byw dan draed y byd,  
 A rhai'n yn rhwym wrth arch pob rhai,  
 Ond gwaeddi—Hai, o hyd;  
 Y LAB'RER gwan fo'n cynnal llwyth  
 O dylwyth yn ei dŷ,  
 Y CI, a'r COBLER, yn ein bro,  
 P'un waetha' tro o'r tri.

Mae'n rhaid i'r LAB'RER godi lawr,  
 Cyn torro'r wawr i'w waith,  
 A myn'd trwy'r dom ym mhell o dir,  
 O bosibl filltir faith;  
 A bod trwy'r dydd â'i *glocs* yn ddwr,  
 Mewn fferlyd gyflwr gwael,

Trwy'r tywydd oer heb orphwys awr,  
Tra golau'r wawr i'w gael.

Pan gauo'r wawr aiff tua'r tŷ,  
Gael tynnu at y tân ;  
Fe fydd y tylwyth yno'n gryg,  
Heb le i roi' big y'mla'n ;  
Rhaid iddo eiste' mhella'n ol,  
Os caiff e' stol heb stwr,  
A chrafu'r maip cyn myn'd tua thre',  
Gael gwneyd y goreu o'r gŵr.

Pan ddarffo crafu'r feipen fwyn,  
Ei dasg fydd dirwyn twysg ;  
Gael cadw'r LAB'RER y'mhob gwedd,  
Oer osgedd yn ei rwysg,  
Nes cael ei swpper fel caeth was,  
Heb urddas ar y bwrdd,  
Yn ol cael hwe wrth lyncu hon,  
Rhaid chwilio'i ffon fyn'd ffwrdd.

Rhaid iddo weithian tua thre',  
Dan dwthian ddechre ei daith ;  
A hithau'n dywyll fel y *pitsh*,  
Ond dyna *witsh* o waith ;  
Trwy'r dom, trwy'r dwr, trwy'r llacca llwyd  
Trwy'r gors, hyd glwyd ei glin,  
Nes myn'd i'w fwth yn llwyd ei big,  
Heb wedd na diwyg dyn.

Ei wraig a fydd, pan ddel i'r tŷ,  
 A'i lliw a'i lletty'n llwyd ;  
 A'r plant yn crio o ddeutu'r tân,  
 O fawr-i fân am fwyd ;  
 Heb ganddo rith yn myn'd tua thre',  
 Gael llonni gartre' llwm ;  
 Ond dyna *Slave*, pwy ddengys lai,  
 Dan lwyth o drai'n rhy drwm ?

YR AIL *SLAVE*.

Mae'n rhaid i'r *COBLER*, sâl yw'r swydd,  
 Cyn boddio'n rhwydd bob rhai,  
 Roi'i ledr coch, a'i gŵyr ei hun,  
 A'i hemp, a'i lin, heb lai ;  
 Rhoi pwyth i hwn, a chlwt i'r llall,  
 Bydd chwith os pall e 'chwaith ;  
 Heb ddim i dderbyn yn y man,  
 Ond diolch gwan o'r gwaith.

Fe fydd, nos Sadwrn, dan ei boen,  
 Heb fawr o hoen brydnawn,  
 Yn gwneuthur cymmwynasau mân,  
 Am ddiolch llydan llawn ;  
 A sychu'r dom fydd yno'n drwch,  
 Hyn, coeliwch, sydd fyd cul,  
 Heb gael oddiwrth eu diolch hael,  
 Ond ciniaw sâl ddydd Sul.

Pe ai i'r farchnad yn un swydd,  
 A diolch rhwydd pob rhai,  
 Ni phryn e ledr coch na llin,  
 Neu gŵyr at drin ei drai;  
 Pan fyddo eisiau ffyddlon ffaig,  
 I blith y wraig a'i blant,  
 Fe wna un geiniog fwy o les,  
 Na diolch cynnes cant.

Os bydd e'n claddu brawd neu chwaer,  
 Daw pawb yn daer i'w dŷ,  
 A'r rhai'n erio, saith neu wyth,  
 T'rewch bwyth heb fwyth i fi;  
 Wrth foddio rhai'n, fel caethwas ffol,  
 Am ddiolch siriol sych,  
 Bydd ei ddwy law a'i 'ffedog lom,  
 Gan ddom yn ddrwg o ddrych.

Fe *drotian* yntau yn y man,  
 Mewn ffwdan megis ffol,  
 Trwy ganol trawsdir, dros y bryn,  
 Mor hylm yn ei hol,  
 Cyn cribo'i ben na golchi'r clai,  
 Na 'chwaith goffau ei ffon,  
 A'i wallt yn ffagl yn y gwynt,  
 Ond slafaidd hynt yw hon.

## Y TRYDYDD SLAVE.

Y C1 yw'r nesaf, a'i goffâu,  
 Ond gwaeddi—Hai, hoi, hw!  
 Mae'n rhaid i hwnw fyn'd i maes,  
 Os cerdd e'n llaes bydd llw;  
 A phawb yn gwaeddi—Dewch â'r C1,  
 Mae'r moch yn nyrddu'r ardd,  
 Dan grio—Huss, dros ennyd hir,  
 Heb air yn wir o wa'rdd.

Ond gwedi cydio'n un o'r moch,  
 Nes gwaeddi'n groch ei gri,  
 Dechreuant godi'r fonllef fawr,  
*Gwtlŵ*, ai cawr yw'r C1?  
 A rhoi iddo ddyrnod maes o law,  
 Nes byddo draw'n pendroi,  
 Gan ddweyd—A ydyw hyn yn *bráf*,  
 Pam 'roe'ch chwi'r *cnáf* yn cnoi?

Os â fe'n ol ymluo'n lân,  
 Gael gwres y tân i'r tŷ,  
 Bydd pawb yn crio—Trowch e maes,  
 Ffwrdd, *horswn* cas yw'r C1;  
 Os pall e redeg gydâ'r waedd,  
 Am hyn ni faedd e fyw,  
 Os cyny fe'r croen fe gaiff bob gris,  
 O'i ais ar frys yn friw.

Wel, dyma'r TRI sy'n cael eu trin,  
 Mewn cyflwr blin, heb lai,  
 A'u gwaith i bawb tra b'ont mewn byd,  
 Yn rhwym o hyd wrth Hai;  
 Cewch gynghor llawn, heb geisio llog,  
 Mewn 'chydig serchog swm,  
 Na throwch mo'ch chwith awdurdod chwi  
 Tros un o'r Tri'n rhy drwm.

---

C A N,

O Ganmoliaeth i'r Anrhydeddus GEORGE RICE, Yswain, o'r  
 Diennydd, Swydd Gaerfyrddin, a Dymuniad y Prydydd i'w  
 ethol yn Aelod o'r Senedd.

*Ar Fesur Old Darby.*

---

GAN EVAN POWELL.

---

TRWY'ch cennad, fwyn ddygiad Fon'ddigion,  
 Dangosaf yn gysson ar gân,  
 Mae f'wyllys y'mhellach nô'm gallu,  
 Fel hyn i m'fi 'leni fyw'n lân;  
 Dymunwn yn barchus 'bawn berchen,  
 Wr dewr, ar ryw darren o dir,  
 Dewiswn i RICE yn wir wresog,  
 Yn Farchog, w'r serchog, o'r Sir.



Am hyn 'rwy'n dymuno'n dwym onest,  
 Ich' *sentro* rhoi'ch *int'rest* yn iawn ;  
 'Mrowch godi'n wych gydà'r *Drenewydd*,  
 Er llunio'm llawenydd yn llawn ;  
 Mae'r Gŵr mor hawddgared i'w garu,  
 Mae'n glydwch rhag c'ledi mewn gwlad ;  
 Nôd byfawl, mae'n addo bod hefyd,  
 Mewn rhwydd-deb i'n rhydd-did yn rhad.

Ni cheir yn ein hardal wên hyfryd,  
 Ond odid, a d'wedyd y gwir,  
 O fil un amgenach ei foliant,  
 Er ffyniant heb siomiant i'n Sir ;  
 Mae RICE wedi ei rasol wir osod  
 Yn gymmwys i gymmod, mi gwn,  
 Pwy Aer ellir ethol yn Farchog,  
 Mor enwog a'r rhywiog Wr hwn.

Fon'ddigion, mewn gwisg-lon, ymgesglwch,  
 Yn fawr eich dyfyrwch di fâr,  
 A galwch o gornel i'w gilydd,  
 Bob gŵr alloch gyrhaedd yn gân,  
 Ar gynnydd er cwnni rhai cannoedd,  
 Er gwledda mewn gwleddoedd mwyn glod,  
 Droï'n hawen ni gydà'r *Drenewydd*,  
*Dinefwr*, dawn ufudd dan nôd.

'Rwy'n dirnad addurna'r diwrnod  
 Ryw hynod ryfeddod ry fawr,

Pan ddel y penddygiaid Fon'ddigion,  
 A'u gweision, rai glewion, i glawr ;  
 Rhoi lle o fewn tai i finteioedd,  
 Bydd llawer i'w lluoedd yn llon ;  
 Cawn fyrddiwn i mewn i *Gaerfyrddin*,  
 I *Heol-y-Brenin* ger bron.

O *Lanbrán*, fe ddaw'r *Gwynn* ar ei ganfed,  
 A'i werin i waered yn wych,  
 Mor aml, bydd anhawdd iawn imi,  
 Amcanu pennodi pwy'n y'ch ;  
 A'r *Cilgwyn*, *Rhydodyn*, rhaid ydy',  
 Cael gweled *Cwmgwili* can gwell,  
 A channoedd o wych enwau'n ychwaneg,  
 Ië, mwy nag wy'n fyneg y'mhell.

*Glungwili*, *Dolgothi*, *Llangathen*,  
 Oll ydyn' yn llawen eu llun,  
*Llanddyfri*, *Llangadog*, llon godan',  
 A'r *Llwyd Denyrallt*, dan yr un ;  
*Cynghordy*, *Cnecchdeiliog*, eich dauwell,  
*Glan'rannell*, heb gymhell *Cwmgwllaw*,  
*Clynmarch*, a'r *Pantglás*, er pan glywson',  
*Man'rabon*, *Llandeilo*'n llon daw.

Wrth fyn'd yn wŷr siriol i'r *sirhall*,  
 Yr olwg fydd *reial* ar rai ;  
 Gwŷr iachus a'r uchel o'r achau,  
 Mewn *lasau* da foddau difai :

Ac yno caiff RICE ei dderchafu,  
 A'r werin ânt fynu i'r fainc ;  
 Dewisol a moesol y miwsig,  
 Pan gwnnant yn cynnyg eu caiuc.

Yn union a'u henwau hwy yno,  
 Y brysiant i *bozwlio* un o bell,  
 A rhai yn cof ryfedd gyfrifo,  
 I chwilio pwy allo fod well ;  
 Ac yna pan hollawl enniller,  
 Ef godir i'r gadair ar gais,  
 Gan grio'n boeth—RICE, yn byth wresog,  
 Yn Farchog, galluog eu llais.

Bydd clych yr holl drefydd ar drafod,  
 Iaith hynod, a thafod, a thant,  
 Y pibau a'r *drymau*'n dra amal,  
 A gwenydd i'w gynnal gan gant ;  
 A'r cwrw yn cer'ed i'w caro,  
 I yfed a fynno'n y fan ;  
 A'r bwyd i'r yn bybur i'r bobol,  
 Caiff pob un wrth reol ei ran.

Mor wych bydd *Dinefwr* dwyn hafaidd,  
 'N ymwrio ym mawredd ei mur ;  
 Uchenaid a chwinnwr' ei chanon,  
 A'r daran i'r dewrion fel dur ;  
 Ac udgyrn a chwythgyrn, uwch wythgant,  
 Ar gynnydd dewr ganant ar g'oedd,

I'w roesaw drwy nawdd i'r *Drenwydd*,  
Mawr ryfedd mor ufudd eu bloedd.

GEORGE RICE sydd urddasol wŵr isel,  
A'i achau mawr uchel mor wych,  
O dyfiad hynafiaid *Dinefwr*,  
A'i deidiau o DEWDWR yn grych;  
Gŵr gorau o gamrau'r hen Gymry,  
Fu gynt yn rheoli'n wir hael,  
Pen Bonedd dwys ágwedd Dywysogion,  
Un gwiwlon ei galon, nid gwael.

Mae'r hanes mor hynod ei hunan,  
I bawb a'i darllenan' yn llyn,  
O'i deulu mae'n dâl ei waedoliaeth,  
A chwilio'i fawl helaeth fel hyn;  
Iawn benaeth o dalaeth ei dylwyth,  
Wir haelaidd oreulwyth erio'd,  
Yn cadw ei drefdadaeth dra dedwydd,  
Draws neuadd y *Drenwydd* drwy nôd.

Mewn coedwig fawledig fel Eden,  
Mae'r lliwus dŵr llawen dewr llon,  
A'i balas fel dinas fawl doniol,  
Rhwng bryniau lle breiniol o'u bron,  
Bro desog, bryd isel, baradwysaidd,  
Man hefyd mwyn hafaidd mewn hedd,  
A'i ffrwythau, pêr lysiau, pur leision,  
Trwy'r gerddi tra gwyrddon eu gwedd.

Yn awr i orphenu ar ffyniant,  
 Dymunaf wir lwyddiant i'r wlad ;  
 Hir oes i fwyn RICE i fyw'n rasol,  
 A'i fryd yn hyfrydol heb frad.  
 Dymunwn, yn glydion i'm gwladwyr,  
 Ymsynied am synwyr heb sèn,  
 I'r diben attebir 'rwy'n tebyg,  
 'Rwy'n 'madael, rhwymedig, Amen.

## ENGLYNIION

Ar Gylchwyl Genedigaeth SACFIL GWYN, Yswain, Etifedd  
 Glanbrân, Swydd Gaerfyrddin.—Awst 13, 1821.

GAN JOHN HOWELL.

GLANBRAN yn-wiwlân a welir,—yn awr  
 I ni y cyhoeddir,  
 Un o hil GWYN clauwyn clir,  
 Ddewrwyh hoywfab ddyrchefir.

Aer manol breiniol GLANBRAN,—eleni  
 Dd'ai'n lonwyrch i'w oedran ;  
 O bur uchel waed \*BRYCHAN,  
 Tyfodd glew Etifedd glân.

---

\* *Brychan* the King of Brecknock, of which line the Gwyn-  
 iaid of Glanbrân are descendants.

Unwn i yfed heno — ei iechyd,  
 Gan uchel-ddymuno  
 Llwyddiant ar ei holl eiddo,  
 Ac Aeres i'w fynwes fo:

Aeres fonheddig euraid, — wiw uchel,  
 O achau Blaenoriaid,  
 Drugarog, rywiog, wrth raid,  
 I gynnal achos gweiniaid.

Hir einioes ddi loes, dda lesiant, — i'r Gwyn,  
 Ar gynnydd mewn ffyniant  
 Di luddias boed ei lwyddiant,  
 Oreufwyn Wr, ar fin nant.

Pan ddel i'w fad Dreftadaeth, — byd addas  
 Boed iddo'n ehelaeth,  
 A Phob llawnder, mwynder, maeth,  
 O'i fuddiol etifeddiaeth.

DIWEDD!



# Y CYNNWYSIAD.

*Gwaith y Parch. EVAN EVANS, (Prydydd Hir.)*

TO DAL.

<b>C</b> YWYDD y Messiah .....	1
Awdl y Nef.....	9
Englynion o Ddiolchgarwch i Dduw .....	12
Awdl ar Ddyoddefaint Crist .....	13
Cywydd Marwnad y Pendefig Robert Davies .....	17
Englynion i Wr oedd mewn Carchar am Ddyled .....	20
Cywydd Marwnad Lewys Morys, Yswain.....	21
Cywydd Hiraeth y Bardd am ei Wlad .....	26
Awdl i'r Parch. Mr. Wynn, Person Llangynhafal .....	31
Englynion i Ddewi Fardd, ac i'w Lyfr .....	34
Englynion i Lys Ifor Hael .....	36
Verses on seeing the Ruins of Ivor Hael's Palace.....	37
Englynion ar Fyrdra Oes Dyn .....	38
A Paraphrase of the 137th Psalm .....	39
Cywydd Marwnad Ffrederic Tywysog Cymru .....	42
Hyriad i'r Offeiriad o Dregaron .....	45
Cywydd a ganodd y Parch. Gro. Owain i'r Parch. E. Evans	48
Pedwar Englyn Milwr yn cyfarch Gronwy Owen .....	50
Attebiad Goronwy Owain .....	51
The Penitent Shepherd .....	52
Y Bugail Edifeiriol.—Cyfieithad y Parch. D. Ellis.....	55
Dau Englyn:—I. I'r Angylion. II. Cyngor i'r Cyfoethog	60
Tawelwch Meddwl.—Cyfieithad o Gerdd Ladin .....	254

*Gwaith Mr. JENKIN THOMAS, o'r Cwmdu, Ceredigion.*

Cywydd Marwnad Mr. Ifan Gruffydd, o'r Twrgwyn .....	61
Cywydd i'r Target, neu'r Saethnod.....	62
Englynion ar amryw Destunau:—I. I'r Bont .....	63
II. I Geri. III. I Dafarn y Cawl. IV. I'r Ieuenctid. V. I'r Gofid .....	64
Cyngor Tad i'w Fab.....	201
Cân yn dangos Cyflwr Dyn yn ei Ieuenctid, yng Nghanol Oedran, ac mewn Henaint.....	333
Cyflwr Dyn mewn Henaint, a Rhybudd i'r Ieuenctid.....	339
Saith Cwmwl Henaint .....	340
Cân yn annerch Sion Ifan y Crydd, o Gebidiog .....	346







## PENLLWYDNI.

GAN H. MAUBICE HUGHES, NEW YORK.

Digynwrf, hardd, ddystaw genad,—llednais  
Yw penllwydnt, 'n wastad  
A'i hynawsaldd ddynesiad  
Tyn ein trem at henaint rhad.

Gwneyd y gwallt yn rhyw gnwd gwyn—o swyno  
Dlysineb,—mwy dillyn  
Na barug ar ben Berwyn,—  
Dyna swydd penllwydnti syn.

Er mai dwys brudd-der drwy'm born—a leda  
Heirdd flodau'r "pren almon,"  
Lliw henaint a'i ddillynion  
Roes fri ar benllwydnti llon.

Llednais orchudd penllwydnti—am yr hen  
Mor hoff yw ei dlysi;  
Wele eilun y lili  
Ddoda Naf heb ddweyd i ni.

Llaweroedd o weill arian—ar y pen  
Er pob rhwystr ddon't allan;  
A henaint guddla'i hunan  
O dan glog penllwydnti glan.

Duw Ion o'i rad ini a roes—y gwallt  
Gwyn, er pob duŵanfoes,  
I harddu'r wedd'ddiwedd oes  
Yn swynol wisg nos einloes.

---

LLYTHYRAU O'R IALMAEN.



## LINCOLN'S FAVORITE POEM.

Oh, why should the spirit of mortal be proud?  
 Like a fast-flitting meteor, a fast-flying cloud,  
 A flash of the lightning, a break of the wave,  
 He passeth from life to his rest in the grave.

The leaves of the oak and the willow shall fade,  
 Be scattered around and together be laid;  
 And the young and the old, and the low and the high,  
 Shall moulder to dust and together shall lie.

The child that a mother attended and loved,  
 The mother that infant's affection who proved,  
 The husband that mother and infant who bless'd—  
 Each, all, are away to their dwellings of rest.

The maid on whose cheek, on whose brow, in whose eye,  
 Shone beauty and pleasure—her triumphs are by;  
 And the memory of those who have loved her and praised  
 Are alike from the minds of the living erased.

The hand of the king that the sceptre hath borne,  
 The brow of the priest that the mitre hath worn,  
 The eye of the sage, and the heart of the brave,  
 Are hidden and lost in the depths of the grave.

The peasant whose lot was to sow and to reap,  
 The herdsman who climb'd with his goats to the steep,  
 The beggar who wander'd in search of his bread,  
 Have faded away like the grass that we tread.

The saint who enjoyed the communion of heaven,  
 The sinner who dared to remain unforgiven,  
 The wise and the foolish, the guilty and just,  
 Have quietly mingled their bones in the dust.

So the multitude goes, like the flower and the weed,  
 That wither away to let others succeed;  
 So the multitude comes, even those we behold,  
 To repeat every tale that hath often been told.

For we are the same things our fathers have been;  
 We see the same sights that our fathers have seen,  
 We drink the same stream, and we feel the same sun  
 And run the same course that our fathers have run.

The thoughts we are thinking our fathers would think;  
 From the death we are shrinking from, they, too, would shrink;  
 To the life we are clinging to, they, too, would cling,  
 But it speeds from the earth like a bird on the wing.

They loved, but their story we cannot unfold;  
 They scorn'd, but the heart of the haughty is cold;  
 They grieved, but no wail from their slumbers will come;  
 They joy'd, but the voice of their gladness is dumb.

They died—ay! they died; and we things that are now,  
 Who walk on the turf that lies over their brow,  
 Who make in their dwellings a transient abode,  
 Meet the changes they meet on their pilgrimage road.

Yea, hope and despondence, and pleasure and pain,  
 Are mingled together in sunshine and rain;  
 And the smile and the tear, the song and the dirge,  
 Still follow each other, like surge upon surge.

'Tis the twink of an eye, 'tis the draught of a breath,  
 From the blossom of health to the paleness of death,  
 From the gilded saloon to the bier and the shroud—  
 Oh, why should the spirit of mortal be proud?





